



This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

Usage guidelines

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

- + *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.
- + *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.
- + *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.
- + *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

About Google Book Search

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at <http://books.google.com/>







Strewn with

Disce Mori:

D Y S G A F A R W.

GAN

CHRISTOPHER SUTTON, D.D.

YNGHYD A

CHOFIANT O'I FYWYD.

WEDI EI GYFIEITHU I'R GYMRAEG

GAN Y

PARCH. MORRIS WILLIAMS, M.A.

PERIGLOR AMLWCH, MON.



LLUNDAIN:

Argraphwyd dros y

GYMDEITHAS ER TAENU GWYBODAETH GRISTIONOGOL;
AR WERTH YN EI LLYFRDY,
GREAT QUEEN STREET, LINCOLN'S INN FIELDS,
4, ROYAL EXCHANGE, A 16, HANOVER STREET, HANOVER SQUARE;
A CHAN BOB LLYFRWERTHWR.

[881]

1852.

141. d. 515.

LLUNDAIN:
ARGRAPHWYD GAN GILBERT A RIVINGTON,
ST. JOHN'S SQUARE.

COFIANT

CHRISTOPHER SUTTON, D.D.

Dywedir i Awdwr hyawdl, dysgedig, a duw-iol y Traethawd canlynol gael ei eni yn Sir Hants, yn neheudir Lloegr. Nid oes dim hyspysrwydd am ei achau na'i febyd, ond yn unig ddarfod ei gofrestro ar lyfrau Prif-Ysgol Rhydychen fel *mab i ddyn tlawd*, pan ddaeth yn aelod o'r Coleg yno. Ganwyd ef tu a'r flwyddyn 1565, yn yr wythfed flwyddyn i'r Frenhines Elizabeth, ac aeth yn aelod o Goleg Hart Hall, yn Rhydychen, yn ddwy ar bymtheg oed, yn y flwyddyn 1582. Mae amser ei aelodaeth yn y Coleg, a'i arhosiad yn y Brif-Ysgol, yn naturiol yn ein harwain i ymofyn pwy ydoedd ei addysgwyr a'i gymdeithion ; ond er mai ofer, ond odid, fyddai disgwyl am attebion boddlonol i'r cyfryw ymofyniadau, etto ni wiw i ni anghofio ei fod yn aelod o'r Coleg cyn i'r enwog Richard Hooker ymadael o'r fangre dawel, hyfryd, a dysgedig honno, i helbulon dreiniog y byd

trafferthus. Ond ni's gellir casglu gyd â sicrwydd oddi wrth hyn fod Sutton yn ddi-amheuol wedi cael y fantais o gyfeillach adeiladol neu bregethau godidog Hooker ; etto gan fod y ddau yn Rhydychen ar yr un pryd, nid annaturiol ydyw i ni hoffi tybied fod Hooker brofiadol wedi bod o les i Sutton ieuangc yno ; o leiaf, wrth i ni sylwi fod cymaint o debygolrwydd rhwng syniadau y ddau Gristion gloyw hyn ar bethau ys-prydol ac Eglwysig, gallwn fod yn lled sicr fod Sutton yn adnabyddus i Hooker ar ol hynny ; a dilys yw y bu ysgrifeniadau yr Athraw hwn yn Israel yn gyfarwyddyd ac yn addysg i Sutton mewn pethau dwyfol, fel ag y maent i'r Eglwys yn gyffredinol hyd hedd-yw. O Hart Hall aeth Sutton yn lled fuan yn aelod o Goleg Lincoln ; ac fel y cyfryw graddiwyd ef yn B.A. Hydref 12, 1586 ; yn M.A. Mehefin 18, 1589 ; yn B.D. Mai 25, 1598 ; ac yn D.D. Mehefin 30, 1608.

Pa hyd yr arhosodd yn Rhydychen yn ymbarottöi i gyflawni'n well ei swydd gys-segr-lan fel Gweinidog yr Efengyl, ni's gwyddom. Dywedwyd iddo gael ei urddo yn rhy fuan, ac iddo gael ei gyflëu mewn bywioliaeth Eglwysig cyn cyrraedd yr oedran cyfreithlon : ond wrth gydmaru cof-lyfrau â'u gilydd, ymddengys fod y cyfryw dyb yn ddisail.

Y Bersonoliaeth gyntaf a gafodd oedd

Personoliaeth Woodrising, yn Norfolk, yn y flwyddyn 1591 ; yr oedd efe'r pryd hynny yn chwech ar hugain oed. Ei brif gyfeillion a'i noddwyr parhâus oedd aelodau yr hen deulu bonheddig Southwell, yn enwedig y Syr Robert Southwell, yr hwn y mae efe yn son mor deimladwy am ei farwolaeth ddedwydd a thawel yn ei Ragymadrodd i'w lyfr "Disce Mori." Y Robert hwn oedd fab i Syr Thomas Southwell, a Mary, merch Syr Rhys Mansel, o Swydd Forganwg ; ac yr ydoedd yn un o brif swyddogion llynges y Frenhines Elizabeth, ac a ymladdodd fel y cyfryw yn y frwydr fawr yn erbyn yr Hispaeniaid, yn y flwyddyn 1588. Efe a briododd yr Arglwyddes Elizabeth, merch i Arglwydd Howard o Effingham, gwedi hynny Iarll Nottingham, a Phrif Lyngesydd Lloegr. Bu farw Syr Robert, Hydref 12, 1599, gan adael gwraig weddw a thair merch, a baban pum mis oed, o'r enw Thomas. Priododd y weddw wedi hynny Iarll Carrick.

I'r arglwyddes rinweddol hon, yn y flwyddyn gyntaf o'i gweddwdod, y cyflwynodd Sutton ei Draethawd "Disce Mori," pan gyhoeddwyd ef gyntaf yn y flwyddyn 1600, ac hefyd ei Draethawd "Disce Vivere ;" am ei fod yn cwbl gredu ei bod hi yn gwir an-rhydeddu ac yn gwir wasanaethu y Duw, yr Hwn y mae ei wasanaeth yn wir faint. A'r ddwy chwaer, yr Arglwyddes Verney a'r

Arglwyddes Rodney, ystafellyddesau rhinweddol a duwiol i'r Frenhines Elizabeth, i ba rai y cyflwynodd Dr. Sutton gwedi hynny ei "Ffyrdodau duwiol ar y Sancteiddiolaf Sacrament," oeddynt ddwy ferch ieuangaf ei gyfeillion a'i noddwyr Syr Robert a Lady Elizabeth Southwell; sef Catherine, yr hon a briododd Syr Greville Verney, o Swydd Warwick; a Fanny, yr hon a briododd Syr Edward Rodney, o Swydd Somerset.

Yr oedd *tair* chwaer o honynt, fel y soniasom; ac y mae'n werth sylw nad yw enw'r *hynaf* o honynt, sef Elizabeth, ddim yn y cyflwyniad uchod: bu priodas warthus rhyngddi hi a'r dyn drwg hwnnw, Syr Robert Dudley; ac yr oedd Dr. Sutton yn rhy dduwiol a Christianogol i gyssylltu ei henw hi âg enwau ei chwiorydd duwiol yn y cyflwyniad o'i lyfr, er mai hi oedd yr uchelaf o ran ei sefyllfa o'r tair. Yr oedd yn achos o boen a thristyd iddo ef weled yr aelod harddaf o deulu ag oedd efe yn ei barchu gymaint, ac mor ddiolchus iddo, wedi cael ei hanurddo fel hyn gan bechod. Felly yn ei gyflwyniad o'i "Ffyrdodau ar y Sacrament," yn y rhai y mae efe'n galw'n daer ar ei gyd-Gristionogion i "ymbarottîo yn ddefosiynol i dderbyn eu Hiachawdwr mewn gyflwr o ras, fel y derbynier hwy ganddo i gyflwr o ogoniant," ni fynnai grybwyl ond y ddwy chwaer dduwiol, y rhai a barhasent

yn addurn i'w proffes Efangylaidd. Ac er i'r chwaer arall, Elizabeth Southwell, gael ei gwneuthur gan Charles yr Ail, ar ol marw Syr Robert Dudley, yn Dduges o'r Deyrnas, etto yr oedd wedi anghofio ei dyledswydd a'i defosiwn tu ag at Dduw, "*heb yr hyn*," yngeiriau Dr. Sutton ei hun, "*nid yw pob urddas bydol yn werth dim.*"

Y mae'r Cyflwyniad ei hun i'r ddwy chwaer yn anrhyydedd i uniondeb ac yspryd diolchgar Dr. Sutton, yn dwyn tystiolaeth dda i deilyngdod teulu Southwell, ac yn gyflawn o syniadau duwiolfrydig. Rhoddwn i lawr yma yr ymadroddion cyntaf ynddo.

"Y mae gennych ddymuniad, Arglwyddesi rhinweddol, i wasanaethu Duw mewn sanct-eiddrwydd buchedd, a thueddfryd awyddus tu ag at hynny o'ch mebyd; a chaniattâed Duw i chwi fyned yn hen ac yn llawn o ddyddiau yn yr unrhyw yrfa o ddefosiwn; ac y mae y dymuniad a'r tuedd hyn o'r eiddoch wedi fy annog yn fynych i erfyn arno berfeithio'n gwbl oll y gwaith da ag y mae Efe wedi ei ddechreu ynoch. Oblgid yn ddilys ddjammeu y mae ein defosiwn a'n dyledswyddau tu ag at Dduw yn werth y byd i gyd yn grwn, a'i holl anrhyydedd a'i urddas; ie, *heb hyn nid yw pob urddas bydol yn werth dim.*"

Ym Mehefin 6, 1597, rhoddes ei noddwr, Syr Robert Southwell, Ficeriaeth Rainham,

yn Essex, i'r Dr. Sutton ; bu yno flwyddyn : yna, sef Awst 14, 1598, symmudodd i Bersonoliaeth Caston, yn Norfolk. Efe a ddaliodd y Bersonoliaeth hon hyd y flwyddyn 1618, pan olynwyd ef ynddi gan John Sutton, (ei frawd, mae'n debyg,) yr hwn a ddyrchafwyd gan y brenhin Iago i Bersonoliaeth Woodrising, yr hon a waghaodd Dr. Sutton yn y flwyddyn 1612, ar ei ymadawiad i Bromley Fawr, yn Essex. Efe a fwynhaodd hefyd Bersonoliaeth Cranworth cum Letton yn agos i chwe blynedd, yr hon a gyflwynwyd iddo Awst 4, 1623.

Yn fuan ar ol i Iago y Cyntaf esgyn gorsedd Prydain, efe a glywedd Dr. Sutton yn pregethu ; a bodhawyd ef yn fawr dros ben wrth ei glywed yn ymadroddi mor rhagorol ; ac efe a'i gwnaeth ef yn Brebendari Westminster Abbey : daliodd Dr. Sutton y Brebendariaeth hon hyd ddydd ei farwolaeth.

Er bod Dr. Sutton mor enwog yn ei oes fel pregethwr, etto nid oes yr un o'i bregethau yn argraphedig, Yn wir yr unig bregeth ag y mae crybwyl.liad am dani yw y bregeth a draddododd ar gladdedigaeth yr hynafiaethydd enwog Camden ; a'r dull y crybwyl.lir y bregeth hono a bâr i ni gasglu mai pregeth ddifyfyr ydoedd, heb ei chyfansoddi'n bwrpasol at yr achlysur. "Efe a esgynodd y pulpud," ebe'r ysgrifenydd, "ac a draddododd goffadwriaeth syml a gwirion-

eddol am fuchedd y trengedig.” Yr ysgrifennydd sy’n crybwyllyn hyn yw Anthony a Wood. Nyni a roddwn i lawr y paragraph i gyd yn gyflawn :—“O’r diwedd bu farw Camden yn ei dŷ yn Chiselhurst, yn Kent, ddydd Sul, Tachwedd 9, 1623 ; aethpwyd â’r corph i dŷ yn ninas Westminster, lle y byddai’n arferol o drigfannu. Gwedi gorwedd rai dyddiau mewn urddas yn y tŷ hwn, hebryngwyd ef y 19eg dydd o’r un mis i Eglwys Llanbedr, yn Westminster, a thyrfa liosog o arwydd-feirdd, boneddigion, gwyr Eglwysig, ac eraill, yn dilyn yr elor. Ar ol i bawb eistedd yn yr Eglwys, esgynodd Dr. Christopher Sutton, Prebendari o’r Eglwys honno, i’r pulpud, ac a draddododd yno araeth goffadwriaethol syml a gwirioneddol am fuchedd y trengedig. Dywedodd nad oedd Camden nac yn derfysglyd yn ei grefydd, nac ychwaith yn anwadal ; a’i fod wedi rhoi tystiolaeth dda o hyn yn ei ddiwedd, trwy ysgrifenu yn nechreu ei lythyr cymmun, ei fod yn marw, fel ag yr oedd wedi byw, yn ffydd a chymdeithas a chymmundebyl Eglwys Loegr.”

Er mai ychydig a phrinion yw’r defnyddiau hyn o hanes Dr. Sutton, etto mae’n debyg na’s gellir cael gafael weithian ar ychwaneg. Chwiliwyd, a chwiliwyd yn ofer, ynghoflyfrau Coleg Lincoln a Westminster Abbey, am ychwaneg o hanes am dano. Ni

wyddys dim am amgylchiadau ei fywyd, ei weinidogaeth, na'i farwolaeth, yn ychwaneg na'r hyn a grybwyllwyd eisoes ; oddi gerth fod ei Ewillys diweddaf yn rhoi ar ddeall i ni na's gadawodd ar ei ol na gwraig na phlant ; oddi wrth yr hyn y gallwn, mae'n debyg, gasglu na bu eriôed yn briod. Efe a ysgrifenodd yr Ewillys hwn ar Ddydd Gwener y Croglith, Ebrill 3, 1629 ; ac er ei fod wrth ei ysgrifenu yn dywedyd ei fod yn mwynhâu iechyd, etto tebygol yw na fu byw ond ychydig ar ol hynny ; canys ymhen tri mis profwyd yr ewillys yn y Llys Breiniol yng Nghaergaint.

Mae ewillys diweddaf Dr. Sutton yn cynnwys hyspsiad mor amlwg o'i ffydd ymhyngciau sylfaenol gwirionedd yr Efengyl, ac y mae'n arogli drwyddo oll gymaint o yspryd gwylder, duwioldeb, a chariad perffaith ; ac y mae'n rhoi y fath eglurdeb ymarferol ar yr egwyddorion a broffesasai, a'r cynghorion a roisai mewn rhai o'i ysgrifeniadau ddeng mlynedd ar hugain o'r blaen, fel ag yr ydym yn tybied na byddai yn annerbynio rhoi copi cyflawn o hono yma ger bron y darlenydd.

“ Yn y flwyddyn un mil chwe chant a naw ar hugain, ar y trydydd dydd o Ebrill, sef Dydd Gwener y Croglith. Fy Ewillys a'm Testament diweddaf i, Christopher

Sutton, Prebendari Eglwys Gadeiriol a Cholegol Llanbedr yn Ninas Westminster ; wedi ei ysgrifenu â'm llaw fy hun, yn y ffurf a'r dull canlynol.

“ Yn Enw Duw, Amen. Myfi Christopher Sutton, Doctor mewn Duwinyddiaeth, a Phrebendari Eglwys Gadeiriol a Cholegol Westminster, er yn annheilyngaf o'r titl a'r lle hwnnw ; yn awr (i Dduw y bo'r clod) yn dda o iechyd ac yn berffaith o gof, ydwyf yn gwneuthur fy Ewyllys a'm Testament diweddaf yn y ffurf a'r dull sydd yn canlyn : Yn gyntaf dim, yr wyf yn ostyngedig yn gorchymyn fy nghorph a'm henaid i ddwylaw y Fendigaid Drindod. Yr wyf yn gorchymyn fy enaid euog i ddwylaw Duw Dad, yr Hwn a'i creodd, i ddwylaw Duw Fab, fy Iachawdwr trugarog, yr Hwn a'i prynodd, ac i ddwylaw Duw Yspryd Glân, yr Hwn a'i sancteiddiodd ac a'i hysprydolodd mewn modd annhraethadwy â'i rasusau nefol, trwy fy llwyddo yn fy myfyrdodau a'm galwedigaeth, a thrwy fy nghadw i, ei annheilwng wasanaethydd, rhag y drygau annifeiriol y syrthiaswn yn fynych iddynt trwy lygredigaeth fy natur. Mewn perthynas i'm corph daearol, yr wyf yn gorchymyn iddo gael ei gladdu yn Gristionogaidd yn y fan lle y rhyngo bodd i Dduw fy ngalw o'r fuchedd farwol hon. Os yn Westminster y byddaf

farw, yr wyf yn taer ddymuned cael fy nghladdu o flaen drws y *festri*, lle y ceidw'r cantorion eu gwen-wisgoedd ; yr wyf yn rhoi i'r cantorion hynny y swm o bum punt. Ond os yn y wlad y rhyngta bodd i Dduw i mi farw, yr wyf yn dymuned bod i'r Gwasanaeth gael ei ddarllen ; ac os digwydd fod pregeth, yr wyf yn dymuned na ddywetton'r pregethwr ond ychydig o glod i mi ; ac yr wyf yn rhoddi i'r pregethwr ugain swllt. Hefyd, yr wyf yn rhoi i blwyf Raynham, yn Essex, lle y bum unwaith yn Ficar, y swm o chwe phunt tu ag at adeiladu person-dy yno. Hefyd, yr wyf yn rhoi i blwyf Caston, lle y bum unwaith yn Beriglor, drigle bychan i ryw un tlawd i breswylio ynddo, y cyfryw ag a welo'r Periglor a'r Wardeiniaid yn rheitiaf. Hefyd, yr wyf yn rhoi i dldodion plwyf Woodrising, lle y bûm unwaith yn Beriglor, ddeg swllt a deugain. Hefyd, yr wyf yn rhoddi i dldodion plwyf Bromley Fawr, yn Essex, lle'r wyf yn awr yn Beriglor, ddeg swllt a deugain. Hefyd, yr wyf yn rhoi i dldodion plwyf Cranworth, lle'r wyf yn awr yn Beriglor, ddeg swllt a deugain. Yr wyf yn dymuned ar fod i'r holl gymmun-roddion hyn gael eu talu o fewn yspaid blwyddyn ar ol fy marw. Hefyd, fy ewyllys yw, bod i'm holl lyfrau gael eu cadw i blant fy mrawd John Sutton, i'w cael cyd-rhyngddynt, os rhyngta bodd i Dduw fod o honynt yn ysgol-

heigion. Hefyd, yr wyf yn rhoi i fab hynaf John Sutton, ar ol marw ei dad, y tir sy gennyf yn fy meddiant wedi dyfod oddi wrth Reynold Maroin, o Bentley Fawr, yn Essex. Hefyd, yr wyf yn rhoi i Elizabeth Sutton, merch fy mrawd, dyddyn bychan yn Bromley Fawr, yn Essex ; ac i Thomas Sutton, y tyddyn a gymmerwyd yn ei enw yn Bentley Fechan ; y ddau dyddyn hyn i Elizabeth a Thomas Sutton, ar ol marw eu tad. Hefyd, yr wyf yn rhoi i Christopher Sutton a Peter Sutton, ugain punt bob un, i gael eu talu pan fyddont yn un ar hugain oed. Hefyd, yr wyf yn rhoi modrwy aur i'm chwaer Stempe, ac un arall i'm chwaer Poalwheeble. Hefyd, yr wyf yn rhoi i'm hen was William Garname, ugain punt ; ac i'm morwyn bresennol, Frances Woodson, ddeg punt. Hefyd, yr wyf yn rhannu rhwng plant fy nghyfaill Mr. Ireland, y swm o ddeg punt. Y rhelyw o'm heiddo, fy nhir a'm harian, yr wyf yn eu rhoddi oll i'm brawd John Sutton, yr hwn yr wyf yn ei wneuthur yn unig secutor fy Ewyllys a'm Testament diweddaf hwn, ac yn ei rwymo i dalu fy holl ddyledion, ac i ofalu fod i'r cymmun-roddion hyn gael eu talu o fewn ystod un flwyddyn ar ol fy marwolaeth. Yn ddiweddaf oll, yr wyf yn appwyntio Mr. Ireland o Westminster, a Mr. William Sarvaham, gwas i'r brenhin, i fod yn arolygwyr ar fy Ewyllys a'm Testa-

ment diweddaf hwn, a wnaed y dydd a'r
flwyddyn uchod gennyf fi
"CHRISTOPHER SUTTON."

Profwyd yr ewyllys uchod gan ei frawd
John Sutton, Gorphenaf 27, 1629.

Pan anwyd Christopher Sutton, yr oedd dy-chrynfeydd erledigaethau y Frenhines Mary ar gof gan lawer; a bu fyw hyd y bummed flwyddyn i Charles y Cyntaf, pan oedd awyrgylch yr Eglwys yn duo eilwaith gan argoelion fod ystorm arall i guro arni yn fuan; ac arfaethodd Rhagluniaeth fod i'r ystorm hon ysgubo ymaith, dros amser, ein sefydliadau gwladol a chrefyddol mwyaf cyssegredig, mewn un cenllif anrheithiol. Ond er fod Dr. Sutton fel hyn yn digwydd byw mewn oes ag oedd yn y cyfwng rhwng erledigaethau Pabaidd ac erledigaethau Puritanaidd, a chael diangc felly heb ddioddef y naill na'r llall; etto yr oedd yntau yn byw mewn oes ag oedd yn gofyn mesur mawr o zel benderfynol, a'r zel honno wedi ei thymheru âg addfwynder a chariad perffaith.

Yr oedd cyflwr helbulus yr Eglwys, am yr hyn y mae efe yn son mor deimladwy yn ei Ragymadrodd i'w lyfr "Disce Mori," yn galw am gyflawn alluoedd ac egni ei phlant doethaf a ffyddlonaf, llên a lleyg, i droi heibio, pe ond am ennyd fechan, yr anffodau arswydus a ymdywllasant arni cyn hir yn

eu cynddaredd ffyrniccaf. Y mae Sutton yn y Rhagymadrodd hwnnw yn cwyno fod yn ei ddyddiau ef ddynion o "dueddiadau terfysglyd," yn "hoff o'u mympwyon personol eu hunain," yn chwilio am esgusion dros chwyldroadau gwladol ac Eglwysig," yn "watwarwyr," yn "anffurfio eu hwynebau mewn rhith sancteiddrwydd," yn "diystyru tystiolaeth yr henafaid," yn "gwyrdro'i'r Ysgrythyr," yn "hoffi gwarthruddo achos Crist," yn "anghofio doniau Duw," yn "dwyn enw o Gristionogion, ac er hynny yn byw fel anffyddwyr a phaganiad, ac yn dywedyd yn eu calonnau, *Nid oes un Duw.*" Ac y mae Isaac Walton, yr hwn a ysgrifennodd fywyd Hooker, yn cynnwys darluniad o gyflwr trallodus yr Eglwys yn amser gorfodaeth y Puritaniaid, ag sydd yn esponiad gwirioneddol ac arswydus ar yr ymadroddion a grybwylasom allan o Ragymadrodd Sutton. "Yr oedd y Pabyddion ar y naill law," ebe Isaac Walton, "a'r Anghydffurfwyr ar y llaw arall, yn holol ddiofn a diorphwys yn eu hymdrechiadau maleisus yn erbyn yr Eglwys a'r wladwriaeth: yr oedd llawer yn eu mysg yn llawn o ddrygau ysprydol, anes-mwythdra aflonydd, balchder, malais, a hoffder tu ag at weithredu pob math o derfysg; dynion wedi eu dallu gan zel a rhagfarn ffyrnig, holol elynol i reswm a thangnefedd; dynion y rhai yr oedd hunanoldeb yn eu

dwyn i roi gormod o bwys ar eu doethineb eu hunain, dynion ymrysongar, a chynhenllyd, yn hoffi dadleu yn erbyn gwŷr y dylasant eu parchu, a gwrthryfela yn erbyn cyfreithiau ag y dylasant uffuddhâu iddynt. Ac heblaw y dynion rhith-grefyddol hyn, yr oedd tô o ddynion ysgeler ac annuwiol wedi codi i fynu, wedi mynuch wrthwynebu ysgogiadau bendigaid yr Yspryd Glân, a goleuni eu cydwybodau, ac felly wedi eu caledu eu hunain i gredu yr hyn yr oeddynt yn awyddus i'w gredu, ac etto ni's gallent ei gredu, sef, nad oes un Duw : ac felly, heb gael ynddynt eu hunain ddim ond yr hyn oedd waeth na dim, dechreuanant ddymuno am yr hyn ni's gallent obeithio ei gael, sef bod fel yr anifeiliaid a ddifethir ; ac mewn cwmpeini drygionus, yr hwn yw cyssegr yr Atheist, yr oeddynt yn meiddio dywedyd felly yn gyhoeddus."

Ynghanol yr ofnau a'r peryglon hyn y bu Christopher Sutton fyw ; ac i alw ei gyd-wladwŷr, hyd y gallai efe, oddi wrth y gŵyrdrofeydd hyn, ac i godi eu meddyliau at bethau goruchel a nefol, y pregethodd ac yr ysgrifenodd.

Wrth weled mor anhawdd cael hen gopi o'i waith ef yn y dyddiau hyn, gallem gasglu mai ychydig nifer o honynt a oddefai helynt yr amseroedd i gael eu hargraphu. Ond yn y gwrthwyneb, dywed Anthony a Wood fod ei ddau lyfr, "Disce Mori" a "Disce Vi-

vere," wedi cael eu hail-argraphu lawer gwaith yn ystod bywyd yr Awdwr, a bod y trydydd argraphiad ar ddeg o'i "Ffyfyrddodau duwiol ar y Sancteiddiolaf Sacrament" wedi cael ei gyhoeddi yn y flwyddyn 1677.

Afreidiol yw crybwyl fod yn dra phriodol i helynt yr amser presennol ail-gyhoeddi y cyfryw ysgrifiadau rhagorol a gwaith Dr. Sutton, gan fod hyn yn hollol amlwg i bwy bynnag a edrycho â chip-olwg ar ansawdd yr oes. Byddai'n anhawdd nodi un oes o amser Dr. Sutton hyd heddyw, y byddai'n fwy amserol a phriodol lledaenu y cyfryw feddyl-ddrychau duwiolfryd nag ydyw yn yr amser hwn. Dilys yw fod cyfnewidiadau mawrion wedi cymmeryd lle yn ein gwlad ein hunain ac mewn gwledydd tramor, er pan gyfodwyd Christopher Sutton ac eraill o gyffelyb feddwl o ran eu duwioldeb dianwadal i wneuthur lles a daioni yn eu hoes. Ond yr un yw'r Eglwys heddyw a'r pryd hynny; ac y mae fyf yn cael ei hamgylchynu â pheryglon. Mae Anffyddiaeth yn helaeth yn ein gwlad, ac yn debyg o gynyddu fwyfwy; mae cariad llawer ag a ddy-lasent fod yn zelog yn achos gwir grefydd, wedi oeri; tra mae pen-boethni crefyddol wedi cam-arwain eraill i'r eithafion o'r ochr arall. Yr un hefyd yw'r natur ddynol yn awr a chynt; ac y mae arnom ni eisiau yr un goleuni ag oedd gan ein henafiaid i

xviii COFIANT CHRISTOPHER SUTTON, D.D.

feddwyl yn ddifrifol am Fywyd a Marwolaeth,
—i ddysgu byw ac i ddysgu marw.

Dan obeithio y bydd i lafur un ag a fu'n fab ffyddlon a pharchus i'r Eglwys yn ei oes, fod, dan fendith Duw, yn foddion i faethu duwioldeb ynom, a rhoi syniadau addas i ni wrth fyw, a gobaith da wrth farw, y mae'r Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth Gristionogol wedi cyhoeddi'r llyfr hwn, yn agos i ddau gant a hanner o flynyddoedd ar ol i'r Awdwr ei gyhoeddi y tro cyntaf.

J. ENDELL TYLER.

Y GYMDEITHAS ER TAENU GWYBODAETH GRISTIONOGOL,
Mawrth 30, 1839.

Disce Mori.

Dysga Farw.

Traethawd crefyddol, i gyffroi pob Cristion o ddyn i ddwys ystyried ei ddiwedd.

Yn yr hwn hefyd y cynhwysir y dull a'r modd i ymroddi i Dduw, cyn ac wrth ymadael a'r byd.

*On hyn oll gellir,
ysgafnodd, ganfod rhyw beth angenrhedol i
feiddiol am dano,
wrth fyw ac wrth farw, er ystyrfaeth
i ni ein hunain ac i eraill.*


Trefna dy dŷ ; canys marw fyddi, ac ni byddi byw.

Essay 38. 1.

LLUNDAIN


Argraphedig gan Iohn Wolfe.

1600.



HYSPYSIAD.

Yn yr Argraphiad hwn, dilynwyd yn fanwl gopi o “Disce Mori” y Dr. Sutton, fel yr argraphesid ef ar y cyntaf mewn “llythyren ddu,” yn y flwyddyn 1600. Ar ol hynny gwnaed cynnifer o ychwanegiadau gan hwn a’r llall at y llyfr, o natur amhēus ac annymunol, fel y tybiwyd mai gwell, ar y cyfan, fyddai cadw yn fanwl yn yr argraphiad presennol at y dull y cyflwynwyd y Traethawd gan yr Awdwr ei hun i’r Arglwyddes Elizabeth Southwell, yr hon oedd y pryd hynny yn un o arglwyddesau tylwyth y Frenhines Elizabeth.



LLYTHYR CYFLWYNIADOL.

*At yr Anrhydeddus a'r rinweddol Arglwyddes, yr
Arglwyddes Elizabeth Southwell, un o Arglwydd-
esau anrhydeddusaf Gyfrin-Gynghor Maiorhydi
y Frenhines.*

WEDI ystyried o honof yn ddiweddar yn fwy na chyffredin, dra-rhinweddol Arglwyddes, y cynnygiadau diras a'r ymdrechiadau ffyrnig a wna llawer yn y dyddiau hyn, (ysywaeth!) trwy ymollwng yn anwrol i gynhyrfiadau drygionus, hyd yn nod yn eu herbyn eu hunain, ie, eu diogelwch personol, mi a fwriedais gyflawni fy nyledswydd tu ag at yr Hollalluog Dduw, a dangos fy meddwl yn eglur i ddynion, trwy osod i lawr ychydig o fyfyrdodau byrion, er mwyn y rhai sydd mewn anfoddlonrwydd a phetrusder meddwl. Ond ar ol dwys ystyried ynof fy hun gym-

maint y mae'n perthyn i bob dyn ofalu am ei ddiwedd, (ar yr hyn yr ymddibynna cymaint ag a dâl ei iachawdwriaeth dragwyddol,) myfi a ddechreuaus drefnu'r myfyr-dodau hynny a berthynent i rai, yn Draethawd mwy cyffredinol, cymmwys i bawb; a phob dyn, yn y dull hwn,—*Disce Mori, DYSGA FARW:* canys ymddangosai i mi yn rheitiaf peth o bob dim, fod i bob Cristion sobr gael ei gynhyrfu i gofio'n ddifrifol am ei ddiwedd; ac i wybod y moddion a'r dull o ymroddi i Dduw, cyn ymadael â'r byd, ac ar amser ei ymadawiad; fel y gallo, trwy gymmorth daionus ras Duw, fyw bywyd a marw "mar-wolaeth yr uniawn;" ac y galler dywedyd am dano yr hyn a ddywedodd St. Ambros gynt am Abraham, "Abraham a fu farw mewn oedran da." Pa ham? Cadwodd Abraham yn barhâus at ei benderfyniadau da yn ei hen ddyddiau, ie, hyd y diwedd. Fy Arglwyddes, attolygaf ar i Dduw Abraham ganiattâu i chwi yrfa ddaionus a pharhaol Abraham, ar y ffordd, ac yn nherfyn y ffordd. Mae eich ffafrafn anghyffredin i mi, a'ch hir gymmeradwyaeth o honof, wedi fy ngwneuthur yn rhwymedig i chwi; ac yr wyf, heblaw hynny, yn eich gwir-barchu, am fod yn ddilys gennyf eich bod chwithau yn gwir-barchu Duw, ac yn ei wasanaethu Ef, gwasanaeth yr Hwn sy berffaith ryddid, ie, (fel y caf ddangos yn y Traethawd canlynol,) ei wasanaeth Ef

yw y pennaf o bob urddas. Ac y mae'r achlysur bychan hwn yn ymgynnyg i mi i ddangos gymmaint yw fy nyledus barch tu ag attoch. Pe buaswn yn gwbl ddieithr i chwi, ni's gallaswn, er mwyn amddiffyn, geisio gwell noddes i Draethawd crefyddol nag un o'ch tuedd crefyddol chwi ; ond mae y parch a ddangosasoch tu ag attaf mewn llawer ffordd, yn gyfryw, fel na's gallaf ond byw a marw mewn dyled o ddiolchgarwch i chwi. Gallaswn ddymuno tystio fy mwriad ewyllysgar trwy ryw foddion arall yn hytrach na thrwy gyhoeddi y llafur bychan hwn i'r byd dan enw eich Arglwyddes ; canys rhaid i mi addef fy mod yn bur hwyrfrydig, (o ran fy ngwendid fy hun,) i hyspysu i eraill yr hyn sy fwyaf hyspys i mi fy hun ; hyd nes o'r diwedd, ar daer ddeisyfiad cyfeillion i mi yn athrofa Rhydychen, cyngor sobr a phwyllus a dysgedig y rhai ni's gwyddwn pa fodd i'w wrthwynebu, y cymmerais fy mherswadio i adael i'r Traethawd hwn fyned allan yn enw Duw. Yn hwn nid wyf yn ceisio clod lle na's haeddir ; ond yn unig yr wyf yn dy-muno ar y darllenyydd Cristionogol, lle bo dim yn wallus, briodoli hynny i mi : a dy-munaf ar eich Arglwyddes, od oes ynddo ddim ag a allo gynhyrfu cymaint ag un meddwl daionus, deilyngu o honoch roi'r mawl i Dduw yn unig, i nefol nodded yr Hwn yr wyf fyth yn eich cyflwyno yn fy

ngweddiau. Ac yn awr nid attaliaf chwi yn hwy ar hyn o bryd oddi wrth y Traethawd ag sy'n canlyn.

Yr eiddoch,
Fy Arglwyddes,
Gyd â gostyngedig barch,
CHRISTOPHER SUTTON.

RHAGYMA DRODD

AT Y

DARLLEN Y DD DU WIOL.

MAE'N fatter rhy amlwg i'w wadu, fod crefydd rywfaint oddi ar ei hechel, pan na bo buchedd Gristionogol yn cyd-gerdded (fel y dylai) â phroffes Gristionogol: a chyfryw ac mor amlwg yw'r bai hwn, nes y mae'n anafu'r holl gorff i raddau nid bychan.

Mae y rhai sydd o galon yn dymuno iach-awdwriaeth Israel, a gwir gariad y rhai sy'n arfer gweddio Duw er mwyn daioni pawb, nid yn unig yn dyrchafu dwylaw sanctaidd i'r nef, ond hefyd yn ymdrechu chwilio, (hyd y mae ynddynt, ac hyd y mae'r amserau yn goddef) am y feddyginaeth oreu ag a allant yn yr achos hwn, a hynny trwy lafur caled: rhai trwy atteb yn gadarn, a thrwy dawelu'n sobr, nwydau aflonydd y dynion hynny, mympwyon y rhai sydd wedi dirfawr luddias uwch ymgeisiadau mewn matterion o ffydd: gellir eu hatteb a'u gwrthbrofi, ac yr ydys yn

gwneuthur hynny ; ond ymdawelu ac ym-lonyddu ni fynnant. Eraill, trwy annog-aethau defosiynol a dysgedig, ydynt yn ceisio attal y drygau ag y mae Atheistiaeth a diffyg ofn Duw yn debyg o'u dwyn ar y byd gwrth-giliedig hwn. Y naill a'r llall yn llafurio yn eu hoes i gadw rhyw goffa am Iesu Grist ym meddyliau dynion, cyn i bob peth ddyrysu yn rhy bell, a dyfod i ddinystr anfeddygini-aethol.

Ond ai ni's gallwn ofyn i'r rhai sy mor fanol i nodi ein hammherfeithderau oddi allan, arfer y rhai yw tynnu cymaint yn y bwa hwn, a chymmeryd achlysur oddi wrth y gwall yma i ammeu, ie, ac i warthrudo ein hachos Cristionogol,—onid oes neb gartref wedi syrthio oddi wrth hen ddiffuantrwydd a defosiwn diniweid oesoedd cyntaf a gwell yr Eglwys ? Dylid dwyn ar gof i'r gwarthruddwyr anghariadlon hyn, y rhai a fynnent gau allan o deulu'r ffydd a gobaith bywyd, y rhai sy ganddynt eneidiau truain i'w cadw cystal a hwythau, a chystal cariad a hwythau at Grist croeshoeliedig, y gallwn oll gymmeryd ein rhan yn y gân honno, o drugaredd, "Glanhâ ni, O Arglwydd." Oni ddylem, y naill blaid fel y llall, ystyried ai nid y rhai hyn yw'r dyddiau y sonia ein Ceidwad Crist "yr amlhâ anwiredd" ynddynt¹ ? A wiriwyd

¹ Mat. xxiv. 12.

cŵyn Hilari yn well eriôed o'r blaen? "Tra bo cynnen mewn geiriau, tra bo dadl mewn pethau newyddion, tra bo achlysur mewn pethau amhêus, tra bo gwrthnysigrwydd mewn cydsyniad, nid oes neb yn eiddo Crist," eb efe².

Mae'r gwaith hwn o gyfarth a brathu'r naill y llall, yr erlyniad awchus hwn yn erbyn y byw, a thrallodi hyd yn nod ludw'r meirwon, (y rhai ni's gallant atteb drostynt eu hunain,) yn beth pell oddi wrth y cariad "sy'n gobeithio pob dim," ac oddi wrth gyngor yr Yspryd ag sy'n erchi i ni "weddio dros ein gilydd." Wrth weled pa ddysg a gwybodaeth sy'n arferyd chwilio tystiolaethau llyfrau'r henafiaid yn ol ac ym mlaen, ie, a gwyrdrôi'r Ysgrythyr Lân ei hun ar ddirdyn-glwyd ein mympwy ein hunain, yr ydwyf yn synnu cymaint, wrth ddarllen yn bwyllog ddadleuon y dyddiau presennol, nes gor fod meddwl mai gorchestion ymryson ydynt yn hytrach na llafurwaith diragrith i osod allan ogoniant Duw, a llesiant ei Eglwys.

Yn awr Duw o'i rad a ganiattao fod i'r byd croes a checcrus hwn dynnu am unwaith at gyd-gordiad Cristionogol, fel y bo i ni lai o ymladd ac ysgrifenu dros grefydd, a mwy

² Dum in verbis pugna est, dum in novitatibus quæstio est, dum in ambiguis occasio est, dum in consensu difficultas est, jam nemo Christi est.—*Hilarius ad Constant.*

o ymgais ar bob llaw i fod, fel y dylem, yn fwy crefyddol; modd y bo i arch fechan Eglwys Crist yn awr, yn nhawel fin yr hwyr, gyd â lleddf awelon dynnu tu ag adref, a chan gofleidio Crist gyd â'r hen Simeon, ymbarottî i ymadael "mewn tangnedefedd."

Cyngor y gwr doeth i bawb yw, "Cofia dy ddiwedd, a gad ymaith gasineb." A chymaint a hyn yr ydym yn ei erfyn ar law y rhai y mae ein hachos, yn eu barn galettaf hwy, mor wael ac eiddil, ar fod iddynt roi ymaith bob ystyriaeth neillduol, ac ystyried o'r diwedd, amddiffyniad gralusol pwy sydd wedi noddi cyhyd ei achos Ef a'r eiddom ninnau, llygaid caruaidd a gwyliadwrus yr Hwn sydd wedi ei chadw hi³, yr hon yw ffon ein hedd-wch; a chaniattâed Duw iddi fod yn hir felly: gan alw i gof ddywedyd o'n Ceidwad, "Er nad ydych yn credu i mi, credwch y gweithredoedd⁴."

Canys y dynion prysur hyn yn ein plith, a fynent gael llywodraethu cyn dysgu uffuddhâu; ac wrth fyned y tro cyntaf ar fwrdd y llong, rhaid iddynt gael eistedd wrth y llyw i hwyllo'r cwbl, pa mor ddibrofiad ac anghelfydd bynnag ydynt. Ond y mae profiad y byd, a distryw'r Eglwys Ddwyreiniol, wedi dysgu i ni er's talm mor enbyd yw

³ Sef y Frenhines Elizabeth.—Gol.

⁴ Ioan x. 38.

hwylio mewn llong y byddo ei llywyddion yn dueddol i ymrafaelio ym mhlith eu gilydd: mae dyfeisiadau newyddion y dynion hyn hefyd mewn matterion o fympwy yn ymddangos er's hir a hwyr iddynt hwy yn amgen na holl ddoethineb y byd. Ond gadawer i ni grefu arnynt o'r diwedd ystyried eu ffolineb eu hunain yn gwneuthur galw a chyfrif eraill yn annuwiol, yn nod o berfffeithrwydd duwioldeb, fel yr arferant hwy, gan wneuthur gwatwar noethni Noah yn ddifyrrwch i'w surni crefyddol eu hunain! O na wrandawai'r dynion anhywaith hyn ar gyngor pwysig St. Chrysostom: "Os yw gymaint dy ddymuniad am fod yn farnwr," eb efe, "mi a ddangosaf i ti y frawdle ag a fydd o fantais i ti, a hynny heb gyffwrdd â'th gydwybod:— eisteddedd dy feddwl i lawr i roi dedryd, galw dy holl gamweddau ger bron, a dechreu ddywedyd wrthyt dy hun, Pa ham y gwnaethost hyn neu hynny⁵."

Y cyfryw hunan-ymholiad a hyn a wnae i'r rhai a fynnent fod yn llywiadwyr cyhoedd pawb eraill, trwy goeg esgusion o ddiwygiad, yn fuan edrych yn nes adref, a diwygio ynddynt eu hunain yr hyn sy mor feius. Beiai St. Paul y rhai a arferent "roddio o amgylch o dŷ i dŷ⁶." Esau, wrth hela oddi cartref, a gollodd y fendith: ond Jacob, wrth aros

⁵ Chrysostom in Hom. Mat. xlivi.

⁶ 1 Tim. v. 13.

gartref, a gafodd y fendith a'r etifeddiaeth hefyd'. "Y doeth," ebe Solomon, "yw'r cyhuddwr cyntaf arno ei hun." A llefarodd Judah'n iselfryd am yr hon a droseddasai: "Cyfawnach," eb efe, "yw hi na myfi⁷." Gwybydded y dynion hyn fod ufuidd-dod yn well nag aberth; a bod yr Hwn sy'n arfer "rhoi gras i'r gostyngedig," ar yr un pryd "yn gwrthwynebu'r beilchion." Gwybyddant yn sicr y bydd i'r wlanen deneu hon fyned i mewn yn andwyol pan wlycher hi. Ceir y ffug-arian hyn yn alcarn pan brofer hwynt yn y tân.

Haws yw i ddyfeiswyr geryddu eraill na'u diwygio eu hunain. Y rhai y mae eu llygaid yn ammherffaith, a dybiant fod yr wybr bob amser yn niwliog. Nid oes dim mynchyach gyd â dynion cythryblus, y rhai nid adwaen-ant ffordd tangnafedd, na bod bob amser yn anfoddlon ac ymrysongar, pa achos bynnag a fo i ddiolch i Dduw. "Myfi a'ch bendithiais chwi," ebe'r Arglwydd trwy'r prophwyd Malaichi: ond attebodd y bobl anniolchgar ef, "Ym mha beth y bendithiaist ni?" Os na bydd pob peth wrth fod rhai dynion, mae pob peth allan o'i le; dim bendith Duw yn cael ei chydnabod, dim diolchgarwch yn cael ei gofio. Ond i adael heibio y rhai hyn, gyd â'u trefniadau plentynnaidd, — dynion yw

⁷ Gen. xxvii. 30.

⁸ Gen. xxxviii. 26.

dynion, a'r gwir yw'r gwir : ychydig, os iawn ystyriwn, sy gennym o achos i gwyno ; gallwn ofni'r hyn sydd waeth, ond nid ydym yn gobeithio gwell ; gall ein heisiau, yn hytrach na'n mwynhâd, beri i'r oes a ddêl gydnabod ein daioni presennol ; ac yna gall y crefyddol a'r uniawn o galon ddywedyd yn ddefosiynol, " Cadarnhâ, O Dduw, yr hyn a wnaethost ynom ni, er mwyn dy deml yn Jerusalem ⁹."

Mae trydydd math o bobl, y rhai wrth weled y byd wedi ymrannu yn gynnifer o rannau, nid ydynt mewn effaith yn gofalu yngylch yr un o honynt. Am y math hwn ni's gallai'r Apostol son ond dan wylo. Ac yn wir, beth sy fwy galarus na bod dynion, a elwir yn Gristionogion, yn byw fel paganiaid ac anffyddlonion, gan ddywedyd yn eu calonnau, fel yr ynfyd yn y Psalm, " Nid oes un Duw." Ac onid yw gair arall yr un Psalmydd yn wirionedd am foesau'r dynion hyn ? " Dyn mewn anrhydedd nid erys : tebyg yw i anifeiliaid a ddifethir ¹ ." " Yr wyf yn tybied," ebe St. Bernard, " pe gallai'r anifeiliaid siarad, y galwent bobl annuwiol yn anifeiliaid. Y perygl yn fawr, a'r enbydrwydd gerllaw ; ond dim ofn Duw, dim cofio am y cyflwr presennol, na'r cyflwr i ddyfod : wrth gydmaru dynion fel y maent, i'r hyn y dylent fod, mae'n rhaid yn awr, os bu'n rhaid eriôed,

⁹ Ps. lxviii. 28, 29.

¹ Ps. xlix. 12.

alw'r byd hwn i gofio am dano ei hun²." "Os ydwyf fi Dad," ebe Duw, "pa le y mae fy anrhyydedd? os ydwyf fi feistr, pa le y mae fy ofn³? Od oes nefoedd, pa le y mae ein gofal am fucheddu fel y caffom ei mwynhâu? Od oes dim a wna les i'r dynion hyn, dylai coffa am eu marwoldeb, ac ymroddiad i ddysgu marw, atteb rhyw ddiben.

Parodd yr ysgrifen ar y pared unwaith yn erbyn Belsassar, i'w galon grynu, ac i'w liniau guro ynghyd: "Mene, Mene, Tecel, Peres⁴." Y gair *Mene*, rhifodd Duw dy ddyddiau: *Tecel*, pwyswyd di yn y clorianau. Oni chymmer dynion rybudd mewn pryd, gall fod hyn yn ysgrifenedig am bob un ag y mae ei ddyddiau yn cael eu rhifo; a gallwn ofni rhag i'r llaw ysgrifenu *Peres* hefyd, yr hyn a ddylai beri i bawb ystyried beth ydynt, a pheth a fyddant.

Wrth weled eraill yn marw, gallwn ystyried y byddwn ninnau farw'n fuan, ac y bydd ein coelbren ninnau yn angau fel yr eiddynt hwythau. Yn y cyfamser, od yw angau yn elyn, fel y dywed yr Apostol ei fod, gwyliwn ef ynte megis gelyn, rhag-flaenwn ef megis gelyn, fel y byddom felly yn abl i ddal ei ymosodiadau, pan fo rhaid yn gofyn, ac y llawenychom, yn lle ofni, ar awr ein hymddattodiad.

² Bernard in Cant.

³ Mal. i. 6.

⁴ Dan. v. 25.

Gan hynny, caiff y Traethawd hwn yn nghylch DYSGU MARW osod ger dy fron, fy narlenydd Cristionogol, yn gyntaf dim, reited yw i bob dyn gofio'n ddwys am ei ddiwedd; ynghyd â'r amryw resymmau a ddylent ei annog i gofio'r unrhyw. Ym mhliith y rhesymmau hyn, dylai myfyrdod ar ei gyflwr, a'r amryw drallodion a ddigwyddant i'r fuchedd hon, yn neillduol ei gynhyrfu i hyn yma. Fel y mae cerydd yn peri i'r plentyn yn yr ysgol ymrôi at ei wers yn fwy llafurus, felly y dylai mynch geryddon y bywyd hwn beri i ninnau fod yn fwy diwyd yn y ddysgeidiaeth hon. Crybwyllir hefyd y moddion a'n galwant oddi wrth y cyfryw lafur daionus, a hyspysir hefyd y dull y gallom ochelyd y cyfryw foddion.

I gymmeryd mewn llaw fatter o gymaint pwys, cymmerais, ryw dro yn ol, achlysur oddi wrth ymwelliad esmwyth a marwolaeth dduwiolaf yr anrhydeddusaf Farchog, Syr Robert Southwell; ei wasanaeth cymmeradwy yn y wladwriaeth hon, a'i barch yn y wlad, sy hyspys ddigon i laweroedd: ond gwirionedd ffyddlon ei galon tu ag at Dduw, yn ei fywyd ac yn ei angau, gallaf fi fy hun draethu o flaen eraill. Od oes parch yn ddyledus oddi wrthym i'r ffyddoniaid ymadawedig, a choffadwriaeth dda i fod am eu dedwydd eneidiau, yna ni's gallwn ommedd gwneuthur crybwylliad anrhydeddus am dano

ef, yr hwn yr wyf yn hyderu bod ei gyfran gyd â Duw.

Gwel, ddarllenyydd ; yr hyn a allai fy meddwl galarus ei ystyried yn awr ac yn y man, a sylwi arno'n ddirgel, yn ystod ei ym-weliad a'i selni, gwelais yn oreu wneuthur y tippyn llafur hwnnw yn gyhoeddus, ar ddull Traethawd priodol i'r amser. Oblegid er bod ystyriaeth o'n hymadawiad o'r byd yn destun addas i bob oes ac amser ; eto gan fod ein coelbren yn y dyddiau y mae llawer yn byw ynddynt fel pe na byddent byth i farw, ac yn marw fel pe bai pob dim yn dar-fod gyd â marwolaeth, a'u bod, wrth farw, mor bell oddi wrth droi at Dduw a phe na buasent eriòed o'r blaen wedi meddwl yn ystyriol am hynny, angenrheidiol iawn yw y lliaws o draethodau sydd â'u hamcan at ddiwygiad buchedd.

Ond gan mai ar ein hymdreich olaf yr ym-dibynna ein buddugoliaeth dragwyddol yn erbyn gelyn proffesedig ein heneidiau, ein hymddygiad iawn yn yr ymgyrch hwn sy raid ei fod o bob peth yn fwyaf angenrheidiol. Celfyddyd fawr yn ddiammeu yw hwylion'r llong ar hyd y moroedd ; ond gochel y creigiau enbyd, a thaflu angor i le diogel, wrth fyned i mewn i'r porthladd, yw'r gelfyddyd fwyaf oll. Rhedeg yr yrfa mewn trefn dda yw rhan y campwr medrus ; ond rhedeg i ben yr yrfa, a chael gafael ar y goron, yw

perffeithrwydd ei holl lafur. Beth sy fwy Cristianus na buchedd dda? ond wrth orphen y fuchedd, beth sy fwy dwyfol na marw yn y ffydd ac yn ofn Duw? Beth sy fwy angenrheidiol, gyd â golwg arnom ein hunain, na therfynu'r einioes a ffarwelio â'r byd mewn iawn drefn? Ond ar yr achlysuron hyn, beth sy fwy cariadus o ran cymmundeby saint a'r llawenydd a dderbyniwn yn naioni pawb, na bod o gymmorth i eraill hefyd?

Cyhuddir ni oadael i ddynion fyw yn afreolus, ac i ymadael â'r byd yn anghristionogol; oadael iddynt fyw a marw heb drefn. Ond yr hyn a wna dynion, sydd un peth; a'r hyn a ddymunem ni iddynt ei wneuthur, sy beth arall. Gŵyr Duw, a gall llawer dystio, mor fynych ac mor daer yr ydym yn galw ar y byd diofal hwn i gofio matter mawr ac uchel yr enaid.

Er nad ydym yn arfer "enneinio'r claf âg olew," yr hyn y gwelwn ei fod yn fwy priodol i amseroedd cyntefig yr Eglwys ac oes yr Apostolion; etto yr ydym yn dywedyd gyd â St. Iago, "A oes neb yn eich plith yn glaf? galwed atto henuriaid yr Eglwys, a gweddiant hwy drosto⁵." Ac i'r diben hwn yr ordeiniodd yr Eglwys y Gwasanaeth a elwir *Y Drefn am Ymweliad d'r Claf*.

Yr ydym yn dymuno mor ddiffluant ag y

⁵ Iago v. 14.

gall Cristion wneuthur ar fod i'r ymarfer-iadau sanctaidd hyn o ympryd a gweddi gael eu harfer yn fwy defosiynt nag y maent, a thrinst yw gennym weled nad ydynt. Y mae gennym barch i'r hen amseroedd, yn y rhai yn ddiddadl yr addolid Duw yn fwy gofalus, ac y cyflawnid yn siriolach weithredoedd coffadwy o dduwioldeb a lletteugarwch er mwyn ei ogoniant Ef. Yr hyn sy gyson â ffydd a moesau da, hyd yn nod yn y rhai a dybir gan lawer mor dra gwahanol oddi wrthym ni; a dymuno yr ydym o eigion ein calonnau ar fod i ddynion weled ein gweithredoedd da ni, ac felly ogoneddu ein Tad yr Hwn sydd yn y nefoedd.

Dywadir am Aristides, pan welodd y mawr dramgywydd a allai godi trwy'r anghyttundeb a gymmerasai le rhyngddo ef a Themistocles, ddarford iddo eiriol yn addfwyn wrth Themistocles, fel hyn: Syr, yr ydym ein dau mewn sefyllfa uchel yn y wladwriaeth hon; a bydd ein hanghydfod yn dramgyddus i laweroedd: Themistocles anwyl, byddwn yn gyttûn; ac os rhaid i ni gael ymryson, ymrysonwn am ragori mewn rhinwedd a chariad."

Er bod yr elfennau o natur wahanol i'w gilydd, etto maent oll yn cyttuno ynghyfansoddiad y corph naturiol: ac oni weddai i Gristionogion gydsynio ynghadwedigaeth yr Eglwys, yr hon sy gorph dirgeledig, rhag

iddynt fod yn warth i Israel ? Yr ydym oll yn braidd y gorlan, Bugail yr hon yw Crist. Yr ydym oll yn feini yn yr adeilad, pen-congl-faen yr hwn yw Crist. Yr ydym oll yn ganghennau yn y winwŷdden, gwreiddyn a chyff yr hon yw Crist. Nid oes i ni ond un Duw yn Dad, yr Hwn a'n creodd oll ; nid oes i ni ond un Iesu Grist yn Iachawdwr, yr Hwn a'n prynodd oll ; nac ond un Glân Yspryd yn Sancteiddydd, yr Hwn sydd yn ein glanhâu ac yn ein haddurno oll.

Nid ydym ni namyn pererinion a dïeithriaid ; a chawn ganfod ryw ddydd a ddaw fod buchedd dawel Gristionogol ac ymadawiad dedwydd o'r byd hwn yn fwy manteisiol i ni na'r holl fyd, pan, ar ol ymguro mewn matterion dadleuol, y cawn brofi fod buchedd gariadus Gristionogol felly yn fwy na gwerth y cwbl oll. Attolygwn ar Dduw, gan hynny, yr Hwn yw Awdwr pob rhoddiad daionus, ar fod i drugaredd a gwirionedd gyd-gyfarfod, a chyflawnder a heddwch ymgusanu, a thrigo o'i ogoniant Ef yn ein tir ni, hyd nes y delom ni i drigo yn nhir gogoniant.

Copi o lythyr a anfonwyd o Rydychen at Awdwr y llyfr hwn, a'r hwn y gwelwyd yn dda gan y rhai a ganiattasant gyhoeddi'r llyfr, ei osod i lawr yma yn ei absennoldeb ef.

“ Meistr Sutton,


“ Mi a ddarllenais eich copi, yr hwn a ymddengys i'm barn ostyngedig i yn un tra defosiynol, duwiol, a dysgedig. Yr wyf yn mawr gymmeradwyo testun eich llyfr : canys dysgu dyn i *farw* yn dda yw'r ffordd oreu i'w berswadio i *fyw* yn dda, am y naill a'r llall o ba rai ni feddyllir ond ychydig, ysywaeth ! yn y dyddiau diffaeth hyn ; o herwydd mae dynion yn byw yn anystyriol o farwolaeth, ac yn marw yn anystyriol o fydd arall. Mae eich amryw draethodau yn hynod o Gristionogol, ac yn dra angenrheidiol yn yr oes hon ag sy mor farw i bob daioni. Mae eich dull o ysgrifenu yn beraidd ac effeithiol ; a'ch cyfeiriadau yn dduwiol a diddanus. Mi a ddywedaf fy meddwl mewn un gair, *Omnia in illo libro spiritum divinum olent* ; mae sawyr a blas yspryd dwyfol ar bob peth yn y llyfr hwn. Fy nghyngor gan hynny yw bod i chwi wneuthur i'ch llyfr hwn fyw, trwy ei argraphu, fel y gallo llawer fyw oddi wrth bechu. Ni chynhyrfodd Yspryd Duw mo

honoch i gymmeryd y drafferth hon, ac yna i gladdu ffrwyth eich llafur cyn gynted ag y ganwyd ef, heb fod o lesâd i neb ; ond bod iddo gael ei gyflwyno i'r byd, i fyw pan fyddom ni farw. *Felix et formosa proles est* ; eppil happus a hardd yw. Na fyddwch ynte mor annuriol a'i dagu yn ei gryd, neu ei yrru, gyd â'r baban Moses, i foddi : mae'n werth ei faethu a'i ddwyn i fynu gan ferch tywysog, yr hon yw eich noddes anrhydeddus. Mae'r Eglwys yn disgwyl gwasanaeth da oddi wrtho : mae'r Athrofa, a'ch Coleg, eich mam, eich cyfeillion, yn disgwyl canmoliaeth a chymmeradwyaeth trwyddo : a bydd i chwithau, ei dad, dderbyn yn ddiâu lawenydd lawer oddi wrtho. Ewch ym mlaen, ynte, yn enw Duw, a bedyddiwr ef i'r byd. Yr wyf yn awr yn cymmeryd fy nghennad, gyd â'm canmoliaeth goreu i chwi, gan hiraethu am gael gweled yn argraphedig yr hyn a ysgrifenasoch mewn llythyrennau mor fânnes y bu i mi prin allel ei ddarllen.

“ O Goleg L. Awst 6, 1600.

“ Eich cyfaill caredig,

“ R. K.”



CYNNWYSIAD.

PENNOD I.

Annogaeth yn cynhyrfu pob rhyw ddyn i ymrôi i ddysgu
marw 1

PENNOD II.

Yn yr hon y dangosir yr achos pa ham y mae dynion mor
anfynych yn conio'n ddifrifol am eu diwedd 10

PENNOD III.

Reitied yw i bob Cristion o ddyn fyfyrion' ddwys am ei
ddiwedd 26

PENNOD IV.

Yn yr hon y dangosir y gall cyflwr y fuchedd hon yn gyflawn
ein hannog i'r ystyriaeth yma 38

PENNOD V.

Y dylai ystyriaeth o'r fuchedd a ddaw ein hannog i gofio am
ein diwedd 52

PENNOD VI.

Ni raid i ni mo'r ofni angau ; a llawer llai, ofni myfyrio am dano	62
--	----

PENNOD VII.

Y dylai'r tralod meddwl ag sy'n digwydd ym mywyd dyn, ei gynhyrfu i fyfyrio am ei ddiwedd	71
---	----

PENNOD VIII.

Y dylai anhwylderau corphorol hefyd ein cymhell i feddwl yn ddifrifol am ein diwedd	77
---	----

PENNOD IX.

Gymaint y mae'n perthyn i bob dyn yn amser ei iechyd ymbarottöi erbyn dydd ei ymadawiad	85
---	----

PENNOD X.

Yn yr hon y dangosir y dull y dylem ymbarottöi, neu'r sefyllfa o fuchedd y dylai'r Cristion fod yn barod ynddi erbyn angau	94
--	----

PENNOD XI.

Pa fod y dylai'r Cristion ymddwyn pan ddechreuo glefychu	105
--	-----

PENNOD XII.

Fel y dylai'r claf drefnu ei ddâ byd a'i feddiannau	109
---	-----

PENNOD XIII.

Reitied yw i'r claf fwrw ymaith bob meddyliau bydol, a diofrydu ei feddwl i weddi a myfyrdodau defosiynol . .	113
---	-----

PENNOD XIV.

Ynghylch annog y claf i barhâd a dianwadalwch, fel y bo'r
selni'n cynnyddu arno 119

PENNOD XV.

Cyngor i'r sawl sy'n ymddangos yn anewyllysgar i ymadael
â'r byd 124

PENNOD XVI.

Y modd y gellir perswadio y rhai hynny i ymadael yn add-
fwyn, ag sy'n ymddangos yn hwyrfrydig i adael dâ byd,
gwrraig, plant, cyfeillion, neu'r cyffelyb 133

PENNOD XVII.

Pa fodd y gellir perswadio'r annioddefgar i oddef poenau ei
selni, ac i farw'n dangnefeddus 138

PENNOD XVIII.


Pa fodd i gysuro y rhai sy'n drallodus eu meddwl wrth gofio
am eu pechodau, ac wrth ofni'r farn a fydd 144

PENNOD XIX.

Pa fodd y gall y claf yn ing marwolaeth ymbarottôi erbyn
ei ddiwedd 152

PENNOD XX.

Pa fodd y dylid cyfarwyddo'r claf gan y rhai ag y mae'r
gorchwyl pwysig hwn yn perthynu'n briodol iddynt . . . 156



Disce Mori.

D Y S G A F A R W.

PENNOD I.

*Annogaeth yn cynhyrfu pob rhyw ddyn i ymröi i
ddysgu marw.*

GWIR yw fod ein trigias yma yn y byd hwn yn ordeiniad a sefydlwyd gan Dduw, a'i fod hefyd yn dra chymmeradwy gan ddyn. Goddefol yw ceisio parhâd einioes trwy'r moddion a ordeiniwyd i hynny; ac angen-rheidiol yw gochel y pethau sy'n niweidiol i'w gadwedigaeth. Mae cyndyn-rwystro ein hiechyd ein hun yn beth croes i natur, ac hefyd yn ffordd i demtio Duw natur. Mae dymuno ymadael yn gynt allan o'r sefyllfa ddaearol hon, neu aros yn hwy ynddi, nag y gwelo Efe'n dda, trwy appwyntiad yr Hwn yr ydym oll yn sefyll, yn brawf, medd un, o ddygn anniölchgarwch. Dylem, ynte, dderbyn â chalon ddiolchus yr yspaid o amser

ag a bennodwyd i ni i rodio ynddo, nes y galwo Duw ni ymaith ; gan arferyd yr yspaid hwnnw i'w wasanaethu Ef mewn sancteidd-rwydd a chyflawnder.

Dymuno, gyd â'r prophwyd, ar fod i'r Duw a'n *dysgodd o'n hieuengctyd, beidio d'n gwrthod mewn henaint a phcnllwydni, hyd oni fynegom ei gadernid i bob un a ddelo*¹;—gyd â Hezeciah, wneuthur ychydig yn rhagor o wasanaeth i Dduw yn y byd²;—gyd â St. Paul, ymfoddloni i fod heb ymddattod, er mwyn bod o gynhorthwy i eraill³;—yn yr ystyr yma, gallwn dderbyn, ie, a dymuno, ychwaneg o barhâd einioes i ni ein hunain ac i eraill. Y gwir Israeliaid, wrth ddymuno mor daer am barhâd einioes Dafydd eu brenhin, rhag i'w gymmeriad ef oddi wrth-ynt *ddifodd goleuni Israel*⁴, a dwyn pen-wynn ni llawer Israeliad da, (fel y dywedodd Jacob,) *i'r bedd mewn tristwch*⁵, a ddangosasant, yn hyn, ddyledus a duwiol serch-owgrwydd.

Etto, am nad oes gan ddyn yma ond gyrfa i'w therfynu, ac y rhaid iddo ymadael ar ol ei gorphen ; a chan fod Bywyd, (yn ol y wir ddiareb,) yn Ddyled i Angau, yr hwn sy gantho gwbl awdurdod ar bob dim ; yna, fel y dywedodd Daniel brophwyd, *Bydded foddlon*

¹ Ps. lxxi. 17, 18.

² Esay xxxviii. 4.

³ Phil. i. 24.

⁴ 2 Sam. xxi. 17.

⁵ Gen. xlvi. 38.

*gennyt fy nghyngor*⁶ : ie, O ddyn, gwrando gyngor oddi wrth Dduw'r nef gan y doethaf ym mysg dynion : *Cofia yn awr dy Greawdwr yn nyddiau dy ieuengctid, cyn dyfod y dyddiau blin, yn y rhai y dywedi, Nid oes i mi ddimm diddanwch ynddynt'* ; hynny yw, agosiad diwedd dy oes. *Digon i ni*, ebe St. Petr, *yr amser a aeth heibio o'r einioes, i weithredu ewyllys y Cenhedloedd*⁸ : fel pes dywedasai, Mae'r amser a basiodd wedi myned heibio, ac ni ellir ei alw'n ol ; yn awr, er mwyn Duw, byddwch ofalus am yr amser i ddyfod. Gwyddom mai nid yn angylion y ganwyd ni ; ac y mae profiad yn dangos mai marwol ydym oll. *Bydd fyw'n dda, a bydd farw'n dda.* O chymmerwn ofal mewn pryd, ni a allwn fyw ; ond peidio â marw ni's gallwn. Ac ni ddylem bryderu *pa hyd y byddwn byw*, ond *pa mor ddaionus y byddwn byw*.

Gan hynny bydd coffa'n grefyddol am ein diwedd, (megis cordial i'r galon yn y byd truenus hwn ag sy'n dechreu alaru ar athrawiaeth yr Adgyfodiad, gan fyned ymlaen mor oerlyd yn ymarferiadau defosiwn Cristionogol,) gyd â help Duw, yn feddyginaeth gynnes ac arbennig at gadw'r enaid. **Dysgu MARW** sydd wers yn haeddu ein diwydrwydd mwyaf diesgeulus, fel rhagbarottoad hyspysol i ddiwedd dedwydd, yn yr hyn y cynhwysir

⁶ Dan. iv. 27.

⁷ Preg. xii. 1.

⁸ 1 Petr iv. 3.

dedwyddyd ein holl fodoliaeth. Yr oedd Dafydd, yr hwn o ran ei ddysg oedd yn brophwyd, ac o ran ei nodweddiad, (fel y dywed yr Ysgrythyr,) *yn wr wrth fodd calon Duw*⁹, yn astud iawn yn y ddysgeidiaeth hon, pan, wedi gwyllo ac ymprydio, yr attolygodd ar Dduw, *Arglydd, pâr i mi wybod mesur fy nyddiau, fel y gwypwyf o ba oedran y byddaf fi*¹: fel yr ysgolhâig pryderus ag sy'n byrhâu ei gwsg, yn anghofio ei ymborth, ac yn myfyrio'n galed, pan y bo'n astudio rhyw fatter pwysig.

Yn awr, ynte, o bob gwersi dysg, beth sy fwy pwysig na *Dysgu marw?* beth sy fwy dwyfol? *Pa le mae'r ysgrifenydd?* *pa le y mae ymholydd y byd hwn?*² Pa beth yw meddu grymmusder Demosthenes, neu gel-fyddyd berswadiol areithiwr mor fawr a Cicero? Beth a dâl i ni allel rhannu'r cyfraniadau manylfaf trwy rifyddeg, a bod byth heb feddwl, gyd â gwr Duw, am gyfrif y dyddiau sy gennym etto i fyw? beth a lesia i ni allu penderfynu, trwy ddaear-fesuriaeth, hydred a lledred y golygfeydd mwyaf ehangfaith, a bod heb fesur yr hyn y dywed y prophwyd nad yw ond dyrnfedd o hŷd? pa fudd yw medru trefnu holl donau cordiadol peroriaeth, ac ar yr un pryd byw bywyd llawn o *ddiscord*, o *ddiffyg* iawn

⁹ 1 Sam. xiii. 14.

¹ Ps. xxxix. 5.

² 1 Cor. i. 20.

lywodraeth arnom ein hunain? pa les i ni fedru, gyd â'r seryddwr, sylwi ar ysgog-iadau'r bydoedd wybrennol, a bod ein calon-nau ar yr un amser yn gladdedig yn y ddaear? neu, gyd â'r athronydd, allel chwilio allan achosion llawer o effeithiau, a myned heibio i ystyriaeth o'n gwendid ein hunain? neu, gyd â'r hanesydd, wybod beth a wnaeth eraill, ac esgeuluso y wir adnabyddiaeth o honom ein hunain? neu, gyd â'r cyfreithiwr, osod deddfau lawer o amryw fath, ac ang-hofio deddf gyffredinol natur, *y rhaid i bawb farw?* Mewn gair, beth ydyw i'r dynion bydol dyfnaf eu dysg allel ymgyrhaeddyd, trwy gyfrwysdra dyfais, at drefniadau gor-uchel ar y ddaear hon, a marw, (Duw a Wyr!) fel dynion cyffredin? Díammeu fod hyn oll yn gwbl ddiwerth.

Od wyt ddoeth, bydd ddoeth i'th enaid dy hun. Fel y gwr goludog y sonir am dano yn yr unfed ar bymtheg o Luc, ebe Fulgentius, yn dlawd yn ei holl rwysg, yn galaru yn ei holl lawenydd³; felly y mae y rhai sy'n Byw, ac heb fyth Ddysgu Marw, yn anwybodus yn eu holl wybodaeth. Pa ham? gall y Rabbiniaid dysgediccaf yn y gwybodaethau hyn ddyfod, gyd â Nicodemus, i gael eu hegwyddori yn y ddysgeidiaeth hon, ym mha un, naill ai (fel babanod) ni ddysgasant

³ Fulgent. Epist. ad Gal.

y gwersi cyntaf oll; neu ynte (fel ysgol-heigion diog) a wyddant ychydig ar dafod leferydd, ac felly'n fuan yn anghofio'r cwbl.

Wel! perffeithrwydd ein gwybodaeth yw adnabod Duw a'n hadnabod ein hunain: yr ydym yn ein hadnabod ein hunain yn oreu, pan gydnabyddom farwoldeb ein natur. Fel dynion, yr ydym yn meirw'n naturiol; fel Cristionogion, yr ydym yn meirw'n grefyddol. Yn ysgol Crist yr ydym yn gyntaf, trwy farwhâu yr hen ddyn, yn ceisio marw i'r byd; ac yna wrth ymdrefnu'n rhinweddol erbyn dydd ein hymadawiad, yr ydym yn dysgu marw yn y byd. Wrth i ni farw i'r byd, mae Crist yn dyfod, ac yn byw ynom⁴; ac wrth i ni farw yn y byd, yr ydym ni yn myned i fyw gyd â Christ⁵.

Weithian ynte, gan fod marw'n beth cyn rheitied, a marw'n dda yn beth mor Gristianus, ymrodded pawb o ddifrif at y ddysgeidiaeth hon, megis y rhan fwyaf pwysig o wir ddoethineb. Pa faint o bobl yn y byd sy'n blino eu pennau ynghylch matterion distadl! rhai, fel y dywed St. Chrysostom⁶, yn brysurach i wybod pa le y mae uffern, na pha fodd i ochelyd ei phoenau; ac eraill yn ymddyrru mewn arholion dyrys ac afreidiol, er mwyn ymddangos yn wahanol oddi wrth bawb eraill. Ond pan ddeuant i ym-

⁴ Gal. ii. 20.

⁵ Phil. i. 23.

⁶ Chrys. in Homil. 31.

adael â'r byd, yna maent yn canfod ddarfod iddynt nyddu edau hardd, ac ymdrafferthu'n ofer; yna hwy a ystyriant mor well fuasai iddynt fyw er mwy o fantais i'w heneidiau! Gan hynny ymddiddysnu fwyfwy oddi wrth serch at y pethau trangcedig hyn, ac ymddattod bob yn ychydig oddi wrth y byd blinderus hwn i dynnu tu ag adref, gan ymdrefnu gogyfer â dydd ei ymadawiad, yw'r ymddygiad teilyngaf o bob Cristion doethfryd.

Poed i'r gwag-ogoneddgar, y rhai sy fel y *ameleon* yn byw wrth yfed gwŷnt, (yr hwn greadur y dywedir ei fod bob amser yn geg-agored o'r plegid;) y rhai, fel y lleuad, nid oes ganddynt yn y byd ond goleuni benthyg, ac nid goleuni ynddynt eu hunain, ac ydynt o ganlyniad, fel hithau, fyth yn llenwi ac yn newid; poed iddynt hwy, meddaf, ddilyn cysgodau a gwageddau, y rhai oll a ddiflannant mewn tarawiad amrant: ond dysged y Cristion doeth farw *marwolaeth yr uniau*, fel y gallo fyw yn hyfryd yn y byd hwn ac yn y byd a ddaw.

Yr hyn y dewisa ffyliaid ei wneuthur yn y diwedd, a wna doethion yn y dechreu. Doethineb yw adeiladu arch, fel Noah, tra bo'r tywydd yn deg⁷; a thrysori, fel Joseph, yn nyddiau'r helaethrwydd⁸; meddwl am yr

⁷ Gen. vi. 14.

⁸ Gen. xli. 48.

ystorm, tra bo'r hin yn dawel ; mewn gair, hwsmonna'n ofalus, gan hau had gweithred-oedd da ym maes calon edifarus, tra bo'r adeg yn caniattâu, fel y gallom yn Hydref ein hoes fedi ffrwythau tragywyddol gysur.

Yr ydym gan mwyaf allan o'r byd, cyn ystyried ein cyflwr ynddo ; a phan ddêl yr amser i ddiweddu, dyna'r pryd yr ydym yn son am ddechreu iawn-drefnu ein gyrrfa. Oh na chofiem ddywediad teilwng Seneca, pan ydoedd weithian yn nesu at derfyn ei oes : "Pan oeddwn yn wr ieuangc, fy ngofal oedd am *fyw'n* dda ; ar ol i mi heneiddio, fy ngofal yw pa fodd i *farw'n* dda¹." Ac meddai Awstin yn y geiriau hyn : "Yn y fuchedd hon nid oes i mi yn awr ddiin mel-usach nag ymbarottôi i ymadael yn dawel o honi¹."

Yr ydym ni, fel Martha, yn drafferthus yngylch llawer o bethau ; ond Mair, yr hon a eisteddodd i fyfyrion, a *ddewisodd y rhan dda*². Un peth sydd angenrheidiol ; Dysga, Oh ! dysga Farw.

Y gelyn a fynych ddisgwylies sydd yn gwneuthur lleiaf o niweid pan wnelo ei ymosodiad. Os gwel y *basilisc* hwn, sef angau,

¹ Quando juvenis, curavi bene vivere; quando senex, bene mori.—*Senec. Epist. 62.*

¹ Nihil suavius in hac vita quam ut quietus fiat exitus ex eadem.—*August. de Matt.*

² Luc x. 42.

ni, cyn i ni ei weled ef, mae perygl ; ond os gwelwn ni'r *basilisc* yn gyntaf, mae'r asp yn marw, ac ni raid i ni mo'r ofni. Y dymmestl a ddisgwylies ym mlaen llaw a wna lai o niweid pan gyfodo. Mae'r neb sy'n gadael y byd cyn i'r byd ei adael ef, yn meddwl am ddydd ei ymddattodiad, fel y bydd y claf yn gwrando ar y *cloc* ; efe a ymeifl yn llaw angau, fel cennad groesawedig, ac a erfyn, gyd â Simeon, am gael ei *ollwng mewn tangnefedd*³.

Mae'r tywydd hyd yn hyn yn deg ; gallwn wneuthur arch i'n cadw rhag y diluw⁴. Mae Jonah etto'n galw yn heol Nineveh⁵. Mae doethineb etto'n llefain ar y fforddolion oll, *Pa hyd y cerwch ynfydrwydd*⁶? Mae'r angylion etto wrth borth Sodom. Mae'r prophwyd etto'n perswadio, *Beth a wnaf i ti, Judah*⁷? Mae'r apostol etto'n erfyn dros Grist, *Cymmoder chwi d Duw*⁸. I ddiweddu, mae'r priod-fab etto'n aros, ac yn disgwyl am y morwynion, i'w cael i fyned i mewn gyd âg ef i'r briodas⁹. Och Dduw! na wnaent fwy o frys, a bwrw ymaith wageddach ffol, gan fod llawenydd y nef yn disgwyl am danynt! Nid yw hyfrydwch y byd ond coeg hyfrydwch ; ond y mae'r hyfrydwch

³ Luc ii. 29.

⁴ Gen. vii. 5.

⁵ Jonah iii. 4.

⁶ Diar. i. 22.

⁷ Hosea vi. 4.

⁸ 2 Cor. v. 20.

⁹ Mat. xxv. 7.

sydd ynghadw gan Grist i'r rhai ydynt eiddo
Ef, yn hyfrydwch yn wir!

Cynnydded Duw yn ein calonnau awydd
am y ddysgeidiaeth hon, fel y byddom byw
yn ei ofn, a marw yn ei gariad, i gael byw
byth bythoedd.

PENNOD II.

*Yn yr hon y dangosir yr aehos pa ham y mae dynion
mor anfynych yn caffo'n ddifrifol am eu diwedd.*

A ALLWN ni ryfeddu digon fod y dyn ad-
genhedlig, a wnaeth Duw trwy ras yn greadur
myfyriol, ac yn gyfartal mewn gogoniant i
gyflwr yr angylion, yn ymbleseru cymaint
yn helyntion y byd digysur hwn, yn cym-
meryd ei swyno gymaint gan lithiadau
putteiniol pechod, a'i ddwyn gymaint oddi
arno ei hun gan ffordd diogelwch cnawdol,
nes y mae'n taflu oddi wrtho bob coffa am
ei ddiwedd, a bod yn waeth na delwau
Canaan, (y rhai yr oedd llygaid iddynt, ond
ni welent,) sef bod gantho enaid rhesymmol,
ac etto heb ddeall!

Hudo plant dynion i droi heibio'n ysgafn
ddifatter bob coffa crefyddol am eu diwedd,
yw hocced y diafol, gorchwyl yr hwn, er
amser codwm Adda, oedd ac ydyw lladd
eneidiau. Pw! medd efe, *Ni byddwch feirw*

*ddim*¹ : fel pe mynnai i ddynion dybied nad yw cofio am angau yn ddim amgen na rhyw syniad pruddglwyfus ; a rhag i hynny argraphu ofn Duw yn rhy ddwfn ar eu calon-nau, efe a fyn y pren gwaharddedig i lithio'r llygad, geiriau teg i ddifyrru'r glust, er mwyn gyrru ymaith bob syniad sobreiddiol. Ha ! *chwi a fyddwch megis duwiau*², eb efe, ac yntau ar y pryd yn amcanu eu gwneuthur yn gythreuliaid.

Wrth hyn y gwelwn arfer pwys ydyw gwneuthur i'r byd redeg yn benchwiban fel y mae ; a bod cynnifer o ddynion diras pen-rhydd trwy fyw'n ddiofal yn treulio eu dyddiau cyhyd mewn gwegi, a'u blynnyddoedd mewn oferedd, nes y dalier hwy gan y dydd drwg pan na feddyliont am dano, *fel y pysgod a ddèlir ò'r rhwyd, ac fel yr adar a ddèlir yn y delm*³, medd y Pregethwr, ac felly bod yn llwyr golledig am byth bythoedd.

Nid yr un o'n meddyliau yw myfyrio am ein diwedd : mae gwrando ar St. Paul yn son am y farn ddiweddaf yn athrawiaeth rhy oeraidd i'n tymherau llon, ac yn fferru ein calonnau ; ni's gallwn aros meddwl am beth mor bruddaidd : fel Ffelix, nid oes gennym hamdden i'r *miwsig* diberoriaeth hwn, yr hwn sy'n seinio fel *discord* ynghyngahanedd ein pleserau bydol ; ac felly mynnem wrando

¹ Gen. iii. 4.

² Gen. iii. 5.

³ Preg. ix. 12.

arno ryw amser arall ; neu fe allai na ddy-munem ei glywed o gwbl⁴. Mae meddwl am angau i ni yn Aceldama, yn faes y gwaed ; ond gollwng yr amser i lithro ymaith yn wastraffus, a gadael i'n pechodau gynnyddu'n beryglus ; gaddaw i ni ein hunain hir ddyddiau ; clywed geiriau difyr, a chael dywedyd wrthym am *dangnefedd a dïogelwch, a dinystr disymmwth yn dyfod ar ein gwarthaf*⁵; hyn yw ein cân bleserus, nes y sigler yr enaid i hepian mewn pechod, a chysgu fel Sisera ; (yr hyn na atto Duw !) cysgodd efe, ac ni ddihunodd mwy⁶.

Arglywydd trugarog ! beth a ddaw o hyn yn y diwedd ? Mae'r esamplau beunyddiol o farwolaeth ger ein bron, pe na bai ddim arall, yn dangos yn eglur beth sydd yn fuan i ddigwydd i ninnau. Mae'r *interlude* yr unrhyw ; chwareuwyr ydym yn awr ar chwareufwrdd y byd hwn : mae y rhai sydd wedi myned ymaith, wedi darfod chwareu eu rhan ; ac yr ydym ni sydd ar ol, yn chwareu ein rhan ninnau, ond ein bod etto heb gyrrhaeddyd yr *epilog* sydd yn y diwedd.

Rhyfedd tu hwnt i bob rhyfeddod yw na's gall ein calonnau esgeulus gymmeryd rhybudd i feddwl rhywfaint am ein cyflwr, mewn brwydr lle mae cymaint yn cael eu torri i lawr ! Mae bod tŷ dy gymmydog ar dân

⁴ Act. xxiv. 25.

⁶ Barn. iv. 21.

⁵ 1 Thess. v. 3 ; Jer. viii. 11.

⁷ Jer. v. 31.

yn rhybudd fod dy dŷ dithau mewn perygl.
*Doe i mi, heddyw i tithau*⁸. Tro pwysydd
 y nesaf, Duw yn unig a'i gŵyr, yr Hwn a
 wyr bob peth. Er i'r goludog feddwl am
 ddechreu cymmeryd ei fydd yn esmwyth, yr
 oedd raid iddo y nos honno, yn erbyn ei
 ewyllys, ymadael â'i gyfoeth, a marw⁹.

Dylai cynnifer ac eglured esamplau, pe
 na wnai dim arall, beri i ni ymysgwyd oddi
 wrth yr anghof annaturiol hwn, os nad yw
 cwyn Cyprian wedi ei wirio, “Ni fynnwn gyd-
 nabod yr hyn ni's gallwn lai na'i wybod¹.”
 Arglwydd daionus! i ba drymgwsg enaid yr
 ydym wedi syrthio, gan na's gall cynnifer o
 wrthrychau ger bron ein llygaid, ac sy'n
 swnio mor aml yn ein clustiau hwydrwm,
 gynhyrfu dim arnom, neu ynte cyn lleied,
 nes y mae'r effaith yn diflannu'n ddisym-
 mwth. Cynhyrfir ni fel Agrippa, dim ond
 o fewn ychydig, rhyw ronyn bychan bach, ac
 anghofio hynny'n union deg². Ein hym-
 gynghoriadau ydynt, “Mynnwn, ac ni's
 mynnwn;” ac felly, fel y diogyn, bod heb
 wneuthur dim.

Pa hir ymadroddion sy gennym yn ein
 cyfarfodydd mwyaf, nad yw dynion meirw,

⁸ Mihi heri, tibi hodie. Eccles. xxxviii. 22.

⁹ Luc xii. 20.

¹ Cypr. de vanitat. Idol. Nolumus agnoscere quod
 ignorare non possumus.

² In modico tantum.

mewn rhan neu yn bennaf, yn destun iddynt ?
 Mor aml yr ydym yn clywed y cnul difrifol,
 ac yn dywedyd, Wel, dyna rywun wedi
 marw ! Onid ydym yn myned heibio i fedd-
 au llawer a allasent, o ran oedran a nerth,
 ein gweled ni yn cael ein claddu o'u blaen
 hwy, ac etto er hyn i gyd, yr ydym ni
 yn breuddwydio, fel pe na bai dim angau !
Dos, cysga, ebe Salomon wrth y dïog. *Ym-*
*hyfryded ffyliaid mewn camwedd*³, a dywedant
 gyd â'r Epicureaid gynt, "Nid yw angau
 ddim i ni ; beth sydd a wnelom ni âg
 angau" ? Ond cânt hwy weled ryw ddiwr-
 nod y bydd a wnelo angau â hwynt, pan
 gipia efe hwynt i'r amdo, a'u rhwymo draed
 a dwylaw, a chyweirio eu gwely olaf yn y
 beddrod cryf a chaled.

Am y cyfryw ddynion gellir yn gyflawn
 adnewyddu cwynfan Moses ; *Oh na byddent*
*ddoethion, nad ystyrient eu diwedd*⁴ ! Oh
 nad alwent i gof y daw y dyddiau, (a Duw a
 Wyr pa mor fuan,) pan *gryna ceidwaid y tŷ*,
 sef y dwylaw ;—pan *grymma'r gwŷr cryfion*,
 sef yr esgeiriau ;—pan *dywylla'r rhai sy'n*
edrych trwy ffenestri, sef y llygaid ;—a *gos-*
twng i lawr holl ferched cerdd, sef y clustiau ;
 —ac y bydd y *ceiliog rhedyn yn faich ar*
ysgwyddau crymmedig ;—pan dorrer *y piser*
gerllaw'r ffynnon, sef y galon, o'r hon y mae'r

³ Diar. xiv. 9.⁴ B. Ren. in Tertul. de Anima.⁵ Deut. xxxii. 29.

pen yn tynnu galluoedd bywyd ;—mewn gair,
*pan ddychwel y pridd i'r ddaear fel y bu*⁶ ;
 a'r cymmalau wedi fferru, a'r synhwyrau
 yn ddideimlad, yr wyneb wedi delwi, y gwaed
 yn oer, y llygaid yn gauad, yr arleisiau wedi
 caledu, a'r holl gorff mewn chwys oer new-
 ydd drengu. *O ddaear, ddaear, ddaear,*
gwrando air yr Arglwydd, ebe'r Prophwyd⁷.

Fe wisgodd yr Hollalluog ein rhieni cyntaf
 â chrwyn anifeiliaid meirw⁸, fel, wrth weled
 yr hyn oedd am danynt, y cofient beth a
 ddeuai o honynyt oblegid pechod. Pan
 ddangosodd Crist, yn ei wedd-newidiad ar y
 mynydd, ran o'i ogoniant i Petr ac Iago, Efe
 a ddangosodd hefyd iddynt Moses ac Elias⁹,
 dau o ddynion a fuasent feirw, (neu a ymad-
 awsent oddi wrth ddynion,) fel y dygid ar gof
 iddynt eu marwoldeb hwythau.

Pan lefarodd Dafydd brophwyd yn y naw-
 fed Psalm a deugain am ansicr gyflwr a sicr
 ddiwedd dyn, (gan mai hir y bydd y rhai
 mwyaf rhwysgfawr yngolwg dynion yn y byd
 cyn cofio mai dynion ydynt,) mae'n gyntaf
 yn annerch pawb ; *Clywch hyn yr holl bobl-*
oedd : a rhag i neb dybied mai nid wrtho *ef* yr
 oedd yn llefaru, yna mae'n annerch pawb yn
 eu gwahanol gyflyrau eu hunain ; *Yn gys-*
tal gwreng a bonheddig, cyfoethog a thlawd
ynghyd : ac am y mynnai i bawb wybod mai

⁶ Preg. xii. 3—7.

⁷ Gen. iii. 21.

⁸ Jer. xxii. 29.

⁹ Mat. xvii. 3.

matter o wir bwysfawrowgrwydd oedd hyn, efe a ddywed, *Fy ngenau a draetha ddoethineb; a myfyrdod fy nghalon fydd am ddeall;* gan adrodd yr unrhyw ddwywaith drosodd, fel y synnem ni beth oedd gan y prophwyd i'w draethu, yr hyn yn wir y mae efe ei hun hefyd yn synnu o'i herwydd. *Canys efe a wél fod y doethion yn meirw, yr un funud y derfydd am ffol ac ynfyd; angau a ymborth arnynt, a'u tegwch a dderfydd yn y bedd; wrth farw ni ddwg efe ddim ymaith, ac ni ddisgyn ei ogoniant ar ei ol ef; efe a d at genhedlaeth ei dadau:* ac etto, *eu meddwl yw y pery eu tai yn dragywydd, a'u trigfeydd hyd genhedlaeth a chenhedlaeth: henwant eu tiroedd ar eu henwau eu hunain.* *Eu ffordd yma yw eu hynfydrwydd¹,* eb efe. A diam-heuol ydyw fod *doethineb dyn yn ffolineb gyd â Duw yn hyn²*, fel mewn llawer peth arall.

Yr oedd gan Joseph o Arimathea, gwr goludog, (fel y darllenwn yn yr Efengyl,) fedd yn ei ardd³. A dylai fod gennym ninnau, yn y lleoedd yr ydym yn cymmeryd hyfrydwch, ryw grybwyliaid, neu o leiaf ryw feddwl daionus, am ein marwoldeb. Ym mhob peth arall yr ydym yn aml yn wyliad-wrus; ond yn y peth yma yr ydym mor esgeulus a phe na byddai'r cwbl ond chwareu-

¹ Ps. xlix. 1—19.

² 1 Cor. i. 25.

³ Ioan xix. 41.

damwain. Pe gwyliem ni angau, yr hwn, pan fyddom ni lawenaf, sydd yn ein gwylied fwyaf, ie, ac yn fynych yn ymaflyd ynom ; yna ni byddem byw fel yr ydym yn byw, ac ni phechem fel yr ydym yn pechu, ond rhoddem lythyr-ysgar i fil o wag bleserau, y rhai ni's mynnem ymyrryd â hwy ddim yn ychwaneg, rhag mor ffol a phen-ysgafn ydynt. Ond tra'r ydym yn cael byw, yr ydym yn gwario ein dyddiau fel pe baent yn feddiant personol i ni, yr un fath a thai a thiroedd hawlrydd, i fod yn eiddom tra mynnom, ac i bechu ynddynt mor ddiwarafun ag y mae'r anifeiliaid yn yfed dwfr, a hynny heb i'n cydwylbod bigo, nac i'n calon arswydo.

Un o brif ddrygau bywyd dyn yw esgeul-usdod diofal am addoliad Duw. Un o brif achosion yr esgeulusdod hwn yw anghof o'n diwedd. "Yr achos," ebe Gregori, "fod cynnifer yn taflu ymaith bob gofal am dduw-ioldeb Cristionogol, yw nad ydynt fyth yn gofalu am adgoffa iddynt eu hunain gyflwr presennol eu dynol freuolder⁴." Pan fynnai'r prophwyd Jeremi ddangos fod cyflwr Jerusalem wedi myned yn gwbl ddigrefydd, heb grybwyll achosion eraill o hynny, mae ar fyr yn hyspysu'r achos pennaf, fel hyn ; *Nid yw hi yn meddwl am ei diwedd*⁵. Ni a welwn wrth hyn nad oes gan Satan enbyttach

⁴ Greg. Mor.

⁵ Galar. i. 9.

dyfais i lithio dynion oddi wrth Dduw, (fel Absalom yn lladratta calonna'u'r bobl a aent i wared i roi gwriogaeth i'w brenhin Dafydd⁶,) na thrwy ladratta o'u calonnau bob coffadwr-iaeth am eu diwedd.

Dywedir am y *panther*, gan ei fod yn gwybod fod yr anifeiliaid yn diangc rhagddo am fod gwrthuni ei ben yn eu tarfu ymaith, y bydd, pan fo arno eisiau ysglyfaeth, yn gwthio ei ben o'r golwg i ryw gongl ddirgel; a bod yr anifeiliaid, heb feddwl dim am y perygl, yn nesâu i syllu ar groen hardd brith-liwiog ei gorff; ac yna yntau a ruthra arnynt yn ddisymmwth, ac a'u hysglyfia hwynt. Felly mae'r *panther* hyll-ben hwn, sef Satan, wrth weled ddäed gan ddynion bleserau bydol, yn cuddio ei ben gwrthun, gan ddangos iddynt yn unig groen hardd amryliw ei gorff, sef gogoniant a gwegi difyrrwch pleserus, ac enbyd hefyd, (tra maent hwythau'n esgeuluso meddwl am eu gelyn, sef marwolaeth,) ac yna'n sydyn ddiswtta yn ceisio eu rhwydo a'u traflyngcu. Gan hynny mae eisiau i ddynion fod yn hyn yn barod ac ar eu gwyliadwriaeth, fel y gallont yn wastad ymochelyd rhag ei ddichellion cyfrwysddrwg ef, a chofio eu diwedd cyn y delo, a chyn y galler dywedyd wrthynt fel wrth Ahaziah, *Ni ddisgyni o'r gwely y dring-*

*aist arno*⁷: ac yn bennaf dim, cyn i'r enaid gurio i farwolaeth trwy ddarfodedigaeth pechod.

Arglywydd bendigaid! pwyl, heb fod yn esgeulus i'r graddau pellaf, nad ymdynnai rai prydiau o'r byd helbulus hwn, ac na chofiai weithiau yr hyn braidd y gall ei anghofio, sef y rhaid iddo farw ryw ddydd. "Pa ham," ebe St. Awstin, "y gadawodd Duw ddydd olaf ein hoes yn anwybyddus i ni? onid er mwyn i ni fod bob dydd yn barod? ac nid allwn esgeuluso bod yn barod felly, dan boen bod byth yn golledig."⁸

Gan hynny, cymmerant hwy rybudd mewn pryd, y rhai sy'n treulio eu hoes fel Pharaoh, fel Atheist, gan ddywedyd, *Pwy yw'r Arglywydd?*⁹ neu, *Ni a bechasom, a pha ddrwg a ddigwyddodd i ni*¹? Poed hyspys iddynt hwy y daw angau, fel ceispwl anfon-edig oddi uchod, ar gwyn am ddyled, ar ddeisyfiad natur ei hun, ac a'u deil ac a ym-eifl ynddynt oll yn fuan neu yn hwyr, ac a wna iddynt ateb am y mawr ddirmyg hwn ar y gyfraith, lle mae Duw ei Hun i'w herbyn yn llys y nef. Poed sicr iddynt y rhaid i bawb ildio; pe byddent cyn gryfed a Samson, mor rwysgfawr a Herod, mor alluog ag Alexander, ysgubir hwynt oll ymaith gan y gormeswr Amser,—fel Moses ar fynydd Aba-

⁷ 2 Bren. i. 4.
[•] Exod. v. 2.

⁸ Aug. Ep. ad Diesc.
¹ Eccles. v. 4.

rim², fel Aaron ar fynydd Hor³, fel Methuselah mewn cymaint oedran⁴. Y sancteiddiaf, yr iachaf, rhaid iddynt oll wyro pan ddêl angau, er na's gwyddys pa bryd na pha le. Yr ydym yn gweled hyn beunydd, ac ni phetru swn rai prydiau ddywed yd hynny ein hunain; ac etto nid ydym yn cofio dim yn llai na hyn, fel pe gallem, trwy ryw gyfringiad, osgôi marwolaeth: a dyma fel yr ydym *yn treulio ein blynnyddoedd fel chwedl*⁵.

Ond yn anad neb eraill, ni's gallwn synnu digon fod *hen bobl* yn anghofio hyn, pan y mae natur lesg weithiau yn eu rhybuddio nad iddynt i barhâu nemmawr yn ychwaneg; pan y mae eu cefnau crymmedig yn peri iddynt edrych i lawr er eu gwaethaf, ac yn erchi iddynt feddylied am yr elor a'r bedd. Mae gweled y rhai'n yn ymwerthu i annigonol drachwant am elw, neu ynte i ymddygiad mwyaf nwyfus ieuengctid, yn brawf eu bod ym mhell oddi wrth gofio'n ddefos-ynol am eu diwedd. Buasai Sophocles, yr hwn oedd ethnig, yn gwrido gan yswildod, pe gwelsai briodasau anweddai a ein hoes ni; yn y rhai yr ieuir hen ac ieuangc ynghyd, peth mor groes i natur, mor wrthwynebus i reswm! Mor anesgusodol yw nwyfiant hen bobl, a'u ffolineb yn bod mor anystyriol o'r hyn sydd weddus ger bron Duw a dyn! Dy-

² Deut. xxxii. 49.

⁴ Gen. v. 27.

³ Num. xx. 28.

⁵ Ps. xc. 9.

wedodd Cicero er's hir a hwyr, wrth son am lywodraeth wladol ym mysg dynion, mai "gwendusaf arfau henafgwyr yw ymarfer-iadau rhinweddau⁶." Mewn gwlad Grist-ionogol byddai lawer harddach i hen bobl fod gyd â'u defosiwn na gwneuthur fel y gwnant yn aml. Pan oedd Isaac yn hen, tybiai ei bod yn bryd iddo son am fendithio, ac am farw. Gad i mi dy fendithio, fy mab, medd efe; *mi a heneiddiais yn awr, ac ni's gwn ddydd fy marwolaeth*⁷.

Mae y rhai sydd yn eistedd wrth y llyw ac yn rheoli, yn llafurio cymaint, os nad mwy, a'r rhai sy'n gweithio ac yn ymdrafferthu fel arall: ond digon o reswm i annog henaint i'r ystyriaeth hon yw gweled eraill yn myned ymaith o'u blaen hwy. Pan welodd y trydydd tywysog ar ddeg a deugain, y sonir am dano yn ail lyfr y Brenhinoedd, ei ddau gyd-dywysog ar ddegau a deugeiniau wedi cael eu hysu o'i flaen ef, aeth hynny mor drwm at ei galon, fel yr aeth allan, ac y syrthiodd ar ei liniau, gan attolwg ar wr Duw ar fod ei einioes yn werthfawr yn ei olwg ef⁸. Pa sawl degau a deugeiniau yn y blynnyddoedd diweddar o farwoldeb a rhyfel, a welsom neu a glywsom ni eu bod wedi cael eu hysu gan angau! Pa faint o'n cyd-filwyr, yn yr ym-

⁶ Aptissima arma senum exercitationes virtutum.—*Cic. de Senect.*

⁷ Gen. xxvii. 2.

⁸ 2 Bren. i. 13.

gyrch ysprydol hwn ag yr ydym oll yn rhyfela ynddo, a welsom ni yn marw ar faes y rhyfel ! Pa faint o'n cyfeillion serchoccaf sydd wedi ymadael a myned ymaith o'n blaen ni ! Ac etto er hyn i gyd, nid oes fawr o ddyfod i wneuthur erfyniad iselfryd, nid ar wr Duw, ond ar Dduw ei Hun, ar fod ein bywyd a'n marwolaeth yn *werthfawr yn ei olwg Ef*, fel y dywed Dafydd fod *marwolaeth ei saint Ef*⁹.

Pan glywodd y publicanod fod y fwyall wedi ei gosod ar wreiddyn y preniau, ac y torrid i lawr ac y bwrid yn tân bob pren a'r ni ddygai ffrwyth, parodd hyn iddynt ddyfod at Ioan Fedyddiwr, a gofyn iddo, *Pa beth gan hynny a wnaun ni*¹? Y munud y clybu gwyr Nineveh pa ddiwedd echrydus oedd ar gwympo arnynt, fe weithiodd gymaint pryder ynddynt, fel yr ymprydiasant oll allan o law, a gwisgo sachliain, a thristau'n edifeiriol am eu camweddau.

Mynych y mae Duw wedi curo wrth ddrws ein calonnau, i goffa i ni ein marwoldeb ; canys pwy sydd a'r na's profodd weithiau ynddo ei hun, trwy deimlo eiddilwch ei natur lesg, a thrwy osgôi enbydrwydd peryglon bygythiol, heblaw amryw rybuddion cyffelyb, fod yn rhaid i ni ymadael oddi yma cyn hir ?

⁹ Ps. cxvi. 15.

¹ Luc iii. 9, 10.

Ac ar hyn gallwn oll ryfeddu gras ac amynedd Duw, yr Hwn sy trwy'r annog-aethau hyn yn ein rhybuddio am ein diwedd. Ond etto er hyn oll, leied o ymostwng sy ger ei fron Ef, arglyddiaeth yr Hwn sy'n cyrhaeddyd hyd gyrrau'r ddaear, nerth yr Hwn sydd uwchlaw pob grymmusder, o genhedlaeth i genhedlaeth byth, yr Hwn *sy'n dwyn i wared i'r bedd, ac yn dwyn i fynu*²! Pa beryglus ymddygiad yw peidio â deffroi Crist, er bod y llong yn llenwi, a bod yn aml mewn perygl o foddi ; peidio â meddwl am Dduw, nes y bo arnom angen am dano ; peidio â dechreu byw'n iawn, nes y byddom ar farw ; peidio â galw'r prif amser hwnnw i gof, nes clywed yr udgorn yn seinio³, nes y gwelom y beddau'n agor, y ddaear yn fflamio, y nefoedd yn toddi⁴, y farn yn nesâu, a'r Barnwr gyd â'i holl angylion yn dyfod ar y cymmylau i gyhoeddi'r ddedryd olaf ar bob cnawd⁵, yr hon a fydd i rai yn wae! yn wae! pan lefant ar y mynyddoedd i'w cuddio⁶, gan ddymuned, o wir warth am eu pechodau, ymguddio, pe bai bosibl, yn nhân uffern! Od oes gennym ddim ofn, dylai hyn godi ofn arnom ; od oes gennym ddim cof, dylai hyn beri i ni gofio'n bryderus am ein marwolaeth.
Deallwch hyn yn awr, y rhai ydych yn anghofio

² 1 Sam. ii. 6.³ 1 Thes. iv. 16, a Ioan v. 25.⁴ 2 Petr iii. 10.⁵ Mat. xvi. 27, a xxv. 41.⁶ Dat. vi. 16.

*Duw, rhag i mi eich rhwygo, ac na byddo gwaredydd*⁷, ebe'r prophwyd.

Matter o ddifawr bwys yw iachawdwriaeth! Beth a ddysg ein Ceidwad Crist i'w ddisgyblion ac i ninnau oll yn nammeg y deng morwyn⁸, a dammeg y gweision effro⁹, namyn bod i ni fod yn wir ofalus mewn achos o gymmaint pwysfawrowgrwydd? Ac y mae gennym ni, yn yr oes bechadurus hon, gymmaint o achos i ofalu felly ag a fu gan neb eriôd îs entrych awyr.

Pan ddywedodd Duw *mai aml oedd drygioni dyn ar y ddaear*¹, yr oedd yn amser i Noah ddarparu arch i'w achub ei hun. Pan unwaith yr esgynodd llef Sodom i'r nefoedd, yr oedd yn llawn bryd i Lot feddwl am ddiângc i'r mynydd². Pan y mae'r byd hwn, yn awr ar ol llawer ymgyrch o gynnen ac ymryson, yn dechreu segur-gellwair â phob gwag fympwy, gallwn gasglu mewn rhan, oddi wrth yr arwyddion clasaidd hyn, i ba le y mae'n tynnu; a dyweddyd, O Dduw nef, helpa'r byd hwn, canys y mae'n llesg ac eiddil yn wir!

Nid dyddiau i fyw'n ddiofal ynddynt yw'r dyddiau hyn; ond mae'n bryd, ydyw, yn llawn bryd, i bob dyn ddiwygio ei gymmydog, fel y trugarhâo Duw wrthym oll.

⁷ Ps. l. 22.

⁸ Mat. xxv. 3.

⁹ Luc xii. 37.

¹ Gen. vi. 5.

² Gen. xix. 14.

Onid oes gennym esampl oddi wrth y rhai a hepiasant hyd ddyfodiad y priod-fab, mai nid pob rhyw guriad ar y drws a rydd i ni hawl i fyned i mewn³? Ac onid yw esampl Esau, yr hwn a wylodd am y fendith pan ydoedd ry ddiweddar, yn dangos mai nid pob uchenaid sy'n rhoi iawn am ein pechodau⁴? Gwirionedd dilys yw hyn; gan hynny rhaid i ni edrych atti mewn pryd.

Lle y syrth y pren, yno y bydd efe⁵. “Fel y gadawo dydd olaf ein hoes ni,” medd St. Awstin, “felly y caiff y farn ni,” Esgeulusones ydoedd yn rhy ddiweddar, oedd ffolineb y rhai a foddyd er ys talm yn y diluw⁶. Ymorol am olud ac esmwythyd yn unig, oedd bydol ddoethineb yr hwn a orfu ffarwelio'n ddisywmwth â'r naill a'r llall, pan gymmerwyd ei enaid oddi arno y nos honno, er ei waethaf⁷. Oedi'r cwbl hyd y munud olaf, heb fyth goffa'n grefyddol am ein diwedd, yw effaith yr yspryd drwg hwnnw a elwir diogelwch cnawdol; ac *nid d y rhywogaeth hyn allan, ond trwy weddi ac ym-pryd*⁸.

³ Mat. 25. 11.

⁴ Gen. xxvii. 38.

⁵ Preg. xi. 3.

⁶ Gen. vii. 21.

⁷ Luc xii. 20.

⁸ Mat. xvii. 21.

PENNOD III.

Reitied yw i bob Cristion o ddyn fyfyrio'n ddwys am ei ddiwedd.

YN holl rediad bywyd y Cristion, nid oes un rhan o hono yn fwy nefolaidd na'r hon a dreuliwn mewn defosiynol fyfyrdod : ac nid oes dim testun i'r defosiynol fyfyrdod hwn yn fwy perthynasol i gyflwr dyn na mynuch feddylied am ein diwedd, yn yr hwn y mae'n gynnwysedig ganolbwyt ein holl ddymundiadau, cynhauf ein holl lafur, a'n sicr a'n dedwyddaf orphwysdra byth. Mor angenrheidiol yw ynte i bob dyn ymddidoli weithiau oddi wrth drafferthion y byd hwn, i gael seibiant i feddwl am Dduw¹, ac i alw ynghyd ei feddyliau goreu i ymgynghori am helynt ei enaid : prawf a dangosiad o hyn yw'r amryw effeithiau manteisiol a ddeilliant i ni o hynny ; canys pwy sydd a'r na's gwna, gyd â Hezeciah, drefnu ei dŷ, ei fuchedd, ei enaid, a'i gwbl oll, ar ol i gennadwri'r prophwyd unwaith gyrraedd y galon,—Hezeciah, yn awr Duw a'th helpio ! nid wyt ti mwy yn ddyn i'r byd hwn ; prysura i ymadael ; *canys marw fyddi, ac ni byddi byw²!* Pwy sydd a'r nad eistedd i lawr i edrych dros ei gyfrifon

¹ Vacare Deo.

² Esay xxxviii. 1.

cyn iddo redeg yn rhy bell i ddyled, pan feddylio o ddifrif y caiff cyn hir glywed llais ei Feistr yn ei rybuddio allan o'i swydd, *Ni elli fod mwyn yn oruchwylwr*³.

Mae dywediad y gwr doeth yn datgan yn fyr fel y mae'r fath adgoffâd a hwn yn gyffredin yn peri i ni fod yn ddiesgeulus i hwyliau ein holl fuchedd yn iawn, yn enwedig pan ddelo temtasiwn : *Fy mab, eb efe, yn dy holl eiriau meddwl am dy ddiwedd; ac ni phechi di byth*⁴. Pe suddai'r coffa hwn i'r galon, (yn lle swnio yn y glust yn unig, fel tonau peroriaeth,) fe weithiai well effeithiau ar y byd nag y mae'n arferol o wneuthur. Pe byddai i'r cybyddion, y rhai y mae yspryd tyrru golud wedi eu meddiannu, ac ydynt, fel y wadd a'r morgrugyn, bob amser yn turio yn y pridd; pe byddai i'r beilchion, y rhai, fel gormeswyr, a ddiystyrant yn watworllyd y rhai sydd islaw iddynt, y rhai a wnaed o'r un clai a hwythau; pe byddai i'r rhai hyn ystyried yn sobr y byddant ryw ddiwrnod yn dywarchen o bridd, pan y gofala angau, fel chwiliedydd gwladol, na chânt ddwyn dim ymaith gyd â hwynt, pan fo eu golygon uchel hyn wedi cael eu gostwng, a'u holl ogoniant dan gwmmwl; yna fe wnai rhyw feddwl da i'r perwyl hwn iddynt ddywedyd, fel Naaman y Syriad, *Yn y peth hyn*

³ Luc xvi. 2.

⁴ Eccles. vii. 36.

yr Arglwydd a faddeuo i ni⁵, nad ydym yn meddwl yn amlach am ein diwedd.

A wnai rhyw Amnon gyflawni'n rhydd yngolwg Duw, yr hyn y byddai arno gy-wilydd ei wneuthur yngwydd y gwaelf o'i greaduriaid⁶; a wnai rhyw Ahab orthrymmu a niweidio Nabothiaid truain⁷, pe cofiai nad yw efe ei hun ond *alltud, fel ei holl dadau*⁸; ac y rhaid iddo, ar ol ei ddrwg fuchedd, fyned i roi cyfrif am y cwbl, pan gaiff y galon deimlo llawer dirdyniad arteithiol am gynnyg camwri i neb, a phan fo'r camweddau yn gorwedd ar yr enaid cyn drymmed a'r plwm?

Ein Harglwydd, i rag-rybuddio gwrthgil-wyr, a ddywedodd, *Cofiwch wraig Lot*⁹: felly gellir dywedyd, i rybuddio pob gor-thrymmwr, *Cofiwch winllan Naboth druan*. Galw i gof bod y byd hwn a'i rwysg yn myned heibio mor gyflym, ein bod heddyw yma, ac y foru yn nhragwyddoldeb,— byddai hyn, pe na bai ddim arall, gyd â dynion o alluoedd rhesymmol, yn ddigon, o'i iawn ystyried, i'w cadw o fewn terfynau buchedd Gristionogol a chydwybodol. Ond gan nad ydys yn ystyried hyn, mae lliaws o ddynion yn byw fel pe na bai ganddynt eneidiau i'w hachub. Y cyfryw ydyw af-

⁵ 2 Bren. v. 18.

⁶ 2 Sam. xiii. 19.

⁷ 1 Bren. xxi. 9.

⁸ Ps. xxxix. 12.

⁹ Luc xvii. 32.

lwydd ein hamser ni ; ond nid felly yr oedd o'r dechreuad.

Yr oedd y patriarchiaid duwiol, wrth brynu dim tir ond digon o le i gladdu'r marw ynddo, yn dangos yn hyspys i'r sawl a ddelai ar ol, mor feddylgar oeddynt hwy am farwoldeb eu cyflwr. Mae cân Moses, sef y ddegfed Psalm a phedwar ugain, yr hon y dywed yr hen dadau y byddai pobl Dduw yn ei harfer yn ffurf o weddi feunyddiol, yn yr hon hefyd y cydnabyddir breuolder dyn, ac y cynhwysir y deisyfiad effeithiol hwn, *Dysg i ni gyfrif ein dyddiau*¹; mae'r gân hon, meddaf, yn dangos i ni gyd â pha ddefosiwn y byddai'r ffyddloniaid gynt yn cofio'n feunyddiol am eu diwedd. Ond pa le heddyw y mae gofal yr enwog batriarch Abraham, yr hwn a gyffesodd nad oedd efe ond *llwch a lludw*²?—a Job, yr hwn oedd *yn disgwyl holl ddyddiau ei filwriaeth, hyd oni ddelai ei gyfnewidiad*³?—a Dafydd frenhin, yr hwn ni wnaeth amgen cyfrif o hono ei hun na'i fod yn ymdeithydd ym mhllith dynion, ac yn *alltud, fel ei holl dadau*⁴?—a'r Apostol St. Petr, yr hwn nid oedd yn cyfrif ei arhosiad yma ond fel trigias mewn *tabernacl*, *yr hwn yr oedd ar fyr i'w roi heibio*⁵? I ryfelwyr a phererinion yn unig yr oedd tabernaclau, i ddangos

¹ Ps. xc. 12.

² Gen. xviii. 27.

³ Job xiv. 14.

⁴ Ps. xxxix. 12.

⁵ 2 Petr i. 13.

nad ydym, tra yn y corph, ond dynion yn barod i fudo ymaith. A gallwn oddi wrth hyn yn hawdd ganfod mor bell ydoedd y saint hyn oddi wrth osod eu gorhwysle ar y ddaear hon.

Ym mhllith y paganiaid, pan fyddid yn coroni'r ymherawdwyr, dangosid iddynt feddau'r meirw; a gofynid iddynt pa fedd a ddymunent hwy ei gael; a dygid ar gof iddynt felly nad oedd wiw iddynt hwythau ddisgwyl amgen na chael rhyw fedd cyffelyb cyn hir. Hen seintiau a gweision Duw, y rhai oeddynt yn byw mewn ffarweliad gwas-tadol â'r byd hwn, fel marsiandwyr yn meddwl yn barhâus am eu dychweliad i'w gwlad eu hunain, a ymdrechent gael trysor trwy *filiau* derbyniadol, lle y dymunent aros a byw yn dragwyd.

Yr oedd Jacob yn ofalus yn ei daith i Haran; cysgodd Jacob, a dangosodd Duw iddo'r noswaith honno ysgol, â'i phen uchaf yn cyrhaeddyd i'r nef⁶. Wel, Jacob; dyna'r daith y dylit ti a phob pererin arall fod yn ofalus am ei cherdded mewn gwirionedd: Hyd yn nod y philosophydion, y rhai ni's medrent ddim gweled ym mhellach na chym-mylau rheswm dynol, a allent ddywedyd, wrth ganfod tuedd a rhediad diffygiol natur dyn, "Pa beth a ddylai bywyd y doeth

⁶ Gen. xxviii. 12.

fod, namyn myfyrdod gwastadol am angau?"

Byddai dda i ddyn, er mwyn ymarferyd y coffadwriaeth myfyriol hwn am ei gyflwr, pe cadwai gofrestr, a nodi'n aml wrth eu henwau, gynnifer o esgobion parchedig, o gyng-horiaid urddasol, rhyfelwyr teilwng, a gwyr cyhoeddus eraill, ac hefyd gynnifer o'i gyfeillion agosaf ei hun, ag y gwyr efe eu bod yn fyw ac yn iach o fewn yr ychydig flynyddoedd diweddaf, ynghyd â'u gweinidogion a'u cydnabod,—a dywedyd wrtho ei hun, Arglywydd daionus! onid ydynt wedi meirw a phydru? onid ydynt oll wedi myned, a bron fel pe na buasent eriôed? a pha ham y gwna dynion gymaint cyfrif o fyd mor drangc-edig a hwn?

Drachefn; pa fodion mwy effeithiol i ni allu ysgwyd ymaith ddeniadau'r fuchedd hon, fel yr ysgydwedd Paul y wiber i'r tân', na rhyw fyfyrdod crefyddol fel hyn am ein diwedd? Nid mewn un man ond yn nhŷ'r crochenydd⁸ y mynnai'r Hollalluog ddangos i'r prophwyd Jeremi gyflwr dirmygwyr ei air Ef, i arwyddoccâu mai dyna'r pryd yr ydym ddysgediccaf, pan ystyriom yn oreu freuolder ein cyflwr.

Ni's gallai'r gwr doeth lai na synnu fod neb yn ymchwyddo gan falchder, ac ystyried

⁷ Act. xxviii. 5.

⁸ Jer. xviii. 2, 3.

beth ydoedd ; *Pa ham y mae pridd a lludw yn falch?* eb efe⁹ : megis pe na byddem ni na'n rhwysg ronyn gwell na'r pridd yr ydym yn sengi arno. Syndod ein bod yn ymddyrrchafu, a'n cyflwr mor wael a gwagsaw ! Rhyfedd mor eiddil yw'r sail y safwn arni, a'n bod ni er hynny heb na choffa nac ystyriaeth yngylch y matter ! Os rhaid i ni gael bod yn uchelfrydig, O na roddem ein bryd ar bethau nefol, *y pethau sydd uchod*¹.

Anghenraíd yw i ni ystyried y diwedd a raid ddigwydd i ni, pe byddai yn unig ond oblegid yr ordeiniad sy'n sefyll, fel cyfraith y Mediaid a'r Persiaid, yn ddigynfwriad, *Gosodwyd i ddynion farw unwaith*. Byddai hyn o hono ei hun yn ddigon i dafu cwmmwl ar ddifyrrwch hyfrytaff plant dynion ; ond, *Ac wedi hynny bod barn*² ; mae rhyw beth ychwaneg ar ol marw ; mae dydd barn i ddyfod : pe cymmerai'r ystyriaeth hon unwaith feddiant ar galon dyn, ni byddai mwy eisiau cospedigaethau gwladol i ddychrynu plant dynion a'u gwyniau, y rhai ydynt yn awr, trwy rysedd annuwioldeb, mor bell o'u lle.

Bydd y ceiliog, medd un, pan y bo'n ofni'r eryr a'r hebog, yn cadw un llygad ar ei fwyd, ac yn cyfeirio'r llygad arall i'r awyr i wylled. Felly bydd y duwiol gwyliadwrus,

⁹ Eccles. x. 9.

¹ Col. iii. 2.

² Heb. ix. 27.

gan ddarparu pethau angenrheidiol ym mlaen llaw, yn edrych am yr eryr, sef dyfodiad Crist yn yr awyr i farn; ac yn disgwyl hefyd am yr hebog, sef angau, a elwir Rapax, am ei fod yn rheibio ac yn ysglyfio pob peth.

Dywed Cassian, hen awdwr, fod cofio am farwolaeth yn aml yn attal dyn rhag drygion; ac y byddai'r Aiphtiaid, wrth ganfod hynny, yn tybied fod cario delw angau, yn ysgwyd ac yn crynu, ar eu huchel-wyliau, yn foddion rhagorol i annog yr edrychhwyr i sobrwydd³. Y canwriad yn yr Efengyl, yr hwn oedd wrth natur ym mhell oddi wrth gydnabod Iachawdwr y byd, wrth weled llen y deml yn rhwygo, y ddaear yn crynu, y creigiau'n hollti, a'r nef yn ddu mewn galar-wisg, a'r beddau wedi hynny'n agoryd, a chyrrph y saint yn codi o honiynt, a gyn-hyrfwyd gan y drychau hyn o farwolaeth ac ymddattodiad i ddwyn y dystiolaeth hon, *Yn wir, Mab Duw oedd y dyn hwn*⁴. Wrth weled ynte fod o'r ystyriaeth hon gryfed an-nogaethau yn codi i gyfarwyddo ein ffyrdd yn dduwiol a gochelgar, pe gwelem weithiau yn ein myfyrdodau y march gwelblas, a'r hwn sydd yn eistedd arno, enw'r hwn yw Marwolaeth⁵, parai hyn i ni fathru dan draed lawer o achlysuron deniadol, a thyn-

³ Cass. Col. 18.

⁴ Matt. xxvii. 54.

⁵ Dat. vi. 8.

nu'n ol rhag dilyn llawer hudoliaeth ofer i bechu.

Mynnai yr Yspryd Glân, wrth gyffelybu cyflwr dyn i *wellt*, i *gysgod*, i *fwg*, i *darth*, i *flodeuyn*, pethau cyn fyrred eu parhâd, awgrymmu i ni reited yw ystyriaeth am anwadalwch a chyfnewidioldeb ein sefyllfa ddaearol⁶. Defnyddiodd yr Apostol St. Petr, wrth ysgrifenu at yr Iuddewon gwasgaredig a'r dychweledigion Cristionogol, i'r diben o'u tynnu oddi ar chwantau cnawdol, y rheswm hwn fel un cryf ac effeithiol; *Yr wyf yn attolwg i chwi*, medd efe, *fel dieithriaid a phererinion'*; fel pes dywedasai, Gan nad ydych ond teithwyr yn y byd hwn, na roddwch eich bryd ar chwantau cnawdol, abwydion Satan, a gwenwyn eich eneidiau; ymgewdwch rhagddynt, ffowch oddi wrthynt.

Arfer dieithriaid yw peidio ymyrraeth â llawer o fatterion, yn enwedig rhai peryglus; a chofio, fel dynion doeth gochelgar, nad ydynt ond ar eu taith i gartrefle mwy parhaol, lle y maent i breswylio'n wastadol. "Gan hynny," medd St. Awstin, "na fyfyr-iwn am ddim yn y fuchedd hon yn fwy nag am ein pererindod, mai nid yma yr ydym i fod byth; ond ymbarottôwn yn hytrach i fyned i'r lle hwnnw o'r hwn ni raid i ni byth ymadael, ac yn yr hwn y cawn drigfod ddî-

⁶ Ps. cxliv. 4. Job vii. 7. Iago i. 11.

⁷ 1 Petr ii. 11.

anwadal, yn oes oesoedd⁸.” Ac ebe St. Jerom, “ Y neb sy’n cofio y rhaid iddo farw, mae fyth yn prysuro at bethau i ddyfod, heb roi fawr o’i fryd ar bethau presennol ; ac y mae gelyn dyn, wrth ganfod hyn, yn ceisio ein llithio â’i holl egni oddi wrth fynych feddwl am angau, yn bennaf trwy ddeniadau pleserus gwagedd hudoliaethus⁹.

Dywedir y bydd yr heliwr, pan fo’n hela cenaw y *tiger*, (ac ni bydd gan y *tiger* ond un cenaw ar unwaith,) yn gosod drychau yn y lleoedd y bydd hi’n debyg o gerdded wrth chwilio am ei chenaw, yr hwn y mae hi, wrth grwydro, rai gweithiau yn ei golli ; ac wrth weled ei hwyneb yn y drych, mae hi’n rhoi heibio chwilio, ac yn colli ei chenaw. Felly’r hen elyn diafol, wrth ganfod diwydrwydd dyn ynghadwedigaeth ei *unig* a’i anwyl enaid, mae’n ceisio, trwy lawer o ymddangosiadau hudol, beri i ni lwyd esgeuluso’r pryder crefyddol hwn, a rhoi ein bryd ar ryw wag ddifyrrwch am gyhyd o amser nes llwyr anghofio o honom beth yw’r gwaith sy gennym mewn llaw, ac felly peryglu’r hyn a

* Nihil aliud in hac vita peregrinationis nostræ meditetur, nisi quia hic non semper erimus, et ibi locum bene vivendo præparabimus, unde nunquam migrabimus.—*Aug. 31. Tractat. in Joan.*

⁹ Qui quotidie recordatur se esse moriturum, contentum præsentia, et ad futura festinat.—*Hier. ad Paul.*

eilw'r prophwyd yn beth *gwerthfawr*, sef *pryniad yr enaid*¹.

Ond y Cristion gwyliadwrus, gan wybod mor enbyd yw i'r aderyn ymddigrifo ym mysg hoenynnau a rhwydau'r adarwr, ni rydd ei feddylfryd ar y drygau hudol hyn, ond efe a esgyn fry ar adenydd myfyrdod, gan feddylied am lawenydd y nef, poenau uffern, ei angau ei hun, ac angau Mab Duw dros ein hiachawdwriaeth ni oll; ac fel Daniel, y mae'n taenu lludw, sef meddyliau am ei gyflwr daearol, er mwyn canfod ynddo ôl traed angau, yr hwn sy'n cerdded yn lladradaidd, ac yn bwytta ac yn ysu parhâd ein hoes² :—neu fel llong-lywydd celfyddgar, yr hwn sy'n aml yn eistedd wrth y llyw, ac yn edrych i fynu at y ser a'r planedau, ac felly'n ymgadw rhag llawer craig a thraethell beryglus, fel y dyger ef trwy hynny gan deg awelon Glân Yspryd Duw i borthladd yr orphwysfa dragywyddol.

Nid oes neb gweision yn defnyddio talentau eu Harglwydd yn drefnusach na'r rhai sy bob amser yn ofni iddo ddychwelyd adref yn ddisymmwth³. Nid oes un perchen tŷ yn ddiogelach na'r hwn sydd ar bob gwyliadwriaeth yn disgwyl i'r lladron ddyfod i mewn⁴. Pan fo gair y prophwyd Esay wrth Hezeciah

¹ Ps. xlix. 8.

² Luc xii. 38.

³ Histori Bèl a'r Ddraig.

⁴ Mat. xxiv. 43.

yn ein galw o'r byd, gan ddywedyd yn ddis-taw yn ein clust, *Marw fyddi*⁵, fe'n gwna ni'n edifarus am yr amser a aeth heibio, ac yn ochelgar am yr amser i ddyfod, gan beri i ofn Duw feistroli mwy arnom yn ein cyflwr a'n cyfansoddiad naturiol ac eiddil hwn.

Arferiad cyfaddas gan hynny yw myfyrio am ein diwedd wrth orwedd yn ein gwely, yr hwn sy gyffelybiaeth o'r beddrod; ac wrth godi o hono, yr hyn sy'n adgoffa i ni adgy-fodiad llawen; gwneuthur yr adgoffiad hwn yn agoriad i agor dorau'r dydd ac i gau drws y nos, sydd arferiad gwiw a gweddus; a buan y cawn weled y lles o hyn, trwy'r aml effeithiau daionus a ddilynant. Wedi marw Sarah, aeth Isaac *allan i fyfyrion*⁶: wedi colli Sara, efe a gyfarfu â Rebecca. Felly'r ydym ninnau weithiau'n colli cysur daearol, ond wrth fyned allan i fyfyrion grefyddol am raggeroldeb Duw a'n breuolder ein hunain, yn cyfarfod â Rebecca, sef diddanwch gwell, hynny ydyw, un nefol.

⁵ *Esay xxxviii. 1.*

⁶ *Gen. xxiv. 63.*

PENNOD IV.

*Yn yr hon y dangosir y gall cyflwr y fuchedd hon yn
gyfawn ein hannog i'r ystyriaeth yma.*

Ym mysg yr amryw resymmau a ddylent ein
hannog i gofio'n grefyddol am ein diwedd,
nid oes yr un yn fwy effeithiol nag ystyriaeth
ddyledus am ein cyflwr presennol. Canys
beth yw ein heinioes ond cicaion Jonah, yn
tyfu'n ddisymmwth i fynu, ac yn ebrwydd
yn gwywo ac yn diflannu¹? beth ydyw,
namyn pererindod Jacob, dyddiau yr hwn
oeddynt *ychydig a drwg*²? Beth yw ein
holl ogoniant ond megis gweledigaethau Es-
dras, yn hardd i edrych arnynt, ond yn myned
o'r golwg mewn munud awr³? neu megis
delw Nebuchodonosor, â'i phen o aur, a'i
dwyfron a'i breichiau o arian, ac etto un
ergyd carreg o'r mynydd yn ei chwalu oll i
ddinystri⁴?

Oni ellir dywedyd am y rhwysg golygus a'r
holl ymddangosiadau mwyaf gogoned a ry-
feddir gymaint gan ddynion, megis y dy-
wedodd Crist am adeiladau'r deml, *A weli di
yr adeiladau mawrion hyn? ni edir maen ar
faen a'r ni's dattodir*⁵: megis pe mai prin y

¹ Jonah iv. 6.

² Gen. xlvi. 9.

³ 2 Esdras viii.

⁴ Dan. ii. 32.

⁵ Marc xiii. 2.

gadewid na chof na chrybwyll am yr un o honynnt. A thu ag at am glod dynion, onid yw'n debyg i'r mwg, yr hwn po uchaf yr esgyno, cyntaf y diflanna? A thu ag at am brydferthwch corphorol, tippyn o glefyd a andwya ei holl harddwch. Oh anwadalwch pob gogoniant bydol! ei holl rwysg a'i rysedd a ddiflanna, ac a ddiddymmir, fel pe na buasai eriôed. Aeth rhyw ddyn at fedd Alexander Fawr, ac a welodd yno'n gladdedig, o fewn cylch saith droedfedd, yr hwn nad oedd byd cyfan ddim yn ddigon ganddo: gallasai ddywedyd yn gyfawn, Ai dyma ymherawdwr y byd! ai dyma brif frenhin ei oes! O dydi fydd, mor anheilwng wyt o'n serchiadau!

Nid ydym yn y tyddyn clai hwn ond tenantiaid wrth ewyllys; nid yw sail yr holl adeilad ond sylwedd bychan bach, a'r awyr yn wastadol yn myned trwyddo i'w gadw'n oer: nid yw'r golofn ar yr hon y mae ei holl gyfansoddiad yn sefyll ddim ond llwybr ychydig o anadl; ei gryfder yw ychydig esgyrn wedi eu cyllymmu ynghyd â llinynnau sychion o gyhyrau: pa fodd bynnag y trwsion ac yr adgyweiriom y bwthyn tlodaidd hwn, efe a syrth o'r diwedd i ddwylaw'r Arglwydd; a rhaid i ni fudo o hono pan ddywedo angau wrthym, *Mae dy amser di wedi dyfod i ben.*

Yn gyntaf, yr ydym ni yn galaru am

eraill ; ar ol ychydig wedi, galara eraill am danom ninnau. Yn awr yr ydym ni yn llenwi lleoedd a swyddi ac etifeddiaethau y rhai oeddynt o'n blaen ; cyn hir, bydd eraill yn dyfod yn ein lle ninnau, i reoli lle'r ydym ni'n rheoli, i feistroli lle'r ydym ni'n meistroli, ac i seddiannu'r cwbl ag a heliasom ni yng'hŷd gyd â gofal, ac ydym yn ei gadw gyd âg ofn, ac a adâwn o'r diwedd gyd â galar. Gallwn weled wrth hyn mai nid i adeiladu tai, neu i brynu tir, neu i gydio maes wrth faes, y daethom i'r byd hwn ; ond yn hytrach dygir ar gof i ni, trwy fyrdra ein parhâd ynddo, y dylai y pethau amserol hyn fod gennym yn unig *mewn defnydd*, ond pethau tragicwyddol *mewn dynuniad*; a bod i ni *arfer y byd hwn*, *megis heb ei gam-arfer*⁶, ac felly ymadael i fyd arall.

At fyr barhâd bywyd, gellir ychwanegu ei drueni : canys nid bywyd yw'r cwbl ag yr ydym ni yn ei fyw yma. Pan ddywedodd Job, *Dyn a aned o wraig sy fyr o ddyddiau*, mae'n dangos yn union-gyrchol y tralod sydd ynglŷn â hwynt, gan ychwanegu, *a llawn o helbul'*. Obliged hyn galwai'r Groegiaid y dydd cyntaf o oes dyn wrth yr enw *Dechreuad ymgyrchiadau*. Yr ydym yn dyfod i fywyd, ac yn myned allan o hono,

⁶ 1 Cor. vii. 31.

⁷ Job xiv. 1.

gyd âg arwyddion o dristyd. Mae dyn ar ei ddyfodiad cyntaf i'r byd, ebe St. Awstin, yn faban tyner; ac er na all siarad, mae trwy ddagrau yn prophwydo am y trallodion a ddigwyddant ym mywyd dyn⁸.

Deuwn yn awr i son am ein hadenedigaeth trwy ras. Onid ydym yn ein bedydd yn cymmeryd arian ernes i ymladd brwydr dan faner Crist ein Capten? “Ac ni raid i ti mo'r meddwl,” ebe St. Awstin, “nad oes i ti rysfela yn erbyn lliaws o elynion, canys bid hyspys i ti y rysfela lliaws o elynion yn dy erbyn di⁹. ” Darlunia Cyprian y rhyfel hwn fel yma: “Os bydd i ti, O ddyn, orthrechu cybydd-dod, fe ruthra rhyw nwyd arall i'th erbyn; os tagi di y nwyd honno, cais gwag-ogoniant dy lithio; os dirmygi di wag-ogoniant, cais llid a dialgarwch dy danio; os llonyddir y llid, yna chwydda balchder di; os gostyngi'r balchder, bydd rhyw elyn arall yn sier o ymosod arnat¹. ” Fel pe na bai holl fywyd dyn yn ddim amgen na hifio a haccio'n barhâus bennau'r hen sarph, sef pechod, y rhai ydynt yn tyfu o'r newydd er eu torri ymaith, fel pennau'r sarph *hydra* gynt. *Y gelyn diweddaf a ddinystir yw'r angau*²; yr hyn sy'n dangos y bydd ein gelynion yn ddiddiwedd, hyd nes y delo

⁸ Nondum loquitur, et tamen prophetat.

⁹ Aug. de Pug. Animæ.

¹ Cyprian de Mor.

² 1 Cor. xv. 26.

angau, a gorphen ei waith. *Mi a glywais lais o'r nef*, ebe St. Ioan, *yn dywedyd, Gwŷn-fydedig yw y meirw, y rhai sydd yn marw yn yr Arglwydd; canys y maent yn gorhwys oddi wrth eu llafur*³: canys nid yw'r saint yn gorhwys, hyd nes y byddo gorhwysfa a gwŷnfyd yn cyd-gyfarfod â'u gilydd.

Yn y byd hwn, y cnawd yw'r maes ar yr hwn y rhaid i ni lafurio'n ddibaid. Pechod yw'r Jebusiad, yr hwn sy fyth yn ein haf-lonyddu. Y byd yw llysfam plant Duw, ac sy fyth yn eu dwrddio. Gorthrymderau yw'r dyfroedd lle mae ein Gideon yn ein profi, a ydym yn filwyr cymmwys i ymladd ei ryfel Ef ai peidio⁴.

Yr ydym yn darllen fod yr Israeliaid yn tuchan llawer yn yr anialwch⁵, gan dybied, ar ol cael eu gwared o'r Aipht, y caent bob peth yn felus ac wrth eu bodd: ond siom-mwyd hwy; canys y mae Duw yn cadw'r melusdra nes y delom i wlad yr addewid. Ni wiw i ni ddisgwyl cael ein dedwyddyd yma; mae Duw yn cadw hwnnw nes y delom i'r Ganaan nefol. Yr ydym yma bob dydd yn casglu manna; ond pan ddelo'r Sabbath parhâus, ni raid i ni gasglu mwy. Rhoes Joseph luniaeth i'w frodyr ar y ffordd; ond cadwyd y sachau llawnion, nes y cyr-

³ Dat. xiv. 13.

⁴ Barn. vii. 5.
⁵ Num. xi. xvi. xxi.

haeddasant dŷ eu tad ⁶: felly nid yw Duw yn rhoi i ni yma ond prawf a rhagflas o'i ddaioni; ond cedwir y sachau llawnion yn drysoredig, nes y delom i'w deyrnas nefol Ef.

Yn y fuchedd hon, Adda, *trwy chwys dy wyneb y bwyttéi fara*; ie, *trwy lafur y bwyttéi o honi holl ddyddiau dy einioes, hyd pan ddychwelech i'r ddaear; oblegid o honi y'th gymmerwyd*⁷: megis pe na bai dyddiau dyn, o achos pechod, ond dyddiau o alar; canys y mae i bob dydd ei dristyd⁸, ac i bob nos ei dychryn⁹. Felly gwir yn hyn yw diareb yr henafaid, “Trallod, yn hytrach na bywyd, yw bywyd dyn.”

Y neb y mae iddo olud a chyfoeth, mae'n byw mewn trafferth, ac yn gorfod carcharu ei arian dan gloiau a barrau, rhag iddynt ddiengyd. Od yw'n dlawd ac anghenog, mae'n byw mewn galar, gan fod tlodi yn orthrwm ar natur dyn. Od yw mewn sefyllfa uchelfri, naill ai mae'n cynfigennu, neu ynte cynfigennir wrtho: felly nid yw prif ddedwyddyd bydolion ond annedwyddyd, a dim ond trueni rhwysgawr. Os gwrandâwn ar Augustus, er cymaint ymherawdwr yd-oedd, ni a'i clywn yn dymuno bod yn ddyn cyffredin yn hytrach na mwynhâu holl deyrnas ymherodrol y Gorllewin. Byddai

⁶ Gen. xlvi. 25.

⁸ Mat. vi. 34.

⁷ Gen. iii. 18, 19.

⁹ Ps. xci. 5.

Cyrus brenhin Persia yn dywedyd, “ Pe gwyddai dynion y pryder diderfyn sydd ynglŷn wrth goron ymherodrol, yr wyf yn tybied na wnai neb gymaint a phlygu i’w chodi i fynu oddi ar lawr.” Os oedd y gwŷr hyn, y rhai gogoneddusaf ym mhllith dynion, yn canfod mai blinder yspryd oedd eu holl rwysg, mwy o lawer y dylai enaid y Cristion benderfynu peidio â chanu ei orphwys-gân beraidd, nes y delo i gyd-uno ym mheroriaeth côr llawen saint ac angylion yn y nefoedd fry.

Mae hyfrydwch pechod yn felus fel y gwin, ar y cyntaf; ond *yn y diwedd*, fel y dywed Salomon, *efe a frath fel sarph, ac a biga fel neidr*¹. Mae pechod fel y pren rhosyn, ar yr hwn, wedi i’r blodeuyn syrthio, nid oes yn aros ond y pigau. Mae pechod fel *tragedi* ar y chwareufwrdd, yn dechreu’n floddest, ond yn terfynu’n llawn o ddychryn-feydd.

Ac yn y cyfamser, onid ydym yn gweled y pechodau eu hunain yn gwobrwyd eu dilyn-wyr â llawer o dristwch a lliaws o wendidau ac anhwylderau yn y diwedd, a bod y pechodau harddaf a thlysaf yn diweddu’n fynych mewn dygn dlodi? Oni ddywed St. Ioan *fod y byd yn myned heibio, a’i chwant hefyd*²? ac onid yw’n chwareu’r Judas â dynion, ac

¹ Diar. xxiii. 32.

² 1 Ioan ii. 17.

yn eu bradychu i Satan, gan ddywedyd wrtho, Satan, yr hwn a gusanwyf, fel arwydd ffuantus o gariad, cymmer hwnnw, ac arteithia ef. Gallai hyn, debygid, fod yn ddigon i ddiddysfну dynion oddi wrth serch y byd hwn, ac i beri iddynt ddiangc gyd â Lot o Sodom, a chyd â'r saint o Babilon, (sef cariad at y byd pechadurus hwn,) rhag iddynt fod yn gyfrannogion o'r gosp sydd yn dyfod ar ei gwarthaf hi.

Yn awr i ddyfod i son ychydig am gyflwr y rhai sydd yn y byd hwn, ag y mae eu hetifeddiaeth fry; Beth yw y fuchedd hon iddynt hwy ond cefnfor o drallodau, lle y gyrrir hwy oddi amgylch gan ymchwyydd tonnau a rhyferthwy ystomydd lawer? ac maent yn teimlo fod eu mordaith hon yn llawn o chwerwder. Rhag iddynt ymbleseru gormod wrth nofio yn ol ac ym mlaen ar ddyfruedd digrifwch bydol, mae Duw yn rhoi *balast* o ryw drallod yn eu llong, fel y gwellont ychydig o gyflwr cyfeillion Duw ei Hun. Ni bu eriôed Foses na byddai rhyw Jannes a Jambres yn ei wrthwynebu³. Ni bu eriôed Joseph da, na byddai rhywraig yn nhŷ ei dad yn anhynaws wrtho⁴. Ni bu eriôed Elias, na byddai rhyw Jezebel yn ei hela⁵. Ni bu eriôed St. Paul, na byddai rhyw Alexander

³ Exod. vii. 11, a 2 Tim. iii. 8.

⁴ Gen. xxxvii. 11.

⁵ 1 Bren. xix. 2.

yn gwneuthur iddo ddrygau lawer⁶. Ni bu eriðed barchedig Athanasius, neu esgob dysgediccaf a mwyaf llafurus ei oes, na byddai rhyw sismaticiaid nwydus yn ei athrodi ar gam⁷. Rhaid i ni gan hynny ymfoddloni fod gennym elynion yn y byd hwn : nid rhyw ddamwain ddieithr ydyw hyn ; canys coelbren yr Hwn sy'n awr yn eistedd ar ddeheulaw Duw yn y nef, oedd dioddef erledigaeth ; a dywedodd ein Ceidwad wrth ei ddisgyblion ddarfod i'r hen brophwydi gynt yfed o'r un gwppan, ddarfod iddynt oll ddioddef erledigaeth⁸.

Oddi wrth y trallodion allanol hyn, gallwn ddyfod i grybwyllych ychydig am yr helbulon ag sydd o'n mewn ein hunain ; lle mae'r hen Adda, sef ein hanian lygredig, fel Agar y wasanaeth-ferch, yn llawn dirmyg tu ag at ei meistres Sarah, sef yr anian dduwiol⁹ ; lle mae'r nwydau gwrthryfelgar yn cynghreirio yn erbyn llywodraeth rheswm ; lle mae ein hewylls, fel Efa, fyth yn ein cymhell i ymgyrfaedd at y ffrwyth gwaharddedig ; lle mae pechod, fel Tarquin Falch, am ormesu a bod yn ben-llywydd parhâus arnom¹, oni bai fod yr adgenhedledig, fel dynion gwrol a dianwadal, yn ei fwrrw allan o'i frenhiniaeth. Ac nid bychan yw'r llafurus waith yr ydys yn ei

⁶ 1 Tim. i. 20. ⁷ Soc. Hist. Eccles. lib. i. cap. 20.

⁸ Mat. v. 12. ⁹ Gen. xvi. 4. ¹ Rhuf. vi. 12.

gymmeryd i ddwyn pawb yn ddeiliaid i frenhiniaeth Yspryd Duw.

Wrth fodio dynion, yr ydym yn aml yn cael mwy colled wrth anfoddio Duw ; wrth fodio Duw, (yr hyn yw'r peth goreu oll,) yr ydym yn fynych yn anfoddio dynion. Felly, pa ffordd bynnag yr edrychom, ni a welwn mai gwir a ddywed y gwr doeth ; *Blinder mawr a grëuryd i bob dyn, a iau drom sydd ar feibion dynion, o'r dydd y delont o groth eu mam, hyd y dydd y dychwelont i fam pob peth,* (sef y ddaear,) o'r hun sy'n eistedd ar deyrn-gadair gogoniant, hyd yr isel-radd, yr hun sydd yn y pridd a'r lludw². Dyma gyflwr pawb yn gyffredinol ; pechaduriaid yn cael eu cospi, meibion yn cael eu ceryddu, a'r drygionus eu hunain yn cael eu dirfawr drallodi. Y rhai a addolant y bwystfil, ebe St. Ioan, *nid ydynt yn cael gorhwysdra ddydd na nos, na'r rhai a wnant bleser cnawdol yn eilun iddynt*³.

Gwelwch pa faint o bechodau, fel cynnifer o ellyllon, sy'n arfer aflonyddu y rhai sy'n byw'n benrhydd ac aflywodraethus. Ond tu ag at am y daionus, y rhai yn unig sy'n cael eu treio a'u profi, fel Simon o Cyrene, rhaid i bob un o honiynt ymfoddloni dan ei groes i ddilyn Crist i'w deyrnas⁴. Aml yw'r hel-

² Eccles. xl. 1. 3.

³ Dat. xiv. 11.

⁴ Mat. xxvii. 32.

bulon sy'n digwydd i bawb, ond yn enwedig i'r rhai sy'n myned o dom a llaid yr Aipht i aberthu offrwm i Dduw⁵, yr Hwn a'u dwg hwynt i wlad dda, cofio am yr hon a all beri iddynt ddymuno, fel Dafydd, ar fod iddynt *adenydd megis colommen, fel yr ehedont ym-aith, ac y gorhwyysont*⁶. Gan hynny, nid ydym annedwydd os *gwelwn* hyfrydwch trangedig y fuchedd hon; ond dedwyddach ydym, os *gochelwn* hwynt; ond dedwyddaf oll, pan *gymmero Duw ni'n gwbl oddi wrthynt*, fel na bo arnom mwy y cymhelliad gorthrymmus hwn i bechu.

Mae'n rhywfaint o gysur i'r ymdeithydd ymddiddan am derfyn ei daith. Yn llawen y mae'r caethwas yn cyfrif pa faint o amser sydd hyd flwyddyn y Jubili. Gall ein pererindod blinderus a'n gorthrymmus gaethiwed hwn yn gyfiawn ein hannog i gofio'n ddwys am ein diwedd, ac i gymmeryd seibiant i *fyfyrio ar y pethau hyn*⁷, fel y dywed St. Paul.

Ni ffodd Elias ond taith diwrnod rhag Jezebel, cyn dywedyd o hono, *Digon yw; yn awr, Arglwydd, cymmer fy einioes*⁸. Mynnai yr angel i Tobit lawenychu; attebodd Tobit, *Pa lawenydd a all fod gennyf fi, a minnau'n eistedd yma mewn tywyllwch, ac heb*

⁵ Exod. viii. 25.

⁷ 1 Tim. iv. 15.

⁶ Ps. lv. 5.

⁸ 1 Bren. xix. 4.

weled llewyrch yr haul? Mynnasi'r Babiloniaid i blant Israel ganu caniad iddynt! Oh! pa ganiad a allasent ganu iddynt, a hwythau'n gaethion mor alarus¹? Yma yr ydym ninnau yn ffoi, fel Elias, rhag llawer Jezebel. Yma'r ydym yn eistedd, fel Tobit, mewn tywyllwch, heb weled y gwir oleuni sy'n tywynnu fry mewn gogoniant. Yma'r ydym, fel plant Israel yn Babilon, yn gaethion truain; pa lawenydd a all fod gennym yn nyffryn dagrau, mewn corsdir mor isel, llaith, ac afiach, fel tir helyg Euphrates? Mae'r *wlad bell* hon yn llawn angenoetid a thristwch; dim helaethrwydd, dim *cynghanedd a dawnsio*, hyd nes y dychwelom i dŷ ein Tad o wlad cibau'r moch². Tra'r ydym y tu hwn i'r Iorddonen, yr ydym ynghanol lliaws o brofedigaethau; ac, a dywedyd y gwir, ni wiw i ni ddisgwyl amgenach; ac yr ydym yn profi mai gwir yw dywediad St. Awstin, "Beth yw hir fywyd, ond hir drallod³?"

Yr ydym yn darllen am golommen Noah, ddarfod iddi, ar ei mynediad cyntaf o'r arch, fyned yn ol ac ym mlaen lawer tro; (ac iawn y gallai ehedeg yn uchel;) ond na's gallai

¹ Tobit v. 13. Mae'r adnod hon yn y Vulgate, ond nid yn y Groeg.

² Ps. cxxxvii. 4.

² Luc xv. 13. 25.

³ Quid est diu vivere, nisi diu torqueri.—August. de Ver. Dom. Serm. 70.

gael gorhwysdra nes yr agorodd Noah ffenestr yr arch, a'i derbyn i mewn yn ol⁴. Felly gall yr enaid, druan, ehedeg fry am ryw ennyd, trwy ddyrchafu aml uchenaid a deisyfiad i fynu at ei Dduw ; ac y mae Yntau o'r diwedd yn agoryd ffenestr ei arch nefol ; a dyna'r amser, ac nid cyn hynny, y mae'r enaid yn cael lle diogel i wadn ei droed i orphwysyo byth. Y dynion da hynny y dywed yr apostol St. Paul, yn yr unfed ar ddeg o'r Hebreaid, *nad oedd y byd yn deilwng o honynt, a grwydrasant mewn crwyn defaid mewn anialwch, yn gystuddiol, yn ddrwg eu cyflwr*⁵; gan eglur ddangos mai nid o'r byd hwn, lle y cawsant saled croesaw, yr oedd eu gogoniant ; a *bod eu gobaith hwy yn llawn tra gywyddoldeb*⁶, sef gobaith am wobrwy mewn amser i ddyfod.

Wrth weled ynte nad oes ond trallodion ynghyflwr y fuchedd hon, gelynion oddi fewn, gelynion o'r tu allan, peryglon ar bob llaw⁷, gall myfyrdod Cristianus am ein hymadawiad o'r byd hwn ddangos i ni y bydd pob peth yn well ryw ddydd sy ger llaw. Gan y gwelwn ynte mai pererindod yw'r fuchedd hon, na feddyliwn am barhâu'n hir yma. Na thybiwn mai ein cartref yw'r ffordd i'n cartref ; ac na ddymunwn osod i fynu ein

⁴ Gen. viii. 9.

⁶ Doeth. iii. 4.

⁵ Heb. xi. 37, 38.

⁷ 2 Cor. xi. 26.

gorphwysdra yma, lle mae mor flin ein cyflwr ; lle mae i ni gymaint o wermod, a chyn lleied o fêl ; lle mae gennym fwy o achos i ddarllen *Galarnad Jeremi* nag i ganu *Caniad Salomon*. Fel hyn y mae Duw yn dewis iddi fod, fel y gobeithiom am gartrefle arall, ac y disgwyliom am well gorphwysfa. Od yw *pob creadur yn cyd-ocheneidio*, mwy o lawer y dylai dyn, y rhagoraf o'r creaduriaid, ocheneidio, *gan ddisgwyl y mabwysiad, sef prynedigaeth ein corph*⁸, yr hwn a roddir i ni yn adgyfodiad y cyflawnion.

Pan fynnai'r prophwyd Micah ddyrchafu calonnau pruddion y bobl yn amser eu caethiwed, efe a ddygodd ar gof iddynt eu hym-adawiad, fel hyn ; *Codwch, ac ewch ymaith; canys nid dyna eich gorphwysfa*⁹. Yr un modd, i godi gronyn ar ein hysprydoedd blinedig ninnau, ynghanol ein mynchy hel-bulon, mae dyrchafiad ein calonnau, trwy fyfyrlo ar ein diangfa o'r caethiwed daearol hwn, lle mae'r enaid yngharchar, yn dwyn i'n golwg y cyflwr dedwydd sy'n dyfod, pan y cawn orphwysdra, yr hon a rydd derfyn ar ein holl symmudiadau, a gorpheniad ar ein holl lafurwaith.

⁸ Rhuf. viii. 22, 23.

⁹ Micah ii. 10.

PENNOD V.

*Y dylai ystyriaeth o'r fuchedd a ddaw ein hannog i gofio
am ein diwedd.*

MAE'N wirionedd mewn athroniaeth naturiol, y rhaid i'r sawl a fynnont weled y ser a'r planedau ganol dydd, ddisgyn yn isel iawn i ryw bydew neu ffynnon ddfn, ym mhell o oleuni y terfyngylch lle byddont yn byw. Felly rhaid i'r sawl a fynnont edrych â llygaid yr enaid ar lewyrch a gorfoledd y byd a ddaw, ymddidol ym mhell oddi wrth hoffderau a hyfrydwch y byd hwn isod. Ni chafodd y bobl archwaethu'r manna, nes ymadael â lesfain yr Aipht¹.

Tra nad oedd ein hynafiaid yn gweled ond bythod gwïail gan neb, nid oeddynt yn gofalu am well adeiladau; ond pan welsant dai mwy golygus, dechreuasant ddirmygu'r hyn oedd o'r blaen yn ddigon cymmeradwy ganddynt. Felly ninnau, tra'r ydym yn rhoi ein serch ar bethau bydol, nid ydym yn disgwyl gwell, nac yn edrych am uwch; ond pan unwaith y caffom flas ar bethau nefol, yr ydym yn dechreu anhoffi yr hyn oedd o'r blaen wrth ein bodd, a chasâu y goreu o wrthrychau ein dynuniadau blaenorol.

Gan hynny, fel yr oedd Zacchëus, tra'r

¹ Exod. xvi. 15.

ydoedd yn y dyrfa, yn sefyll ar le rhy isel i weled Crist, nes y dringodd i'r sycamor-wydden²; felly ninnau, tra ynghanol gor-mod o helyntion bydol, ydym yn rhy isel ar lawr; a rhaid i ni ddringo i'r bêr sycamor-wydden, sef myfyrdod ar bethau nefol, fel y gallom yno ac oddi yno ganfod llawenydd Israel, sef godidowgrwydd y byd a ddaw.

Cyfod, rhodia trwy'r wlad; canys i ti y rhoddaf hi³, medd Duw wrth Abraham. Ac iaith Duw wrth Ffydd ydyw, Cyfod, gwel dy etifeddiaeth nefol; dyna'r ddinas lle y cei di byth breswylio'n ddedwydd.

Bydd y morwyr, ar ol cael eu curo gan y dymmestl ar donnau peryglus y cefnfor, yn gweiddi gan lawenydd pan ganfyddont y porthladd. A llawen y gall y Cristion weled o bell, ar ol cynnifer o ystormydd y byd bwn, ei borthladd nefol a thragywyddol; a gall coffa am hyn beri i ni ddymuno, gyd â St. Paul, am gael *ymddattod, a bod gyd â Christ*⁴, ac ateb, gyd â'r saint yn llyfr y Datguddiad, i'r hwn a ddywedodd, *Yr wyf yn dyfod ar frys, a dywedyd wrtho, Yn wir tyred, Arglwydd Iesu*⁵. Yma yr ydym yn *hau mewn dagrâu*; yno mae'r man lle cawn *fedi mewn gorfoledd*⁶. Yr ydym yma yn aelodau o'r Eglwys filwriaethus, lle nad oes dim ond

² Luc xix. 3.

³ Gen. xiii. 17.

⁴ Phil. i. 23.

⁵ Dat. xxii. 20.

⁶ Ps. cxxvi. 5.

rhyfela ; cawn yno fod yn rhan o'r Eglwys fuddugoliaethus, lle nad oes dim ond gorfoleddu.

Yr oedd tabernacl a theml yr Hen Des-tament yn gysgodau o'r fuchedd hon, ac o'r bywyd a ddaw : y tabernacl, am ei fod yn symmudol, oedd debyg i gyflwr y fuchedd hon¹; a'r deml, am ei bod yn safadwy ac ansymmudol, oedd gyffelyb i fwynhâd y bywyd a ddaw². Yr Iuddewon yn unig oedd yn dyfod i ffurfio'r tabernacl ; ond yn adeiladaeth y deml, yr oedd gwyr Tyrus a Sidon, ynghyd â thrigolion Judea, sef Iuddewon a Chenhedloedd, oll yn cyd-weith-redu, megis hefyd yn y deml ysprydol, lle ni chlywir fyth swn morthwyl yn y gwaith.

O Arglwydd, ebe Dafydd, *gwŷn fyd pres-wylwyr dy dŷ*³, lle mae Mab Duw mewn gogoniant yn llewyrch i'w llygaid, yn beroriaeth i'w clustiau, yn bereidd-dra i'w genau, ac yn foddlonrwydd i'w calon ; lle y cânt ei adnabod Ef wrth ei weled, ei fwynhâu wrth ei adnabod, ei garu wrth ei fwynhâu, a derbyn dedwyddyd tragicwyddol a tragicwyddoldeb dedwydd wrth ei garu : a dyma'r gamp am yr hon yr ydym oll yn rhedeg¹, y goron am yr hon yr ydym oll yn ymladd². Mae ein holl wyllo, ein hympryddio, a'n

¹ 1 Sam. vi. 3.

¹ 1 Bren. viii. 13.

² Ps. lxxxiv. 4.

¹ 1 Cor. ix. 24.

² 2 Tim. iv. 7.

gweddio, yn debyg i waith Jacob yn ym-drechu â'r angel ; *Ni'th oll yngaf, oni'm bendithi*³, eb efe wrtho.

Mae pob peth mewn natur yn gofyn perffeithrwydd : dywedir nad yw'r nefoedd, am eu bod yn ysgogi'n barhâus, na'r angylion, am eu bod fyth yn esgyn ac yn disgyn, ddim wedi cyrraedd eu llawn berffeithrwydd ; na dyn yn enwedig, yn symmudiadau y fuchedd helbulus hon, nes y cyrhaeddo gyflawniad ei holl obaith. Os oedd yr Apostol, er ei gipio i fynu i'r drydedd nef, a gweled yno ran o'r gwŷnfyd hwn, yn analluog i ddatgan ei ardderchowgrwydd ef, rhag mor uchel gwrthrych ydoedd, (a pho mwyaf y meddyliai am dano, mwyaf ydoedd yn ei ryfeddu,) etto gallai ddywedyd cymaint â hyn, *Ni welodd llygad, ac ni chlywodd clust, ac ni ddaeth i galon dyn, y pethau a ddarparodd Duw i'r rhai a'i carant Ef*⁴. Er cyrraedd mor bell ag y gall deall dynol gyrraedd, nid yw'r cwbl yn gyfatterbol i'r hyn ydyw'r gwŷnfyd hwn mewn gwirionedd ; canys am bethau annherfynol ni's gall ein syniadau fod ond annherfynol.

Codi ein llygaid at belydr disgleiriol gonganiant Duw, lle mae llygaid yr eryr cryfaf ei olygon yn rhy weiniaid i syllu ; myned i mewn i ddyfnder ei ragoroldeb Ef, lle gall camel suddo ; a gall byrder cyrhaeddiad

³ Gen. xxxii. 26.

⁴ 1 Cor. ii. 9.

rheswm dynol beri i ni lefain, fel yr Apostol,
*Oh ddyfnder golud doethineb a gwybodaeth Duw*⁵! Y rhai a ddeuant at y cefnfor, cânt ddigonedd o ddwfr, er dyfod wrth y miliynau, i gymmeryd bawb lonaid ei law o hono. Er y byddo tyrfa na's gall tafod ei rhifo, etto mae gan Dduw ddigon o goronau i'w pennau oll, a phalmwydd i'w dwylaw, pan gânt ddi-lyn yr Oen i ba le bynnag yr elo, a gorphwys ar fynydd Sion, ac eistedd a theyrnasu gyd âg Ef⁶.

“Os gofynwch,” ebe Lactantius, “i ba beth y gwnaeth Duw y byd, attebaf, er mwyn crêu dyn; os gofynwch i ba beth y crêwyd dyn, attebaf, i addoli ei Greawdwr; os gofynwch etto, pa ham y dylai dyn addoli ei Greawdwr, attebaf, fel y gwobrwyer ef ganddo⁷. ” *Arglywydd, beth yw dyn pan gydnabyddit ef? neu fab dyn, pan uneit gyfrif o hono?*⁸ Wele, dyma ymysgaroedd trugareddau Duw, yr Hwn nid oedd dim ond ei drugaredd yn achos o'i drugaredd, ac unig ddiben yr Hwn oedd ei ogoniant ei Hun a'n llesâd ninnau, yr hyn a elwir yn *wobr mawr iawn*⁹. Yn hyn nid oes dim diwedd ar ei ddaioni, dim rhif ar ei dosturiaethau, dim mesur ar ei ddoethineb, dim gwaelod i'w haelioni. Fel hyn y mae Duw yn ymddwyn fel Duw ei Hun.

⁵ Rhuf. xi. 33.

⁶ Dat. vii. 9.

⁷ Lact. lib. 6. de Divin. Præm.

⁸ Ps. cxliv. 3.

⁹ Gen. xv. 1.

“ Pe byddai cymaint ffydd ar y ddaear ag a ddisgwylir o wobr yn y nef,” ebe Tertùlian, “ Arglwydd daionus! gymaint fyddai ein serch at y byd a ddaw¹!” Ymfoddlonodd Pharaoh o’r diwedd i adael i’r bobl fyned i aberthu ; ond yr oedd raid iddynt adael eu hanifeiliaid ar eu hol. Na ! ni adawai Moses *ewin yn ol* yn yr Aipht².” Felly rhaid i’n dymuniadau ninnau fyned gyd â ni, wrth gredu o honom wobr uchel y gwŷnfydedig-rwydd ag sy mor bell uwchlaw pob haeddiant dynol a all fyth fod.

Ysgrifena Seneca ddarfod i Alexander Fawr an rhegu rhyw ddyn tlawd â dwy dalent o arian ; a darfod i’r dyn synnu mor aruthr oblegid mawredd y rhodd, fel y dywedodd wrth y brenhin, “ Nid wyf fi yn deilwng i dderbyn cymaint rhodd :” ac attebodd Alexander, “ Fy nghyfaill, nid wyf fi yn golygu beth yr wyt ti yn deilwng i’w dderbyn, ond beth sy’n gweddu i mi, sy’n frenhin mor fawr, ei roddi.” Felly nid yw Duw yn golygu cymaint beth ydym ni, greaduriaid annheilyngaf, yn deilwng i’w dderbyn, ond beth sy’n gweddu iddo Ef, sy’n Dduw pob trugaredd a mawrfrydigrwydd, ei roddi a’i ganiattâu. Addawodd Herod lawer, wrth addaw hanner ei deyrnas³ ; ond pan y mae

¹ Si tanta in terris moraretur fides, quanta merces expectatur in cœlis!—*Tertul. de Hab. Mul.*

² Exod. x. 16. 24.

³ Marc vi. 23.

Crist yn rhoddi, mae Efe'n rhoddi teyrnas gyfan: *Deuwch, fendigedigion fy Nhad, derbyniwch y deyrnas*⁴.

Mae dynion weithiau yn hael i addaw, ond yn grintach i gyflawni: ond nid un felly yw Duw. Drachefn; ym mhllith dynion, y mab hynaf yn unig yw'r etifedd; ond mae holl feibion Duw yn etifeddion, a'r holl etifeddion yn etifeddu; a'r etifeddiaeth yw teyrnas nef, i deyrnasu ac i lawenychu ynddi byth bythol⁵. Pe cydnabyddai dyn ei hapusrwydd ei hun, byddai myfyrio ar y diwedd dedwydd hwn yn ddigon i beri na byddai mil o fydoedd o ddim gwerth yn ei olwg, ie, ac i ddywedyd, fel y Psalmydd, *Fel y brefa'r hydd am yr afonydd dyfroedd, felly'r hiraetha fy enaid am danat ti, O Dduw. Pa bryd y deuaf, ac yr ymddangosaf ger bron Duw*⁶?

Wrth glywed y philosophyddion yn ymddadleu am anfarwoldeb yr enaid, fe ddywedodd Demetrius Phalereus, "Ys truan o ddyn ydwyf fi, yr hwn a fûm byw cyhyd ym mhleserau trangcedig y corph llygradwy hwn!" Ni's gwyddom faint ein colled, pan ydym yn colli'r cyfleusdra i chwilio am ac i brynu'r perl drudfawr ag y dylai dyn werthu cymaint ag a feddo er mwyn ei feddianu⁷.

Pan ddaeth y bobl i oror gwlad yr addewid, fel y darllenwn yn y ddeuddegfed ar hugain

⁴ Mat. xxv. 34.

⁵ Rhuf. viii. 17.

⁶ Ps. xlvi. 1, 2.

⁷ Mat. xiii. 44.

o Numeri, fe ddarfu i blant Reuben a Gad, heb barchu'r addewid a wnelsid mor fynych, erfyn ar Moses ar gael o honynt aros y tu yma i'r Iorddonen, am fod yr ardal honno yn lle addas i'w gyrroedd anifeiliaid⁸; yr oeddynt yn malio mwy am hynny, nag am fyned i wlad sanctaidd yr addewid. Ac onid oes rhywrai yn y byd, yn yr oes hon, yn ddarn-debyg i blant Reuben a Gad, yn dymuno gwneuthur eu harosiad yma, heb ddewis myned ddim pellach, am eu bod yn malio mwy am ddifyrrwch ac elw'r fuchedd dymhorol hon nag am lawenydd anamgyffredadwy y bywyd tragedywyddol? Ond i'r gwir Israeliaid, blinder yw'r cwbl, hyd nes y delont i wlad eu gorwysfa. Mewn pethau eraill, ebe Cyprian, yr ydym yn beio annioddefgarwch; ond yn y disgwyliad am gymaint daioni a dedwyddyd y nef, braidd nad yw annioddefgarwch yn beth canmol-adwy⁹. *Gwae fi, ebe Dafydd, fy mod yn trigo ym Mesech*¹.

Mewn pethau a ordeiniwyd i ryw ddiben, oddi wrth y diben hwnnw y cymmerir mesur a rheol pob gweithrediad tu ag atto: y diben hwnnw yw'r peth blaenaf yn yr amcaniad, a'r diweddaf yn y cyflawniad. Yn awr, os dedwyddwch yw diben dyn, yna ded-

⁸ Num. xxxii. 3.

⁹ Cypr. de Mor.
¹ Ps. cxxi. 5.

wyddwch yw'r nod yr ydym yn annelu atto, a'r gwrthrych yr ydym yn ymgyrraedd am gael gafael arno, ym mha beth bynnag a gymmerom mewn llaw. Dymunir pob peth er mwyn dedwyddwch; ond dymunir dedwyddwch er ei fwyn ei hun yn unig.

Nid oedd gwasanaeth saith mlynedd Jacob ond ysgafn mewn cydmariaeth â Rahel, am yr hon y gwasanaethodd². Ac nid yw llafur a llugged, nid am saith mlynedd, ond am holl flynyddoedd ein heinioes, yn ddim wrth Rahel, sef y cyflwr prydferthach a dedwyddach sydd i ddyfod. Ac y mae hyn yn attebiad i'r Atheist cableddus, ac i wrthdadl cyfeillion Job, *Pa les a wnaeth dy gyfiawnder i ti?*³ ac i'r rhai a feiddient ofyn heb wrido yn amser Malachi, *Pa lesiant sydd, er i ni gadw gorchymynion Duw?*⁴ Ond y mae dedwyddaf wobrwy y byd a ddaw, yn eu taraw oll â mudandod; a gall hyd yn nod y cymorth a roddir yn y fuchedd hon eu taraw â syndod.

*Profwch fi'r awr hon, medd Arglwydd y lluoedd, onid agoraf i chwi ffenestri'r nefoedd, a thywallt i chwi fendith*⁵. Ac y mae hon, eb yr hen dadau⁶, yn fendith o ran y ffordd, ac o ran y wlad. Yr hyn y mae Duw yn ei roi ar y ffordd, mae'r prophyd Dafydd

² Gen. xxix. 28.

³ Job xxxv. 3.

⁴ Mal. iii. 14.

⁵ Mal. iii. 10.

⁶ Cyril de Fide ad Reg. Hil. de Unit. Pat. et Fil.

yn ei grybwyllyn y Psalm gyntaf, lle mae'n son am gyflwr y gwr ni rodia ynghyngor yr annuviolion; *Gwŷn ei fydd*, eb efe: a phaham? *pa beth bynnag a wnel, efe a lwydda'*. Felly wrth son am y dyn sy'n ofni'r Arglwydd; *Gwŷn ei fydd*, eb efe: ym mhabeth? *efe a gaiff weled plant ei blant, a thangnefedd ar Israel*⁷.

Dull y byd yw dull yr Iuddewon, y rhai a fyddent yn dwyn y gwin goreu'n gyntaf: ond y mae Crist yn cadw at ei ddull ei Hun⁸, sef cadw'r gwin goreu hyd yn ddiwaethaf. Dywedir am Isidorus, ei fod unwaith mewn gwledd fawr; ac wrth weled yno arwydd mawr o haelioni Duw i blant dynion, ddarfod iddo dorri allan i dywallt llawer o ddagrau; a phan ofynwyd iddo pa ham yr oedd yn wylo, attebodd yntau, "Am fy mod yma'n ymborthi ar greaduriaid daearol, a minnau wedi fy nghrëu i fyw gyd âg angylion:" megis pe buasai coffa am yr amser i ddyfod yn tynnu ei serch, (fel y dylai dynnu serch pawb o honom,) i ddisgwyl yn gysurlawn am dano.

Mae ein cyrph yn rhodio ar y ddaear; ond fe ddylai ein heneidiau fod yn y nef, trwy nefol ddymuniadau:—a dylem ffurffio ein serchiadau yn debyg i lun llong, sef yn gul oddi tanodd, ond yn llydan ac agored oddi

⁷ Ps. i. 3.

⁸ Ps. cxxxvi. 6.

⁹ Ioan ii. 10.

arnodd, mewn dymuniad calon am fwy gor-
uchel cyflwr; coffa am yr hwn, sydd fel
cennadwri'r angel Gabriel, yn dwyn *newydd-
ion da o lawenydd mawr*¹: a gall hyn beri
i'r ffyddloniaid atteb fel Hezeciah, a dy-
wedyd, *Da yw gair yr Arglwydd; bydd
heddwch*². "Yn y cyfamser," ebe St. Awstin,
"myfyried fy meddwl am dano, crybwylled
fy nhafod ef, cared fy nghalon ef, ac na
pheidied fy enaid byth â newynu a sychedu
am dano"³. *O Arglwydd y lluoedd, gwŷn
fyd y dyn a ymddiried ynot*⁴.

PENNOD VI.

*Ni raid i ni mo'r ofni angau; a llawer llai, ofni myfyrio
am dano.*

PAN welodd Moses ei wiafen wedi troi'n
sarph, hi a'i dychrynnodd ef ychydig ar y
cyntaf, ac efe a ddechreuodd encilio rhag-
ddi¹: ond gwedi i Dduw beri iddo ymaflyd
ynddi, efe a ganfu, trwy lawer o effeithiau,
y gwnaeth hi les mawr iddo ef ac i bobl
Dduw. Felly ar yr olwg gyntaf, mae angau

¹ Luc ii. 10.

³ Aug. Man. ult. cap.

¹ Exod. iv. 3.

² Esay xxxix. 8.

⁴ Ps. lxxxiv. 12.

yn dychrynu ein gwendid naturiol ; ond wrth hyderu yn Nuw, yr hwn sy'n ewyllysio nad arswydom, yr ydym yn ei ganfod yn fodion i barthu dyfroedd llawer o drallodion, i agor ffordd i ni i fyned trwodd o ddiffaethwch y byd hwn i wlad well o orphwysdra.

Rhyfedd ein bod mor groen-deneu a chyfrif myfyrio am farwolaeth yn beth mor an-nioddefol i ni ! ie, cyfrif hyd yn nod y coffa am dano, fel yr oedd Ahab yn cyfrif presennoldeb y prophwyd Elias, yn flinder gorthrwm i ni² ! Canys y mae angau mor bell oddi wrth niweidio y rhai sy'n hyderu yn Nuw, fel ag y cānt weled mai arweinydd hynaws yn hytrach ydyw, i'w harwedd adref i'w dinas eu hun, lle maent yn dymuno bod ac aros yn dragywydd.

Math o angau yw'r hyn a alwn ni'n fywyd, am ei fod yn gwneuthur i ni farw ; ond yr hyn a gyfrifwn ni'n angau, bywyd yw yn y canlyniad, canys efe mewn gwirionedd sy'n gwneuthur i ni fyw. Y mae angau a eilw rhai yn *bechod marwol* ; hwn yw angau yr enaid ; a dylem oll arswydo rhagddo : ac y mae ofn cymhedrol rhag angau naturiol y corph hefyd yn llesol i'n diddyfnu oddi wrth ddeniadau pechod : ond ofni'r angau hwn, fel pe bai'n gwbl ddistryw a dadymchwel-

iad i'n holl fodoliaeth, ni raid i ni, ac ni's dylem ychwaith.

Mae'r apostol St. Paul, wrth son am y ffydd anorfad ag oedd yn gynhaliad iddo ef, ac sy'n gynhaliad i bawb a obeithiant yng Nghrist, yn dywedyd, *Ni a wyddom, os ein daearol dŷ o'r babell hon a ddattodir, fod i ni adeilad gan Dduw, sef tŷ nid o waith llaw, tragywyddol yn y nefoedd*³: fel pe mynnasai ddywedyd wrth erlidwyr ei amser ef, na's gallai trueni munud awr mo ddychrynu'r saint, na distryw y dyn oddi allan mo'u brawychu, na merthyrdod mo'u digalonni; oblegid y gwyddent fod eu trifle yn y nef, a'u bod wedi eu corphori yn ddinas-yddion y *Jerusalem honno uchod*⁴.

Medrai pagan ddywedyd, "Prawf o feddwl dirywiedig yw ofn⁵;" mae ofn slafaidd yn gwbl anghyson â meddwl boneddigaiad. *Y rhai cyflawn sydd hy megis llew*⁶, medd Salomon. Dywed naturiaethwyr fod y llew mor ddewr, fel, er cael ei erlid yn ffyrnig, na phrysura mo'i gamrau i ddiangc, er gorfod marw o'r achos. Mor ddianwadal yr atebodd yr ail o'r saith mrodyr hynny, y rhai a'u rhoisant ei hunain i fynu oll yn wrol i gael eu harteithio, er mwyn amddiffyn deddf eu Duw! *Tydi, O frenhin, eb efe, wyt yn dwyn*

³ 2 Cor. v. 1.

⁴ Gal. iv. 26.

⁵ Degeneres animos timor arguit.—Virg. iv. 13.

⁶ Diar. xxviii. 1.

ein bywyd presennol oddi arnom; ond Brenhin y nef a'n cyfyd i adgyfodiad bywyd tragywyddol¹.

Gallai'r philosophydd ddywedyd, "O bob peth arswy dus, angau yw'r mwyaf ofnadwy². Ond fel arall y mae gyd â Christionogion. Dywedodd Tertùlian wrth erlidwyr ei amser ef, "nad oedd eu creulondeb ond yn agor drws i gystuddiol bobl Dduw, drwy'r hwn y gallent yn gynt fyned i mewn i gyflwr o ogoniant; a'u bod hwy gan hynny yn croesawu angau³." *Pa ham yr ofnaf yn amser adfyd¹?* ebe Dafydd; fel pe na welsai un achos i ofni angau, er cymaint y mae natur yn dechreu ysgryttian wrth glywed son am dano. Ni's gallai Hilarion lai na synnu fod ei enaid mor hwyrfrydig i ymadael, ac yntau wedi gwasanaethu Duw, a Duw wedi ei wasanaethu yntau, am gynnifer blwyddyn hir².

Wrth ystyried angau ynddo ei hun, yr ydym yn naturiol yn ei ofni; ond wrth ystyried angau fel moddion i'n dwyn at Grist, gallwn yn ewyllysgar ei gofleidio. Pan wellodd Jacob gerbydau'r Aipht, a deall wrth hynny fod ei fab Joseph etto'n fyw, dad-ebrodd ei ysprydoedd llewylgol, ac efe a-ddywedodd, *Af fel y gwelwyf ef cyn fy marw³.* Felly pan y mae ffydd yn dwyn i ni gynnifer

¹ 2 Mac. vii. 9.

² Arist. Ethic. lib. 3.

³ Tertul. in Apolog.

¹ Ps. xlix. 5.

² Hier. de Vit. Hilar.

³ Gen. xlvi. 28.

o dystiolaethau fod ein Joseph yn fyw, gall enaid y Cristion ymgysuro yn ei boenau, a dywedyd, “ Yn enw Duw, poed i mi farw, fel y gwelwyf Ef.”

Yn awr, tu ag at am y cyrph llygradwy hyn, nid yw angau o un niweid iddynt. Nid yw o niweid yn y byd i'r had fod ychydig bridd yn cael ei gribinio drosto, am ychydig ennyd; efe a egina trwy'r pridd, ac a flagura, ac a ddwg ffrwyth yn ei bryd. Felly nid yw o niweid yn y byd i'n cyrph hyn gael eu bwrw i'r pridd; canys *er eu hau mewn gwendid, cyfodir hwy mewn nerth*; *er eu hau yn gyrrh anianol, cyfodir hwy'n gyrrh ysprydol*; *er eu hau mewn ammharch, cyfodir hwy mewn gogonian*⁴.

Gwyrddlesni olewydden Noah dan y dwfr diluw,—blaguriad gwialen Aaron⁵,—achubiad Jonah o ddyfnder y môr⁶,—y llais ag sy'n galw, *Dychwelwch, feibion dynion*⁷,—hyder Job y caffai weled Duw â'i lygaid ei hun, ac nid arall⁸,—prophwydoliaeth Ezeziel am yr esgyrn sychion, y deuai *asgurn at ei asgurn*⁹: gall yr holl bethau hyn godi ynom obaith gorfoeddus, a'n sirioli yn erbyn holl ofn a dychryndod marwolaeth. Ond adgyfodiad ein Ceidwad Crist, dyna yw cysur yr holl gysuron i gyd. “ Llais Crist,” ebe

⁴ 1 Cor. xv. 43.

⁵ Num. xvii. 8.

⁶ Jonah ii. 10.

⁷ Ps. xc. 3.

⁸ Job. xix. 27.

⁹ Ezek. xxxvii. 7.

St. Awstin, “yw llais Cristionogion trwy Grist¹, sef, *O angau, pa le mae dy golyn?* *O uffern, pa le mae dy fuddugoliaeth?*²

Fel yr oedd Crist yn achos effeithiol o'n hadgyfodiad ni, felly'r oedd ei adgyfodiad ef yn gysgod o'r eiddom ninnau. Gan iddo ef adgyfodi, cawn ninnau oll adgyfodi. Pan fo'r achos yn gryfach, mae'r effaith yn gryfach. Od oedd pechod Adda, yr hwn oedd yn enaid byw, yn achos i angau deyrnasu ar bawb; mwy o lawer y bydd adgyfodiad Crist, yr Hwn sydd yn Yspryd yn bywhâu, yn alluog i adgyfodi pawb ag sy'n credu i obaith bywyd tragedywyddol³. Pa lawenydd mwy na gallol *ei adnabod Ef, a grym ei adgyfodiad Ef*⁴? Dangosodd Crist wrth farw, pa beth a ddylem ei ddioddef; ac wrth adgyfodi, am ba beth y dylem obeithio, sef y cyfyd yr holl esgyrn sydd yn Golgotha⁵, ac y caiff y rhai sy'n cysgu yn llwch y ddaear glywed lleferydd Crist wrth Lazarus, *Tyred allan*⁶. Wrth hynny, er i angau ein llyngcu, fel y llyngcodd y pysgodyn Jonah; a'n rhwymo, fel y rhwymodd y Philistiaid Samson; etto nyni a ddeuwn allan, wedi torri ein rhwymau, *fel aderyn o fagl yr adarwŷr*;

¹ Vox Christi, vox Christianorum.

² 1 Cor. xv. 55.

⁴ Phil. iii. 10.

⁶ Ioan xi. 43.

³ Rhuf. v. 14.

⁵ Dan. xii. 2.

a chawn ddywedyd, *Y fagl a dorrwyd, a nin-nau a ddìangasom*⁷.

Iawn y gall y rhai hynny ofni angau, ebe St. Cyprian, y rhai nid oes ganddynt ffydd yng Nghrist; ond am y rhai sy'naelodau o'r Pen hwnnw a faeddodd rym usfern a marwolaeth, mae angau iddynt hwy yn elw, ac yn arweinydd hynaws i'w tywys i fythol orphwysfa. Hyn yw'r achos y dywedir am y rhai sy'n meirw felly ar ol adgyfodiad Crist, mai *huno* y maent; *y rhai a hunasant yn yr Iesu*⁸, medd St. Paul; ac y maent *yn gor-phwys oddi wrth eu llafur*⁹: ac y mae Duw yn rhoi iddynt drigo mewn diogelwch tragywyddol.

Ni ddylem ynte ofni huno felly, canys y mae'r hûn hwn yn dadfino'r Cristion gwedi'r llafur caled. Mae'r dyn llafurus gweithgar, ar ol cadw noswyl, yn aml yn cysgu'n dawel-ach na *Dives* yn ei balas marmor, ar ei wely ifori, lle mae'n troi ac yn trosi'n anesmwyth: nid tawel y mae'r cyfryw yn cysgu nac mewn bywyd nac mewn angau; a gwirir am danynt y geiriau hyn, *Oh angau, mor chwerw yw coffa am danat*¹! Ar ol rhodio trwy anialwch anhyffordd allan o ffyrdd y gwirionedd, ebe'r gwr doeth, hwy a lefant allan, *Pa fudd sydd*

⁷ Ps. cxxiv. 7.
⁸ Dat. xiv. 13.

⁹ 1 Thes. iv. 13.
¹ Eccles. xli. 1.

i ni o falchder? a pha les a wnaeth golud i ni?

Yn wir nid yw'r tir diffaeth a digynnrych hwn ddim yn dwyn i ni, ar ol ein holl drafferth, ond cnwd o betrusder, trallod, ofn, a blinder yspryd. Y rhai sydd wedi llafurio yn y winllan, a bod mewn mynuch anhunedd ac ympryd, cânt hwy orphwysodd wrth eu llafur, a huno i gyfodi drachefn yn gyrph ysprydol, pan godo Haul Cyflawnder mewn bythol ogoniant. Am y rhai hyn y dywed yr Apostol, *Ni ewyllysiwn i chwi fod heb wybod am y rhai a hunasant, na thristaoch, megis eraill, y rhai nid oes ganddynt obaith*³. Mor gymmeradwy ynte y gall angau fod gennym ni, y rhai, wrth farw, ydym yn huno; ac wrth huno, yn gorwheys oddi wrth holl drallodion bywyd helbulus!

Drachefn; gan mai teyrn-ged yw marwol-aeth, rhaid i bawb o honom ei thalu; a chan fod yn rhaid i ni ei thalu, rhoddwn hi'n wirfoddol, a chyflwynwn hi i Dduw fel *an-rheg*, pan y mae arnom ei thalu fel cyfiawn *ddyled*⁴. Pe na buasai gennym amgen go-baith nag am gyflwr tymhorol a thrangcedig, gallasem arswydo; canys pe felly, siommid ni, wrth farw, am ein holl ddedwyddwch. Ond pan wnaeth Duw ddyn o bridd y ddaear,

³ Doeth. v. 6—8.

⁴ 1 Thes. iv. 13.

⁴ Chrys. Homil. 10. in Mat.

Efe a anadlodd yn ei ffroenau ef anadl einioes ; a'r dyn a aeth yn enaid byw⁵, ac nid yn enaid marw.

Ysgrifena Cesar, y byddai tyb y Derwyddon, y rhai a ddysgent fod yr enaid yn parhâu ar ol ymadael â'r corph, yn gwneuthur llawer o'u dilynwyr yn eofn a dewrion mewn amgylchiadau o bwys a pherygl, ac yn lleihâu ofn angau yn y rhan fwyaf o honynt⁶. A gallai Cyrus fawr, pan yn marw, ddywedyd wrth ei feibion, “Na feddylwch, fy mhlant anwyl, na fyddaf yn parhâu i hanfodi mewn rhyw le, neu y diddymmir fi'n llwyr allan o fodoliaeth?.” Os gallai *tyb noeth* am ein parhâd mewn byd arall fod o gymaint grym yn erbyn ofn angau, pa beth a effeithia *ffydd*, yr hon sy'n ein gwarantu, trwy dystiolaeth ddilys, am sicrwydd adgyfodiad gwŷnfydedig ar ol marw! Os bu i'r patriarch ffyddlon Abraham adael ei fro a'i genedl, ar orchymyn yr Hollalluog Dduw, a myned i wlad estronol⁸, pa mor wirfoddol y dylem ni adael y fro ddaearol hon, lle nad ydym amgen nag alltudion, a myned i'r man lle mae ein cartrefle priodol ein hunain, a'n preswylfod dragywyddol!

Dyna oedd penderfyniad St. Ambros, yr hwn nid oedd yn ffieiddio bywyd, nac yn

⁵ Gen. ii. 7.

⁷ Xenoph. Cyrop.

⁶ Cæs. lib. 6. de Bel. Gal.

⁸ Gen. xii. 4.

arswydo marwolaeth; canys, eb efe, "Y mae i ni Arglwydd da." Dyna oedd ffydd Simeon, yr hwn, ar ol gweled Crist, a weddiodd ar iddo *gael ei ollwng mewn tang-nefedd*⁹. Dyna hefyd oedd ennill St. Paul, pan ddywedodd, *Marw sydd elw*¹; gan fod angau yn ymddattodiad iddo, a chan mai oddi wrth y corph y caffai ei ddattod, a chan mai bod allan o'r corph oedd bod gyd â Christ.

Wrth hyn y gwelwn na ddylai angau ei hun, a llawer llai myfyrio am dano, beri i ni mewn un modd arswydo na dychrynu. Po mwyaf y myfyriwn am angau, lleiaf oll yr ofnwn ef; po lleiaf yr ofnwn ef, mwyaf oll yw ein ffydd. *Pwy a'n gwahana ni oddi wrth gariad Crist? ai gorthrymder, neu ing?*² *Bendigedig fyddo Duw, ebe St. Petr, yr hwn a'n hadgenhedlodd ni i obaith bywiol, trwy adgyfodiad Iesu Grist oddi wrth y meirw*³.

PENNOD VII.

Y dylai'r trallod meddwl ag sy'n digwydd ym mywyd dyn, ei gynhyrfa i fyfyrlo am ei ddiwedd.

GELLIR dywedyd ddarfod i Dduw ddewis Solomon, o ran ei ddoethineb, i fod megis yn

⁹ Luc ii. 29.

² Rhuf. viii. 35.

¹ Phil. i. 21.

³ 1 Petr i. 3.

flaenor mewn ymchwiliad pwysig, i wneuthur ymholiad ynghylch cyflwr y byd; ac Efe a archodd iddo ddyfod ymlaen i ddatgan wrth bawb yr hyn a gafodd ei wybod yn y gwaith; ac yntau, wedi clywed a gweled natur y pethau sy dan haul, a gyhoeddodd y ddedryd hon arnynt oll; *Gwagedd a gorthrymder yspryd yw'r cwbl*¹. Dyna, mewn gair byr, yw cyflwr pawb yn gyffredinol; y goludog yn anfoddlon yn eu bri, y tlodian yn dyddfu mewn galar, y dysgedig yn llawn llafur diorphwys; pawb, o ba sefyllfa bynnag, yn ddarostyngedig i drallodion a gorthrymder yspryd; fel pes dywedasai Solomon, “Ni waeth i chwi beidio â chwilio am ddim arall; gwagedd a gorthrymder yw'r cwbl.”

Bychan oedd yr achos i'r Israeliaid chwennych parhâu i fyw ym mysg eu meistred-gwaith yn yr Aipht; a lleied achos a hynny sy gennym ninnau i chwennychu cael byw yn yr anialwch hwn, ym mhliith cynnifer o fleiddiaid. Gwyddom ddywedyd o'n Ceidwad Crist i ni, *nad ydym o'r byd hwn*², er ein bod yn y byd. Yma ni wiw i ni ddisgwyl am berffaith orphwysdra i'r corph, na llwyr foddlonrwydd i'r meddwl; gan hynny gall myfyrio am waredigiaeth fod o ryw ddiddanwch i'r enaid cystuddiol, yr hwn a all dywallt ei gwyn fel hyn, a dywedyd, “O na thywynnai

¹ Preg. xi. 11.

² Ioan xvii. 16.

llewyrch y dydd hwnnw, pan gaffwyf weled fy Mhrynwyr ; pan gaffwyf fyned i'r man lle mae tangnefedd oddi fewn ac oddi allan ; pan gaffwyf ymddangos ger bron gwylodfod Duw mewn gorfoledd, heb gael mwy mo'm gor-thrymmu gan flinderau, na'm haflonyddu gan ofalon, na'm molestu gan amheuon, ond cael byw mewn gorphwysdra am dragwyddoldeb !”

Pa ddiddanwch a all dyn ei fedi, pa dawelwch a all ei fwynhâu, lle mae prinder yn llawn trueni, a helaethrwydd yn llawn perygl ? Pa ffordd bynnag y taflom ein golwg, cawn ryw achos cwynofain, nes y gallwn ddywedyd hyd yn nod *am chwerthin, ynfyd yw*³; a chyd-synio â geiriau'r prophwyd, *Truan wyp fi, ac ar drangcedigaeth o'm hieuengctid; dygais dy ofn, ac yr ydwyf yn petruso*⁴.

Gan fod gennym ynte leied achos yn y fuchedd hon i lawenhâu, leied achos i beri i ni hyfrydwch, lle'r amgylchynir y meddwl gymaint â gofalon, ac y molestir ef â gofidion, ystyriwn rhyngom â ni ein hunain ddedwydded yw y rhai sydd wedi angori mewn lle diogel, ar ol myned trwy dymhestloedd y môr ystormus hwn. Bu i Noah dwysgen o flinder yn yr hen fydd ; bu i'r dyfroedd diluw ymchwyddo dano, a'r wybren yn dywyll ac athrist uwch ei ben ; o'r diwedd safodd yr

³ Preg. ii. 2.

⁴ Ps. lxxxviii. 15.

arch ar fynydd Ararat⁵; ac yna'r oedd Noah yn ddyn llawen. Poenwyd Lot ym mhllith anwiriaid Sodom; o'r diwedd anfonodd Duw ei angylion i'w gymmeryd oddi yno'n gwbl⁶. Bu Elias dros ennyd yn athrist; eisteddodd dan ferywen⁷, ac a anfonodd ei ucheneidiau i fynu i'r nef; o'r diwedd daeth y cerbyd tanllyd, ac yna nid oedd un Jezebel yn ychwaneg i'w erlyn, dim gau-brophwydi mwyach i ymgynghreirio yn erbyn ei einioes. Gall y saint dan yr allor lefain dros amser, *Pa hyd, Arglwydd*⁸? ond gwedi dioddef ychydig yn ychwaneg, troir eu dirmyg yn ogoniant, a dagrau eu galar yn orfoledd a llawenydd.

Pa ham y'th ddarostyngir, fy enaid, a pha ham y terfysgi ynof? ymddiried yn Nuw⁹, ebe'r prophwyd. Ac eb efe hefyd, *Yn aml-der fy meddyliau o'm mewn, dy ddiddanwch di a lawenychai fy enaid*¹; gan ddangos wrth hyn, fel ag yr oedd gan y byd liaws o ofidiau i ymosod ar ei galon ef, felly fod gan Dduw liaws o gysuron i sirioli ei enaid ef yn eu canol i gyd. *Oblegid, ebe St. Paul, fel y mae dioddefiadau Crist yn amlhâu ynom ni,* felly trwy Grist y mae ein diddanwch ni hefyd *yn amlhâu*².

⁵ Gen. viii. 4.

⁶ Gen. xix. 17.

⁷ 1 Bren. xix. 5.

⁸ Dat. vi. 10.

⁹ Ps. xlvi. 11.

¹ Ps. xciv. 19.

² 2 Cor. i. 5.

Ein Harglwydd, gan wybod y caffai ei apostolion lawer o anghysur blin yn y byd, a addawodd yr anfonai Efe iddynt, ar ol ei ddyrchafael i'r nef, *Diddanydd arall*^{*}; canys ei bresennoldeb Ef oedd eu diddanwch hwy; ac ar ol hynny, y caent yr Yspryd Glân yn gyd-garcharor gyd â hwy yn eu carcharau dyfnaf; a pha fodd bynnag y niweidai y byd hwynt oddi allan, y caent oddi fewn Diddanydd a barai iddynt lawenydd yn eu cystuddiau, a gorfoedd bythol yn y diwedd. Weithian, gan hynny, er bod y baich yn drwm, etto mae cofio nad yw'r ffordd yn hir, yn ysgafnhâu'r baich.

Pan ddyc oo'r prentis i gof fod blynnyddau ei rwymiad ar fyr i derfynu, ac y cadarnhêir ei ryddid iddo'r amser hwnnw, mae cofio hyn yn gwneuthur llawer wythnos lafurus yn fwy ysgafn ac yn llai gorthrwm iddo. Mae'r teithiwr blinedig, wrth feddwl am y lletty, yn tynnu ym mlaen yn siriolach yn ei siwrnai faith. Mae'r caethwas wrth gofio blwyddyn y Jubili, yn treulio blynnyddoedd ei gaethiwed yn fwy amyneddus. Felly, ynte, ym mhllith yr amryw drallodion sy'n tristâu'r meddwl, gall myfyrdod am ein diwedd leddfu'n fawr, os nid cymmeryd ymaith yn llwyr, y gofidiau mwyaf oll.

Aml ddrygau a gaiff y cyflawn; ond yr

* Ioan xiv. 16.

Arglwydd a'i gwared ef oddi wrthynt oll⁴ ; naill ai trwy gymmeryd y gofidiau oddi wrth y cyflawn, neu'r cyflawn oddi wrth y gofidiau. Mawrion yw eu profedigaethau hwynt ; ond fe wna iachawdwriaeth gyflawn ymwared iddynt ryw ddydd, pan sycher pob dagrâu oddi wrth eu llygaid, a phan fydd eu gwobr yn gymaint mwy hyfryd iddynt, yn ol po mwyaf y bu gyrfa eu buchedd yn flinderog.

Wrth weled gan hynny fod i ni gymaint achlysur ar bob llaw i dreulio dyddiau'r pererindod blin presennol mewn trallog ac iselder meddwl, oni ddylem ystyried y rhai hynny'n dra bendigaid, ag sydd eisoes wedi glanio ar dir o berffaith ddiogelwch, a chael eu gwared oddi wrth orthrymder llafur mor helbulus ? Onid yw'n sirioldeb i ni alw i gof y terfynir y frwydr hon ryw ddiwrnod, ac y rhyddhêir ni oddi wrth boenau'r cystudiau chwerwon hyn ?

Iawn y gallwn alaru ac wylo, fel Job a Jeremi, wrth feddwl am y dydd y daethom gyntaf i'r dyffryn dagrâu hwn ; a mynch y gallwn syn-fyfyrion llawen am dymmor ein hymadawiad allan o hono. Ar ol yr holl dristyd, a'r lleisiau bygythiol hynny, daw llef allan o'r orseddfaingc, pan dywallter phiol y seithfed angel, ac a ddywed, *Darfus*⁵. Er y gall Duw ddechreu trwy ddywedyd, Mi

⁴ Ps. xxxiv. 19.

⁵ Dat. xvi. 17.

a' th *finais*; etto Efe a fyn ddiweddu trwy ddy-wedyd, *Er i mi dy flino, ni'th flinaf mwyach*⁶.

PENNOD VIII.

Y dylai anhwyladerau corphorol hefyd ein cymhell i feddwl yn ddifrifol am ein diwedd.

PAN welodd Daniel brophwyd beth oedd cyflwr y bobl ynghaethiwed Babilon, a phabed, yn ol pob argoel, (oni helpai llaw Duw hwynt mewn pryd,) oedd eu cyflwr yn debyg o fod, efe a feddyliodd fwyfwy am ei waredigaeth ei hun a hwythau, ac a erfyniodd ar i Dduw edrych ar anhraith ei bobl, a'u rhydd-hâu o'r gaethglud, *o herwydd ei aml drugareddau*¹. Pan ydym ninnau'n gweled ac yn teimlo beth yw, ac a fydd, cyflwr ein Babilon hon, sef poenau corph a chystudd meddwl, nyni a ddylem, yn ein defosiwn uchelaf i Dduw, feddylied am amser ein gollyngdod a'n gwaredigaeth oddi wrthynt oll. Ië, ystyriwn fod dydd yn dyfod, pan gaiff y cyrph methodig hyn, ag sy'n agored i gynnifer o wendidau, y pen i wayw, yr ysgyfaint i beswch, y cymmalau i gnofeydd, a'r rhannau cryfaf i ddirdyniadau arteithiol; pan gaiff y cyrph hyn, meddaf, y rhai a fuant yn help i

⁶ Nahum i. 12.

¹ Dan. ix. 18.

ddwyn pwys y dydd, gyd-fyw a chyd-lawen-ychu ynghyd â'r enaid gwŷnfydedig.

Yn y cyfamser gallwn yn ein holl wendidau hyn gofio gair y prophwyd, *Ni ad yr Argwydd ei bobl, ac ni wrthyd efe ei etifeddiaeth*². Gwyddai Dafydd mai arfer Duw oedd profi ei weision; yn ei gystuddiau, gan hynny, efe a wnaeth y datganiad hwn ar ei ran ei hun a hwythau, *Hyn oll a ddaeth arnom, etto ni'th anghofiasom di*³. Arfer ein Isaac ni yw, yn gyntaf ein *teimlo* trwy orthrymder, ac yna ein *bendithio*. Gallwn ystyried fod Duw megis yn ein *teimlo* trwy'r gwendidau corphorol hyn; yna, wedi i ni ddioddef ychydig, efe a bâr i ni etifeddu'r *fendith*⁴.

Er bod y gwŷnt yn chwythu'n oer, etto mae'n glanhâu'r gwenith oddi wrth yr us: er bod y tân yn llosgi'n boeth, etto mae'n puro'r aur oddi wrth y sorod. Mae cys-tuddiau yn addysgiadau yn gystal ag yn ddioddefiadau; canys y maent yn aml yn peri i ni lwyr-ddirmygu pob digrifwch bydol, ac yn magu ynom ostyngeiddrwydd yspryd, edifeirwch, a thristyd calon, am ein pechodau a aethant heibio.

Yn yr ail Psalm ar bymtheg ar hugain ar ol y ganfed, crybwyllir am gaethiwed y bobl

² Ps. xciv. 14.

³ Ps. xliv. 17.

⁴ Gen. xxvii. 23.

fel hyn ; *Wrth afonydd Babilon, yno yr eisteddasom, ac wylasom* ; ac yn yr adnod nesaf, *Ar yr helyg o'u mewn y crogasom ein telynau*⁵. *Eisteddasom* ; argoel o'u gostyngiad. *Ac wylasom* ; arwydd o dristyd ac edifeirwch. *Crogasom ein telynau* ; i ddangos eu bod weithian ym mhell iawn oddi wrth lawenydd a pheroriaeth.

Yr oedd holl fywyd Solomon yn llawn llwyddiant ; gan hynny ni a welwn ddarfod i Solomon anghofio llawer ar Dduw ; ond yn holl fywyd Dafydd yr oedd llawer o adfyd ; gan hynny ni a welwn, wrth ei Psalmau edifeiriol, ac eraill, y byddai Dafydd yn mawrgofio Duw.

Megis ag y mae'r ceryddon corphorol hyn, yn neillduol, yn aml yn y diwedd yn foddion i'n llesâu ; (canys weithiau, medd St. Jerom, cospir y rhan waethaf o ddyn, sef y corph, fel yr achuber y rhan oreu o hono, sef yr enaid, yn nydd y farn,) felly y maent, o ran yr achos o honiynt, yn effeithiau cariad Duw ; canys er ei fod rai prydiau yn Dad ceryddol, etto Tad ydyw ; er ei fod yn Feddyg yn agor y briw, etto Meddyg ydyw, Meddyg yn caru, ac am hynny Meddyg yn iachâu. Ni raid i ni ond hyspysu ein doluriau iddo, a gadael iddo gymhwysyo'r eli fel y gwelo'n oreu, am y gwyr yn well na ni pa fodd i'n trin : er

⁵ Ps. cxxxii. 1, 2.

bod y physyg yn chwerw, etto ei physyg Ef ydyw, a'i ddiben Ef yw gwneuthur lles i ni trwyddo. Ni wiw i ni gan hynny mo wrthod ei gariad yn ein ceryddu. Byddai Chrysostom yn dywedyd, "Temptasiwn fawr i ni ydyw bod heb gael ein temtio."

Yr oedd Job yn wr cyflawn yn ol tystiolaeth yr Hwn yr oedd ei dystiolaeth yn fwyaf gwir : *A ddeliaist ti ar fy ngwas Job, gwr perffaith ac uniau'n, ac yn ofni Duw*⁶? eb efe wrth Satan. Y newydd nesaf a glywn am Job oedd darfod cystudio ei gorff o wadn ei droed hyd ei goryn⁷. Ebe St. Iago, *Chwi a glywsoroch am amynedd Job, ac a welsoch ddiwedd yr Arglwydd*⁸. Profwyd y patriarch sanctaidd hwn, i'n dysgu ni, pan y'n profer, pa beth i'w wneuthur. Gwedi darllen o St. Jerom hanes bywyd a marwolaeth Hilarion, yr hwn a fu fyw'n grefyddol ac a fu farw'n Gristianus, efe a ddywedodd, "Wel ; Hilarion yw'r pen-llywydd a ddilynaf fi." Os gallai St. Jerom ddywedyd, "Hilarion yw'r pen-llywydd a ddilynaf fi ;" ac os gall y diwair ddywedyd, "Joseph yw'r pen-llywydd a ddilynaf fi ;" yna gall pobl gystuddiol ddywedyd, "Am wir amynedd, Job yw y pen-llywydd a ddilynwn ninnau."

Am Tobit, hefyd, ar ol ei weithred dda yn claddu'r marw, efe a gymmeradwywyd gan

⁶ Job i. 8.

⁷ Job ii. 7.

⁸ Iago v. 2.

Dduw⁹: ond y newydd nesaf a glywn am dano yw, “ Mae'r gwr sanctaidd Tobit wedi cael ei daro â dallineb ! ”

Gallwn fod yn fodlon i ddioddef swrn o geryddon ; canys nid yw llaw Duw, yn y cystuddiau hyn, ond ysgafn iawn arnom mewn cydmariaeth i haeddedigaeth ein beiau. Gweddi un o'r hen dadau gynt oedd, “ Arglywydd, archolla fi'n awr, fel yr iachâech firhag llaw ; canys gwell yw dioddef yma nag yn y byd arall.” “ Nac ystyria gymaint pa mor flinderus yw'r ffordd,” ebe Chrysostom, “ ond ystyria pa mor hyfryd fydd ei diwedd¹. ” Pan ofynodd Ioan i'r angel, pwy oedd y rhai a wisgasid â gynau gwŷnion, â phalmwydd yn eu dwylaw, attebodd yr angel, *Y rhai hyn yw y rhai a ddaethant o'r cystudd mawr²*; i ddangos eu bod hwy, ar ol ystomydd helbulus y byd hwn, yn gwisgo palmwydd a choronau, yn arwydd o fuddugoliaeth dragwyddol.

Mae tair o ystyriaethau a allant roi i ni destun myfyrdod yn y matter hwn :—

Yn gyntaf, Beth oeddym unwaith.

Yn ail, Beth ydym yn awr.

Yn drydydd, Beth a fyddwn ar fylder.

1. Yr hyn oeddym unwaith, a ddangosir yngeliriau Esdras ; *O dydi Adda, pa beth a wnaethost³?* eb efe. Pan syrthiodd Adda,

⁹ Tobit ii. 7.

¹ Chrys. Hom. 7. in Ep. ad Heb.

² Dat. vii. 14.

³ 2 Esdras vii. 18.

syrthiasom oll. Pe buasai cyflwr dyn yn ddibechod, buasai fel cyflwr yr angylion yn y nef. Gwisgwyd Solomon, ar ei orsedd frenhinol, mewn rhiaitwch mawr; ac etto ni wisgwyd Solomon yn ei holl ogoniant fel lili'r maes; ond ni wisgwyd Solomon yn ei holl ogoniant, ac ni wisgwyd ychwaith mo lili'r maes yn gyffelyb i fel y gwisgwyd Adda cyn iddo golli gwisgoedd ei ddiniweidrwydd. Oh ddedwydd Adda! ped ystyriasai Adda'n iawn pa mor ddedwydd oedd! Gan hynny, fel yr oedd y bobl yn amser y prophwyd Haggai, wrth weled mor wael oedd yr ail deml mewn cydmariaeth i ogoniant y gyntaf, yn wylo ac yn galaru wrth weled y naill a chofio'r llall⁴; felly ninnau, wrth adgofio cyflwr ein diniweidrwydd, pan wnaeth Duw bob peth er mwyn dyn, a dyn er ei fwyn ei Hunan, yn ei ragoroldeb gogoned hwnnw, gan ei osod ym Mharadwys, gardd pob hyfrydwch, lle nid oedd iddo na gofid corph na blinder meddwl; ni's gallwn, heb rywfaint o alar am bechod, feddwl am y dedwyddyd cyntefig hwnnw, ac adgofio *Beth oeddym unwaith*.

2. Yr ail ystyriaeth yw, *Beth ydym yn awr?* Ymdeithwyr ydym, yn nyffryn wylofain; alltudion oddi cartref ydym, mewn lle ag y mae trallodion yn dyfod fel cenhadau Job, y naill yn dyfod i mewn i draethu ei

⁴ Hag. ii. 3.

chwedl alarus cyn i'r llall orphen ; a lle mae croesau a chystuddiau yn cylchynu dynion o amgylch ogylch : ac iawn y gall y teimlad o honynnt beri i ni dorri allan i ddymuno fel yr Apostol, *Pwy a'm gwared i oddi wrth gorff y farwolaeth hon*⁵ ! Gallai Cato ddoeth, er ei fod yn bagan, ddywedyd fel hyn wrth ei ysgolheigion, “ Pe cynhygid i mi gael bod yn ieuangc etto, ni's derbyniwn y cynhygiad ar un cyfrif, rhag mor flinderus yw cyflwr y fuchedd hon.”

3. *Beth a fyddwn ar fyrdar*, pan newidier y cyrph priddlyd hyn, ac y gwneler hwynt yn debyg i gorff gogoneddus Mab Duw⁶ ? Am ein cyrph y mae Duw'n dywedyd yn drugarog, fel y dywedodd gynt wrth Abraham, *Am Ismael hefyd y'th wrandewais; wele, mi a'i bendithiaisiaf*⁷ . Felly am y cyrph hyn yn eu hadgyfodiad, er na's ganwyd hwy, mwy nag Ismael, mor freiniol ag Isaac, sef yr enaid, etto cānt hwythau hefyd eu bendithio. Mae coffa Cristionogol am hyn yn magu ynom ddymuniad hiraethlawn am gael cyrhaeddyd perffeithrwydd mewn byd arall. *Gobaith a oeder a wanhâ'r galon*, ebe Solomon⁸.

Yn y cyfamser, wrth ystyried fod Duw yn y diwedd yn gwobrwyd amynedd, ac angau yn diweddu poen, gallwn oddef yn siriolach

⁵ Rhuf. vii. 24.

⁷ Gen. xvii. 20.

⁶ Phil. iii. 21.

⁸ Diar. xiii. 12.

gystuddiau mwyaf y corph a blinderau dycnaf y meddwl ; y rhai yn y fuchedd hon ydynt dystiolaethau o gariad Duw ; ond yn y bywyd a ddaw, yn arwyddion o'i gyflawnader.

Bydd tadau yn arfer attal eu plant eu hunain, a'u cadw danodd, â cherydd ; ond yn gadael i blant eu caethion fod mor bennrhydd ag y mynnont. Mae gan Dduw etifeddiaeth yngladw i'w bobl ; ac ar ol eu ceryddu â'i *wialen*, mae ganddo *ffon* i'w cynnal a'u cysuro⁹. Am hynny gallwn gyfrif y treialon hyn yn genhadon i'n rhybuddio ym mlaen llaw fod angau'n dyfod ; yn dystiolaethau o ofal Duw am danom ; ac yn athrawon erbyn ein diwedd, i'n haddysgu yn y wers hon, sef *Dysgu Marw*.

Ped addawsai Duw i ni, medd St. Jerom, bob tangnefedd a thawelwch yn y byd hwn ac yn y byd a ddaw, yna gallasai ein trallodau ar y ddaear beri i ni syndod a phetrusder gyd â golwg ar ein gorffwysfa ddyfodol ; ond wrth ein bod yn profi gorthrymderau'r fuchedd hon mor aml a gorthrwm, fel y dywedodd Duw y caem, yr ydym yn disgwyl yn fwy cysurus a hyderus am gyflawniad ei addewid o dangnefedd yn y byd a ddaw¹.

Gwelodd pagan unwaith long-ddrylliad o'i holl dda bydol, y cwbl yn colli mewn un moment ; ac efe a lefodd allan, “ Wel, Oh

⁹ Ps. xxiii. 4.

¹ Hier. de Consol. in Advers.

Dynged, mi a welaf dy amcan ; yr wyf yn canfod y mynnit i mi fod yn philosophydd.” Pa faint mwy ynte y gall y Cristion, ar ol amryw gynnifer helbulon corph a meddwl, ddywedyd, “ Wel, yr wyf yn canfod y mynnai Duw i mi fod yn grefyddol, a dechreu myfyrio ar y bywyd hwnnw ag sy’n rhydd oddi wrth bob trallod.

PENNOD IX.

Gymaint y mae'n perthyn i bob dyn yn amser ei iechyd ymbarotid erbyn dydd ei ymadawiad.

GAN fod ein cyflwr o wae neu o wŷnfyd yn y byd a ddaw yn ymddibynnu llawer ar ein cyflwr o dduwioldeb neu o annuwioldeb yn y fuchedd hon, (canys *lle y syrthio'r pren, yno y bydd efe*¹;) ac mai trefn ein taith yw o fywyd o ras i fywyd o ogoniant ; byr yw golwg y rhai hynny ag nad ydynt yn canfod reited yw i bob Cristion, yn amser ei iechyd goreu, tra mae'r dydd etto o'i flaen, ddechreu cychwyn ar ei daith ddarbodus mewn pryd, fel y gallo yn awel yr hwyr gyrhaeddyd cartref ei dragwyddol orphwysfa.

Byr yw dyddiau dyn, anwadal yw ei am-

¹ Preg. xi. 3.

ser ; ac y mae'r momentyn bach ag sy gennym i ddarparu ar gyfer cyflwr o fythol barhâd, yn diflannu cyn i ni wybod. Y mae trugaredd Duw, wrth roi i ni amser a gras, yn rhedeg ymlaen fel afon hyfryd ; ond os attaliwn ni ei rhediad hi trwy barhâu mewn pechod, hi a chwydda'n uchel, ac a dry'n llifeiriant o gyflawnder, ac a ddadymchwel â'i grymmus nerth ein gorffwysdra diogelaf yn y byd hwn.

Yr hyn a wneir unwaith, a dim ond unwaith, dylid ei ddechreu'n bwyllog, ei ddwyn ymlaen yn ofalus, a'i weithio hyd ei ddiwedd yn ofalus gyd â phob disrifoldeb. Cyngor yr Yspryd Glân yw, *Tra'r ydym yn cael amser cyfaddas, gwawn dda i bawb*². Y lle i gyttuno â'n gwrthwynebwr yw tra fyddom *ar y ffordd gyd âg ef*³. Dim darparu olew yn ein lampau, dim myned i mewn gyd â'r priod-fab⁴. Dim rhedeg yr yrfa, dim coroni yn y diwedd. Canys rheol safadwy gyd â Duw ydyw, *Os da y gwnei, da y cei*. Bydd fyw bywyd yr uniawn, a chei *farw o farwolaeth yr uniawn*⁵. "Os gofyn neb," ebe Lactantius, "pa un ai da ai drwg yw angau, attebaf, Edrych ar gyflwr y fuchedd hon ; os treuli hi'n dda, *gwijn dy fydd, a da fydd i ti*⁶; ond os amgen, fel arall y bydd."

² Galat. vi. 10.

³ Mat. v. 25.

⁴ Mat. xxv. 8.

⁵ Num. xxiii. 10.

⁶ Ps. cxxviii. 2.

Yr angau gwaethaf yw angau pechaduriad : pa ham ? am y *treulant eu dyddiau mewn daioni*, fel y dywed Job, *ac mewn moment y disgynant i'r bedd*, ac i eigion gofidiau⁷. Gan na's gwyddom y dydd, dylem wylled bob dydd ; a chan na's gwyddom yr awr, dylem wylled bob awr.

Mewn matterion pwysig, ni a welwn fod rhagddarbodaeth a chyngor pwyllus yn peri iddynt ffynnau'n well. Mae'r amaethwr yn achub ei dymmor, a'r milwr yn gwylied ei adeg fwyaf manteisiol, a phawb yn ceisio'r ffordd oreu i beri llwyddiant i'r hyn a fo ganthynt mewn llaw : ac a fydd i'r Cristion fod yn ddifal ac esgeulus i'w barottöi ei hun erbyn ei ymadawiad ? Na atto Duw ! Cyngor y gwr doeth yw, *Cyn dy glefyd ymgynghora ð'r meddyg ; a chyn barn, hola dy hun*⁸. Ac y mae Dafydd brophwyd, wrth ddatgan gofal dïesgeulus a dïesgeulusdra gofalus y cyflawn, yn dywedyd, *Gweddia pob duwiol arnat ti yn yr amser y'th geffir*⁹.

Arglwydd y gwas sy'n dywedyd, *Y mae fy Arglwydd yn oedi dyfod, a ddaw yn y dydd nid yw efe yn disgwyl am dano, ac a esyd ei ran ef lle bydd wylofain a rhingcian dannedd*¹. Ond gwŷn eu byd y gweision sy'n disgwyl ei ddychweliad, sy'n gwneuthur pob peth oddi fewn ac oddi allan yn hardd ac yn lanwaith,

⁷ Job xxi. 18.

⁸ Ps. xxxii. 6.

⁹ Eccles. xiii. 14.

¹ Mat. xxiv. 50, 51.

ac weithiau yn edrych allan, mewn disgwyliad, fel Abraham gynt wrth ddrws y babell. Dyma y rhai y mae eu lwynau wedi eu gwregysu, eu lampau yn llosgi, eu holew yn barod yn eu llestri, ac sydd yn disgwyl gyd â'r morwynion call am ddyfodiad y Priod-fab. Dyma y rhai y caiff eu Harglwydd hwynt yn gwneuthur felly, ac a'u gesyd yn llywodraethwyr ar lawer, ac a'u cymmer gerfydd eu llaw i'w dwyn i gyfrannogi o'i lawenydd tragicwyddol ei Hun.

O nad ymbarottoai dynion mewn pryd, tra mae hynny yn eu gallu ! cânt ryw ddydd a ddaw weled y fantais o fod yn ofalus. Fe wna *un* lantern a ddyger *o flacn* y dyn a radio leoedd tywyll fwy o les iddo na *deg* o lanternau a ddyger *ar ei ol*. Buddiol i'r neb a gymmoro siwrnai hir, yw cyngor ym mlaen llaw. Am y daith ysprydol hon, dylai adduned y prophwyd fod yn adduned ac yn benderfyniad pob dyn, trwy nerth gras Duw ; sef, *Dywedais, Cadwaf dy ffyrdd*². Fe wnai parottoad crefyddol prydlon fwy o lesâd i ddynion nag y maent yn ei dybied.

Wylodd Crist dros Jerusalem, yr hon nid wylai drosti ei hun ; a hyn oll am na's gwyddai hi y pethau a berthynent i'w hedd-wch. Gwnaeth Antiochus lawer o sarhâd i bobl yr Iuddewon ac i deml Dduw ei Hun,

² Ps. xxxix. 1.

gan gyssegr-ladratta o honi yr addurnau appwyntiedig i wasanaeth Duw: ond pan wysiodd Duw ef i'w lys ei Hun i roi cyfrif am ei waith ysgeler, buasai dda gan ei galon pe na chyffyrddasai eriôed felly â phethau sanctaidd, a gyssegrwyd yn unig i'r Eglwys ac i wasanaeth duwiol³. Pan welodd Pharaoh y môr yn barod i'w lyngcu ef, mae'n ddiammheuol fod yn ddrwg ganddo ddarfod iddo eriôed wneuthur cam â babanod gwirion plant Israel, a gorthrymmu etifeddiaeth Duw ei Hun. Pan fo cwsig wedi myned oddi wrth eu llygaid, a gorhwydra wedi ffoi o'u gweylâu anesmwyth, yna fe ddymuna llawer na buasent yn llai gorthrymmus nag y buant, na buasent yn ymprydio'n aml gyd â'r Apostol⁴, yn gweddio gyd â Daniel⁵, yn wylo gyd a Mair Magdalen⁶, yn byw mewn cyflwr cymhedrol ac ofn Duw, yn hytrach na chael mwyniant pechod dros amser, yr hwn y cانت weled y bydd iddynt yn y diwedd yn llawn o chwerwedd.

Dylid ystyried y pethau hyn mewn amser, a'r amser yw'r munud hwn. Ebe Doethineb am bechaduriaid esgeulus, *Hwy a'm ceisiant yn fore, ond ni'm caint*⁷; pa ham? am eu bod yn ceisio pan yw'n rhy ddiweddar. Gall y morwynion ffol alw, *Arglwydd, Arglwydd*⁸!

³ 1 Mac. vi. 12, 13.

⁴ 2 Cor. xi. 27.

⁵ Dan. ix. 21.

⁶ Luc vii. 38.

⁷ Diar. i. 28.

⁸ Mat. xxv. 11, 12.

ond pan fo'r Priod-fab wedi pasio heibio, ac wynebpryd hynaws Crist wedi cael ei droi draw, bydd gresynus gyflwr y morwynion hynny yn ddigon i dorri eu calonnau gan alar, a'r cyfryw alar ag na phaid byth byth-oedd âg archolli eu heneidai truenus.

Onid llawer gwell ynte fyddai i ni, mewn achos o gymaint pwys, sefyll fyth yn barod mewn difrifol ymbarottoad gogyfer â'ndiwedd, a "glynu yn ofn Duw, a heneiddio ynddo," fel y mae Sirach yn ein cynghori? Hefyd, gan fod ein parhâd ni yma yn sicr yn unig o ran ei ansicrwydd, gan hynny, medd un, "O leiaf, poed i'n cyflwr ansicr presennol ein dwyn i sicr bryder am ein cyflwr i ddyfod."⁹ Os ydym mewn dim i gofio pryder y prophwyd, yr hwn *ni roddai gwsg i'w lygaid, na hún i'w amrantau*¹, yn y matter hwn yn anad dim arall y dylem ei gofio. Pwy a dreuliai ddiwrnod mewn diogelwch pech-adurus? Pwy a orweddai un noson yn ei wely yn y fath gyflwr ag na's mynnai farw ynddo? Onid yw llawer yn cyfarfod âg angau yn y lleoedd llawenaf, lle nad ydynt yn meddwl dim am dano? yn awr yn llon, ond ar fyrder yn wrthrychau galar? Asgwrn bychan yn y bwyd, neu frycheuyn yn y ddiod, neu gynllwyn gelyn, sydd wedi bod lawer tro yn angau, er ei waethaf, i lawer

⁹ Eus. Em. Hom. I. ad Mona.

¹ Ps. cxxxii. 4.

capten dewr, er iddo allu dîangc rhag per-yglon y frwydr ynghanol gelynion mileinig. Llawer cyfall hoff sydd wedi ysgwyd llaw â ni wrth ffarwelio yn y byd hwn, na's gwelwn mo honiynt mwy nes y cyfarfyddom yn y nef.

Gan hynny, pan gadwom ein cyfarfodydd cyhoeddus, rhaid i ni eu cadw â meddwl crefyddol ; canys ni's gwyddom ni a gawn eu cadw byth mwy. Pan wnelom ein hufudd edifeirwch i Dduw, dylem wneuthur hyfny'n ddiffuant, rhag na chawn mwyach gyfleusdra. Mae Satan yn brysur, am fod ei amser yn fyr ; ac am hynny y mae ei lid yn ffyrniccach : a dylem ninnau, wrth gofio fyrred yw ein hamser, arferyd cwbl ddiwydrwydd i ddyblu ein gofal i achub y blaen ar ddichellion yr hen sarph gyfrwysdrwg.

Mae'r Eglwys yn gweddio'n Gristianus iawn ar i'r ffyddloniaid gael eu cadw rhag *angau disyfyd*. A mawr yw'r achos sydd i'r Cristion sobr ddymuno ei roi ei hun yn hamddenol yn nwylaw Duw, yn lle cael ei gipio mewn moment allan o gymdeithas dynion. Gall dyn da weddîo am gael ymadawiad es-mwyth allan o'r byd ; a diweddu gyrfa'r ein-foes mewn ymddattodiad rhydd a diboen yw'r fath angau Cristionogol teg ag y mae'n gyfreithlon i ni oll grefu ar i Dduw ei gan-iatâu i ni.

Ond etto, pan fo'r meddwl yn barod, ac

yn ymroddi beunydd i ewyllys yr Hwn a
ŵyr yn well na ni pa ffordd yw'r oreu i'n
dwyn i'w deyrnas, er i'r Cristion ddiweddu
dyddiau ei oes drangcedig trwy gael ei rydd-
hâu'n *ddisymmwth* oddi wrth y gwendidau
corphorol hyn, ni bydd y sydynrwydd hwn o
un niweid i'w gyflwr yn y byd arall, os yw efe
beunydd yn y byd hwn yn ymbarottî gogyfer
â dydd ei ymadawiad; a pha mor sydyn byn-
nag y delo angau, nid eu *goddiwes* hwynt y
mae, y rhai sy beunydd yn meddwl am eu
hymddattodiad.

“ Ystyria, nid beth ydwyt, ond beth a
fyddi,” medd St. Bernard². Beth sydd wedi
dyfod o holl eppil Adda am gynnifer cant o
flynyddoedd? onid ydynt oll wedi myned
ymaith? a'r rhai sydd i ddyfod etto, onid
ant hwythau ymaith? Mae Moses, wrth
son am y rhai a fuant fyw cyn y diluw, (pan
oedd dyddiau dyn o hwy parhâd nag ydynt yn
awr,) yn dywedyd, *Holl ddyddiau Seth oedd
ddeuddeng mlynedd a naw can mlynedd: ac
efe a fu farw. Holl ddyddiau Jered oedd ddwy
flynedd a thrugain a naw can mlynedd; ac
efe a fu farw. Holl ddyddiau Methuselah
oedd naw mlynedd a thrugain a naw can mlyn-
edd; ac efe a fu farw*³. A bydd y geiriau
hyn, ac efe a fu farw, yn gymmwysiadol

² Considera non qualis sis, sed qualis fueris.—*Bern.*
de Consid. ad Eug. lib. 3.

³ Gen. v. 8. 20. 27.

attom oll cyn bo hir. Ac yn y cyfamser yr ydym yn darllen bedd-argraphiadau rhai eraill, ac yn dilyn cynhebryngau rhai cyfeillion anwylgu ; ac yr ydym yn gweled llawer, fel y rhai y syrthiodd y tŵr arnynt yn Si-loam⁴, yn ymadael â'r byd mewn moment ; yr hyn sy ddigon o rybydd, pe byddai ddigon hefyd, i'n cyfrôi i fyw yn barod i farw.

Mae dynion anystyriol, medd un, yn debyg i weinidogion gwastraffus yn llysoedd tywysogion, y rhai fyddant yn llosgi eu dogn o ganhwyllau mewn bloddest, ac felly yn gor fod yn y diwedd fyned i'w gwelyau yn y tywyllwch ; ond y mae Cristionogion synhwyrol yn rhag-ddarparu erbyn yr amser a ddaw, ac yn ystyried y daw'r fuchedd drang-edig hon i ben, ac felly'n parottôi gogyfer â byd arall, fel y gallont yno gael gorhwysdra barhäus a sefydlog. Ac yn awr, ynte, dylai anwadalwch einioes, a phwysfawrowgrwydd y matter hwn, ein cynhyrfu oll i fod yn ofalus mewn gwirionedd i fod fyth yn barod i roi ein cyfrif i Dduw, sef i fyw yn barod erbyn dydd marwolaeth⁵.

Gwel pawb gymaint y mae'n perthyn i ni ddarparu yn amser ein hiechyd erbyn byd arall. Pe buasai gennym *ddau* enaid, gallem fod yn ofalus i gadw un, er digwydd colli'r llall ; ond *un* enaid sy gennym, i'w gadw neu

⁴ Luc xiii. 4.

⁵ Luc xvi. 3.

i'w golli. Mynnai Duw i'w bobl, wrth fyned allan o'r Aipht, *fod d'u lwynau wedi eu gwregysu, eu ffyn yn eu dwylaw, a'u hesgidiau am eu traed*⁶, fel na byddai dim i'w rhwystro pan ddelai amser eu gwaredigael. Ni's gwyddom pa mor fuan yr enfyn Duw ni allan o'r Aipht hon; caniattâed Iesu Grist fod i ni gadw ein Pasg gyd âg eneidiau parod i gychwyn. *Yn y diwedd, da fydd i'r hwn a ofno'r Arglwydd; ac efe a fendithir yn ei ddydd diwedd, ebe'r gwr doeth*⁷.

PENNOD X.

Yn yr hon y dangosir y dull y dylem ymbarottbi, neu'r sefyllfa o fuchedd y dylai'r Cristion fod yn barod ynnddi erbyn angau.

Y MODDION ynte i farw marwolaeth yr uniawn, yw byw bywyd yr uniawn yn gyntaf. Y ffordd i eistedd gyd âg Abraham fry, yw rhodio gyd âg Abraham yma; canys y mae Duw wedi appwyntio fod buchedd rinweddol i fyned o *flaen gwobr mawr* y bywyd tragwyddol, nid fel achos, ond fel effaith a chanyliad ein bendigaid gyflawnder yng Nghrist ein Ceidwad. Beth ynte sy'n aros, ond bod i ni ffurffio'r brethyn fel y mynnem i'r dilledyn fod; a hau fel y dymunem ryw ddydd fedi?

⁶ Exod. xii. 12.

⁷ Eccles. i. 13.

Canys y rhai a fynnant orwedd ar wely es-mwyth, rhaid iddynt gyweirio'r gwely'n esmwyth cyn myned iddo: a byw'r bywyd yr ydym yn gobeithio ei fyw rhagllaw, yw byw bywyd o wir grefydd yn y byd hwn.

Byddai'r hen Gristionogion yn gwneuthur i'r byd ddarllen yn eu bucheddau yr hyn oeddynt yn ei gredu yn eu calonnau; ac i'r paganiaid ddywedyd, "Duw da yw hwn, gan fod ei weision crystal¹." Gan hynny nid oes well cyflwr i'r Cristion sefyll ynddo, fyth yn barod i'w ddiwedd, nag ymarweddiaid buchedd dduwiol a sanctaidd.

Onid oedd datganiad Samuel yn un hynod a choffadwy, pan, cyn ei farw, y traethodd yngwydd yr holl bobl ddiniweidrwydd ei fuchedd fel hyn: *Wele fi ; tystiolaethwch i'm herbyn ger bron yr Arglwydd, a cher bron ei enneiniog.* Fel pe dywedasai, "Rhoddwch i mi dystiolaeth gymmeradwyol wrth ymadael;" *ych pwy a gymmerais ? neu pwy a orthrymmais i ?* Attebiad y bobl oedd, *Ni orthrymmaist ni, ac ni chymmeraist ddim o law neb ;* fel pe dywedasent, "Duw fyddo gyd â thi, Samuel anwyl, at yr Hwn yr wyt yn awr yn myned." Ac felly â chalonnau galarus, hwy a roisant iddo'r dystiolaeth hon ar ei ymadawiad². Tystiolaeth St. Paul, hefyd, pan oedd yn canu'n iach i henuriaid

¹ Just. Mart.

² 1 Sam. xii. 3, 4.

Ephesus, y rhai a wylasant yn dost, *gan ofidio'n bennaf am y gair a ddywedasai efe, na chaent weled ei wyneb ef mwyn*; eb efe, *Yr ydwyf yn tystio i chwi y dydd heddyw, fy mod yn lân oddi wrth waed pawb oll; arian neu aur, neu wisg neb, ni chwennychais*³. Onid oedd hwn yn ymadawiad da ar ol cystal buchedd? Tystiolaeth Simeon hefyd, *gwr cyfiaawn a duwiol, yn disgwyl am ddiddanwch yr Israel*, yr hwn, â Christ yn ei freichiau, a weddiodd ar gael *ei ollwng mewn tangnerefedd*⁴. “O dydi fuchedd dda,” ebe hen dad, “gymaint llawenydd wyt yn nydd cyfyngder!” ac nid oedd ar yr hen dad hwn gywilydd byw'n hwy, gan ei fod wedi byw'n gyfiaawn; ac nid oedd yn ofni marw, am fod ganddo Arglwydd daionus⁵.

Mae Plutarch yn ysgrifenu am Pericles, ei fod mor ddiniweid, fel na bu eriðed yn achos i neb wisgo galarwisg⁶; ac am Lysander, ei fod mor rhinweddol, fel ag yr anrheddwyd ef yn fwy ar ol ei farw nag yn ei holl fywyd⁷. Ond y gwr doeth, wrth son am weision Duw, y rhai a aethent trwy gaddug y byd hwn â lampau yn eu dwylaw, i lewyrchu iddynt eu hunain ac i eraill, a ddywed, *Eu gogoniant ni ddileir; eu cyrph a gladdwyd mewn heddwch, ac y mae eu henw yn byw*

³ Act. xx. 26. 33.

⁵ Poss. de Amb.

⁴ Luc ii. 25. 29.

⁶ Plut. in Vit. Pericl.

*byth*⁸. Canys cyfryw ydyw nerth rhinwedd, fel y gwna ddynion yn anrhyydeddus, nid yn unig yn eu bywyd, ond hefyd ar ol eu marw; y mae megis yn eu codi o'u beddau, ac yn peri iddynt fyw ynghoffadwriaeth llawer o oesoedd i ddyfod, a'u henwau wedi eu rhestru gyd â seintiau'r nef. Yr oedd y rhai hyn fyth yn disgwyl eu hymadawiad, â chanddynt nefol drysor cydwybod dda, a thangnefedd a thawelwch meddwl. Pan dafler y drygionus, eb Esay, fel y môr yn dygyfor, mae eu henwau, medd y gwr doeth, yn darfod fel pe na buasent eriôed.

Fel hyn y mae'r dyn o fuchedd dda, fel y gwas gwyliadwrus, yn agoryd y drws yn llawen, pan fo'i Arglwydd yn curo; tra mae'r gwas afradlon yn diangc i gornelau gan gywilydd ei weled. Rhyddhêir y naill trwy gyhoeddiad llawen, tra y ceir y llall yn euog yn llys ei gydwybod ei hun. Yr hwn a fynno ddywedyd gyd â'r Apostol, *Marw sydd elw*⁹, rhaid iddo, gyd â'r Apostol, *fyw meun pob cydwybod dda*¹.

Cymaint a hyn yn gyffredinol ynghylch ymbarottî erbyn amser ein hymddattodiad: ond i ddyfod yn fwy manol a neillduol, hunan-ymroddiad i *ffydd, gobaith, a chariad*, yw'r cyflwr, yn yr hwn pan sefydler gwas Duw,

⁸ Eccles. xliv. 13, 14.

⁹ Phil. i. 21.

¹ Act. xxiii. 1.

ni raid iddo ofni *y mddiddan d'r gelynion yn y porth*².

1. *Ffydd* yw'r ffon ar ba un yr ydym yn ymgynnal ym mywyd ac yn angau, sef y ffydd a ddywed wrthym fod Duw trwy Grist wedi dyfod yn iachawdwriaeth i ni. Trwy ffydd y'n bendithir³; trwy ffydd yr ydym yn gorfoeddu mewn gorthrymderau⁴; trwy ffydd y mae i ni ddyfodfa at Dduw⁵. Dyma'r darian â'r hon yr ydym yn diffoddi holl biccellau tanllyd y fall, a dyma y moddion trwy y rhai yr ydym yn gwrthwynebu Satan⁶.

Mynnai Nahas yr Ammoniad wneuthur heddwch â gwŷr Jabes-Gilead, yn unig ar yr ammod iddo ef gael tynnu eu llygaid dehau hwynt⁷. Felly mynnai'r hen Ammoniad, ein gelyn Satan, gynnyg heddwch i blant Duw, ond yn unig ar yr ammodau hyn, sef tynnu eu llygaid dehau, sef y fendigaid ffydd ag sy'n edrych ar Grist croeshoeliedig. Ond a wna'r Gileadiaid ysprydol ymostwng i'r fath delerau? Na wnant byth, er myrdd o fyddedd o aur ac arian!

A oes gennym ddim i'w wneuthur wrth orsedd Duw yn y nef? nid oes yno ond dau beth i'w bledio, sef diniweidrwydd a thrugaredd. Mae ffydd yn peri i ni'n hyderus bledio ple trugaredd, ac yn dywedyd i ni fod

² Ps. cxxviii. 5.

³ Galat. iii. 9.

⁴ Rhuf. v. 2.

⁵ Ephes. iii. 12.

⁶ Ephes. vi. 16.

⁷ 1 Sam. xi. 2-4.

y Barnwr wedi cael ei gymmodi. *Pwy a'n gwahana ni oddi with gariad Crist*, gwedi i ni unwaith gael ein cadarnhâu yn y ffydd hon? *ai gorthrymder, neu ing?* Nag è; ni's gall nac angau, nac einioes, nac angylion, na thywysogaethau, na phethau presennol, na phethau i ddyfod⁸.

Yr ydym yn darllen yn yr Efengyl, yn esampl Mair Magdalen, pa fath ffydd y mae Crist yn ei ganmol; ar ol iddi alaru ac wylo am ei phechodau, ebe Crist wrthi, *Dy ffydd a'th gadwodd*⁹; fel pe dywedasai, “ Mae'r ffydd wylofus hon, y ffydd edifeiriol hon, yn ffydd wirioneddol.” Ar ol gweled o hono wasanaeth crefyddol y Samariad, yr hwn a ddychwelodd i roi clod i Dduw, ac a syrthiodd i lawr wrth ei draed Ef, Efe a ddywedodd wrtho yntau hefyd, *Dy ffydd a'th iachaodd*; gan fwrw fod y ffydd ostyngedig ddefosiynol hon yn wir ffydd: *Cyfod, a dos ymaith; dy ffydd a'th iachaodd*, eb Efe wrtho¹. Wrth y dyn dall, yr bwn a lefodd, *Iesu Fab Dafydd, trugarhd wrthyf*, ac er cael ei geryddu, efe a lefodd yn fwy o lawer nes cael trugaredd, wrth hwn, fel wrth y llall, fe ddywedodd Crist, *Dy ffydd a'th iachaodd*; cystal a dywedyd, “ Mae'r ffydd erfyniol hon o'r eiddot yn ffydd dda; cymmer dy olwg².

⁸ Rhuf. viii. 35. 38.

¹ Luc xvii. 19.

⁹ Luc vii. 50.

² Luc xviii. 38. 42.

Beth a wnaeth i gynnifer o hen seintiau ddioddef rhwymau a charchar, eu llabyddio, a'u torri â llif? Ffydd, medd yr Apostol³. Nid ffydd wan, eiddil gan barlys, ond ffydd gref a dianwadal hyd y diwedd, oedd y ffydd hon, ffydd yn cysuro'r meddwl sydd ar ddarfod am dano, ac yn dywedyd, *Pa un bynnag yr ydym ai byw, i'r Arglwydd yr ydym yn byw; ai marw, i'r Arglwydd yr ydym yn marw: pa un bynnag yr ydym ai byw ai marw, eiddo'r Arglwydd ydym*⁴.

2. At y ffydd hon y cysylltir *Gobaith*, yr hwn a eilw'r Yspryd Glân yn *angor yr enaid*⁵. Mae'r angor yn ymaflyd yn ddwfn, ac ni's gellir ei weled; ac etto efe yw holl gynhaliad y llong. Felly mae gobaith yn cyrhaedd ym mhell, ac yn ymaflyd mewn pethau anweledig; ac etto mae'n dal ei afael yn sicr ynganol ymchwydd tonnau'r byd tymhestlog hwn. Dyma'r *gobaith ni chywili-yddia*⁶, a ymerys mewn amynedd, ac a orfoledda mewn gorthrymderau; a dywed St. Awstin am dano, mai bywyd y bywyd ydyw, am ei fod yn erchi i ni fyned *yn hyderus at orsedd-faingc y gras*⁷, a goddef yn ewyllysgar i'n cyrph marwol hyn gael eu cyfnewid, fel y caffom eu hail-dderbyn mewn adgyfodiad gwell.

³ Heb. xi. 37. ⁴ Rhuf. xiv. 8. ⁵ Heb. vi. 19.

⁶ Rhuf. v. 5.

⁷ Heb. iv. 16.

3. Yn y trydydd lle, gellir ystyried *Cariad*, cydymmaith anwahanol ffydd. Gwahanodd Duw yn y greadigaeth y goleuni oddi wrth y tywyllwch ; ac ni's gallwn ninnau, mewn cyflwr o gyfiaawnhâd, ddim meiddio cyssylltu goleuni ffydd â gweithredoedd y tywyllwch, megis *cynnen a chynfigen*⁸.

Yn y ddegfed bennod o ail lyfr y Brenhin-oedd, pan ddaeth Jehonadab at Jehu, fel pe buasai'n amcanu bod yn ddilynwr iddo, medd Jehu wrtho, *A ydyw dy galon di yn union, fel y mae fy nghalon i gyd d'th galon di?* Dywedodd yntau, *Ydyw.* Yna, ebe Jehu, *Od ydyw, moes dy law*⁹. Ac fel hyn y mae ein Jehu godidog ni, yr hwn a anfonodd Duw i dynnu i lawr alluoedd y tywyllwch, yn dywedyd wrth bawb a fynnent broffesu ei enw Ef, “A ydyw dy ffydd di yn uniawn ynof fi ? od ydyw, moes i mi weithredoedd dy ddwy-law.” Fel y bydd plant Duw yn gwahaniaethu oddi wrth blant y byd hwn yn y fuchedd a ddaw, felly rhaid iddynt wahaniaethu oddi wrthynt yn y fuchedd hon mewn gweithredoedd da ; a phrif nod gweithredoedd da yw *cariad*.

Dywed Crist wrthym ni, fel y dywedodd Arglwydd y winllan wrth y rhai oedd yn y farchnadfa, *Pa ham y sefuch chwi yma ar hyd y dydd yn segur*¹? Mae ffydd yn galaru am

⁸ Rhuf. xiii. 13.

⁹ 2 Bren. x. 15.

¹ Mat. xx. 6.

ddiffyg gweithredoedd da, fel Rahel yn galaru am ei phlant; ac yn dywedyd fel Rahel, *Moes feibion i mi*, (sef gweithredoedd da,) *ac onid é, mi a fyddaf farw*². Eb ein Ceidwad Crist wrth ei ddisgyblion, *Wrth hyn y gwybydd pawb mai disgyblion i mi ydych, os bydd gennych gariad i'ch gilydd*³.

Aberthodd Cain offrymmau drwg, yr hyn oedd argoel fod cariad Duw wedi oeri yn Cain. Cyn hir ar ol hyn, efe a lofruddiodd Abel⁴, yr hyn oedd arwydd ei fod wedi colli ei gariad at ei gymmydog hefyd. “Ond oh, dydi Cain,” ebe St. Jerom, “beth wyt yn ei wneuthur? Pa achos sydd i ti o'r casineb creulon hwn a'th awydd am dywallt gwaed gwirion? Pa fodd yr haeddodd dy frawd hyn? Pa drais a gynnygiodd efe i ti? A ddarfu i'th unig frawd dy anfoddio di, am ddarfod iddo foddio Duw? Ni's gwyddost faint dy golled, yn colli'r fath gydymmaith da! Ond y mae cynfigen yn chwyddo'r galon, ac yn dallu'r deall, ar ol iddi gael unwaith ddyfod i mewn⁵.” Clywch fel yr oedd Lamech, ac yntau'n hen wr, yn llefaru; *Os Cain a ddielir seithwaith, yna Lamech saith ddengwaith a seithwaith*⁶. Nid oes yn y geiriau hyn ond meddwl wedi ymroddi i ddíal. Ond os gwran-dêwch fel y llefara Dafydd, gwr Duw, cewch

² Gen. xxx. 1.

³ Ioan xiii. 35.

⁴ Gen. iv. 5—8.

⁵ Hier. de Cons. in Advers.

⁶ Gen. iv. 24.

esampl o un yn son am gariad a hynawsedd hyd yn nod tu ag at ei elynion : *A oes un etto wedi ei adael o dŷ Saul, eb efe, fel y gwnelwyf drugaredd dg ef?* Maddeuodd Joseph hefyd i'w frodyr, am ei fod yntau ei hun dan law Duw.

Yr hyn oll a allwn ni faddeu i'n gelynion, nid ydynt ond rhyw fân dramgwyddiadau, ar y mwyaf ; ond y mae'r hyn y mae Duw yn ei faddeu, yn ddyledion pwysig iawn. Nid ydym ni yn maddeu ond rhyw *gan ceiniog* ; ond mae Duw yn maddeu *talentau*, a'r rhai hynny yn *ddeng mil* o nifer hefyd⁸ ! Gwnaeth Thrasybulus, pagan o Roegwr, gyfraith yn peri anghofio pob camwri a wnelsai dynion i'w gilydd, er mwyn adferu cyfeillgarwch ag oedd wedi colli. Ond nid cyfraith Thrasybulus, eithr cyfraith Crist yw, *Maddeuwch, a maddeuir i chwithau*⁹.

Beth sy gan y nef yn ogoneddusach nag undod y Drindod ? Beth sy gan y ddaear yn fwy nefol nag undeb a chydfyddiaeth ? Pan fo un afon yn rhedeg tu a'r môr, mae ei rhediad yn dda, ac y mae'n myned fel y dylai ; ond pan gyfarfyddo afon arall â hi, mae rhediad y ffrwd yn cryfhâu. Felly pan fo cariad at Dduw yn ein cario ym mlaen, mae ein rhediad yn dda, ac fel y dylai fod ;

⁷ 2 Sam. ix. 1.

⁸ Mat. xviii. 24. 28.

⁹ Luc vi. 37.

ond pan fo hwn yn cyfarfod â chariad at ein cymmydog, yna y mae cryfhâd a chynnydd i rediad ein ffrwd i fôr o bob gwŷnfydedig-rwydd.

Un o'r moddion arbenniccaf i gynnyddu'r cariad dau-ddyblyg hwn ynghalon pob credadyn, yw cyfrannogi'n fynych o'r Cymmun sanctaidd a bendigaid. Geilw rhai y Cymmun wrth yr enw *Ephodion*, sef lluniaeth angenrheidiol i ni ar ein taith ysprydol. O ddirgeledigaeth gwŷnfydedig! yr hwn, heb law cynhyrchu effeithiau nefol a goruchel eraill, sy'n fodion i'n cryfhâu ar y daith bwysig hon, ac i'n diddanu hyd nes y cyrhaeddom ben ein siwrnai.

Wrth ymbarrottôi yn y modd yma, gallwn yn siriol dderbyn amser da Duw, yr hwn a'n dygodd i'r byd, i'n cymmeryd o hono drachefn pa bryd bynnag y rhyngo fodd iddo Ef alw am danom. Y mae'r cyflwr y dylem sefyll ynddo mewn parottoad at ein diwedd, yn gofyn ein hymarferiad Cristionogol; ac ni a gawn brofi dedwyddyd y cyflwr hwn, pan ddelom yn y diwedd i'r breswylfa lle mae pob gwŷnfyd yn trigo.

PENNOD XI.

*Pa foddy dylai'r Cristion ymddwyn pan ddechreuo
glefychu.*

Y PRIF a'r pennaf beth i'w gofio'n grefyddol yn nechreuad selni, yw bod i'r enaid alw i gof yn ddifrifol y pechodau a aethant heibio ; y drwg a gyflawnwyd, a'r da a esgeuluswyd ; yn ol geiriau'r Psalmwydd, *Dywedais, Cyffesaf yn fy erbyn fy hun fy anwireddau i'r Arglwydd*¹. Ac felly yr oedd yn yr Eglwys gynt hen drefn dda², ar fod i'r claf, cyn anfon am y meddyg, wneuthur yn gyntaf gyffes ostyngedig a galarus gydnabyddiaeth o'i bechodau ; a chan fod ein pechodau'n fynych yn achos o'n clefyd, fe arferid y drefn hon gyd â mawr barch. Canys y mae Duw weithiau yn cymmeryd ymaith yr effaith, pan gymmerom ni ymaith yr achos, sef arferiad ein pechodau.

Iachaodd Crist yr efrydd a orweddassai cyhyd wrth lyn Bethesda ; a mawr oedd y drugaredd a ddangosodd yn hyn tu ag atto ; canys yr oedd y dyn yn eiddil ddigyfaill, ac yn cael ei wthio ymaith oddi wrth lan y llyn pan gynhyrfid y dwfr, fel y bydd y byd di-deimlad hwn yn arfer gwneuthur. Iachaodd

¹ Ps. xxxii. 5.

² In. Decr. vinc.

Crist ef, ac a roes y rhybudd hwn iddo i'w gofio o hynny allan ; *Wele, ti a wnaethpwyd yn iach ; na phecha mwyach, rhag digwydd i ti beth a fyddo gwaeth*³ ;—ti a wnaethpwyd yn iach, gan hynny buost unwaith yn afiach ;—ti a wnaethpwyd yn iach, gan hynny nid tydi a iacheaist dy hun ;—*ti a wnaethpwyd yn iach, gan hynny yr wyt yn awr yn rhydd oddi wrth afiechyd* ;—*na phecha mwyach rhag digwydd i ti beth a fyddo gwaeth* ; gall-asai yr Hwn a'th gystuddiodd dros amser, dy ddal yn hwy ; gallasai yr Hwn a'th gyffyrddodd mewn rhan, dy daro'n gwbl ; gall yr Hwn a roes hyn ar dy gorff, roi trymmach gwialen ar dy gorff a'th enaid hefyd ; *na phecha mwyach*.

Felly ni a welwn wrth hyn y dylai afiechyd corph ein cynhyrfu i lefain gyd â'r prophwyd, *Na chofia bechodau fy ieuengctid*⁴ ; ac hefyd, *Glanhâd fi oddi wrth fy meiau cuddiedig*⁵.

Pan ddechreuo selni ymaflyd ynom yn llym, yr ydym yn bryderus i holi ac i chwilio am ryw beth i roi iechyd i'r corph ; fel yr anfonodd Asa at y meddyg i'w iachâu o'i glefyd, yn lle anfon yn hytrach at y prophwyd i roi rhyw feddyginaeth ysprydol i'w enaid claf⁶. Pan fo'r meddyg wedi gorphen gyd â ni, yna, ac nid yn gynt, yr ydym yn

³ Ioan v. 14.

⁴ Ps. xix. 12.

⁵ Ps. xxv. 7.

⁶ 2 Chron. xvi. 12.

foddlon i'r duwinydd ddechreu, fel pe byddai rhyw ddau air neu dri o gyfarwyddyd ys-prydol yn ddigon, pan dybiom nad oes fawr o obaith am wellhâd ! Na, na ; y prif a'r pennaf ofal ym mhob amgylchiad cyfyng, a fyddo galw'n edifarus am help Duw, yr Hwn sydd weithiau yn iachâu'r corph a'r enaid, gan estyn dyddiau'r ymbiliwr galarus, fel yr estynodd ddyddiau Hezeciah. Er fod y *swp o ffigys'* yn llesol, fel moddion ordeiniedig gan Dduw ; etto physygwriaeth yr enaid yw'r cordial goreu i'r claf edifeiriol.

Cofwn am y bobl yn llyfr Numeri, pan frathwyd hwy gan seirph yn yr anialwch ; nid oedd ganddynt un moddion o help, namyn edrych i fynu ar y sarph bres, yr hon a ddyrchafodd Moses ar orchymyn Duw, fel moddion i ddwyn adferiad iechyd iddynt⁷. Nid oes i ninnau un nodded yn amser cyni, ond dyrchafu llygaid ein heneidiau i edrych ar Grist croeshoeliedig. Llefodd y bobl ar Moses ac Aaron, ond nid oedd un help nes yr appwyntiodd Duw'n drugarog y moddion gwyrthiol yma. Ac ni cheid nawdd yn y ddeddf i'r enaid cyfyngderus, nes y bu i Dduw, yn ei ryfeddol gariad, godi iachawdwriaeth nerthol iddo ynghyflwr gras yr Efengyl. Dyrchafwyd y sarph bres, fel y gallai pawb

⁷ Essay xxxviii. 21.

⁸ Num. xxi. 8.

ei gweled ; dyrchafwyd Mab Duw fel y caffai pob credadyn iachawdwriaeth o hono ac ynddo Ef. I gael iachâd oddi wrth frath y seirph tanllyd, y cyngor oedd, *Edrych, a bydd fyw*⁹; i gael iachâd trwy Grist, y cyngor yw, *Cred, a bydd fyw*¹.

Mae'r moddion bendigaid yma yn ychwanegu cysur nid ychydig i'r dyn trallodus, pan fo drymmaf ei gyfyngder. Ein prif ofal, ynte, pan ddechreuom glafychu, fo cydnabyddiaeth iselfryd o'n camweddau; bydd i hyn ein cyffrî i ddywedyd fel brodyr Joseph, *Am hynny y daeth y cyfyngdra hwn arnom ni*². Yn gyntaf peth, cyffeswn ein holl feiau o galon ; dymunwn yn iselfryd, gan blygu gliniâu'r corph a'r galon, am faddeuant am danynt ; poed gennym ddymuniad yspryd i gael ein dattod oddi wrth rwymau pechod. Dwg hyn ni i waeddi fel Dafydd brophwyd, *Gwanhawyd a drylliwyd fi'n dramaur*³. Ac yna, wedi hynny, dyrchafiad llawen y galon at orsedd gras a bair i ni'n ewillysgar ymwrthod â'r byd, a'n rhoi ein hunain i'w ewyllys dwyfol Ef, i appwyntiad yr Hwn y dylem ymostwng yn amyneddgar ac yn addfwyn.

Ni a welwn ein bod yn ei law Ef, yr Hwn yn unig sy ganddo allu ar bob cnawd : pan

⁹ Num. xxi. 9.

² Gen. xlvi. 21.

¹ Ioan iii. 14.

³ Ps. xxxviii. 8.

fyddom mewn angen, gwyddom y fendith o lawndra ; pan ydym yn rhwym, y gwyddom oreu gystal peth yw rhyddid ; pan ydym yn glaf, dylem yn ddiolchus, (od oes ynom ddim diolchgarwch,) gydnabod gwerth bendith iechyd ; a gallwn gasglu, pan fo Duw yn anfon arnom glefyd nychlyd, mai disgwyl yn drugarog y mae, nes yr ymbarottôm ni i farw.

O rhyng a bodd iddo Ef ohirio amser ein pererindod ar y ddaear, ni a ddylem offrymmu bwriad penderfynol, fel aberth, ar allor ein calonnau, i'w wasanaethu Ef mewn gwirionedd holl ddyddiau ein bywyd ; ac fel hyn, gan hyderu yng Nghrist croeshoeliedig, ni a wnawn y penderfyniad hwn : “ Os byddwn fyw, da ; ond os byddwn farw, gwell fydd hynny.”

PENNOD XII.

Fel y dylai'r claf drefnu ei ddâ byd a'i feddiannau.

Da ynte yw i'r claf gyffesu ei bechodau, cyflwyno ei enaid yn grefyddol i Dduw, a rhoi ar Ragluniaeth ddwyfol ei ddymuniad am fyw neu farw. Ond y mae hefyd yn gymhesur i bob Cristion, yn amser ei iechyd, iawn drefnu'r bendithion tymhorol a fen-

thycciodd Duw iddo; ac nid ydyw hyn yn waith y dylid ei arswydo, fel ag yr ystyrir ef gan lawer o bobl ofnus.

Ni ddylai neb drosi hen etifeddiaeth i deulu arall; myn Duw i'r etifeddiaeth ddigwydd i'r aer cyfreithlon¹.

Mae profiad ac esampl dynion doethion a fuant fyw'n hir, ac a wasanaethasant Dduw am lawer blwyddyn, yn dangos nad yw trefnu ein dâ byd ymlaen llaw ddim yn peri i ni farw'n gynt, ond yn dawelach. Gwnaed felly gan Abraham, pan roes efe y rhan fwyaf o'i eiddo i Isaac ei fab, ac i eraill. Gadawodd Abraham gymmun-roddion², ac felly y gwnaeth Dafydd³, Tobit⁴, a Hezeciah⁵, er mwyn tawelwch i'n holynwyr; gan rannu eu heiddo daearol wrth fyned i feddiannu eu perchenogaeth nefol.

I wneuthur y cyfryw iawn drefniad ar ein dâ byd, mae o gyfarwyddyd mawr i ni gael cyngor gan ddynion y gwyddys eu bod yn wybodus a dysgedig.

Yr ydym yn dangos ein diolchgarwch i Dduw, a'n cariad at ddyn, wrth fod o les i eraill; gan gofio geiriau Crist, *Dedwydd yw rhoddi*⁶. Yn y cyfryw roddion, dylem yn bennaf gofio am gynhaliaeth eglwysydd, colegau, ysgolion, yspyttau, a chyfryw ddef-

¹ Num. xxvii. 11.

² Gen. xxv. 5, 6.

³ 1 Bren. i. 30.

⁴ Tobit iv. 20.

⁵ Essay xxxviii. 1.

⁶ Act. xx. 35.

nyddiadau duwiol eraill, pan fo ar ein llaw wneuthur hynny ; canys trwy'r gweithred-oedd hyn o drugaredd yr ydym ein hunain yn cydnabod daioni Duw, ac yn gwneuthur i eraill, wedi i ni farw a phydru, ei fendigo Ef yn y cyfrannogiad o honynt. Anrhydeddodd dynion trugarog Dduw trwy hyn, ebe'r gwr doeth, a *llawer o ogoniad a wnaeth yr Arglywydd trwyddynt hwy?*

Gwaith da yw rhoi i'r tlodion pan fyddom glaf ; ond gwell a mwy cymmeradwy gwaith fyddai i ni wneuthur hynny beunydd yn amser ein hiechyd. Yr haelioni hwn yw'r llong na's tery byth yn erbyn y graig, ond a ddwg ein marsiandiaeth adref yn ddiogel. Yr haelioni hwn yw'r llog mwyaf manteisiol ; canys caiff y trugarog dderbyn yn ol fil am un.

“ Wrth gadw ein cyfoeth,” ebe Gregori, “ yr ydym yn eu colli ; ond wrth eu gwasgaru, yr ydym yn eu cadw'n ddiogelaf.” Eu gwasgaru pan na allom eu cadw yn hwy, nid yw gymaint peth, er ei fod yn waith digon canmoladwy ; ond gwaith canmoladwy dros ben yw rhoi ein bara i'r newynog, a chyfrannu o'n digonedd ein hunain i rai bychain Crist. *Gwyn ei fyd a ystyria wrth y tlawd*⁸, ebe Dafydd. Caiff cwppanaid o ddwfr oer ei wobrwyd ryw ddiwrnod.

Ond pa le y mae yr haelioni helaeth a

⁷ Eccles. xliv. 2.

⁸ Ps. xli. 1.

ddylem ei ddangos at aelodau tlodian Crist? Mae dirfawr falchder y byd mewn gwisgo, a gormodedd afreidiol mewn bwytta ac yfed, wedi ysu haelioni a thrugaredd tu ag at liaws o drueiniaid tlodian.

Ond heblaw trefnu fel hyn ein heiddo a'n meddiannau bydol hyn, (yn yr hwn fatter ni ddylid diffoddi serchiadau naturiol, na dietifeddu'r aer cyfreithlon, na chyfnewid defodau a henafiaeth y lle,) dylid hefyd gofio am wneuthur adferiad lle y gwnaethom gamwri â neb, a chofio talu ein dyledion; yr hyn bethau sydd weddus a Christianus ger bron Duw a dyn. Nid mawr yw i ni faddeu i'n gel-ynion, pan na's gallom mwyach eu niweidio. Y cariad perffaith ag sy'n gweddu i Gristion bob amser, ni ddylai er dim fod yn nifyg yn awr, yn amser ei afiechyd. Gall esampl Stephan yn gweddio dros ei erlidwyr, fod yn ddrych ac yn gynllun i ni o gariad at bawb oll.

Ar ol cadw at y cyfarwyddiadau hyn, gall y claf yn enw Duw ei drefnu ei hun a'i eiddo fel y canlyn :—

Ym mlaenaf, rhoddi a chyflwyno ei enaid, â chalon rydd ac â meddwl ewyllysgar, i ddwy-law yr Hollalluog Dduw, ei Greawdwr, yr Hwn o'i anfeidrol ddaioni a roes iddo hanfod, ac o'i drugaredd annherfynol a deilyngodd ei brynu trwy ddioddefaint ac angau ei anwyl Fab ein Hiachawdwr Iesu Grist, ar haeddiant

yr Hwn yn unig y mae'n gorhwys ar ei ym-adawiad : yna, gan drefnu bod i'w gorh gael claddedigaeth Gristionogol, efe a all fyned ym mlaen yn ol cyfarwyddyd gras Duw a chyngor pwyllog. Fel hyn gall y claf, ar ol rhoi heibio fel hyn bob gofalon bydol, orchymyn ei enaid i ddwylaw'r Hollalluog Dduw mewn edifeirwch a galar calon, gan gymhwys o atto ei hun, trwy ffydd, fendithion aneirif dioddefaint y Cyfryngwr. Canys o'r tri pheth sy ganddo i'w trefnu ar ei wely angau, ei gorh, ei ddâ byd, a'i enaid, ei brif ofal yn anad dim arall a ddylai fod i gyflwyno ac i orchymyn ei enaid i ddwylaw Iesu Grist.

PENNOD XIII.

Reitied yw i'r claf furw ymaith bob meddyliau bydol, a diofrydu ei feddwl i weddi a myfyrdodau defosiynol.

Gweddi trefnu o'r claf ei ddâ byd yn ddoeth ac yn bwyllog, bydd ei feddwl yn fwy tawel i fyfyrion am y nef a phethau ysprydol ; a bydd yn haws iddo nesâu at Dduw trwy weithredoedd o dduwioldeb Cristianus ; ac o'r gweithredoedd hyn nid oes yr un yn meddu arogl-darth pereiddiach na dyrchafu defosiwn ein meddwl mewn ymbil a gweddi. Gallwn

yma wneuthur *dyrchafiad ein dwylaw yn offrum prydnhawnol* ein heinioes¹.

Nid oes i ni well areithwyr i ddadleu ein hachos, na sicrach cenhadon i wneuthur ein heddwch, nag ydyw ein hufudd erfynion arno Ef, yr Hwn sy fyth yn eistedd yn swyddog i'n gwrando, a'r Hwn sy'n edrych ar fod i ni anfon i fynu ein gweddïau, fel yr anfona Yntau i lawr ei drugaredd. Trwy'r moddion hyn yr ydym yn dwyn ymlaen fasnach ys-prydol â Duw ei Hun; nyni yn rhoddi iddo Ef *gwppanaid o ddwfr oer*², ac Yntau yn rhoddi i ninnau *ffynnon y dyfroedd byw*³; nyni, fel y weddw honno, yn rhoi iddo Ef *ddwy hatling*⁴, ac Yntau yn rhoi i ninnau holl drysor ei Deml. Mae trugaredd Duw, medd un, fel llestr yn llawn hyd yr ymyl; ac os gwna ei ffyddlon blant ddechreu cymmeryd o hono â llaw gweddi ddiffuant, mae'r llestr yn gorlifo am eu pennau.

Heblaw hynny, nid fel dyn y mae Duw: mae y rhai sy'n erfyn llawer ar ddyn, yn arfer peri blinder iddo; ond po mwyaf y gweddiom ar Dduw, mwyaf cymmeradwy a fyddwn ganddo. Byddai drysau'r Ediliaid yn Rhufain fyth yn agored i bawb a ddy-munent ddwyn eu cwyn ger eu bron, fel y caffent ddyfodfa ddirwystr attynt; ac y mae Duw yn cadw drws ei drugaredd yn llydan

¹ Ps. cxli. 2.

³ Jer. ii. 13.

² Marc ix. 41.

⁴ Luc xxi. 2.

agored i bob pechadur tlawd a fynno ddwyn ei weddi atto. *Deuwch, a chroesaw, yw gwahoddiad y nef.*

Megis ag y dylem ar amserau ac amgylch-iadau eraill adael weithiau ein matterion daearol, fel y gadawodd Abraham ei weision, pan aeth i'r mynydd i aberthu i Dduw⁵; felly'n enwedig mewn poen a selni corph, dylem esgyn i fyfyrnod am bethau nefol, i redeg at drugaredd yr Arglwydd, fel i ddinas noddfa. *Galw arnaf fi yn nydd trallos, ebe Duw, a mi a'th waredaf, a thi a'm gogoneddi*⁶. Yn nydd trallos, mae i ni nawdd rhag cyfyngder: *a mi a'th waredaf*, dyna wobr trugaredd: *a thi a'm gogoneddi*, dyna addaliad y galon ddiolchgar. Mae Crist yn gwahodd atto *bawb sy'n flinderog ac yn llwythog*; ac ni chollant eu gwobr; Efe a esmwythâ arnynt⁷.

Yn amser cyfyngder nid oes diogelach gwaith na rhedeg at Dduw am noddfa. Ac y mae St. Awstin yn dywedyd, "Ymdrechwn ar fod i ni farw dan weddio⁸." *Dyrchafaf fy llygaid i'r mynyddoedd, o'r lle y daw fy nghymorth, ebe'r prophwyd*⁹. Ac mewn lle arall, *Fel y mae llygaid gweision ar law eu meistraid, neu fel y mae llygaid llaw-for-*

⁵ Gen. xxii. 5.

⁶ Ps. l. 15.

⁷ Mat. xi. 28.

⁸ Demus operam ut moriamur in precatione.

⁹ Ps. cxxi. 1.

wyn ar law ei meistres, felly y mae ein llygaid ni ar yr Arglwydd ein Duw, hyd oni thrugar-hao Efe wrthym¹. Gan hynny, dywedwn yn ddefosiynol gyd â'r un prophwyd, Ynot ti, Arglwydd, yr ymddiriedais; na'm gwarad-wydder yn dragwydd; gwared fi yn dy gyfiawnder². Na cherydd a chospa fi yn dy lid: iachâ fi, canys fy esgyrn a gystuddiwyd³. Nac ymbellhâ oddi wrthys, o herwydd cyfyngder sydd agos; canys nid oes cynorthwywr⁴? Cofia dy dosturiaethau a'th drugareddau, canys eriôed y maent hwy⁵. Na wrthod fi pan ballo fy nerth⁶. Yr wyf yn cydnabod fy ngham-weddau, a'm pechod sydd yn wastad ger fy mron. Glanhâ fi âg isop, a mi a lanhêir⁷. Na chuddia dy wyneb oddi wrth dy was; canys y mae cyfyngder arnaf: brysia, gwrando fi⁸. I'r cyfryw ddymuniadau edifeiriol a hyn nid neppell yw'r attebiad gorfoleddus, Am iddo roddi ei serch arnaf, am hynny y gwar-edaf ef; am iddo adnabod fy enw y dyrchafaf ef: mewn ing y byddaf fi gyd âg ef⁹.

Dylid arfer y gweddiau sydd yng Ngwas-anaeth Ymweliad y Claf hefyd, ynghyd â llawer o Psalmau Dafydd, y rhai, pan ddar-

¹ Ps. cxxiii. 2.

² Ps. xxxi. 1.

³ Ps. vi. 1, 2.

⁴ Ps. xxii. 11.

⁵ Ps. xxvi. 6.

⁶ Ps. lxxi. 9.

⁷ Ps. li. 3. 7.

⁸ Ps. lxix. 17.

⁹ Ps. xci. 14, 15.

llen o'r cystuddiol hwynt, sydd yn addysgu'r gydwybod : ac y maent yn cael mwy o effaith na chyffredin ar y meddwl mewn amser o afiechyd. "Mae'r hymnau dwysol hyn," ebe St. Basil, "yn rhan o'r Ysgrythyr Lân ; maent yn uchel mewn dirgeledigaeth, yn ddyfniion o ran ystyr, yn ddiddanus o ran athrawiaeth ; ac y mae ynddynt, yn amser trallos, ras hyspysol a neillduol i addysgu ac i adeiladu'r enaid¹." Ac ym mhliith y rhai hyn, mae'r Psalmau canlynol yn neillduol o gyfaddas i'r claf ; sef y ddeunawfed ar hugain, *Arglwydd, na cherydda fi yn dy lid*, &c.; yr unfed ar ddeg a deugain, *Trugarhd wrthyf, O Dduw*, &c.; y ddegfed a thrugain, *O Dduw, prysura i'm gwaredu*, &c.; yr unfed ar ddeg a thrugain, *Ynot ti, Arglwydd, y gobeithiais*, &c.; yr ail ar bymtheg a thrugain, *A'm llef y gwaeddais ar Dduw*, &c.; y ddegfed ar hugain wedi'r ganfed, *O'r dyfnder y llefais arnat, O Arglwydd*, &c.

At hyn gellir ychwanegu myfyrdod distaw, yn yr hwn y mae'r enaid yn rhodio wrtho ei hun gyd â Duw ; yr hyn sy fanteisiol iawn yn yr amgylchiad yma. Pan fo seibiant i lawenydd y nef ymddangos i'n meddyllau crefyddol, y mae pleserau ein bywyd pech-adurus, a gwagedd y byd hwn, yn ddiddim a diwerth iawn gennym. Yna gallwn alw i

¹ Basil. in præf. in lib. Psal.

gof annhraethadwy gariad Duw at ddyn yn gyffredinol, ac attom ein hunain yn neillduol : a'r modd y daeth y cariad hwn ym mlaen mewn pryd i achub dyn, cyn i gyflawnder ei gospi ef ; ac mai gwaith o gysur oedd i Dduw ddywedyd, *Bydded goleuni*²; ond mai gwaith o gyngor a phob diddanwch oedd iddo ddywedyd yn iachawdwriaeth dyn, *Ganer Crist*, i achub fy mhobl oddi wrth eu pechodau. Yn awr hefyd y mae gennym gyfleusdra cymmwys i fyfyrion ar ddioddefiadau Mab Duw, ei farwolaeth, ei ddisgyniad i uffern, ei adgyfodiad y trydydd dydd, ei ddyrchafael, a'i ogoneddus eisteddiad ar ddeheulaw Duw : ac felly wrth gofio enw'r Iesu, fe all y pechadur galarus ddywedyd gyd â Thomas, *Fy Arglwydd a'm Duw*³.

Ni's gallwn yn y byd hwn arferyd ein meddyliau'n well na thrwy alw i gof fel y cadwodd Duw ni o'n mebyd⁴, o ba gynnifer o beryglon y gwaredwyd ni, i'r rhai y gwell-som lawer yn syrthio o flaen ein llygaid, a ninnau, yn unig drwy ei drugaredd Ef, yn rhyddion o honynyt hyd heddyw. Gan hynny galwn i gof gyd â phob diolchgarwch ddaioni Duw tu ag attom dros yr amser a aeth heibio ; a rhoddwn ein holl hyder a'n hymddiried ynddo yn awr y cyfyngder trallodus

² Gen. i. 3.

³ Ioan xx. 28.

⁴ Ps. xxii. 9, a xxvii. 9.

hwn, ie, ym mywyd ac ym marwolaeth, a thros byth bythoedd, gan mai *agos yw'r Arglywydd at y rhai oll a alwant arno, at y rhai oll a alwant arno mewn gwirionedd*⁵.

PENNOD XIV.

Ynghylch annog y claf i barhád a dianwadalwch, fel y bo'r selni'n cynnyddu arno.

PAN fo'r selni'n cynnyddu drymmach drymmach, dygir fwyfwy ar gof i ni ein marwoldeb, a chymhellir ni'n esmwyth ac yn raddol i ymwrthod o fesur ychydig ac ychydig â'r holl hyder sy gennym yn y bywyd trangcedig hwn, ac i ymarfogi i sefyll yn ddianwadal hyd y diwedd; gan gofio'n wastadol fod *amser i farw* yn gystal ag *amser i eni*¹; ac mai ein ffordd i fyned i mewn i'r bywyd yw dioddef am funud ing marwolaeth.

I sirioli ein hyspyrd yn amser y profedigaethau llymmaf, gallwn ystyried *nad aeth Crist ei hun ddim i ogoniant, heb iddo'n gyntaf ddioddef poen*². Pan fynnai Dafydd i Urias gymmeryd ei esmwythyd gartref, dywedodd Urias wrtho, *Yr arch, ac Israel hefyd,*

⁵ Ps. cxlv. 18.

¹ Preg. iii. 2.

² Ymweliad y Claf.

a Judah, sydd yn aros mewn pebyll; a Joab fy arglwydd, a gweision fy arglwydd, sydd yn gwersyllu ar hyd wyneb y maes: a af fi gan hynny i'm tyf fy hun, i fwytta ac i yfed? Ni wnaf y peth hyn³. Ac a gawn ni edrych ar Fab Duw ei Hun yn gwaedu o'i ben a'i draed, o'i ddwylaw a'i ystlys, yn dioddef dros bechodau'r holl fyd, a ninnau'n *gwrthod* dioddef, gan ddewis yn hytrach fod yn *es-mwyth arnom yn Sion, ac ymddiried ym mynydd Samaria*⁴, ac yn flin gennym ddwyn na chroes na thrallod! A ydyw'r milwr hwnnw yn deilwng i ddychwelyd yn orfoleddus gyd â'i gapten, ac yntau wedi gwrthod taro cymaint ag un ergyd yn y rhyfel?

Eilwaith; beth bynnag ydym yn ei ddioddef, dioddefodd Crist fwy drosom ni. Ond y peth pennaf i'w gofio ydyw mai nid *curo'r awyr*⁵ yw ein hymdreich; canys ar ol i ni *ymdrechu ymdrech deg*, mae *coron cyfiawnder* ynghadw i ni⁶. “Duw yw'r Agnothetes,” ebe Tertùlian, “sef yr Hwn sy'n cynnyg y wobr, ac hefyd yn gwobrwo'r ennillwr⁷.”

Edrychwch ar y cenhedlaethau gynt, a gwelwch: pwy a ymddiriedodd i'r Arglwydd, ac a waradwyddwyd? *Pwy a arhosodd yn ei ofn Ef, ac a adawyd?* *Pwy a alwodd arno Ef, ac yntau yn ei ddiystyr u ef*⁸? Gan hynny

³ 2 Sam. xi. 11.

⁴ Amos vi. 1.

⁵ 1 Cor. ix. 26.

⁶ 2 Tim. iv. 8.

⁷ Tertul. ad Mart.

⁸ Eccles. ii. 10.

cymmered yr enaid digalon gysur yn nhru-garedd Duw. A lwyd-adawyd y cyfawn eriôd? Addawodd Duw i Josiah *y dygid ef i'w fedd mewn heddwch*⁹; etto mewn rhyfel y bu farw Josiah¹; ond rhoes Duw iddo feddwl dianwadal, ac felly mewn heddwch y bu farw, er cael ei ladd mewn rhyfel. Dywedodd Duw wrth Jeremiah na's gorchfygid ef; llabyddiwyd Jeremiah, ond etto ni's gorchfygwyd mo hono; canys rhoes Duw iddo ffydd anorchfygol. Ebe Duw wrth angel Eglwys Smyrna, *Bydd ffyddlon hyd angau, a mi a roddaf i ti goron y bywyd*².

Er mwyn ei gyfnherthu ei hun yn y ffydd hon, gall y claf wneuthur cyffes ddiffuant o'i grediniaeth Gristionogol, gan ddywedyd fel hyn :—

O Drindod Sanctaidd, yr wyf yn fy ngor-chymyn fy hun i Ti, y Tad, y Mab, a'r Ys-pryd Glân, yr Hwn yn undod natur wyt un a'r unrhyw Dduw. Yr wyf yn fy nghyflwyno fy hun i Ti, O Hollalluog Dad, yr Hwn a'm creaist i, a'r nef, a'r ddaear, a phob peth gweledig ac anweledig. Yr wyf yn fy nghyflwyno fy hun i Ti, O Arglwydd Iesu Grist, yr Hwn a anfonwyd i'r byd drosof fi a iach-awdwriaeth dynolryw, a genhedlwyd trwy

⁹ 2 Bren. xxii. 20.

¹ 2 Bren. xxiii. 29.
² Dat. ii. 10.

nerth yr Yspryd Glân, a anwyd yn ddyn o'r wînfydedig Forwyn Fair, a ddioddefaist, a fuost farw, a gladdwyd, a ddisgynaist i uffern, a adgyfodaist y trydydd dydd o feirw, a esgynaist i'r nef, lle'r wyt yn eistedd ar ddeheulaw'r Tad, ac o ba le y deui yn y dydd diweddaf i farnu pob cnawd. Yr wyf yn fy nghyflwyno fy hun i Ti, O Lân Yspryd, yr Hwn wyt yn deilliaw o'r Tad a'r Mab, a'r Hwn yr wyf yn dy addoli ac yn dy ogoneddu ynghyd â hwynt, yr Hwn wyt Arglwydd a Bywiawdwr yr Eglwys Gatholig ac Apostolig, i'r hon yn dy ras y rhyglyddaist faddeuant pechodau, adgyfodiad y cyrph marwol hyn, a bywyd tragywyddol wedi angau.

Gellir arferyd yr un gyffes hefyd gan y claf mewn ffordd o offrymiad ; megis, Yr wyf yn offrwm fy hun i Ti, O Drindod sanct-eiddlan, y Tad, y Mab, a'r Yspryd Glân, &c. Hefyd mewn ffôrdd o weddi, megis, Yr wyf yn erfyn arnat Ti, O Drindod Sancteiddlan, y Tad, a'r Mab, a'r Yspryd Glân, &c. Yn y gyffes Gristionogol hon gall gweision Duw sefyll yn ddianwadal hyd y diwedd yn erbyn pob temtasiwn ; fel pobl Ciniensis, y rhai, pan orchymynodd cenhadon Brutus iddynt draddodi eu dinas a'u rhyddid i'w ddwylaw ef, a roisant iddynt yr ateb gwrol hwn ; "Dyweddwch wrth eich capten Brutus, ddarfod i'n henafiaid adael i ni arfau i am-

ddiffyn ein hiawnderau yn wrol a dianwadal hyd y diwedd³.” Ac y mae'r Yspryd Glân, trwy St. Paul, yn y chweched at yr Ephesiad, yn dangos beth ydyw'r arfau hyn; nid amgen, dwyfronneg cyfiawnder, tarian y ffydd, helm iachawdwriaeth, cleddyf yr Yspryd, ac esgidiau parottoad Efengyl y tangneseedd⁴. Dyma arfogaeth ysprydol i'r holl aelodau, oddi gerth *y cefn* yn unig, i arwyddocâu na wiw i'r milwr Cristionogol ddim troi ei gefn yn nydd y frwydr o flaen ei elynion.

Dywedir am yr eryr, y bydd hi, er mwyn profi ei chywion, yn eu dwyn o'r nyth i ganol llewyrch pelydr yr haul, pan fo'r goleuni gryfaf; ac os byddant hwy yn gallu dal hynny, bydd hithau yn eu cydnabod fel yr eiddi ei hun; felly mae Crist yn ein hadnabod ni yn eiddo iddo ei Hun trwy ein dianwadalwch dan ddioddefaint; ac y mae weithiau yn ein dwyn i'r ymdrechfa, er mwyn ein profi.

Yr ydym yn darllen am Seba, Iuddew gwrthryfelgar, ddarfod iddo udganu mewn udgorn, ac i lawer o bobl ei ddilyn ef; ond am wŷr Judah, y rhai oedd ynt o'r gwaed brenhinol, mynnent hwy, fel Israeliaid di-dwyll, fyw a marw gyd â Dafydd eu brenhin⁵. Felly mae'r hen Seba yn chwythu'n

³ Ferrum nobis a majoribus, &c.

⁴ Ephes. vi. 14, 15.

⁵ 2 Sam. xx. 1.

aml yn ei udgorn deniadol i'n llithio ninnau oddi wrth ein ffyddlondeb i Grist Iesu ein Brenhin. Y mae pawb ag a aned o ddwfr ac o'r Yspryd Glân yn dymuno byw a marw yn y ffydd hon. Pa fodd bynnag y mae'r byd dros amser yn gwgu arnynt, etto nid ydynt fel y gorsen ddignewylllyn ddisylwedd, yn bwhwmman gyd â phob awel; ond yn gadarn ddianwadal, fel Ioan Fedyddiwr, yr hwn a lynodd yn ei broffes, er gorfod colli ei ben o'r plegid.

Wrth hynny, gan ystyried nad oes coron heb fuddugoliaeth, ac nad oes buddugoliaeth heb wroldeb a dianwadalwch, gall y ffyddloniaid, fel Job, ddywedyd, *Pe lladdai yr Arglwydd ni, etto ni a ymddiriedwn ynddo*⁶.

PENNOD XV.

*Cyngor i'r sawl sy'n ymdangos yn anewyllysgar i
ymadael â'r byd.*

Os yn y byd yma yn unig y gobeithiwn yng Nghrist, medd yr Apostol, truanaf o'r holl ddynion ydym ni¹; i ddangos, mewn effaith, mai nid yn y byd hwn y cyflawnir ein go-baith. Nid yma y dylem ychwaith ddisgwyl

⁶ Job xiii. 15.

¹ 1 Cor. xv. 19.

cyflawniad ein gobaith, ond mewn man arall. Nid y byd hwn yw ein paradwys ni ; nid oes yma namyn anialdir diffaeth ; nid yma y mae i ni ddisgwyl am ein nefoedd ; fry y mae ein dinas ni, yr hon ydym oll i'w phreswylio. A chan ein bod i fyned ym mlaen yn gysurus i gymmeryd meddiant o honi, a bod y gobaith am ei pherchennogi yn gyfnerthiad i ni ar y daith, byddai *tynnu yn ol* yn waith anghyson â'r ffydd Gristionogol yr ydym beunydd yn ei phroffesu.

Llawer gwaith y gweddiasom, *Deued dy deyrnas*² : yn awr, pan yw Duw yn ein tywys iddi, mae ein hwyrfrydigrwydd i fyned iddi o'r byd hwn yn brawf o eiddilwch ein ffydd. "Beth a wnaethem," ebe St. Jerom, "ped archasai Duw i ni farw, heb son am yr adgyfodiad ? Hyd yn nod felly, dylasai ei ewyllys Ef fod yn ddigon i'n cysuro. Ond gan fod gennym addewid o'r adgyfodiad, pa ham y petruswn³?" Aml y dymunasom fod yn rhyddion o gaethiwed y byd hwn ; ond yn awr, pan y mae Duw'n myned i'n rhydd-hâu oddi wrtho mewn gwirionedd, yr ydym yn dewis parhâd ein caethiwed daearol ; yn debyg i blant, y rhai sydd yn llefain gan boen a dolur ; ac etto pan ddelo'r meddyg attynt

² Mat. vi. 10.

³ Quid faceremus si mori tantummodo sine resurrectione præciperet Deus ? voluntas ejus sufficeret ad solatium.—*Jer. de non Lugend. Mort.*

i'w gwella, hwy a ddewisant oddef y dolur a'r boen yn hytrach na chymmeryd y physyg. Nid oes un morwr nad yw, ar ol yr ystomydd blinion ar y cefnfor, yn dymuno cyrhaeddyd y porthladd : ac oni bydd i ninnau dderbyn yn llawen ein gwaredigael, pan ddelo'r amser, ar ol cynnifer o dymhestloedd yn y byd helbulus presennol ? Yr ydym yn rhy chwannog i garu'r byd, i'w garu yn llawer iawn mwy nag y dylem, a ninnau'n ddim amgen na dieithriaid ac alltudion ynddo.

Pe na bai gennym ond mwyniant o gyflwr tymhorol i'w ddisgwyl, a chael gorffwysdra yn hwnnw, fel pe baem wedi cyrhaeddyd ein daioni pennaf yn y byd hwn, yna byddai ein hymadawiad yn alarus mewn gwirionedd ; canys felly darfyddai ein bodoliaeth a'n hap-pusrwydd ar unwaith ynghyd : ond gan ein bod yn edrych am gyflwr pellach, ac un mor barhâus a bendigaid, i'r hwn y mae angau yn ddrws, nid oes dim achos i neb ystyriol fod yn hwyrfrydig i gychwyn, pan fo amser ei ymadawiad wedi nesâu ; oblegid,

Yn gyntaf, Cofwn mai ordinhâd Duw ydyw ; diwedd pob cnawd yw angau, a *ffordd yr holl ddaear*, fel y geilw Josua ef⁴. *Pa wr a fydd byw, ac ni wél farwolaeth ? ebe'r prophwyd*⁵. Nid peth priodol i ryw un ydyw, ond peth cyffredin i bawb. Mae bren-

⁴ Jos. xxiii. 14.

⁵ Ps. lxxxix. 47.

hinoedd, tywysogion, y cryf, a'r dewr, oll yn cyfrannogi yn y coelbren hwn. Ni wiw i neb obeithio bod, trwy ragor-fraint yn y byd, yn rhydd oddi wrth yr hyn y mae pawb, heb un eithriad, pa un bynnag a fynnant ai peidio, yn rhwym o ymostwng iddo.

Yn ail, Am y gwelwn oll yn eglur mai moddion yw angau i'n dwyn o garchar anes-mwyth, ac o bererindod diorphwys. Hyn a wnaeth i'r gwr doeth ddywedyd, *Mi a gamolais y meirw yn fwy na'r rhai byw y rhai sydd yn fyw etto*⁶; ac mai *gwell yw dydd marwolaeth na dydd genedigaeth*⁷; oblegid yn y naill yr ydym yn dyfod i ddyffryn galar, ac yn y llall yn ymadael o hono, os ymadâwn trwy ffydd ynddo Ef, gan yr Hwn yr ydym yn disgwyl cael cyflwr gwell yn y byd a ddaw.

Yn drydydd, Gan mai dyma'r ffordd i gael gwobrwy mor oruchel, gallwn ymadael mewn hyder yn ei drugaredd Ef, yr Hwn sy'n awr trwy farwolaeth yn ein gwahodd i'w derbyn a'i mwynhâu. Pa ham, yn enw bendith Dduw, y rhaid i neb warafun i'r enaid *ddychwelyd at Dduw, yr Hwn a'i rhoes ef*⁸?

Pan fo'r anwyl fam yn rhoi'r plentyn allan i'w fagu, a'r fammaeth wedi ei gadw'n ddigon hir, a oes gan y fammaeth achos i gwyno neu rwgnach, pan fo'r fam yn cymmeryd ei

⁶ Preg. iv. 2.

⁷ Preg. vii. 1.

⁸ Preg. xii. 7.

phlentyn adref yn ol? Pa faint llai achos sy gennym *ni* i ddangos dim anfoddlorwydd pan fo Duw yn cymmeryd ein henaid adref atto ei Hun, ac yntau'n waith ei ddwylaw Ef, ac yn blanhigyn o'i impiad Ef, yr Hwn yn gyntaf a'i rhoddes, ac, yn anad neb, a'i ceidw ac a'i hymgeledda'n garuaidd? Ni wyr neb, ond mam, beth yw cariad mam; ac ni wyr neb ond Duw, yr Hwn ei Hun sy gariad, beth yw cariad Duw. Yr ydym ni, gan hynny, yn annaturiol iawn wrthym ein hunain, wrth ddangos dim argoel o anfoddhâd pan fo ein heneidiau yn myned i ddwylaw yr hwn sy Geidwad gwell na neb.

Pa le y mae ein *chwant i ymddattod, a bod gyd â Christ*, fel St. Paul⁹? Pa le y mae ein cwynfan, gyd â Dafydd, *Pa bryd y deuaf ac yr ymddangosaf ger bron Duw*¹? Pa le y mae ein hiraeth, gyd â St. Awstin, “am weled y pen a goronwyd â drain, a'r dwylaw a drywanwyd dros ein pechodau²?” Pe byddai gennym ni'r ffydd ag oedd gan y duwiolion hyn, nyni a ddymunem weled awr ein gorhwydra, yn hytrach na bod yn hwyrfrydig i ymadael, pan fo Duw ar ein galw ymaith. A gaiff ein tueddiad naturiol fod yn gryfach na grym gobaith Cristionogol? Ac a allwn ni anghofio gweddi Crist yn yr

⁹ Phil. i. 23.

¹ Ps. xlvi. 2.

² August. Medit. 2.

ardd, *Nid fy ewyllys i, ond yr eiddo ti, a wneler*³?

Mae'r ser, yn eu hysgogiad priod éu hunain, yn cael eu dwyn o'r gorllewin i'r dwy-rain; ond etto, yn eu hysgogiad o ufudd-dod i'w hysgogydd cyntefig, maent yn cerdded o'r dwyraint i'r gorllewin. Mae'r dwfr, yn ei rediad naturiol, yn dilyn canolbwyt y ddaear; ac etto mae'n cymmeryd ei reoli gan y corph uwch hwnnw, sef y lleuad, ac yn ymostwng i'w hysgogiadau hi. Felly dylai ysgogiad o ufudd-dod i ewyllys Duw, yr Hwn yw'r prif ysgogydd, ein tynnu ni a'n holl ddymuniadau, pa mor groes bynnag i natur; canys iddo Ef y dylai pawb ymos-twng, ac Ef y dylai pawb yn ufuddgar ei ddilyn.

Mae'r sawl sy, trwy alchemyddiaeth, yn ceisio troi'r plwm yn aur, yn gyntaf yn toddi'r plwm. Ac felly os mynnwn ninnau newid ein hewyllsiau ein hun yn ewyllys i Dduw, rhaid i ni eu toddi'n llwyr, fel y bo i'w ewyllys ef yn unig gymmeryd lle.

Pan ddywed Crist, yn llyfr y Datguddiad, *Yr wyf yn dyfod ar frys*; mae'r saint yn ateb, *Amen*; *Yn wir tyred, Arglwydd Iesu*⁴; i ddangos na's gall yr hyn sy'n boddio Crist ddim bod yn anfodhaol iddynt hwythau, yn enwedig ei ddyfodiad, yr hwn beth sy'n hy-

³ Luc xxii. 42.

[881]

⁴ Dat. xxii. 20.

K

fryttaf dim i bawb ag sy'n caru ac yn ofni ei enw Ef.

Ac yma gallwn ystyried fod gennym, trwy'r moddion hyn o addfwyn ymroddiad i Dduw, gyfleusdra i ddangos ein hymostyngiad i'w ddwyfol ewyllys Ef; fel yr oedd gan Abraham, pan orchymynodd Duw iddo aberthu Isaac ei fab, ie, Isaac ei unig fab; Isaac, yr hwn a hoffai; Isaac, ar yr hwn yr oedd gobaith ei had gwŷnfydedig yn ymddibynu⁵. Dyma lle'r oedd ymdrech, yn yr hwn y mynnai Duw weled pa un oedd gryfaf yn Abraham, ai ffydd, ai serch at ei blentyn! Ond Abraham, yr hwn a elwir Tad y ffyddloniaid, a'r hwn felly a adawodd i'w blant esampl dros yr amser a ddeuai, a roes ei ewyllys ei hun i fynu i ewyllys Duw yn y cyfyngder hwn: nid arhosodd i bwysor gorchymyn mor fawr ynghloriannau ysgafn rheswm dynol, ond prysurodd i ufuddhâu iddo, gan *gredu yn erbyn gobaith*⁶.

Pan archodd Crist i'w apostolion hwyliau i'r lan arall dros fôr Tiberias, ni safasant i ymwrando âg ammheuon ofnus, fel hyn; "Mae morio dros y Gennesareth hwn yn waith enbyd, ac y mae'r dydd yn darfod, ac nid ydym ninnau ddim ond pysgodwyr anghelfydd, ac nid y llongwyr goreu." Na! pan archodd Crist iddynt, ymaith yr hwyl-

⁵ Gen. xxii. 4.

⁶ Rhuf. iv. 18.

iasant yn ddibetrusder⁷. Yn awr mae Crist yn gorchymyn i ni hwylio oddi wrth lan ein cyflwr daearol ; ac oni ddylem ninnau gychwyn yn ufudd, yn enwedig gan fod y nef, porthladd ein gobaith, ar y lan draw.

Drachefn ; gan y rhaid i ni fyned ymaith, pa ham nad yn awr ? ac os nid yn awr, pa bryd ? *Mae amser i eni, ac amser i farw,* medd y gwr doeth⁸; ac ni a ddaethom i'r byd hwn ar yr ammod fod i ni ymadael o hono. Rhaid i ni roi i fynu ein bywyd, fel Codrus, yr Atheniad gwrol, a hynny cyn ennill y frwydr. Felly, gyd â'r capten o Thebes, na phetru swn gyfnewid einioes am angau, ond i ni gael y fuddugoliaeth yn eiddom.

Ac, (i ddywedyd y gwir,) nid oes i ni nemmawr o achos i ddymuno cael byw'n hir yn y byd dideimlad hwn. Yr ydym ni yn gweled llawer o drueni, ac y mae dynion doethion yn rhag-weled mwy ; ac *o flaen drygfyd y cymmerir y cyflawn ymaith*⁹; fel y cymmerth Duw Josiah, *fel na welai ei lygaid yr holl ddrwg yr oedd Efe yn ei ddwyn ar y genedl bechadurus*¹.

Tu ag at am ein cyflwr ein hunain yn ben-nodol ; pan ddelo henaint methiantus, yr hwn yr ydym yn dymuno gymaint ei gyr-

⁷ Marc iv. 35.

⁹ Esay lvii. 1.

⁸ Preg. iii. 2.

¹ 2 Bren. xxii. 20.

raedd ; pan ddelo'r *pedwar ugain mlynedd*, yr hyn yw gobaith pellaf ein nerth, oni byddwn ni y pryd hynny yn faich i eraill, ac yn boen i ni ein hunain ? Ac yn y cyfamser mae cynifer o rwydau a maglau yn cael eu gosod gan y gelyn ddyn i hoenynnu eneidiau dynion, ag y gallwn, mewn parch a chariad, ryfeddu trugaredd Duw yn ein gwared dros yr amser a aeth heibio, a derbyn yn dawel ein trosglwyddiad i le o wir ddiogelwch, yr hwn sy'n dilyn marwolaeth.

Yn ddiweddaf oll, dylai coffa am y lle'r ydym yn myned iddo, ein tywys ymaith, fel y tywysodd yr angylion Lot o Sodom. I *ddinas barháus*² yr ydym yn myned, dinas lle y caiff ein heneidiau fyw. Anfonwn ninnau ein ffydd gan gredu, a'n gobaith gan ddisgwyl, (fel yr anfonodd Josua'r cenhadon o'i flaen,) i edrych y wlad a rydd Duw i ni i'w meddiannu. Fe ddwg y cenhadon hyn air i ni, *na welodd llygad, ac na chlywodd clust, ac na ddaeth i galon dyn*³, mo'i rhagoroldeb goruchel hi ; ac fe ddylai hyn, mi dybygwn, annog dynion i ffarwelio'n ewyllysgar â'r ddaear hon.

I ddiweddu yngeiriau St. Cyprian : " Bydded i ethniciaid ac anffyddlonion ofni marwolaeth, y rhai nid ofnasant Dduw eriôed yn eu bywyd ; ond aed Cristionogion ym mlaen fel

² Heb. xiii. 14.

³ 1 Cor. ii. 9.

teithwyr i'w cartref genedigol, ac fel plant at eu hanwyl Dad, yn wirfoddol, yn llawen." *Un peth a ddeisyfiais i gan yr Arglwydd, ebe'r prophwyd, sef caffael trigo yn nhŷ'r Arglwydd holl ddyddiau fy mywyd*⁴.

PENNOD XVI.

Y modd y gellir perswadio y rhai hynny i ymadael yn addfwyn, ag sy'n ymddangos yn hwyrfrydig i adael dâ byd, gwraig, plant, cyfeillion, neu'r cyffelyb.

PAN roddom ein serch ar bethau daearol, yr ydym yn rhoi mawr serch arnynt, ac yn anewyllysgar i'w gadael ; ond ar ol unwaith gael blas ar bethau nefol, yr ydym yn diystyru gwrthrychau ein dymuniadau blaenorol, ac yn troi'r holl galon i ddisgwyl yn ddifrifol am bethau llawer amgenach.

Od ydym yn hoffi golud, mae gan Grist fwy golud i ni mewn byd arall nag a allai holl ymherodraeth Alexander ei gynhyrchu. Os edrychwn am anrhydedd, mae ganddo Ef i ni anrhydedd uwch nag a ddichon holl orseddau brenhinoedd daearol ei rodzi ; *canys gwell yw diurnod yn ei gynteddau Ef na mil*¹. Os dymunwn gael cyfeillion, mae yn

⁴ Ps. xxvii. 4.

¹ Ps. lxxxiv. 10.

y nefoedd gwmpeini gogoned o saint ac angylion, y rhai sy'n llawenychu wrth ein gweled yn dyfod i mewn i'w gorfoledd hwynt : a pha beth sy fwy cymmeradwy na chwmpeini da, a hwnnw'n gwmpeini llawen ? a da yw'r cwmpeini lle mae'r cyflawnion yn byw fyth yn llawen, lle nid oes dim ond siriol ganu Hâleluiah².

Am feddiannau bydol, yma y cawsom hwynt, ac yma y gadâwn hwynt. Anwadal hefyd yw'r amser a gaffom i'w mwynhâu ; canys yr ydym yn eu gweled yn llenwi ac yn treio fel y môr. Ac nid ydym yn eu meddiannu fel y dylem, os nad ydym bob amser yn barod i'w gadael ar y pryd y bo hynny'n oreu yngolwg Duw.

Ond yn wir ni's gall colli cyfeillion lai na bod yn brofedigaeth lem i gig a gwaed ; ni's gall ymadael â gwraig a phlant lai na myned fel brath i'r galon, lle bo serch wedi gwreiddio. Ond etto, os agorwn ni'r llygad arall, a gweled i ba le'r ydym yn myned, (sef at Grist a'n prynodd, ac sy'n berthynas agosach i ni na neb,) yr ydym yn gadael hyfrydwch pleserus yn wir, ond yr ydym yn cael hyfrydwch mil mwy pleserus yn gyfnewid am dano.

Gan hynny, er mwyn ymryddhâu oddi wrth bob pryder daearol, bydded i ni wneuthur fel hyn, sef gorchymyn gwraig, plant, a

² Dat. xix. 3.

chyfeillion, i'w noddedd Ef, yr Hwn a all ddarparu drostynt yn well nag y gallwn ni, sef *Tad yr amddifaid, a Barnwr y gweddwon*³. Byddai'r hen batrieirch, gan wybod hyn yn dda, yn gweddio am fendith Dduw ar eu plant, wrth ymadael o'r byd; ac felly'n ffarwelio â hwynt, ac yn myned o'u blaen i'r byd arall, gan wybod yr anfonid hwythau cyn hir ar eu hol.

Pe iawn-ystyriem ni yr amryw boenau y mae ein mwynhadau gorau yn eu dwyn i ni yn aml, er hwyrfrydicced ydym i'w gadael, ni a welem y byddai ein hymadawiad oddi wrthynt yn ymadawiad â llawer o ofalon. Mae'r haul, (er esampl,) er sirioled a chynhesed yw, weithiau yn llai boddhaol oblegid gormod poethder; ac y mae'r awyr, er ei bod yn ysgafn, weithiau'n niwlog a chymylog; ac felly mae ein pleserau bydol, a pha beth bynnag arall ag sydd yn ein boddio yn y byd hwn, yn gymmisiog yn aml â llawer o fustl a wermod. "Pa ham, ynte," ebe Fulgentius, "nad ydym yn ymrthod â'r eisiau hwn, er mwyn cael helaethrwydd i ddyfod '?"

Ni raid i ni, yn anad neb, ddim bod yn hwyrfrydig i ymadael â meddiannau bydol, y rhai sy'n haeddu cael eu dirmygu gennym yn hytrach na bod i ni eu gadael o'n hanfodd, oblegid y rhesymmau hyn:—

³ Ps. lxviii. 5.

⁴ Fulg. ad Theod.

Yn gyntaf, Am eu bod yn wagededd.

Yn ail, Am eu bod yn siommedigaethau.

Yn drydydd, Am eu bod yn ddrain pigog.

Yn bedwerydd, Am eu bod yn wir drist-wch.

Ond hyd yn nod pan ydym yn eu defnyddio'n iawn, nid ydym namyn goruchwylwyr; a pheth a ddylem ni ei wneuthur ond eu gadael ac ymwrthod â hwynt yn wirfoddol, pan fo'u Perchen nog yn dewis?

Daethom oll, fel Job, yn noeth i'r byd; ac yn noeth, fel Job, y dychwelwn eilwaith, heb i ddim ein dilyn ond ein gweithredoedd da, ac, (fel y dywed rhai pobl,) ein gweithredoedd drwg hefyd. Byddai un concwerwr mawr yn mynnu i'w swyddog milwrol ddwyn gyd âg ef yn gyhoeddus ddarn o liain ar ddull amdo, a llefain, "Dyma'r cwbl y mae'r concwerwr yn ei ddwyn gyd âg ef o'i holl fuddugoliaethau.

Yr ydym yn dyfod i'r byd, fel yr aeth Jacob at Laban⁵, heb ddim: trwy ragluniaeth Duw yn unig yr ydym yr hyn ydym: ygyrraedd gwartheg a'r diadellau defaid ag sydd o'n hamgylch, o ras Duw y maent; nid planhigion yn tyfu'n naturiol yn ein tir ni ydynt, nac effaith ein haeddiant; ond effeithiau Dylanwad ffafir y Goruchaf tu ag attom o'r nef.

⁵ Gen. xxxii. 10.

Mae pawb yn ymbil ar Dduw *in formâl pauperis*⁶ am bethau angenrheidiol ; gan hynny, dywed y Psalmydd, *A roddech iddynt, a gasglant*⁷. Gelwir hwy yn *ddâl*, am eu bod oddi wrth Dduw ; eiddo Ef ydynt, ac nid eiddom ni ; dysgwn ninnau eu gadael o'n gwirfodd, pan fo'r Hwn a'u rhoes yn ein galw ymaith yn ei haelioni i dderbyn gwell mediannau.

Ond ai possibl yw i ni anghofio i ba le yr ydym yn myned ? Pa le y dylai'r aelodau fod, ond yn y man lle mae'r Pen yn teyrnasu ? Pa le y dylai'r galon fod, ond lle mae ein trysor nefol⁸ ? Mae Crist, ein trysor ni, yn y nef, i'r man yr esgyn ein serchiadau'n gyntaf, ac yna ninnau'n dilyn.

*Cyfoeth ni phery byth*⁹, ebe Solomon, ac *ni thycia yn nydd digofaint*¹; ac hefyd, *Golud a gymmer adenyydd, ac a eheda ymaith*². Nid yw dâ byd ond gwellt a soft, ar yr hwn ni's gallwn osod sail sicr. Ac o herwydd hyn ni raid i ni byth fod yn bryderus iawn ynghylch eu gadael. Ond ar y tu arall, yr ydym yn gadael cymdeithas dynion, ac yn myned i'r gymdeithas nefol fry yngwlâd y gwŷnfyd, lle mae lliâws o'n cyfeillion goreu yn disgwyl am danom. Nid yw ein hymad-

⁶ Yn null dyn tlawd.

⁸ Mat. vi. 21.

¹ Diar. xi. 4.

⁷ Ps. civ. 28.

⁹ Diar. xxvii. 24.

² Diar. xxiii. 5.

Yn gyntaf, Am eu bo
 Yn ail, Am eu bod
 Yn drydydd, Am e
 Yn bedwerydd, A

na, ond dros
 iad gyd
 gyw

wch.

Ond hyd yn nyddio'n iawn, r wyr; a pheth eu gadael ac fodol, pan f

*"noddefgar i oddes
a dangnefeddus."*

Daethom y felgyrch ddechreu, ac yn noeth, profir gwroldeb y capten. i ddim eir ei blant i ddwyn rhyw ac, (fel y) yngder, dyna'r pryd y mae'r drwg t echreu; a dyna'r amser, os byth, yn my eu hymroddiad a'u dioddefgarwch âg ef dgar a bendigaid. amd ydym yn gwybod fod pob dim yn cor, yned ymlaen yn ol ei drefniad Ef, yn yr hen yr ydym yn byw, yn symmud, ac yn bod¹: gwyddom hefyd nad all un physygwr fod yn fwy gofalus am iechyd y corph nag y mae Duw'n arfer bod am iechyd yr enaid; a pho chwerwed bynnag y bo'r physyg, etto, gan ei fod yn dyfod oddi wrth un sy'n dymuno ein llesâd, ni a ddylem dderbyn yn amyneddgar a dioddefus yr hyn a estyno ei law drugarog Ef i ni. *Fy mab, eb y gwr doeth, os*

¹ Act. xvii. 28.

'asanaethu' r

'fedigae

'id

o amynedd. Beth

ioddef, dioddefodd

hefyd a'n galw-

uant, fel, wedi i

hio Efe ni, y'n

sydlo⁶; ac fe

dd i ni o'n

Duw.

naid i Dan.

fuchedd

ewod⁴. Os my

ed Crist

lynwes Abraham, rh.

rannog

oddef y cornwydydd⁵ : on.

lni fy

ugaid, peidiodd dy gornwydydd

nedd

,n fuan ; ond pery dy lawenydd byth

fy

oedd.

fy

Pe gwensem ni Jezebel yn erlid Elias⁶; y
ddau henuriad yn cyhuddo Susanna⁷; a'r
gwr sanctaidd Job yn cael ei drallodi o'i ben
i'w draed⁸; hwyrach y tybiasem nad oedd
Duw'n edrych dim ar yr addoliad diffuant a'r
parch a roddid i'w enw sanctaidd gan y duw-
iolion hyn; buasai cig a gwaed yn ystyried
eu cyflwr yn gyfyng i'r eithaf; ond os ar-
hoswn ni dippyn, a sylwi ar eu hamynedd,
ni a gawn weled nad oedd eu hymwared ddim
yn tario neppell yn ol.

Oni ddylem ni ymadael â'r byd â meddwl

² Eccles. ii. 1, 2. 5.

³ Exod. ii. 3.

⁴ Dan. vi. 16.

⁵ Luc xvi. 20.

⁶ 1 Bren. xix. 20.

⁷ Hist. Sus. 28.

⁸ Job ii.

awiad oddi wrth ein gilydd yma, ond dros amser ; ond fe fydd ein harhosiad gyd â'n gilydd yn y bywyd a ddaw, yn dragwyddol.

PENNOD XVII.

Pa fodd y gellir perswadio'r annioddefgar i oddef poenau ei selni, ac i farw'n dangnafeddus.

AR ol i ymdrech y rhyfelgyrch ddechreu, ac nid cyn hynny, y profir gwroldeb y capten. Pan also Duw ei blant i ddwyn rhyw groes neu gyfyngder, dyna'r pryd y mae'r frwydr yn dechreu ; a dyna'r amser, os byth, yr eglurir eu hymroddiad a'u dioddefgarwch amyneddgar a bendigaid.

Yr ydym yn gwybod fod pob dim yn myned ymlaen yn ol ei drefniad Ef, *yn yr hwn yr ydym yn byw, yn symmud, ac yn bod*¹ : gwyddom hefyd nad all un physygwr fod yn fwy gofalus am iechyd y corph nag y mae Duw'n arfer bod am iechyd yr enaid ; a pho chwerwed bynnag y bo'r physyg, etto, gan ei fod yn dyfod oddi wrth un sy'n dymuno ein llesâd, ni a ddylem dderbyn yn amyneddgar a dioddefus yr hyn a estyno ei law drugarog Ef i ni. *Fy mab, eb y gwr doeth, os*

¹ Act. xvii. 28.

deui i wasanaethu'r Arglwydd, parottoa dy enaid i brofedigaeth : uniona dy galon, a dioddef. Oblegid aur a brofir yn y tân, a dynion cymmeradwy yn ffwrn gostyngiad².

Os myn Duw i Moses fod yn llywydd i'w bobl, myn Duw i Moses yn gyntaf gael ei fwrw allan, a'i roi yn y llafryd ar lan yr afon³. Os myn Duw i Daniel fod yn llywydd dan Darius, rhaid i Daniel orwedd am ennyd yn ffau'r llewod⁴. Os myn Duw i Lazarus fod ym mynwes Abraham, rhaid iddo'n gynntaf ddioddef y cornwydydd⁵: ond, O Lazarus fendigaid, peidiodd dy gornwydydd â'th boeni yn fuan; ond pery dy lawenydd byth bythoedd.

Pe gwensem ni Jezebel yn erlid Elias⁶; y ddau henuriad yn cyhuddo Susanna⁷; a'r gwr sanctaidd Job yn cael ei drallodi o'i ben i'w draed⁸; hwyrrach y tybiasem nad oedd Duw'n edrych dim ar yr addoliad diffuant a'r parch a roddid i'w enw sanctaidd gan y duw-iolion hyn; buasai cig a gwaed yn ystyried eu cyflwr yn gyfyng i'r eithaf; ond os arhoswn ni dippyn, a sylwi ar eu hamynedd, ni a gawn weled nad oedd eu hymwared ddim yn tario neppell yn ol.

Oni ddylem ni ymadael â'r byd â meddwl

² Eccles. ii. 1, 2. 5.

³ Exod. ii. 3.

⁴ Dan. vi. 16.

⁵ Luc xvi. 20.

⁶ 1 Bren. xix. 20.

⁷ Hist. Sus. 28.

⁸ Job ii.

ewyllysgar? Gall y ffydd sy gennym, (neu a ddylai fod gennym,) ynghylch ein cyfnewidiad, ddywedyd wrthym, *Oni syrth y gronyn gwenith i'r ddaear, a marw, hwnnw a erys yn unig*, heb ffrwyth; ond os heuir y gronyn gwenith yn y ddaear, yna efe a ddwg ffrwyth lawer⁹.

Er bod ein hymddattodiad yn waith poenus *i natur*, ac mai Benoni, (sef mab fy ngalar,) ydyw, fel y dywedodd Rahel; etto *i ras* y mae'n effaith grym; a gallwn ei alw Benjamin, sef mab fy neheulaw¹. Dylai fod dioddef yn waith llai trallodus i ni, gan fod gwobr dioddef yn wobr mor fawr. Mewn corwynt y rhaid i Elías fyned i'r nef². Enfyn Duw ei angel i gysuro Jacob ar ei daith³, ar ol ei holl drallod gyd â Laban; a dychwel Duw ef adref o'r diwedd gyd â thoraeth o gynnydd.

*Ffyddlon yw Duw, yr hwn ni ad eich temtio uwchlaw yr hyn a alloch*⁴. Disgwyliwch ychydig am dymmor Duw; fe ddaw gwaredigaeth, fe ddaw hedd, fe ddaw llawenydd. Pa ham y trallodir ni gymaint yn amser afiechyd? Nid aeth Crist ei Hun ddim i ogoiant nes iddo'n gyntaf ddioddef poen. Crist ar y groes, fel athraw yn ei gadair⁵, a

⁹ Ioan xii. 24. ¹ Gen. xxxv. 18.

² 2 Bren. ii. 11. ³ Gen. xxxii. 2.

⁴ 1 Cor. x. 13. ⁵ Crux pendentis, Cathedra docentis.

ddarllenodd i ni oll lith o amynedd. Beth bynnag ydym ni yn ei ddioddef, dioddefodd Efe lawer mwy drosom; Efe hefyd a'n galwodd ni i'w dragwyddol gogoniant, fel, wedi i ni ddioddef ychydig, y perffeithio Efe ni, y'n cadarnhao, y'n cryfhaeo, y'n sefydlo⁶; ac fe fydd hyn yn esmwythâd dedwydd i ni o'n poenau i gyd.

“Er mwyn cael o honof, ar ol y fuchedd flinedig hon,” ebe St. Awstin, “weled Crist mewn gogoniant, a chael bod yn gyfrannog o ddaioni cymaint, pa waeth, er i selni fy ngwanhâu, er i lafur fy llethu, er i anhunedd fy nychu, er i oerni fy fferru, er i wres fy nhoddi; ie, pa waeth, er treulio o honof fy holl einioes mewn galar ac ocheneidiau? Canys beth yw'r cwbl oll mewn cydmariaeth i orphwysfa'r bywyd a ddaw?⁷” Yr oedd St. Paul *yn cyfrif nad yw dioddefiadau yr amser presennol hwn yn haeddu eu cyffelybu i'r gogoniant a ddatguddir i ni*⁸.

Gan ein bod, ynte, ar ol yr holl ofidiau hyn, yn myned i borthladd mor dawel, gallwn yn amyneddgar ddioddef dros amser ryw raddau o geryddon tadol. A gawn ni ddis-gwyl am y goron heb redeg cam o'r yrfa? A fydd i ni, fel gwraig Job, fod yn fodlon i dderbyn y da yn unig oddi ar law Duw, a

⁶ 1 Petr v. 10.

⁸ Rhuf. viii. 18.

⁷ August. Mæn.

gwrthod derbyn dim o'r drwg? Digiodd Da-fydd am i'r Ammoniaid warthrudo ei genhadau ef⁹. Cenhadau Duw yw'r trallodion hyn; ac y mae tuchan a murmur yn eu herbyn yn warthrudd arnynt. Dylem eu derbyn oll yn ddiolchus, ac ymadael â'r byd yn dangnafeddus.

Dywedir am Plato, y philosophydd pagan-aid, ddarfod iddo, ynghanol ei boen wrth farw, ddiolch i'r duwiau mai yn ddyn, ac nid yn anifail, y ganesid ef, ac mai yn Roegwr, ac nid yn farbariad; ac felly efe a ymadawodd â'r byd yn heddychol. Pa faint mwy y dylai'r Cristion, gan gofio'n ddiolchus am ddaioni Duw tu ag atto, am fendithion a dderbyniwyd, ac am beryglon a rag-flaenwyd, gyflwyno'n ddioddefgar ei enaid ymadawol i ddwylaw Duw, gan oddef yn amyneddus ei brofedigaeth, yr hon ni phery ond ychydig? *Dros brydnawn yr erys wylofain; erbyn y bore y bydd gorfoledd*¹. *Byddwch ymarhôus, ebe St. Iago; wele y mae'r llafurwr yn disgwyyl am werthfawr ffrwyth y ddaear, yn dda ei amynedd am dano, nes iddo dderbyn y gwlaw cynnar a'r diweddar. Cadarnhêwch eich calonnau, eb efe, oblegid dyfodiad yr Arglywydd a nesaodd. Cymmerwch y prophydyd yn siAMPL o ddioddef blinder ac o hir-ymaros*².

⁹ 2 Sam. x. 4.

¹ Ps. xxx. 5.

² Iago v. 7, 8, 10.

Os mynnwn ni lawenychu fel y maent hwy yr awr hon yn llawenychu, rhaid i ni fyw fel y buant hwy fyw, a dioddef fel y dioddefasant hwythau.

Od ystyriwn ni ymddygiadau Duw at ei holl weision, ni a gawn weled y bydd yn eu ceryddu dros ennyd, ac yn eu gadael am ychydig ym mhrofiad eu ffydd; fel y bydd y fam garuaidd weithiau yn gadael ei phlentyn, ac yn troi o'r neilldu; ac yna, wrth glywed y baban yn criô ac yn nadu am dani, hi a red atto, ac a'i cymmer i'w breichiau, ac a'i cofleidia yn fwy nag eriôed. Pan fo Duw megis yn tynnu ei help ychydig oddi wrthym, mae'n gwneuthur hynny yn unig i edrych a wnawn ni alaru am dano; a phan welo ni'n gwneuthur hynny, yr ydym yn fwy cariadus ganddo; ac fe'n tynnir hefyd trwy'r moddion hyn i ymarfer ein hunain i ufudd-dod, gos-tyngeiddrwydd, ac amynedd, hyd y diwedd.

Pan ddaeth dyfroedd y diluw ar wyneb y ddaear, syrthiodd y tyrau a'r pinaclau uchaf i lawr: ond fel yr oedd y dyfroedd yn codi, yr oedd yr arch hefyd yn codi'n uwch-uwch. Yn gyffelyb i hyn, pan gyfodo dyfroedd trallod, i lawr yr â balchder y bywyd, a chwant y llygaid, a holl rodres a gorwagedd y byd hwn: ond fel y mae dyfroedd trallod yn codi, mae arch yr enaid yn codi gyd â hwynt, ac yn ymddyrrchafu yn nes-nes i'r nefoedd.

Wrth hynny, dylem ddioddef poenau clefyd yn amyneddus, yn ol esampl plant Duw, yr hon sy gennym megis llef o'r nef yn tystiolaethu am y dyn amyneddgar, *Hwn yw fy anwyl fab*: felly ni ddylem mewn awr o gyfyngder anghofio rhinwedd mor ragorol, i wobrwo'r hon y mae gan Dduw ddwy goron; un o ba rai yw boddlonrwydd meddwl yn y byd hwn; a'r llall yw dedwyddwch traywyddol yn y byd arall.

PENNOD XVIII.

Pa fodd i gysuro y rhai sy'n drallodus eu meddwl wrth gofio am eu pechodau, ac wrth ofni'r farn a fydd.

PAN welodd gwas gwr Duw ddinas Dothan yn amgylchynedig â lliaws o elynion, efe a lefodd ar y prophwyd, *Aha, fy meistr, pa fodd y gwawn?*¹ Felly'r pechadur galarus, wrth ystyried cyflawnder Duw, llymder y farn, a malais yr hen sarph, oll ar unwaith yn awr yn gwarchae ar ei enaid claf; a'r byd yn pellhâu, a'i gyfeillion yn ymadael âg ef, heb allel gwneuthur dim erddo ond wylo wrth ei orweddfa, ni's gall lai na dywedyd, dan gwyno, *Beth a wnaf? pa ffordd y troaf?*

¹ 2 Bren. vi. 15.

Oh ! taenellwn ein calonnau â gwaed yr Oen, ac felly ni bydd gan yr angel dinystriol allu i ddyfod i mewn nac i'n niweidio. A galwn i gof gariad Duw, *yr hwn nid arbedodd ei briod Fab*; yr hyn y mae'r Apostol yn ei osod yn sail i ymresymiad cryf; canys onid arbedodd Efe ei briod Fab, *pa wedd gyd âg ef hefyd, eb efe, na ddyry efe i ni bob peth*²? ac o ganlyniad, Efe a rydd i ni drugaredd yn amser anghenoctid.

Pa galon a fedr amgyffred rhagluniaeth Duw dros ddyn o'r dechreu ! Mae un awdwr yn darlunio'r Tri Pherson yn y Drindod yn ymgynghori am ei lesâd ef yn y wedd hon :— “Dyweddodd Duw Dad, *Crëwn ddyn: ond ar ol ei greu, oni syrth efe ymaith?* Yna Duw Fab a attebodd, *Er iddo syrthio ymaith, myfi a'i prynaf: ond ar ol ei brynu, a rodia efe'n deilwng o'i alwedigaeth?* Yna Duw Yspryd Glân a attebodd, *Myfi a'i cadwaf ef; myfi a'i sancteiddiaf ef.*”

Gwediodd y prophwyd ar fod i lygaid ei was gael eu hagoryd ; ar ol caniatâu'r dy-muniad, gwelodd y gwas mai mwy oedd y rhai a safent ar eu plaid hwy, na'r holl liaws a amgylchai'r ddinas. Yn awr gall y claf weddio gyd â'r disgyblion, *Arglywydd anghwanega ein ffydd ni*³. Trwy'r ffydd hon gall weled fod Crist a'i haedddedigaeth yn fwy ac

² Rhuf. viii. 32.

³ Luc xvii. 5.

effeithiolach iddo ef na holl allu'r tywyllwch ag sy'n ei wrthsefyll. Mae'r testyn ben-digaid hwn o haediant Crist yn alluog o hono ei hun i adfywio'r pechadur llesg, ac i'w alluogi i ddadleu ei hawl yn erbyn Satan ; megis fel hyn : " Pa le mae dy rym, tydi lew rhuadwy ? onid yw Crist wedi dy wan-ychu ? A fynnit ti wybod ym mha beth y mae fy nerth i, a'r hwn y'th orchfygaf ? Yngwaed yr Oen."

Fel hyn, pan ddelom, fel Dafydd, i ymladd â Goliath, yr ydym yn taflu heibio arfogaeth Saul, sef pob hyder ac ymddiried ynom ein hunain, ac yn myned ym mlaen yn unig yn enw Duw Israel. A ydyw'r ddeddf yn ein cyhuddo o bechod ? Mae gennym *super-sedeas* i attal y cyhuddiad a'r cynghaws ; ac y mae gennym gommisiwn dan sel, i appello at orsedd gras⁴. A ydyw'r gyfraith yn gosod ein dyledion ger ein bron ? Ein hatteb iddi yw, fod y rhwymedigaeth wedi ei ddilëu, y llyfr wedi ei groesi, a'r holl ddyled wedi ei chwbl-dalu⁵. A ydyw pechodau ein hieuengctid yn ein dychrynu yn awr ? Attebwn yngewiriau St. Ioan, *Os cyfaddefwn ein pechodaau, ffyddlon yw Duw a chyflawn, fel y maddeuo i ni ein pechodaau, ac y'n glanhao oddi wrth bob anghyflawnder*⁶. A oes llu o

⁴ Galat. iii. 14.

⁵ Col. ii. 14.

⁶ 1 Ioan i. 9.

bechodau yn ein cylchynu, a ninnau yn ein gweled ein hunain yn droseddwyr mawrion? Ymddangosodd Crist ar ol ei adgyfodiad yn gyntaf i Mair Magdalen, i ddangos ei fod yn dwyn diddanwch i'r pechaduriaid gwaethaf. *Gvir yw'r gair*, ebe St. Paul, *ddyfod Crist Iesu i'r byd i gadw pechaduriaid; o ba rai, pennaf ydwyt fi*⁷. Mae St. Paul yn ei roi ei hun ym mhliith y nifer, fel y dylai pawb, a dywedyd, *O ba rai yr wyf fi yn un, ac yn benaf*.

A gallwn yma alw i gof ddyfnader diwaelod trugaredd Duw, yr Hwn sy'n dewis ei alw ei Hun yn Dad, i ddangos i ni faint ei gariad, ac i'n cefnogi i alw arno yn amser anghenoc-tid. Ac y mae ei ddaioni yn ymledaenu'n gyfrannogol i eraill; ac nid yw ei haelioni yn ymhyfrydu mewn dim yn fwy nag mewn gwneuthur llesâd; ac y mae'n well ganddo roi llawer na rhoi ychydig.

Nid yw Duw yn gyfryw un ag y tybiodd Adda ei fod, rhag wyneb yr Hwn, pan bechodd, y diangodd i ymguddio gan ofn. Ond y cyfryw un yw Duw, ag y gall Adda, a phob pechadur arall, gael dyfodfa atto mewn go-baith a chariad. Gweision Benhadad, yn yr ugeinfed o lyfr cyntaf y Brenhinoedd, ar ol canfod ac ystyried eu cyflwr cyfyng, a ddechreusant gynghori eu meistr Benhadad fel

⁷ 1 Tim. i. 15.

hyn : *Clywsom am frenhinoedd tŷ Israel, mai trugarog ydynt ; gosodwn sachlïain am ein hwynaau, ac awn at frenhin Israel ; ond odid efe a geidw dy einioes di*¹. Od oedd trugarowgrwydd fel hyn yn briodoedd brenhinoedd Israel, beth a allwn ddisgwyl ar law Duw Israel ? Yn ddiau y rhai a ymostyngant ger ei fron Ef a gânt ras a thrugaredd. *Mwy yw fy anwiredd nag y gellir ei faddeu*, ebe Cain². Na ! Cain, camsynied yr wyt : ni's gall pechod dynion fod yn fwy na thrugaredd Duw, os galwant hwy-arno â chalon edifarus.

Deuwn ni at Grist, ffynhonnell pob trugaredd ; ni a gawn Dduw yno yn ei gyfryng-dod Ef yn unig, “ yn fawr heb fesur, ac yn dda heb ei fath,” fel y dywed St. Awstin. Gelwid Crist yn yr Efengyl gan y Phariseaid, mewn ffordd o ddirmyg, yn *gyfaill publicanod a phechaduriaid*¹ : ac felly'r ydoedd mewn gwirionedd hefyd. Ni fu eriôed y fath gyf-aill i bechaduriaid tlodion, ac i'r cyfryw publicanod a'r hwn a gurodd ei ddwyfron, gan ddywedyd, *Duw, bydd drugarog wrthyf fi bechadur*².

Mae dammeg y ddafad a gollasid yn dangos i ni ei gariad Ef yn ceisio'r pechadur colledig : a gall llawenydd yr angylion am ein hedifeir-wch, ein cysuro i alw am ras. Ac er i'r

¹ 1 Bren. xx. 31.

¹ Mat. xi. 19.

² Gen. iv. 3.

² Luc xviii. 13.

mab afradlon ddifa eiddo ei dad, etto pan ddychwelodd adref mewn cydnabyddiaeth drist am ei fai, ni ddywedodd ei dad wrtho, O ba le y daethost ti ? neu, Pa le'n awr y mae dy holl etifeddiaeth ? Na ! *Dygwch allan y wisg oreu,—lladdwch y llo pasgedig,—byddwn lawen,—fy mab hwn oedd farw, ac a aeth yn fyw drachefn*³. Dyma groesaw adref, ddigon i beri i'r mab afradlon synnu a rhyfeddu !

Er ein bod ni weithiau yn colli natur plant, nid yw Duw byth yn colli enw a natur Tad. Mae ei enw'n rhagor-fraint i'w blant : yr ydym yn llefain, *Abba, Dad*⁴. Mae'n enw o ddarpariaeth a gofal hefyd : mae ein Tad nefol yn gofalu am danom fel Tad am ei blant. Ac y mae'n enw o gariad : *os chwy-chwi a fedrwch roi rhoddion da i'ch plant, pa faint mwy y rhydd eich Tad o'r nef yr Yspryd Glân i'r rhai a ofyno gando*⁵? Ac nid yn unig Tad yw, ond mae'n *Dad i ni* ; dylai hyn doddi ein calonau ac ennyn ein serchiadau â diddanwch yn ein holl gystuddiau i alw arno.

Gellir dywedyd yn yr achos hwn, fel y dywedwyd eisoes am serch mam, Ni wyr neb, ond tad, beth yw cariad tad ; ac ni wyr neb, ond Duw, yr Hwn sy gariad, beth yw

³ Luc xv. 22—24.

⁴ Galat. iv. 6.

⁵ Luc xi. 13.

cariad Duw. Fel y ceffit ti, O ddyn, dy fendithio, Efe a'th greodd; fel y ceffit dy adferyd o'th golledigaeth, Efe a'th brynnoddi: ac ni's gallai dy brynu heb roi pridwerth drosot; a'r pridwerth hwn oedd ei werth-fawroccaf waed ei Hun.

Pan wylodd Crist, a thywallt ychydig o ddagrau am Lazarus, ymresymmodd yr Iuddewon a dywedasant, *Wele, fel yr oedd yn ei garu ef*⁶. Ond pan dywalltodd Crist, nid dagrau, ond ei waed ei Hun, drosom ni, a hynny'n ehelaeth a diarbed, gallwn ddywedyd, *Wele fel y carodd ni*. Ac os prynodd Efe ni â gwerth mor ddirfawr, a wrthyd Efe ei geiniogwerth ei Hun? Os ceisiodd Efe ni, pan oeddym yn cilio oddi wrtho, ai nid llawer mwy y derbyn Efe ni, pan ddychwelom atto?

A anghofia gwraig ei phlentyn sugno? medd Esay; *ie, hwy a allant anghofio;* etto myniad anghofiaf di⁷. *Pan yw fy nhad a'm mam yn fy ngurthod,* ebe Dafydd, yr Arglwydd a'm derbyn⁸. Mae i ni Samaritan da, yr Hwn, pan fo'r offeiriad a'r Lefiad, (sef y ddeddf a'i chysgodau,) yn ein gadael yn archolledig, a rwymodd ein doluriau, ac a dalodd am ein meddyginaethau, fel yr iachêid ni i fywyd tragwyddol⁹.

⁶ Ioan xi. 36.

⁸ Ps. xxvii. 12.

⁷ Esay xlix. 15.

⁹ Luc x. 34.

Mae ein Joseph wedi myned o'n blaen, i ddarparu i'w frodyr¹: a fu eriôed y fath serchowgrwydd! *Cyn belled ag yw'r dwyraint oddi wrth y gorllewin, y pellhaodd Efe ein camweddau oddi wrthym*²: ie, fel y gosodwyd y golofn gwmmwl rhwng gwersyll plant Israel a'u gelynion³, rhag iddynt eu niweidio; felly y gosododd Efe ei ragluniaeth rhyngom ni a phob damweiniau, fel na bo dim niweid i'n gorthrechu.

Dylem fod yn ymbilwyr ar Grist: a rhag i'n hamryw feiau ein cywilyddio ger ei fron, mae Efe'n ein galw atto, gan ddywedyd, *Deuwch attaf fi, bawb sy'n flinderog a llwythog, a mi a esmwythaf arnoch*⁴. A ddaeth y creaduriaid truain i'r arch i gael eu gwar-edu? A ddaeth yr angylion i ddwyn Lot o Sodom? Ac oni ddeuwn ni atto Ef, ac Yntau'n ein gwahodd mor gariadlon, gan amcanu ein dwyn i'w deyrnas dragwyddol?

Wrth hynny, na fydded i liaws ein beiau, i ddychryn y ddeddf, nac i ofn cyflawnder Duw, ein digaltonni yn amser ein trallod: canys mae Crist wedi eu gyrru oll ar ffo, fel y gyrrodd Dafydd y Philistiaid; canys Efe a aeth yn ddiwedd i lythyren y ddeddf ag oedd yn lladd⁵. Pwy ni fwriad ei faich ar yr Hwn sy'n dymuno rhoi esmwythyd i ni? *Fel mai*

¹ Gen. xlvi. 5.

² Ps. ciii. 12.

³ Exod. xiv. 20.

⁴ Mat. xi. 28.

⁵ 2 Cor. iii. 6.

*byw fi, medd yr Arglwydd, nid ymhoffaf ym marwolaeth yr annuwiol*⁶. Mynnai Duw i'r pechod farw, ond i'r pechadur fyw. Trugareddau pwy a'n maethodd? rhagluniaeth pwy a'n cadwodd? gras pwy a'n harweiniodd o'n mabandod hyd heddyw? llygaid effro pwy a'n gwylodd rhag cynnifer per-yglon corph ac enaid? Ac a gawsom ni gynnifer prawf o'i gariad, a bod er hynny'n amhêus o hono? A ydyw'r Barnwr wedi dyfod yn Dadleuwr i ni, ac etto ninnau'n ofni anturio ymlaen at orsedd gras? *Mae'r Yspryd a'r briodas-ferch yn dywedyd, Tyred: a'r hwn sydd â syched arno, deued: a'r hwn sy'n ewyllysio, cymmered o ddwfr y bywyd yn rhad*⁷. *Pwy a rydd ddim yn erbyn etholedigion Duw?* *Pwy yw'r hwn sy'n damnio?* *Mae Crist ar ddeheulaw Duw yn erfyn trosom ni*⁸.

PENNOD XIX.

*Pa fodd y gall y claf yn ing marwolaeth ymbarottîi
erbyn ei ddiwedd.*

YR ydym ar hyd ein holl oes wedi bod yn byw mewn ymadawiad a ffarweliad â'r byd:

⁶ Ezec. xxxiii. 11.

⁷ Dat. xxii. 17.

⁸ Rhuf. viii. 33, 34.

er pan y daethom gyntaf iddo, yr ydym o hyd yn tynnu at ein diwedd. Mae ein pererindod bron drosodd : a phan ydym yn agosâu at ben yr yrfa, beth sydd yn aros ond bod i ni o galon orchymyn ein henaid i Dduw, a disgwyl yn gysurus am well bywyd i ddyfod ?

Pan fo eiddilwch natur ddynol yn rhy wan i amlygú teimlad yr enaid mewn geiriau, fe dderbyn Duw ar ein llaw offrymiad ein dynuniadau mewn ucheneidiau tu a'r nef : canys Efe a ddywedodd wrth Moses, *Pa ham y gweiddi arnaf*¹? ac etto nid ydym yn canfod i Moses lefaru un gair : dengys hyn ei fod Ef yn clywed deisyfiadau distaw calon Moses. Gwediodd Jonah ar Dduw ym mòl y morfil, nid mewn geiriau, mae'n debygol, ond mewn myfyrdod². Gwediodd Susanna yn ei chyni, wrth ddim ond codi ei llygaid tu a'r nef³. *Pan y'th gofiwyf ar fy ngwely*, medd Dafydd, *myfyriaf am danat yngwyliad-wriaethau'r nos*⁴. Ac mewn man arall, *Parod yw fy nghalon, O Dduw ; parod yw fy nghalon*⁵: yr oedd yn hyderu y derbynai Duw barodrwydd ei galon. Fe fydd myfyrio fel hyn yn ddistaw yn y galon am ddioddefaint Crist, yn radd o esmwythâd hyd yn oed i boenau'r corph.

¹ Exod. xiv. 15.

² Jonah ii. 1, 2.

³ Hist. Sus. 35.

⁴ Ps. lxiii. 6.

⁵ Ps. lvii. 5.

Dyma'r amser i Timothëus, yn ol esampl St. Paul, *ymdrechu ymdrech deg*, fel milwr da, a *chadw'r ffydd*, ac felly *gorphen ei yrfa*: canys ar ol y cwbl, y mae *coron cyflawnder yngħadw* i blant Duw⁶. Dyma chwareuyddiaeth olaf y chwareufwrdd; ar ol ymdrechu ychydig, mae trallodau yn peidio, a llawenydd diddiwedd yn dyfod i mewn. Coffa cysurus ynte yw coffa ein bod yn myned o dywyllwch y byd hwn i dir y rhai byw, lle nad oes dim nos, dim eisiau goleuni canwyll na llewyrch haul; canys Duw sy'n goleuo iddynt, a hwy a deyrnasant yn oes oesoedd.

"Taw, Babilon! a bydd fud, Sodom!" eb Epiphanius, "canys *yr wyf yn credu yn y bywyd tragywyddol*; ac y mae'r Erthygl hon o'm ffydd yn glir ac amlwg, ac o ganlyniad yn dwyn diddanwch i blant Duw⁷." Ond gwrandâwn ar Grist ei Hun: *Myfi yw'r adgyfodiad a'r bywyd*, eb efe; *yr hwn sydd yn credu yn ofi, er iddo farw, a fydd byw; a phwy bynnag sydd yn fyw, ac yn credu yn ofi, ni bydd marw yn dragywydd*⁸. Oh lawenydd pob llawenydd! Yr ydym yn gorwedd i lawr i huno, ac yn gorhwys, ac yn trig o mewn diogelwch.

Ac yma ni wiw i ni ommedd galw i gof fel y byddai gweision Duw gynt yn terfynu dydd eu marwoldeb. Mae gennym yn gyntaf es-

⁶ 2 Tim. iv. 7, 8.

⁷ Epiph. Epist. 32, 3.
⁸ Ioan xi. 25, 26.

ampl Moses, yr hwn, gwedi cael golwg ar wlad yr addewid, a fendithiodd Dduw am ei holl ddoniau, ac a fendithiodd y bobl ; ac felly a fu farw⁹. Esampl Josua, yr hwn yn hynaws ac addfwyn a aeth ffordd yr holl ddaear, dan annog Israel i ofni Duw ac i sefyll yn ddianwadal yn ei holl ordeiniadau Ef¹. Esampl Dafydd, yr hwn wrth farw a orchymynodd i Solomon ei fab rodio yn llwybr-
au Duw, fel y llwyddai ym mha beth bynnag a gymmerai mewn llaw². Esampl Tobit, yr hwn wrth farw a alwodd ei fab a'i wyrion, ac a'u cyngorodd i fod yn drugarog ac yn gyfiawn, fel y ffynnent yn eu ffyrdd³. Esampl St. Stephan, yr hwn a hunodd, dan alw ar enw'r Iesu a gweddio dros ei erlidwyr⁴: ac yn y dull yma y mae y duwiolion wedi dysgu i ni ymadael â'r byd hwn. Esampl Serapion, "hen wr ffyddlon a da," medd Eusebius, "yr hwn yn addfwyn a ymadawodd â'r byd ar ol derbyn y Cymmun⁵."

Yn awr, tu ag at am bethau trangcedig, maent yn ein gadael, a ninnau yn eu gadael hwythau ; yr enaid yn unig sy'n aros i gael ei orchymyn i Dduw. Os, wrth fyned i daith, y byddai dda gennyt roi dy ddâ byd i ofal cyfaill ag y gwyddit yn sicr y cedwid hwynt

⁹ Deut. xxxiii. 1, a xxxiv. 5.

¹ Jos. xxiii. 11.

³ Tobit xiv. 9.

⁵ Euseb. Hist. lib. 5. cap. 45.

² 1 Bren. ii. 2.

⁴ Act. vii. 60.

yn ddiogel ganddo ; pa faint mwy cysurus y gall y Cristion orchymyn ei enaid i gadwraeth Iesu Grist ei Geidwad, yr Hwn a'i ceidw'n sicr ddiogel byth bythoedd ! Dywedodd Reuben wrth Jacob, pan oedd efe'n hwyrfrydig i oll-wng Benjamin, *Dyro ef yn fy llaw i, ac mi a'i dygaf ef attat ti eilwaith*⁶ : felly gellir dywedyd wrth y Cristion claf, *Gorchymyn dy enaid ymadawol i Grist, ac Efe a'i dwg yn ddiogel i'w hir a'i ddedwydd gartref.*

PENNOD XX.

Pa foddy dylid cyfarwyddo'r claf gan y rhai ag y mae'r gorchuryl pwysig hwn yn perthynu'n briodol iddynt.

Y GWYR a neillduodd Duw i helpu cydwybodaau trallodus, i ollwng, neu ddatgan madd-euant, trwy ei drugaredd Ef, i fendithio yn ei enw¹, i ddysgu ei bobl, ac i'w llesâu mewn amser o anghenoctid, mewn rhan trwy eu cynghori, ac mewn rhan trwy offrymmu trostynt weddiau defosiynol at orsedd gras ; ym mhryd ymweliad â'r claf, (y weithred fawr hon o drugaredd,) y mae iddynt achlysur, yn anad un amser arall, i gymmeryd mewn llaw yn ddifrifol ymarferiad y ddau beth, sef cyng-

⁶ Gen. xlvi. 37.

¹ Num. vi. 23.

hori'r claf, a gweddio drosto. A gellir ystyried mai'r gofal hwn yw'r gofal mwyaf pwysig oll, a ddefnyddir i gymmorth y rhai yn awr sy fwyaf diallu i'w cymmorth eu hunain, ac sy reitias iddynt yn awr (Duw a'i gŵyr !) wrth gyfarwyddyd ysprydol. Nid oes dim ag y mae'r claf, yn yr amgylchiadau cyfyng hyn, yn ei ddymuno'n fwy na'r cyfryw gyfarwyddyd ysprydol yn erbyn dy-chrynfeydd naturiol marwolaeth, y rhai ar y cyfryw amser a hwn sy'n arferol o ymosod arno. Ac y mae'n beth i'w fawr ddymuno, fel, megis ag y mae'r sarph, (hen elyn dynol-ryw, yr hon sy'n ffyrnigo mewn llid fel y mae'r amser yn byrhâu, gan fygwth distryw i'r *sawdl*, megis y rhan olaf o fywyd dyn,) weithian yn brysur²; felly bod o'r rhai sy'n caru ac yn porthi praid Crist³, yn fwy gofalus yn awr i gadw'r claf rhag y llew ys-glyfaethus hwn⁴, ac ymdrechu ei gyflwyno ef yn iach yn y ffydd, yngobaith, ac ynghariad, i Fugail mawr ac Esgob eu heneidiau⁵.

Er y gall gras daionus yr Yspryd ag sy'n cyfarwyddo ein hymdrechiadau pennaf, gyfarwyddo gweithredydd sobr a phwyllus yn yr achos hwn yn well nag un math o ffurfiau o gyfarwyddyd pa bynnag; etto, fel mewn dy-ledswyddau eraill, felly yn y ddyledswydd

² Dat. xii. 12.

³ Ioan xxi. 15.

⁴ 1 Petr ii. 25.

⁵ 1 Petr v. 8.

hon, gall ychydig o sylwadau fod yn dderbyniol gan y rhai hynny ag sy'n fodlon i wrando ar gyngor gan arall.

Yn gyntaf, gan hynny, gan y rhaid i bawb (ond nid yn yr un modd) ddioddef marwolaeth, dylai fod gofal yr ymwelydd yn ol fel y bo amgylchiadau a theimlad y claf. Gall hir ymddiddan fod yn fwy nag y gall ei wendid ei oddef : mwy llesol yw ychydig eiriau cyfaddas, a hynny rai gweithiau pan fo'r claf wrtho ei hun. Mae ymadroddion anghyfaddas y rhai a fu'n cyd-ofera â'r claf, i'w gochelyd ; ie, gwell weithiau yw rhoi cyngor a wna les i'w enaid, gyd â dymuniad onest i wneuthur lles iddo, yn absennoldeb hyd yn nod ei berthynasau agosaf. Mae'n gymmwys iawn hefyd, ar ol caffael gwybod beth yw teimladau'r claf, ei annerch mewn geiriau a rag-fyfriwyd ym mlaen llaw. Mae dyfysgu yn ddidrefn fatterion dwyfol, ie, a dirgeledigaethau Duw ei Hun, fel y gwna rhai, yn fynych yn dwyn dirmyg ar uchel ddoethineb yr Ysgrythyr Lân, yr hon ni ddylai neb feiddio ei chwilio, ond gyd â phob parch, gwyliadwriaeth, a gweddi.

Gan fod trefnu'r claf gogyfer â'i ddiwedd Cristionogol ynte yn orchwyl mor bwysfawr, gall y rhai y perthyn y gorchwyl iddynt fyned ymlaen fel hyn, neu mewn cyffelyb fodd.

Ac yn gyntaf cymmerer gofal,

1. Fod i'r claf wneuthur cyffes u fudd a diffuant o'i holl bechodau.
2. Fod o hono'n fodlon o eigion ei galon i fyw neu i farw, yn ol fel y gwelo Duw yn dda.
3. Fod iddo benderfynu ymgymmodi â'r holl fyd, gan ddymuno maddeuant, a chan faddeu ei hunan bob camwedd a wnaeth neb i'w erbyn.
4. Fod iddo gymmeryd yn hynaws yr ym-weliad hwn a anfonwyd arno, i ymbarottî i farw yn was i Dduw pan alwo Efe am dano.
5. Fod iddo ei orchymyn ei hun yn gwbl i drugaredd Dduw yn unig gyfryngdod Crist Iesu ei Achubwr.

Ac yn ail,

Cymmerer gofal fod i'r claf gael ei gymhell i alw i gof,

1. Y rhaid i bawb, o bob cyflwr a sefyllfa, ymadael â'r byd trangcedig hwn.
2. Bod plant Duw, fel y gellir gweled trwy holl lyfr yr Ysgrythyr, ac ysgrifeniadau'r hen awdwyr, bob amser yn ewyllysgar yn ymroddi yn amser eu hymweliad.
3. Nad aeth Crist ei Hun ddim i ogoniant, heb fyned yn gyntaf trwy borth angau.
4. Fod marwolaeth ei weision yn werth-

fawr yngolwg Duw ; a'u bod yn gor phwys oddi wrth eu llafur.

Gellir gofyn i'r claf,

1. A ydyw efe'n cydnabod ffydd y Drindod Sanctaidd, ac erthyglau'r Credo ; ac a ydyw efe'n penderfynu byw a marw yn y ffydd hon.
2. A ydyw'n ddrwg ganddo am ei bechodaau, ac a ydyw'n gofyn â chalon edifarus am gael pardwn gan Dduw yn haeddedig-aethau Crist Iesu.

Ac mewn canlyniad i'r gyffes ddiffuant hon, denfyn Duw iddo'r gennadwri yma,
Dos mewn heddwch.

Annoger y claf i ystyried yn ddifrif,

1. Na ddaeth Crist i alw y rhai cyflawn, ond pechaduriaid i edifeirwch : gan mai pechadur yw *efe*, daeth Crist i'w alw *ef*.
2. Mai Crist yw gwir Oen Duw, yr Hwn a ddaeth i dynnu ymaith bechoda'u'r byd.
3. Ei fod Ef yn noddfa i bawb sy'n flinderog a llwythog.
4. Mai Efe yw ein cyflawnder ni.
5. Os bydd y claf byw, mai i'r Arglwydd y mae'n byw ; ac o bydd farw, mai i'r Arglwydd y bydd farw ; pa un bynnag ai byw ai marw a wna, eiddo'r Arglwydd ydyw.

Annoger ef i ddywedyd,

1. Gyd â Dafydd brophwyd, *Arglwydd, cofia dy was yn ei holl flinder.*
2. Gyd â'r publican, *Duw, bydd drugarog wrthyf fi bechadur.*
3. Gyd â'r wraig o Ganaan, *Iesu Fab Dafydd, trugarhâ wrthyf.*
4. Gyd â Job, *Myfi a wn fod fy Mhrynuwr yn fyw, ac y saif yn y diwedd ar y ddaear ; yr hwn a gaf fi i mi fy hun ei weled, a'm llygaid a'i gwelant, ac nid arall.*
5. Gyd â St. Stephan, *Arglwydd Iesu, derbyn fy yspryd.*
6. I ddywedyd, Myfi yw'r dyn archoll-edig hwnnw a syrthiodd ym mhlith lladron ; O Samaritan bendigedig, iachâ fi. Myfi yw'r mab afradlon crwydrus, nad wyf deilwng i'm galw'n fab i ti ; O Dad, gwna fi fel un o'th weision cyflog. Myfi yw y ddafad gyfrgoll-edig ; O cais ac achub fi ; dwg fi adref, Ar-glwydd, i'th gorlan yn y nef.
7. Ac i adrodd geiriau Crist ar y groes, *Arglwydd, i'th ddwylaw di y gorchymynaf fy yspryd.*

*Dyweded hefyd,**Iesu, dyro i mi*

1. Amynedd yn fy nghystudd.
2. Cysur yn fy nhrallod.

3. Nerth yn dy drugareddau.
4. Ymwared yn dy amser da dy Hun.

1. Os bydd y claf yn rhy wan i adrodd erthyglau'r Credo ei hun, adrodded arall hwynt wrtho, o un i un, yn araf.

2. Os bydd ei glefyd yn boeth a thrwm, a'r gwres yn codi i'w ben, a'r afiechyd yn gwasgu ar ei rannau bywiol, nes peri iddo golli arno ei hun, cymheller ef mewn ychydig bach o eiriau i gofio Duw, a gweddied y rhai a fo'n bresennol drosto â lleferydd isel.

3. Os bydd yn cael ei drallodi gan ddy-chymmygion dïeithr ac arswyodus, fel y cafodd llawer dyn da, erfynier arno yn enw Duw alw i gof gariad anfeidrol Iesu Grist croes-hoeliedig.

4. Os bydd yn drist ac yn isel-galon, cry-bwyller wrtho am lawenydd y nef, lle y caiff efe, trwy ras Duw, yn fuan fyned; ac am drallodion y byd drwg presennol, y rhai a deimloedd yn aml, a'r rhai y mae yn awr o'r diwedd ar ffarwelio â hwynt.

Darllen i'r claf,

Hanes dioddefaint Crist; Luc xxii. xxiii.

Yr wythfed Psalm ar hugain; *Arnat ti, Arglywydd, &c.*

Yr ail Psalm a deugain, *Fel y brefa yr hydd, &c.*

Y drydedd Psalm a deugain ar ol y cant,
Arglwydd, clyw fy ngweddi, &c.

Y bedwaredd bennod ar ddeg o St. Ioan.

Y seithfed bennod o'r Datguddiad.

Y bymthegfed bennod o'r Epistol cyntaf at
y Corinthiaid.

Os bydd y claf mewn mawr boen corph neu ing meddwl,

1. Na farned neb arno, fel y gwnaeth cyfillion Job, y rhai a dybiasant mai rhagrithiwr ydoedd, oblegid ei gystudd⁶.

2. Neu fel y rhai a ddywedasant wrth ein Harglwydd am y Galileaid, y rhai a farnent hwy yn bechaduriaid mwy nag eraill, am syrthio o'r tŵr yn Siloam arnynt⁷.

3. Neu fel y barbariaid, y rhai a dybient mai dyn drwg oedd St. Paul, am lynu o'r wiber wrth ei law⁸.

4. Na lawenyched neb pan syrthio ei elyn, *rhag i'r Arglwydd weled, a bod hynny yn ddrwg yn ei olwg ef*⁹.

5. Cofied pawb eiriau Joseph, *Onid wyf finnau hefyd dan law Duw?*

6. Cofied pawb eiriau St. Paul at y Rhufeiniaid, *Wylwch gyd â'r rhai sy'n wylo*¹.

7. Cofied pawb air y gwr doeth, *Na fydd hwyrfrydig i ofwyo'r claf*².

⁶ Job iv. 7, a xxii. 6.

⁷ Luc xiii. 4.

⁸ Act. xxviii. 4.

⁹ Diar. xxiv. 18.

¹ Rhuf. xii. 15.

² Eccles. vii. 35.

8. Cofied pawb air St. Iago, *Gweddiwch dros eich gilydd*^s.

Ffurf oadael y claf i nawdd Duw.

Yr Arglwydd a'th wrandawo yn nydd trallod: enw Duw Jacob a'th ddiffyno; anfoned i ti help o'i gyssegr, a nerthed di o Sion. Rhodded Iesu Grist, Mab y tragwyddol Dduw, ei ddiōddefaint rhwng dy bechodau a barn i ddyfod. Yr Yspryd Glân a fyddo'n Ddiddanydd i ti hyd dy ddiwedd.
Amen.

Buddiol fydd gadael y claf weithiau i fyfyrio 'wrtho ei hun, ac i ymrôi i'r gwaith yn enw'r Drindod Sanctaidd.

Bydded iddo hefyd weithiau ei orchymyn ei hun i gysgu â'r myfyrdodau hyn.

Ffurf o weddi i'w harfer dros y claf gan y rhai a fo'n bresennol.

O drugaroccaf Arglwydd, yr ydym ni, y rhai nid ydym deilwng i weddio drosom ein hunain, yn awr yn gweddio dros arall, gan attolygu i ti edrych i lawr o'r nef yn lliosowgrwydd dy drugaredd ar dy was hwn sydd yma yn ymweledig â selni. Goleua ei feddwl; cadw ei synhwyrau; parhâ iddo dy ras; lliniara ei boen; ac, os rhyngta bodd yn

^s Iago v. 16.

dy olwg, estyn ei ddyddiau, fel yr estynaist ddyddiau Hezeciah : os amgen, derbyn ef i Arch dy drugaredd. Yn y cyfamser dyro iddo amynedd yn ei gystudd, diddanwch yn ei drallod, dianwadalwch yn ei brofedigaethau, a buddugoliaeth ar ei holl elynion ysprydol. Glanhâed a golched gwaed dy anwyl Fab holl frychau a brynti ei bechodau. Gor-chuddied dy gyfiawnder Di ei anghyfiawnder ef. Clywer am dano yr hyfryd leferydd hwnnw, *Heddyw y byddi gyd â mi ym Mharadwys*. Caniattâ hyn, O Arglwydd, er an-rhydedd a gogoniant dy sanctaidd enw, trwy yr unrhyw Iesu Grist, ein hunig Iachawdwr a'n Prynwr. *Amen.*

Gweddi i'w harferyd gan y claf ei hun.

O Arglwydd Iesu, yr Hwn wyt yr adgyfodiad a'r bywyd, yn yr Hwn pwy bynnag a gredo, er iddo farw, a fydd byw ; nid wyf yn deisyf arnat estyn fy oes farwol hon, nac ychwaith gymmeryd o honot fi ymaith yn gynt ; ond yn unig yr wyf yn fy ngorchymyn fy hun yn hollol i'th ewyllys Di. Ymddwg tu ag attaf, drugaroccaf Geidwad, yn ol cyfoeth dy ddaioni. Gennyt Ti y'm cynhaliwyd er pan ddaethum i'r byd. Yr wyf yn drist ddarfod i mi mor aml dy dramgwyddo, a Thithau mor dda wrthyf ; ac yr wyf yn galaru na byddai fy nhristwch yn fwy. Yr wyf

yn appelio, Arglwydd, fel ymbiliwr gostyngedig, at orsedd gras, ac yn crefu yno am gael ar dy law faddeuant o'm holl bechodau, trwy haeddeditaethau dy ddioddefaint chwerw. Yr wyf yn offrymmu i Ti galon edifeiriol am yr amser a aeth heibio, ac yn addaw diwygio fy muchedd, os rhynga bodd i'th ddwyfol ddoethineb barhâu dros ychydig etto fy mherindod ar y ddaear, yn yr hyn yr wyf yn ymroddi'n gwbl i'th ewyllys nefol Di, mewn gobaith o adgyfodiad gwell i fywyd tragedywyddol, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

Gweddi arall dros y claf.

Hollalluog a thragywyddol Dduw, Gwneuthurwr dynolryw, yr Hwn wyt yn cospi y rhai a gerych, ac yn ceryddu pawb a'r a dderbyn-iech; derbyn, ni a attolygwn i Ti, Arglwydd, dy was hwn ymweledig gan selni, yr hwn sydd yn ymwrthod â'i haeddiant ei hun, ac yn ymddiried yn dy drugareddau Di. Edrych arno, Arglwydd, fel yr edrychaist ar Hezeçiah, trwy ei adferyd i'w gynnefin iechyd, os yw hynny yn ol dy ewyllys: neu ynte dyro iddo ras i gymmeryd ei glefyd yn ddioddefgar, fel, ar ol diweddu'r fuchedd hon yn dy ffydd a'th gariad, y caffo drigo gyd â thi yn y bywyd tragedywyddol; i'r hwn teilyng a ei ddwyn ef, a ninnau, a'th holl uffffud weision, er mwyn dy anfesurol drugareddau. *Amen.*

PENNOD XXI.

*Yn cynnwys cyfarwyddyd i orchymyn y claf yn awr
angau i ddwylaw Duw.*

Duw Dad, yr Hwn a'th greodd, Duw Fab,
yr Hwn a'th brynodd, Duw Yspryd Glân, yr
hwn a dywalltodd ei ras i'th fewn, a'th gym-
hortho yn dy holl brofedigaethau, ac a'th
arweinio yn y ffordd i fywyd tragedywyddol.

Atteb, Amen.

Crist, yr Hwn a fu farw drosot, a'th gadwo
rhag pob drwg. *Amen.*

Crist, yr Hwn a'th brynodd, a'th nertho
ym mhob temtasiwn. *Amen.*

Crist, yr Hwn a'th garodd mor anwyl, a'th
adgyfodo, gorff ac enaid, yn adgyfodiad y
cyfawn. *Amen.*

Crist, yr Hwn sy'n eistedd ar ddeheulaw
Duw yn y nef, a'th ddycoco i lawenydd tra-
gywyddol. *Amen.*

Caniattâed Duw mai ym monwes Abraham
y byddo dy le. *Amen.*

Caniattâed Duw i ti gael gweled dy fendigaid
Geidwad mewn gogoniant. *Amen.*

Caniattâed Duw fod dy farwolaeth yn werth-
fawr yn ei olwg Ef, yn yr Hwn y cei or-
phwys o byth. *Amen.*

Ffurf o weddiau byrion.

O drugaroceaf Dad, i Ti yr ydym yn gor-chymyn dy was hwn, gwaith dy ddwylaw dy Hun : i Ti yr ydym yn gorchymyn ei enaid, yn haeddiant Crist Iesu ei Bryniawdwr. Derbyn, O Arglwydd, dy greadur dy Hun ; maddeu iddo, attolwg, ba beth bynnag a wnaeth ar fai trwy ei wendid dynol ; a gorchymyn i'th angylion ei ddwyn i dir o dragwyddol hedd. *Atteb, Amen.*

Cadw, Arglwydd, enaid dy was, fel y cedwaist Noah yn y diluw. *Amen.*

Cadw, Arglwydd, enaid dy was, fel y cedwaist Lot rhag tân Sodom. *Amen.*

Cadw, Arglwydd, enaid dy was, fel y cedwaist Job yn ei holl adfyd. *Amen.*

Cadw, Arglwydd, enaid dy was, fel y cedwaist yr Israeliaid rhag gallu Pharaoh a gorthrymder yr Aipht. *Amen.*

Cadw, Arglwydd, enaid dy was, rhag malais Satan, fel y cedwaist Ddafydd rhag ei holl elynion. *Amen.*

Cadw, Arglwydd, enaid dy was, fel y cedwaist Daniel rhag safnau'r llewod. *Amen.*

Cadw, Arglwydd, enaid dy was, fel y cedwaist y tri llangc o'r ffwrn dân. *Amen.*

Cadw, Arglwydd, enaid dy was, fel y cedwaist Elias rhag y gau brophwydi a geisiaasant ei ddisstrywio. *Amen.*

Cadw, Arglwydd, enaid dy was, ac achub ef,
fel yr achubaist dy apostolion o garchar.
Amen.

Rhag y twyllwch eithaf,
Gwared ef, O Arglwydd.

Rhag poenau uffern,
Gwared ef, O Arglwydd.

Rhag melldith dragwyddol,
Gwared ef, O Arglwydd.

Drwy dy enedigaeth,
Gwared ef, O Arglwydd.

Drwy dy grog a'th ddioddefaint,
Gwared ef, O Arglwydd.

Drwy dy ddisgyniad i uffern,
Gwared ef, O Arglwydd.

Drwy dy adgyfodiad y trydydd dydd o feirw,
Gwared ef, O Arglwydd.

Drwy dy esgyniad i'r nefoedd,
Gwared ef, O Arglwydd.

I'th ddwylaw trugarog Di, O nefol Dad, y
gorchymwynn enaid dy was sydd yn awr yn
ymadael. Cydnebydd ef, attolwg i Ti, yn
ddafad o'th gorlan ac yn oen o'th braidd dy
Hun. Derbyn ef i freichiau dy drugaredd.
Gan wybod na's gall y peth hwnnw a rodder
i'w gadw i Ti ddim cyfrgolli, yr ydym yn
erfyn arnat, drugaroccaf Iesu, dderbyn ei
yspryd ef mewn tangnefedd. Amen.

Bendith y Claf.

- Iesu Grist a'th ollyngo oddi wrth dy holl
bechodau. *Atteb, Amen.*
- Iesu Grist, yr Hwn a fu farw drosot, a ddi-
leo dy holl gamweddau. *Amen.*
- Iesu Grist, yr Hwn sy'n dy alw, a'th dder-
bynio i'w deyrnas nefol. *Amen.*
- Yr Arglwydd a'th fendithio ac a'th gadwo.
Amen.
- Gwneled yr Arglwydd i'w wyneb dywynnu
arnat. *Amen.*
- Dyrched yr Arglwydd ei wyneb arnat, a
rhodded i ti adgyfodiad llawen i fywyd
tragywyddol. *Amen.*
- Ymado, dydi enaid Cristionogol, yn enw
Duw Dad a'th greodd, Duw Fab a'th
brynnodd, Duw Yspryd Glân a'th sanct-
eiddiodd, un bywiol a thragywyddol Dduw;
i'r Hwn y byddo'r gogoniant yn oes oes-
oedd. *Amen.*

*Gweddi i'w harferyd gan y rhai a fo'n bre-
sennol ar ymadawiad y Cristion.*

Gweddiwn.

Hollalluog a thragywyddol Dduw, gan
ddarfod i Ti deilyngu cymmeryd dy was
hwn allan o drallodau'r byd pechadurus hwn
i'th nefol deyrnas, am yr hyn yr ydym yn

bendigo dy enw ; gwna ni, y rhai sydd yngweddill, attolwg i Ti, yn feddylgar am ein marwoldeb, fel y rhodiom ger dy fron Di mewn cyfiawnder a sancteiddrwydd holl ddyddiau ein heinioes : a phan ddelo dydd ein hymadawiad, poed i ni orphwys ynot Ti, megis y mae ein gobaith fod dy was hwn ; fel y gallom ni gyd âg ef, a chyd â'r holl rai a ymadawsant yn ffydd dy sanctaidd enw, gyd-lawenychu yn dy dragwyddol ogoiant, trwy Grist Iesu ein Harglwydd. *Amen.*

PENNOD XXII.

Annogaeth er cysuro y sawl a wylant ac a alarant am farwolaeth eraill.

MAE gweddusdra dynoliaeth a Christianogaeth yn goddef galaru am y marw, ac y mae esamplau'r Ysgrythyr Lân yn cymmeradwyo'r arferiad. Beth sy harddach na chyflawni'r ddyledswydd o roi tystiolaeth o'n teimladau naturiol yn yr amgylchiad sobr o'n hymadawiad y naill oddi wrth y llall i fyd arall ? Nid yn breniau a meini y gwnaeth Duw ni, ac ni roes i ni galonnau na ddylent deimlo pan fo achlysuron priodol yn gofyn am deimladau o dristwch.

Ar y llaw arall, beth sy fwy anweddus na bod yn llawen yn nhŷ galar? Barnwyd, trwy arfaethiad un o hen Gynghorau'r Eglwys, mai peth paganaidd iawn oedd digrif-wch ar amgylchiadau galarus o'r fath hyn¹.

Yn awr am esamplau o'r Ysgrythyr. Ni a welwn i Abraham alaru am Sarah²; holl Israel am Samuel³; y bobl yn yr anialwch am Aaron eu harch-offeiriad⁴; dinaswyr Bethulia am Judith, y weddw anrhyydeddus honno⁵; y Maccabeaid am eu capten dihaf-arch⁶; Martha a Mair am eu brawd Lazarus⁷; gwragedd Bethlehem am eu plant, y babanod bach⁸; y deuddeg patriarch am Jacob eu tad oedranus⁹; Dafydd am Jonathan, ei wir a'i ffyddlon gyfaill¹; ie, "nid aeth Crist ei Hun i'w fedd," ebe St. Jerom, "heb fod llygaid galarus yn wylofain am dano."

Ac nid teimlad ysgafn fyddai'r galar hwn, ar lawer achos. Mawr oedd y galar a wnaeth Jacob am Joseph ei fab, pan dybiodd ei farw ef; *Disgynaf, eb efe, yn alarus at fy mab i'r beddrod*². Mawr oedd y galar a wnaeth Dafydd pan fynegwyd iddo farw Absalom;

¹ Concil. Arel. 3. sub Leo I.

² Gen. xxiii. 2.

³ 1 Sam. xxv. 1.

⁴ Num. xx. 29.

⁵ Judith xvi. 24.

⁶ 1 Mac. ix. 20, 21.

⁷ Ioan xi. 31.

⁸ Mat. ii. 18.

⁹ Gen. l. 14.

¹ 2 Sam. i. 17.

Gen. xxxvii. 35.

*O fy mab Absalom, fy mab, fy mab Absalom !
 O na buaswn farw drosot ti, Absalom, fy mab,
 fy mab³ ! Mawr oedd y galar a wnaeth y
 gwragedd gweddwon am Dorcas, gwraig mor
 dda, yn llawn o weithredoedd da ac eluseni,
 wrth ystyried ei haelioni tu ag attynt⁴. Ac
 fel hyn ni a welwn mai arferiad canmoladwy
 yw galaru dros y marw.*

Wrth wahardd i'r Thessaloniaid dristâu, nid eu gwahardd i dristâu o gwbl yr oedd, ond gwahardd iddynt dristâu fel y Cenhedloedd⁵. "Nid ydym yn beio'r nwyd," ebe St. Bernard, "ond y gormodedd o honi⁶." Gallwn alaru'n gymhedrol am ymadawiad rhai eraill, ie, hyd yn nod ymadawiad y duwioł a'r haelionus. Canys fel y galara llawer am ddynion da, o ran y golled sydd am danynt yn y byd, trwy iddynt fod mor gynnorthwyol i eraill mewn cynnifer o ffyrdd; (yr hyn sy dystiolaeth o'u gwerth, gan ddarfod iddynt adael ar eu hol cyn lleied o rai tebyg iddynt;) felly mae'n arwydd o ryw gamwri ym mhllith dynion pan fo'r tlodion a'r cystuddiol yn goddef i ddynion farw heb alaru dim am danynt. Dywedodd y prophwyd Jeremi wrth Jehoiacim, *Dy dad a farnodd gŵyn y tlawd a'r anghenus; yna y llwyddodd.*

³ 2 Sam. xviii. 33.

⁴ Act. ix. 36.

⁵ 1 Thes. iv. 13.

⁶ Non culpamus affectum, sed excessum.—*Bern. in Cant. serm. 26.*

Yna mae'n ychwanegu'r hyn a ganlyn, fel cospedigaeth i'w gosod arno, o ddirmyg ar ei goffadwriaeth; *Ni alarant am dano*⁷.

Mae'r Apostol yn traethu'n eglur ddarfod i'r Arglwydd drugarhâu wrtho trwy arbed Epaphroditus, rhag iddo ef *gael tristwch ar dristwch*⁸: yr hyn sy'n dangos gymaint fuasai ei alar ef pe buasai Epaphroditus yn marw. *Fy mab*, ebe'r gwr doeth, *gollwng ddagrau dros y marw*; *ac na ddiystyra ei gladdedigaeth ef*⁹. Wrth hyn gallwn gasglu nad yw defodau cynhebryngol claddedigaeth addas a galar cymhedrol ddim yn anweddus ym mhliith y rhai a ddylent wneuthur *pob peth yn weddaidd ac mewn trefn*¹.

Yr Israeliaid, wrth gladdu eu tadau a'u llywiawdwyr mor anrhyydeddus, a ddangosasant eu hunain yn bobl o duedd dda a threfnus. *Cladd fi yn weddaidd*², ebe Tobit wrth ei fab. Y bedd newydd, y llieiniau glân, yr ennaint peraidd, a'r personau parchus, oeddynt yn dangos y parch a roddwyd i'n Hiachawdwr yn ei angladd. A diau dy-lai'r cyrph hyn, a fuant yn demlau i'r Yspryd Glân, ac a gyfnewidir ddydd y farn i gyflwr o ogoniant, gael y cyfryw gladdedigaeth weddaidd ag a fo'n gyfaddas i arferiad

⁷ Jer. xxii. 16. 18.

⁸ Eccles. xxxviii. 16.

⁹ Tobit xiv. 10.

¹ Phil. ii. 27.

² 1 Cor. xiv. 40.

parchus ac addasrwydd naturiol. Gan hynny byddai naccâu'n sarrug i'r marw gael angladd cyfaddas, neu ommedd i Gristionogion alaru'n gymhedrol, yn waith annynol a barbaraidd i'r eithaf.

Ond er y goddefir galar cymhedrol a Christionogol, etto mae tristâu *fel rhai heb obaith*, ym mhell iawn oddi wrth reol y ffydd, yr hon a ddywed i ni mai *gwerthfawr yngolwg Duw yw marwolaeth ei saint ef*³: y maent hwy mewn tangnefedd, a'u gobaith sy'n llawn anfarwoldeb. Yr hwn a ddywedodd, *Fy mab, gollwng ddagrau dros y marw*, a ddywedodd hefyd, *Yna cymmer ddiddanwch am dy dristwch*⁴. A dylai Cristionogion yn anad neb, a hwythau'n credu'r adgyfodiad i fywyd gwell, ymddyrrchafu trwy ffydd uwchlaw gor-mod tristwch; a dylai fod cymhedroldeb yn hyn fel mewn pob peth arall.

A ydym ni wedi colli tad daionus, cyfaill ffyddlon, gwraig, neu blant? dywedwn gyd â Job, *Yr Arglwydd a roddodd, a'r Arglwydd a gymmerodd ymaith*⁵. Ac nid eu cymmeryd ymaith yn llwyr ychwaith a wnaeth Efe, ond eu cymmeryd ychydig o'n blaen ni ar hyd y ffordd y rhaid i ni oll ei theithio ar eu hol. Cawn gyfarfod drachefn ryw ddiwrnod; ac fe fydd y cyfarfod hwn, medd Cyprian, yn achos o lawenydd dirfawr i ni, pan fyddom

³ Ps. cxvi. 15.

⁴ Eccles. xxxviii. 16, 17.

⁵ Job i. 21.

ni a'n cyfeillion yn dyfod ynghyd i gyd-lawenychu⁶. *Yn awr yr adwaenom o ran; ond yna yr adnabyddwn megis y'n hadwaenir*⁷: a dywed rhai o'r hen Dadau y cawn yno ad-nabod Petr, a Phaul, a'r seintiau a fuant feirw cyn ein geni ni⁸.

Ond yn anad pob cysur arall, dylai dedwydd obaith o adgyfodiad ein dyrchafu uwchlaw meddyliau rhy alarus. Crist ein Ceidwad, cyn ei ddioddefaint, wrth weled ei ddisgyblion yn galaru am ei ymadawiad oddi wrthynt, yr hyn oedd i gymmeryd lle yn fuan, a ddywedodd wrthynt, *Na throllder eich calon, yr ydwyf yn myned at y Tad*⁹. Felly gellir dywedwyd wrth y rhai sy'n drist oblegid colli eu cyfeillion, Na fyddwch ry alarus o ran eich meddyliau; y mae y rhai yr ydych yn drist am eu colli, wedi myned at eu Pryniantwr trugarog. Dywedwyd am Enoch, am iddo rodio gyd â Duw, *ddarfod i Dduw ei gymmeryd ef*¹. Dywedwyd wrth Josiah, fel arwydd o fendith iddo, y cesglid ef at ei dadau cyn dwyn y bobl i gaethiwed². Dywedodd St. Jerom am yr amser pechadurus yr oedd efe yn byw ynddo, "Mae Nepotian yn ddyn dedwydd, am iddo gael marw cyn gweled drygioni'r oes hon³."

⁶ Cypr. de Mort.

⁷ 1 Cor. xiii. 12.

⁸ Aug. Cyr.

⁹ Ioan xiv. 28.

¹ Gen. v. 24.

² 2 Bren. xxii. 20.

³ Felix Nepotianus, qui haec non videt.—*Hier. ad Hel.*

Pan fo Duw yn rhoi Noah yn yr arch, mae'n argoel fod diluw i ddyfod cyn hir⁴. Pan fo Duw yn anfon angylion i gyrchu Lot o Sodom, mae'n arwydd fod cosp ar ddinas-oedd drygionus i ddilyn yn ebrwydd⁵. Pan gymméro Duw Lazarus i fynwes Abraham, yna ni raid i Lazarus ddioddef ychwaneg o dlodi. Felly gan ein bod oll i fyned i wared gyd â ffrwd marwoldeb, ni ddylem ei ystyried yn beth dieithr weled eraill yn myned o'n blaen.

Wrth gwyno fod ein cyfeillion yn marw, yr ydym yn cwyno, mewn effaith, ddarfod eu geni'n farwol. Mae angau fel y llinellau a dynnir o ganolbwyt cylch crwn i'w ymylon, oll yr un hyd yn union a'u gilydd: neu fel Penswyddog diduedd, yn ddibartiaeth at bawb fel eu gilydd; yr hyn a ddylai beri i ni ymfoddloni i drefn Duw. Po gyntaf y gallo'r echwynwr onest dalu ei ddyled, cyntaf oll y bydd ei feddwl yn esmwyth. Po byrraf y fordaith, cyntaf oll y bydd y morwr wedi cyrraedd porthladd ei orphwysfa, ac wedi gochelyd perygl llong-ddrylliad. Ni ddylem anghofio dwyn ein hewyllys ein hunain yn gydffurfiol âg ewyllys Duw, fel yr ydym yn gweddio beunydd, *Gwneler dy ewyllys*⁶.

Mae'r gwr doeth yn canmol y marw

⁴ Gen. vii. 1.

⁶ Luc xi. 3.

⁵ Gen. xix. 1.

rhagor y byw. Ac y mae St. Ioan yn datgan y rhai hynny'n ddedwydd ag sy'n marw yn yr Arglwydd; am eu bod *yn gorffwys oddi wrth eu llafur*⁷. A dylai eu bod hwy wedi cyrraedd eu gwŷnfydedigrwydd, ein han-nog ninnau i gofio ac i ddilyn eu daioni a'u duwioldeb hwy.

Pan ddaethom i'r byd hwn, dygasom gyd â ni natur ddarostyngedig i farwolaeth. Drachefn, pechodd pawb; a daeth marwolaeth ar bawb o ganlyniad. Felly rhaid i ni ddychwelyd i'r man y daethom o hono, gan nad yw'r byd hwn ond alltudiaeth i ni dros amser; ac o'r alltudiaeth hwn y mae gwŷnfydedig eneidiau'r saint wedi cael eu rhydd-hâu; a phe dychwelent yn ol i'r ddaear hon, (yr hyn yn ddilys ni's gwnant,) dywedent wrthym *eu bod wedi dewis y rhan dda*, fel Mair: yr ydym ni, fel Martha, *yn drafferthus ynghyllch llawer o bethau*; ond y mae ganddynt hwy *yr un peth angenrheidiol*, yr hwn *ni's dygir oddi arnynt*⁸.

Er mwyn gallu o honom ddwyn yn ymos-tyngar ein colled am ein cyfeillion a ymadawsant, bydded i ni ystyried ymddygiad Dafydd yn yr un amgylchiad; yr hwn, pan oedd ei blentyn yn glaf, a ymprydiodd, a weddiodd, ac a orweddodd ar y ddaear: ond wedi gwybod cyflawni ewyllys Duw ym mar-

⁷ Dat. xiv. 13.

⁸ Luc x. 42.

wolaeth y plentyn, cyfododd Dafydd i fynu, bwytaodd fara, a derbyniodd gysur, debygid, ar ol ei holl dristwch. Pan ofynwyd iddo'r achos o'r gwahaniaeth hwn yn ei ymddygiad, efe a attebodd, *Tra'r ydoedd y plentyn yn fyw, yr ymprydiais ac yr wylais; canys dywedais, Pwy a wyr a drugarhâ'r Arglwydd wrthyf, fel y byddo byw y plentyn? ond yn awr efe fu farw, i ba beth yr ymprydiwn? a allaf fi ei ddwyn ef yn ei ol mwyn? myfi a af atto ef, ond ni ddychwel efe attaf fi*⁹. A St. Bernard, mewn cyffelyb amgylchiad, pan effeithiodd marwolaeth cyfaill yn fawr arno, a ddywedodd, "Troais i weddio ac i wylo; o'r diwedd ystyriaus ddarfod i Dduw wneuthur yr hyn oedd yn rhyngu bodd oreu iddo yn ei ragluniaeth ddwyfol; a pha les fuasai galaru ychwaneg? 'Arglywydd,' meddwn i, 'yr eiddot dy Hun, ac nid yr eiddof fi, a gymmeraist ymaith:' a rhwystrodd fy nagrâu i mi lefaru ychwaneg." Ac felly pen-darfynodd yr hen Dad ymfoddloni yn ewyllys ei Dduw.

* 2 Sam. xii. 22, 23.

PENNOD XXIII.

*Y modd y dylai y sawl sy'n cymmeryd mewn llaw, ar dir
neu fôr, ryw orchwylion peryglus, yn hyspysol ym
mlaen llaw ymbarottöi i gyfarfod â'u Duw.*

Os dylai y dynion ag sy'n byw yn yr amser-oedd a'r lleoedd diogelaf feddwl beunydd am eu dydd olaf, gan ystyried anwadalwch oes dyn, ac y daw eu dydd olaf o sesur ychydig ac ychydig ar eu gwarthaf; yna pa faint mwy y dylai y rhai a elont i leoedd o enbydrwydd amlwg, ac a gymmeront mewn llaw orchwylion o'r perygl mwyaf, sefyll ar eu gwyliad-wriaeth, a bod mewn cyflwr o ddarpariad a pharottoad i gyfarfod â Duw! Gallai paganiaid ddywedyd wrth Jonah nad oedd un nodded arall yn y cyfryw achos, ond rhedeg am help at ryw hanfod mwy goruchel¹: a medrodd Pharaoh ei hun erfyn ar Moses weddio drosto². Pa faint mwy, ynte, y dylai y rhai y mae eu gobaith yn cyrhaeddyd ym mhellach na chadwraeth y bywyd marwol, weddio, fel y gwnaeth Judith, yr hon yn gyntaf a addolodd Dduw gyd â phob defoswn, ac yna a aeth allan i waredu Bethulia³?

Nid ydyw cred yn Nuw yn gwneuthur

¹ Jonah i. 6.

² Exod. viii. 8.

³ Judith ix. 1.

dynion yn llwfr, ond mae'n hytrach yn ychwanegu dewrder a chysur yn ymosodiadau creulonaf gelynion. *Trwy ffydd*, ebe'r Apostol, *Gideon, Barac, Samuel, Jephthae, a Dafydd, a nerthwyd o wendid, a wnaeth pwyd yn gryfion mewn rhyfel, a yrrasant fyddinoedd yr estroniaid i gilio*⁴, y rhai a ddaethent yn erbyn pobl Dduw â grym mawr ac â byddin oedd lluosog. Tra'r oeddynt hwy yn ymarfogi â chleddyf a tharian, arfer pobl Dduw oedd ymarfogi â defosiwn, ac â hunan-ymroddiad crefyddol, naill ai mewn bywyd neu mewn angau, i nodded eu Duw.

Pan welodd Balac fod Israel yn llwyddo mwy trwy eu gweddiau nag y medrai efe trwy ei fyddinoedd cadarnaf, yr ydoedd raid iddo gael Balaam i'w melldithio hwynt⁵. Yr oedd Moses, ebe St. Jerom, yn ymladd yn gystal a Josua yn erbyn Amalec⁶; canys tra'r oedd Moses yn dal ei ddwylaw i fynu, yr oedd Israel yn fuddugol⁷.

Mae Ruffinus a Socrates yn ysgrifenu ddarfod i'r ymherawdwr Cristionogol Theodosius, mewn brwydr fawr yn erbyn Eugenius, weled llu dirfawr yn dyfod yn ei erbyn, ac, yn ol pob tebygolrwydd dynol, fod ei ddadymchweliad ger llaw; a darfod iddo esgyn i le amlwg yngolwg yr holl fyddin, a

⁴ Heb. xi. 32—34.

⁶ Hiero. ad Heliod.

⁵ Num. xxii. 5.

⁷ Exod. xvii. 11.

syrthio ar ei wyneb ar y ddaear, ac ymbil ar i Dduw, .od edrychai efe byth ar greadur pechadurus, ei gynnorthwyo yn yr amser hwn o lwyr angenocticid: ac ar hyn y cododd gwŷnt nerthol yn ddisymmwth, yr hwn a chwythodd biccellau'r gelynion yn ol arnynt eu hunain, yn y cyfryw fodd rhyfeddfawr, nes y cafodd Eugenius a'i holl fyddin eu llwyr-orthrechu: canys gwelsant fod gallu Crist yn ymladd dros ei bobl⁸, a hwy a lefasant, mewn effaith, fel y gwnaeth yr Aiphtiaid, Oh ! mae Duw yn y cwmwl ! neu, *Yr Arglwydd sydd yn ymladd drostynt hwy⁹!*

Fel hyn, trwy ffydd a dianwadalwch, y mae gweision Duw yn myned allan yn erbyn eu gelynion gyd â phob defosiwn, a chyd â holol ymbarottoad i fyw neu i farw, fel y gwelo ewyllys Duw yn oreu.

Am y rhai hynny ynte, ag sy'n cymmeryd mewn llaw, ar dir neu fôr, ryw orchwyl yn yr hwn y mae eu bywyd mewn mwy o berygl na chyffredin, elont ym mlaen, yn enw Duw, â'u heneidiau mewn cyflwr o barottoad ; ac wrth wneuthur hynny maent yn dangos eu bod yn cofio bod ganddynt ddisgwyliad pell-ach nag am ennill neu golli eu bywyd trangcedig naturiol. “ Bydded i angen-rheidrwydd olaf marwolaeth,” eb Emisenus, “ eu cael hwynt yn barod, yr hwn sy’n

⁸ Ruff. Soc. Eccles. Hist.

⁹ Exod. xiv. 25.

fynych yn dyfod ar warthaf dynion yn ammharod¹."

Mewn matterion bydol yr ydym yn aml yn anghofio pethau nefol ; iawn, ynte, yw i ni, mewn pethau nefol, droi o'r neilldu oddi wrth bob myfyrdodau daearol, a chan ymgylwyno ger bron Duw, orchymyn yn y modd sobreiddiaf ein heneidiau i'w law Ef; ac wedi gwneuthur hynny, gallwn ddywedyd fel Esther, *O derfydd am danaf, darfydded*²: ewyllys Duw a wneler. Felly, am ymbarot-tôi yn y modd yma cyn cymmeryd gorchwyl peryglus mewn llaw, gellir dywedyd yngeiriau St. Ioan, *Yma y mae doethineb*³.

PENNOD XXIV.

Cyfarwyddyd byr i'r rhai a elwir yn sydyn i gymadael a'r byd hwn.

YNGHYLCH y weddi yn y Litani am *waredig-aeth rhag angau disyfyd*, gwnaethom ychydig o grybwyliaid eisoes ; ac attebwyd, mewn rhan, ddannodiad direswm y rhai sy fyth yn

¹ Paratos inveniat extrema necessitas, quæ saepe operim primit imparatos.—*Eus. Em. Hom. l. ad Mon.*

² Est. iv. 16.

³ Dat. xiii. 18.

brysur yn hyn o beth i gondemnio eraill. Weithian ar hyn o bryd, i'r sawl sy'n ewyll-ysgar i farw ar ychydig rybudd, gall y cyfarwyddyd byr hwn fod yn ddigon.

Yn gyntaf; na fydded i'r sydyndod ei ddychrynu ; canys i ddyn mewn cyflwr parod nid oes dim sydyndod yn angau, pa mor ddisymmwth bynnag y byddo farw.

Yn ail ; cofied fod gan Dduw geiniog i'r sawl a ddelo ar yr unfed awr ar ddeg, a derbyniad i'r gweision a gaffer yn neffro ar yr ail neu'r drydedd wyliadwriaeth. Mae gantho Ef baradwys i'r hwn a lefo yn nghyf- yngder ei funudau olaf, " Arglwydd, cofia fi yn dy deyrnas nefol."

Os rhawn i Dduw ar unwaith aberth yspryd cystuddiedig, fel y gwnaeth Mair Magdalen, bydd i hynny esgyn i fynu'n gymmeradwy ger bron Duw, fel offrwm Abel. Rhaid i ni adael i edau fechan einioes ddirwyn i fynu nes ei chwbl-orphen. Pan orchuddier y llong â thonau, yna gwaeddwn, Achub, Arglwydd ! canys y pryd hynny ni bydd i goffa da am Iesu Grist ddychwelyd yn waglaw. Ni ddarfu Abraham ond amcanu yn ei feddwl offrymmu Isaac ; ac etto dywed yr Apostol wrth yr Hebrewaid, *Trwy ffydd yr offrymmodd Abraham Isaac*¹, fel pe *gwneusai'r* weithred, pan *amcanodd yn dda ei gwneuthur*.

¹ Heb. xi. 17.

Gwelwn wrth hynny y derbyn Duw galon yn amcanu'n dda, yr hyn yw'r oll a allwn ei offrymmu iddo yn sydnyndod angau.

“ Mae trugaredd dyn,” ebe'r gwr doeth, “ yn ymestyn at ei gymmydog; ond y mae trugaredd Duw yn cyrhaeddyd hyd at bob cnawd : ” ac y mae'r drugaredd ddwyfol hon yn medru ac yn ewyllysio achub mewn moment. Gan hynny ni ddylai'r cyfryw sydnyndod ddim rhoi achlysur i eraill i farnu'n anghariadol, nac i'r dyn ei hun i fod yn anghysurus o ran byrdra'r amser. Nid yw yn niweidio dynion da, pa mor ddisyfyd bynnag y galwer hwynt o'r byd²; maent yn ymadael pan y mae Duw yn galw am danynt; a rhaid i bawb aros hyd y pryd hwnnw.

Megis na ddylai pleserau'r byd hwn beri i ni gwbl-ymroddi iddynt, felly ni ddylai trunei'r fuchedd hon beri i neb, pa mor gyfyng bynnag y bo arno, ddiangc ymaith o'r byd mewn gwan ymddiried neu anobaith, fel Saul, gan wneuthur niweid iddo ei hun: mae natur yn arswydo rhag y fath ymgais anfad, ac y mae Cristionogaeth yn ei gwbl-gondemnio. Na atto Duw i ni fod yn achlysur, nac yn amgylchiadol nac yn union-gyrchol, i'n marwolaeth ein hunain ! Ffei o'r anes-mwythdra neu'r llyfrdra di-ffydd a baro i neb redeg ymaith, neu ddiangc, lle nad oes ofn !

² Non nocet bonis, si subito moriantur.—*Anselm.*

Mae Duw yn nodded sicr, ac ni siomma mo honom byth: mae Duw yn *gymmorth hawdd ei gael mewn cyfyngder*³. Yr Hwn a'n dygodd i'r byd, a bïau ein galw o'r byd: a phan alwo Efe ni, dylem ymadael yn addfwyn, fel y gweddai i ni: byrhâu yr amser ni's gallwn; ac ni's dylem ychwaith, er yr holl flinderau sy'n gwasgu ar blant dynion. Mae cyfreithiau gwledydd yn gwarafun claddedigaeth Gristionogol yn y cyfryw amgylchiadau, er mwyn dychrynu dynion rhag y weithred gywilyddus hon o daflu eu hunain ymaith fel hyn yn anobeithiol. A phan ymgynhygio'r cyfryw beth arswydus i feddwl y Cristion cywir, mae efe'n arfer dyweddyd, fel y dywedodd Crist wrth y temtiwr yn yr anialwch, *Ymaith, Satan*⁴.

Gan hynny, ymroddiad u fuddgar i ewyllys Duw, a ffyddlon gyflwyniad ein henaid i'w ddwylaw Ef, pa mor fuan bynnag y galwer arnom i ymadael, yw'r cyfarwyddyd a ddylem ei roddi mewn ymarferiad trwy help cynnorthwyol bendigaid ras Duw.

Gweddi i'w harferyd gan y sawl y bo ei gydwybod yn drallodus, neu a fo'n cael ei aflowyddu gan feddyliau drygionus.

Cadarnhâ fi, O Arglwydd, yn erbyn holl elynion fy nghorff a'm henaid, fel na's

³ Ps. xlvi. 1.

⁴ Mat. iv. 10.

gallont byth ddywedyd, Gorchfygasom ef. Mae fy yspryd yn ofidus, a'm calon yn drom ac yn athrist o'm mewn; oni byddi Di yn ddiddanwch i mi, diammey y derfydd am danaf yn fy nghyfngder. Er mwyn dy enw, O Arglwydd, trugarhâ wrthyf, cyfod i'm gwaredu; fel, a thi yn gymmorth i mi, y gallwyf wrthsefyll fy ngwrthwynebwr marwol, a dywedyd wrtho, Dos ymaith oddi wrthyf, dydi yspryd drygionus, yr hwn wyt yn dwyn y meddyliau drwg hyn a'r iselder yspryd yma arnaf; ymado oddi wrthyf, dydi dwyllwr dyn; canys ni chei gyfran ynof fi: oblegid y mae fy Ngheidwad Iesu yn sefyll o'm plaid, yn amddiffynydd cadarn nerthol, a bydd raid i ti ddiangc ymaith er dy waradwydd tragediwyddol. Dewiswn oddef pob trallod, pob cosp a chywilydd bydol, yn hytrach na chyd-synio â'th annogiadau maleisus: taw, gan hynny, dydi yspryd y fall, paid mwyach â'm hannog i ddrygioni: o herwydd ni chydsyniaf â thi byth, er dyfod mwy trallodion na'r rhai hyn arnaf. Fy Arglwydd yw fy ngoleuni a'm hiachawdwriaeth; rhag pwy yr ofnaf? Efe yw nerth fy mywyd; rhag pwy y dy-chrynaf? Ped ymosodai byddin o ddynion i'm herbyn, a'm gorthrechu o ddrygau an-nifeiriol, ni's trallodir mo honof; canys Duw yw fy nghyfnerthydd a'm Prynwr, yn yr Hwn yr wyf yn ymddiried: Efe yw fy rhan a'm hetifeddiaeth: ac iddo Ef y bo'r mawl

a'r anrhydedd yn awr ac yn oes oesoedd.
Amen.

Gweddi am ymadawiad dedwydd o'r byd hwn.

Hollalluog Dduw a thrugaroccaf Dad, gan fod dyddiau dyn fel blodeuyn y maes, yr hwn sy'n fuan yn gwywo, a'i amser fel cysgod yn diflannu; a chan mai alltudion ydym, fel ein holl dadau, ac nad oes i ni yma ddinas barhâus; gwna ni bob amser, Arglwydd, ni a attolygwn i Ti, yn feddylgar am ein marwoldeb, megis y gallom, fel y morwynion call, ddarparu olew yn ein lampau erbyn dyfodiad y Priod-fab; a chan ddisgwyl dy amser da Di, y gallom, fel gweision ffyddlon, fod yn neffro, pa bryd bynnag y dychwelo'r Meistr. A phan alwo selni arnom i ymadael, caniattâ, attolwg i Ti, na bo i na gwendid y cnawd, na llymder y clefyd, na dim arall, ein symmud o wir ddiogel obaith yn nioddefaint gwŷnfydedig dy anwyl Fab Iesu Grist. A phan ddelo awr ein gorffwysiad, caniattâ, Arglwydd, gyflwyno o honom ein hunain i'th ddwylaw Di, a marw'n weision i Ti, er go-goniant dy enw a chysur ein heneidiau, trwy Iesu Grist. *Amen.*

PENNOD XXV.

*Annogaeth ddiddanus i'r rhai a fynych flinir gan groes-
au'r byd hun.*

Os yw'r byd yn eich casáu chwi, ebe Crist ein Ceidwad wrth ei ddisgyblion, *chwi a wyddoch gasáu o hono fyf i o'ch blaen chwi*¹. Fel na byddai i drymder galar eu gorthrymmu heb obaith ymwared, lle mae'n cynnyg iddynt y naill, y mae'n addo'r llall; *Gwyn eu byd y rhai sy'n galaru*; *canys hwy a ddiddenir*². Onid dagrau dedwydd yw y rhai hynny a ddistyllir o *alembic calon* gystuddiedig, y rhai y bydd i ddwylaw Mab Duw ei Hun eu llwyr-sychu ymaith³? Pan lygrodd pob cnawd ei ffordd, ebe Moses, *edifarhaodd ar yr Arglwydd wneuthur o hono ddyn*⁴; hynny yw, yr oedd yn ddrwg gan Dduw fod i'r dyn, a greasid i ddiben mor rhagorol, ei ddistrywio ei hun. Yn awr y mae Duw yn danfon diluw ar wyneb ein pleserau daearol; mae diluw dagrau yn diffoddi gwres ein dymuniadau anghyfreithlon, ac yn glanhâu llygredigaeth ein bucheddau pechadurus: ond pan fyddo hyn oll drosodd, y mae hindda'n dilyn.

¹ Ioan xv. 18.

³ Dat. vii. 17.

² Mat. v. 4.

⁴ Gen. vi. 1.

Iawn y mae'r Eglwys yn cadw ei chyhoedd wyliau sanctaidd i goffâu am wŷnfydedig enedigaeth Crist, ei adgyfodiad, ei esgyniad, &c., ond y prydnhawniau cyn y gwyliau hyn, y mae hi'n eu happyntio'n ymprydiau: felly yn y byd hwn yr ydym yn ympryddio'r noswyl; ond drannoeth, pan ddelom i'r nef, cawn gadw gwyl.

Megis na ddarfu ein Harglwydd a'n Hathraw Crist Iesu ond anfynych wenu yn y byd, felly anfynych y gwenodd y byd arno Yntau. Efe a ddywed wrth ei ddilyn-wyr y rhaid iddynt fod *fel plant bychain*⁵: gwyddom nad oes gan blant bychain ddim arfau i'w hamddiffyn eu hunain namyn eu dagrau; a pha beth amgen sy gennym ninnau yn erbyn croesau'r byd hwn, ond ein hucheneidiau a'n hymbiliau a anfonom i fynu at Dduw?

*O flaen fy mwyd y daw fy ochenaid*⁶, ebe Job; wrth gystuddiau yr hwn, ebe St. Jerom, nid yw yr eiddom ni ond megis dim⁷. Ni wiw i ni ddisgwyl cael Duw yngerddi'r Aipht, yr Hwn a gafodd Moses ym mherth ddreiniog amryw drallodau⁸. Gallwn *ddymuno* yn hytrach na *gobeithio* bod heb groesau. Mae'r *oes aur* wedi myned heibio, pan nad ym-lawenychai dynion mewn dim yn fwy nag mewn diffuantrwydd a chariad: *oes haiarn*

⁵ Mat. xviii. 3.

⁷ Jerom. ad Jul.

⁶ Job iii. 24.

⁸ Exod. iii. 2.

yw'r eiddom ni, yn cynhyrchu wmbreth o groesau ac anghyfiawnderau digydwybod; y cyfryw ydyw anfadrywydd ein hamseroedd ni! Wel; *dros brydnawn yr erys wylofain; erbyn y bore y bydd gorfoledd*⁹. Ni wiw i ni rwgcnach oblegid y treialon hyn; ac od ydym yn dymuno diddanu ein hunain â gwagedd y byd hwn, mae ein dymuniadau'n anghyfreithlon.

Yr oedd meddwl gwraig Lot ar ei dâ byd yn Sodom; hi a edrychodd yn ol, ond ni edrychodd byth ymlaen wedi hynny¹. Ar ol i ni wario ein coluddion, fel y pryf copypyn, i wneuthur gwe eiddil, un chwa o wŷnt a chwŷth y cwbl ymaith. Gwedi i ni ym-egniō â'n holl nerth i ymddyrrchafu, mae angau'n ddisymmwth yn torri esgyll ein hymdreichion echediadol, ac i lawr â ni. Ped edrychem i lawr, ac ystyried gynnifer sydd islaw i ni, (fel yr ydym fyth yn barod i yspio pa gynnifer sydd uwchlaw i ni,) caem yn fuan weled fod ein cyflwr yn llai trallodus na'r eiddo llawer ag sy mor hoff gan Grist ag ydym ninnau.

Ond y mae esmwythyd a phleser, y rhai y mae'r byd yn arfer eu haddaw, yn bethau cymmeradwy gan gig a gwaed. Fe ddarfu i Nebuchodonosor, er mwyn tynnu'r bobl o wasanaeth Duw i ffiadd eilun-addoliaeth, beri

⁹ Gen. xix. 26.

¹ Luc xvii. 32.

seinio offer cerdd², fel y byddai i'r bobl ang-hofio Duw trwy hyfrydwch y beroriaeth. Ond a oes modd i hyfrydwch yn y byd dynnu dyn oddi wrth Dduw, a'r holl greadigaeth wedi cael ei ffurfio er ei fwyn? A ddylai dymuniadau distadl wneuthur dyn yn anniolchgar i'r Hwn y mae ei holl ddaioni yn deilliaw oddi wrtho? Dywedodd Joseph, *Wele, fy meistr a roddes yr hyn oll sydd eiddo dan fy llaw i; pa fodd, gan hynny, y gallaf wneuthur y mawr-ddrwg hwn*³? Ni's gallasai glywed ar ei galon wneuthur cymaint cam-wri â meistr a fuasai mor haelionus iddo.

Tu ag at am wagedd y byd hwn, na rown goel arno; canys beth bynnag a addawo, nid yw'r pleser yn barhâus. Pan oedd Jacob yn prysuro i'w wlad ei hun, dilynodd Laban ef, a dywedodd wrtho, *Am ba beth y ffaist yn ddirgel, ac ni fynegaist i mi, fel yr hebryng-aswn dydi â chaniadau*⁴? ac etto, amcan Laban ydoedd cadw Jacob yn hwy yn ei wasanaeth. Ond da y gwnaeth Jacob ymbarottöi i ymadael i'w wlad ei hun, ar ol unwaith weled wyneb Laban yn edrych yn sarrug arno: felly pan welom ninnau wyneb y byd yn gwgu arnom, gwnawn yn dda brysuro i ymbarottöi i ymadael.

Er i'r bobl yn yr anialwch yfed o chwerwon ddyfroedd Marah⁵, etto, gan i Dduw ap-

² Dan. iii. 10.

⁴ Gen. xxxi. 27.

³ Gen. xxxix. 8, 9.

⁵ Exod. xv. 23.

pwyntio ei angel i'w cyfarwyddo yn eu ffordd, yr oedd hyn yn dystiolaeth y mynnai Efe eu dwyn i amgenach gwlad. Ond rhoes Duw i ni fwy nag angel, sef ei Yspryd, i'n tywys; ac y mae hyn yn tystio i'n hyspryd ni, mai nid er mwyn y cyflwr gwael a thrangcedig presennol y crëwyd ni, ac y dylem edrych am bethau gwell i ddyfod.

Ond yn y cyfamser, ni ddylai math yn y byd o drallodion bydol beri i ni gasâu bywyd: canys ni's gallwn na phrysuro nac oedi gyrrfa einioes wrth ein hewyllys ein hunain.

Yr oedd yn fawr gysur i galonnau'r Iuddewon trallodus, ddarfod i un, (a hynny'n unig mewn gweledigaeth,) weled Onias⁶, yr hwn a fuasai arch-offeiriad, a dyn da rhin-weddol, parchus o ymddygiad a sobr o ymar-weddiad, â gair da iddo gan bawb, ac un a ymarferasai er yn blentyn â phob dyledswydd rinweddol, yn codi ei ddwylaw i'r nef, ac yn gweddio drostynt. Gan hynny, wrth i ni ystyried fod Iesu Grist ei hun ar ddeheulaw Dduw yn eiriol ar ein rhan, Arglwydd trugarog! pa fodd na's gall hyn godi a dyrchafu ein calonnau trallodus ni!

*Pa ham y mae yn flin ar dy galon? onid wyf fi yn well i ti na deg o feibion?*⁷ eb Elcanah wrth Hannah, pan ydoedd hi mewn tristwch am fod y byd yn ei chythrudo: ac yr oedd

⁶ 2 Mac. xv. 12.

⁷ 1 Sam. i. 8.

y geiriau hyn yn gysur i'w meddwl tralldedig. Ac oni's gellir dywedyd wrth y dyn y bo'n gyfyng arno, ond yr hwn sy'n llawen er hynny yng Nghrist croeshoeliedig, "Onid yw ei gariad a'i drugaredd Ef yn well i Ti na deng mil o bleserau buchedd bechadurus? canys dywedodd Efe wrth bawb ag sy'n ofni ac yn caru ei enw bendigedig, *Yn y byd, gor-thrymder a gewch: ond cymmerwch gysur; myfi a orchfygaïs y byd*."

PENNOD XXVI.

Annogaeth i bawb i brysur ymriddi i ddysgu'r addysg hon, sef Dysgu Marw, tra bo ganddynt ddydd ac amser o'u blaen.

GAN fod pob cnawd yn wellt, a'i holl odidowgrwydd fel blodeuyn y maes; gwrywa'r gwelltyn, syrth y blodeuyn¹; reitiad ynte yw i bawb ymröi i ddysgu marw; fel y mae'r Apostol hefyd yn dangos, pan y mae'n annog pawb i rodio'n ddiesgeulus, oblegid y dyddiau sddrwg². Mae ein gwanwyn yn darfod, ein lamp yn treulio, a thrai ein heinioes yn tynnu'n raddol at y distyll: beth bynnag a

¹ Ioan xvi. 33.

¹ Esay xl. 6, 7.

² Ephes. v. 15, 16.

wnelom, mae olwyn ein bywyd yn chwyldroi yn gyflym ; ac mewn gair, *yr ydym beunydd yn marw*³. Ystyriwn gan hynny mai iechyd yw'r farchnad lle y dylai'r marsiandwr gofalus farchnatta, a phrynu sylwedd iddo ei hun ; ac mai nerth ein corph yw'r amser hau, pan y dylai'r amaethwr diwyd barottôi erbyn y cynhauaf. Yr hwn na's gwisgo sachliain nes y gwelo, fel Ahab, gyfiawnder Duw gerllaw, i ofyn cospedigaeth am ei bechodau ; a'r hwn na's dechreuo fyw'n iawn hyd nes y bo ar fin marwolaeth ; bydd edifar gan y rhai hyn ryw ddydd na buasent yn ymddwyn yn ddoethach, pan na's gall y byd i gyd ddim galw'n ol y cyfleusderau a gollasant.

Arfer cyffredin Satan yw addaw i bechaduriaid diofal ddigonedd o amser : yr un fath ag y bydd usurwyr yn addaw i aerod ieuatingc o bryd i bryd, nes y caffont o'r diwedd eu hetifeddiaethau hwynt i'w dwylaw eu hunain. Ni's gwyddom pa mor enbydus yw oedi'r cwbl hyd y diwedd. "Am y rhai sy'n edifarhâu'n ddiweddar," ebe St. Awstin, "megis na's gallaf addo, felly ni's meiddiaf ryfygu." I roi'r matter tu hwnt i bob dadl, y ffordd oreu yw edifaru mewn pryd, *tra y gelwir hi heddyw*⁴, fel y dywed yr Yspryd Glân. Yr oedd y byd yn meddwl ei hun yn gwbl-ddiogel, pan oedd ynt yn bwytta ac yn yfed,

³ 1 Cor. xv. 31.

⁴ Heb. iii. 15.

yn plannu ac yn adeiladu ; ond fe ddaeth y diluw yn ddisymmwth, ac a'u gorchuddiodd hwynt oll⁵. Teg oedd y bore pan aeth Lot o Sodom, ac etto cyn y nos distrywiasid y Sodomiaid⁶. Meddyliodd Nebuchodonosor na buasai eriôed yn fwy diogel na phan oedd wedi adeiladu Babilon fawr⁷ : ond pan oedd y gair yn ei enau, dygodd Duw ef i lawr ar ei liniau fel eidion. Tybiodd y gwr goludog na bu un amser yn debyccach o fyw'n hir na phan edrychodd ar ei ysguboriau, ac eistedd yn ei gyfrifdy i rifo ei godeidiau aur : ond er hynny cyn y cyfnos dygpwyd ei enaid oddi arno⁸.

Gwyddom oll beth a fuom, ond ni's gwyddom beth a fyddwn, na pha mor sydyn y dygir ni ymaith oddi wrth y cwbl a feddwn. Gan hynny cynghora ein Hiachawdwr ni i gyttuno â'n gwirthwynebwr ar frys, ac i rodio tra bo gennym y goleuni : ac annoga'r prophwyd Esay ni *i geisio'r Arglwydd tra y galler ei gael ef*⁹. "Yn y byd hwn," ebe Theodore, "y mae lle i ras a thrugaredd ; ond yn y byd arall nid oes lle ond i gyflawnder yn unig¹." A chan mai felly y mae, oni byddai well i ni, fel y dywed Job, *geisio Duw yn*

⁵ Luc xvii. 27.

⁶ Gen. xix. 23.

⁷ Dan. iv. 30.

⁸ Luc xii. 20.

⁹ Esay lv. 6.

¹ In hac vita locus est gratiae et misericordiae, in illa tantum justitiae — *Theod.* in *Psal. sext.*

fore? *Y mab ieuangc, yr wyf yn dywedyd wrthyt, Cyfod*³, eb ein Hiachawdwr yn yr Efengyl: ac fel y mae adgyfodiad i fywyd o ogoniant, felly y mae yr un modd adgyfodiad i fywyd o ras.

Mae pechod yn gwypm : “ mae'r cyflawn yn syrthio,” ebe'r gwr doeth ; ac y mae diwygiad bywyd yn adgyfodiad o gwypm pechod : a gwyn eu byd y rhai y mae iddynt ran yn y cyfryw adgyfodiad. Mae pechod yn fath o angau : dywedodd y tad am ei fab afradlon, *Fy mab hwn oedd farw*⁴. Mae pechod yn drymgwsg : *gan wybod yr amser, ebe'r Apostol, ei bod hi weithian yn bryd i ni i ddeffroi o gysgu*⁵: ac y mae newydd-deb buchedd yn adgyfodiad ; a gwyn eu byd y rhai y mae iddynt ran yn y cyfryw adgyfodiad. Pan gododd Crist o'r bedd, Efe a gododd yn fore : ond yr oedd Lazarus, yr hwn a fuasai farw er's pedwar diwrnod⁶, yn drewi : os arhoswn ninnau'n hir ym medd ein pechodaau, ni a ddechreuhn aroigli'n drwm. Gyd â'r gwragedd a ddaethant yn fore at y bedd gyd â pher-aroglau, dylem ninnau ddwyn ein hymbiliau a'n gweddiau, y rhai ydynt yn gymmeradwy gan y Goruchaf. Er nad ydym etto'n clywed udgorn Duw, na llef yr archangel, yn galw pawb i farn, etto cawn glywed

³ Luc vii. 14.

⁴ Rhuf. xiii. 11.

⁵ Luc xv. 31.

⁶ Ioan. xi. 39.

â'n clustiau hyn y llais ag a fydd yn ofidus i'r anwir, ond yn hyfryd i'r rhai a gymmerant ofal mewn pryd, "Cyfod o feirw, a thyred i'r farn."

Na offrymmwn flaen-ffrwyth ein gwin-gynhauaf i ddifyrrwch pechod, a gwaddod ein hoes i wasanaeth Duw. Na roddwn flodau ein hoes i ffiaidd wŷniau natur bech-adurus, a chadw'r dail crinion i Dduw. Nid buddugoliaeth ydyw gorchfygu gelyn gwan ac eiddil, a gwrthwynebu pleserau'r cnawd pan fo natur wedi llesgâu. Ein gofal a ddylai fod, nid yn gymaint pa beth i'w wneuthur, ond pa beth y dymunwn ryw ddydd na wnelsem mo hono. Gan hynny, awn trwy'r byd hwn fel yr aeth yr Israeliaid trwy wlad Edom⁶, y rhai a ofynasant gennad yn unig i fyned trwyddi, heb amcanu preswylio dim ynddi. Pa beth ! A ymddigrifem ni ymhleserau Edom y byd hwn ? Pasio trwyddo yw'r hyn oll a ddylem ei ddymuno : a'r matter mwyaf yw ymbarottôi erbyn awr ein hymadawiad o hono.

Gwyddom trwy brofiad mai po hwyaf yr oedom iachâu clwyfau, anhawsaf oll fydd eu meddyginaethu. Mae amser yn rhy werth-fawr i'w golli ; ac nid oes gennym warant am ei barhâd un munud yn hwy : gan hynny, fel y dywed y gwr doeth, *nac oeda droi at*

*Dduw*⁷. Na wastraffwn ychwaneg ynte o'r oriau gwerthfawr: mae angau mor fynych yn dwyn ein cymmydogion ymaith o flaen ein llygaid, fel y gallwn fod yn sicr y cymmer efe ninnau ymaith o'r diwedd, fel eraill. Ni ddylem ohirio gwaith mor bwysfawr, ond ei gymmeryd mewn llaw gyd â phob prysur-deb.

Dywed St. Paul wrthym ar *roddi o honom ein cyrph yn aberth byw i Dduw, yr hyn yw ein rhesymmol wasanaeth ni*⁸. Wrth oedi ein hedifeirwch hyd wely angau, yr ydym yn rhoi iddo, nid *aberth byw*, ond *aberth marw*; ac nid ein *rhesymmol* wasanaeth, ond ein *han-rhesymmol* wasanaeth. Gan hynny, fel y dywed Crist, *Rhodiwch tra fyddo gennych y goleuni*⁹; felly gellir dywedyd wrth bawb, *Edifarhewch tra fo gennych amser*.

PENNOD XXVII.

Mawr ffolineb dynion yn esgeuluso dysgu marw, tra fo ganddynt amser a chyfleusdra.

Pe bai dynion yn ffieiddio cymaint ar arferion buchedd y Sàduceaid a'r Epicureaid,

⁷ Eccles. v. 7.

⁸ Rhuf. xii. 1.

⁹ Ioan xii. 35.

ag y maent yn gondemnio ar eu henwau a'u proffes hwynt, yna addolid Duw yn fwy diffluant nag y gwneir, a defnyddid yn well nag y gwneir yn rhy gyffredin yr amser a ganiat-tawyd i ni i ymbarottì erbyn teyrnas nef. Byddwn yn synnu ddarfod i'r holl fyd wrthod edifaru, er cymaint yr oedd Noah yn eu rhag-rybuddio am y diluw¹. Byddwn yn rhyfeddu i'r Iuddewon beidio â derbyn Crist, ac Yntau yn eu plith². Ond yr ydym yn llwyr-anghofio bod gennym ni gymmaint o rybuddion ag oedd ganddynt hwythau. Mae Crist yn ein mysgrif ni, a ninnau heb ystyried : fel y dywedodd Jacob, *Diau fod yr Arglwydd yn y lle hun, ac ni's gwyddwn i*³. Y mae gennym amser, iechyd, gras, a llewyrch y gwirionedd ; mae daioni Duw yn fawr arnom, *ac ni's gwyddom ni* : yr ydym yn esgeuluso'r cwbl, er perycled yw'r esgeulusdra.

A wyt ti yn d&ydiastru golud ei ddaioni ef, a'i ddioddefgarwch, a'i ymaros, heb wybod fod daioni Duw yn dy dywys di i edifeirwch ? ebe'r Apostol⁴. Nid yw'r Arglwydd yn oedi ei addewid, fel y mae rhai yn cyfrif oed ; ond hir-ymarhous yw efe tu ag attom ni, heb ewyllysio bod neb yn golledig, ond dyfod o bawb i edifeirwch, ebe St. Petr⁵. Gan hynny, fel yr anfona Solomon y diogyn at y morgrugyn,

¹ Luc xvii. 26, 27.

² Luc xix. 14.

³ Gen. xxxviii. 16.

⁴ Rhuf. ii. 4.

⁵ 2 Petr iii. 9.

felly gallwn ninnau anfon y pechadur dïofal at yr un athraw : *canys y mae efe yn parottôi ei fwyd yr haf, ac yn casglu ei luniaeth y cyn-hauaf*⁶. Ac eb efe, *Mi a aethum heibio i faes y dyn dïog; ac wele, codasai drain ar hyd-ddo oll*⁷. Cyfryw ydyw buchedd pobl ddïofal ; yn ddidriniaeth, ddidrefn : maent yn gwastraffu eu hamser yn ofer, gan annog Duw megis i fyned i gyfraith â hwynt am eu hafradlonedd. Maent yn gwario dyddiau euraidd eu hieuengctid a'u llwyddiant, fel y bydd afradloniaid yn gwastraffu eu dâ, ni's gwyddant pa fodd : ac y maent mor anystyriol, fel pe byddai Duw yn rhwym i'w dwyn i'r nefoedd pa un bynnag a fynnant ai peidio ; gan feddwl fod eu cyflwr mor ddïogel nad oes raid iddynt wrth ofal na difalrwydd. Na, na ! mae St. Paul, (yr hwn a wyddai'n well na holl ddychymmygwyr y byd pa fodd y mae i ddynion ymbarottôi i fyned i'r nefoedd,) yn dywedyd, *Yr hwn sy'n tybied ei fod yn sefyll, edryched na syrthio* : ac yn ein cynghori i weithio allan ein hiachawdwuriaeth ein hunain trwy ofn a dychrynn⁸.

Wrth feddwl am gwypm yr angylion⁹, am godwm Adda¹, am wrthodiad Saul², ac am ddiflaniad cedrwydd uchaf Libanus, ni's gallwn lai na dychrynu wrth ystyried eiddilwch

⁶ Diar. vi. 6.

⁷ Diar. xxiv. 30, 31.

⁸ Phil. ii. 12.

⁹ 2 Petr ii. 4.

¹ Gen. iii. 23.

² 1 Sam. xvi. 1.

ein cyflwr o farwoldeb yn y byd hwn. Ond pa ham y soniwn am bersonau neillduol ? Ystyriwn yr Iuddewon, hen bobl Dduw ; ac Eglwysi Asia, y rhai a fuant unwaith mor flodeuog : pan ystyriom fel y maent yn awr wedi eu handwyo a'u distrywio, dylem arswydo rhag pob diogelwch cnawdol. Beth ! dim modd cyfeiliorni ! Dywedod St. Paul er's talm wrth y Rhufeiniaid, *Na fyddwch uchel-fryd, eithr ofnuch³*. A gwŷn ei fyd y dyn sy'n ofni.

Gall ein pechodau ysgaru rhyngom ni a'n Duw. Fe ddarfu i'r Iuddewon nid yn unig gyfeiliorni, ond cwympo hefyd oddi wrth y Duw y mwynhasant ei ras a'i ofal cyhyd. *Byddwch ddiwyd i wneuthur eich etholedigaeth yn sicr*, ebe St. Petr, *canys tra fyddoch yn gwneuthur y pethau hyn, ni lithrwrch chwi ddim byth⁴*: gan ddangos wrth hynny mai parhâu yn y ffydd ac ofn Duw yw'r ddyledswydd y mae Efe yn disgwyli i ni ei chyflawni, ar ol cael ein cyflawnhâu'n rhad trwy drugaredd.

Ffolineb ynte yw ymwenhieithio mewn buchedd anffrwythlon, ac oedi'r amser hyd nes y bo'n rhy ddiweddar. "Od yw Duw yn cynnyg i ti ras heddyw," ebe St. Awstin, "ni's gwyddost a gynhygia Efe ras i ti y foru ; gan hynny derbyn a defnyddia ef yn awr⁵ :" canys fe ddaw'r dydd na's gwelwn ei

³ Rhuf. xi. 20.

⁴ 2 Petr i. 10.

⁵ Tract. 33. in Joan.

oleuni'n machludo, neu fe ddaw'r nos na's gwelwn y wawr yn torri drannoeth,—ein dydd olaf ar y ddaear hon. Bu farw Lazarus yn ei dlodi, a Difes yn ei olud ; a dywed y Psalmydd am feibion y Goruchaf, *Chwi a fyddwch feirw fel dynion*⁶. Ac nid dyna mo'r cwbl ; canys rhaid *rholi cyfrif*, ebe St. Petr *i'r hwn sy'n barod i farnu'r byw a'r meirw*⁷, pan ddatguddir dirgelion pob calon. Dyna'r pryd y gwaedda'r morwynion ffol, *Arglwydd, Arglwydd, agor i ni* ; ond attebir iddynt, *Nid adwaen chwi*⁸ : ond y rhai call, y rhai a ddarparasant olew yn eu llestri, a gânt ddyrchafu eu pennau, a myned i mewn i briodas lawen yr Oen.

Rhawn yn awr ben ar hyn o gyngor yn ngeiriau St. Petr : Gan ein bod yn disgwyli am y cyfryw bethau, *pa ryw fath ddynion a ddylem ni fod, mewn sanctaidd ymarweddliad a duwioldeb*⁹! Ond dywediad caled i lawer yw *Dysgwch* ; ond calettagh dywediad, oni chymmerwn ni ofal mewn pryd, fydd y geiriau, *Ewch ymaith oddi wrthyf*. Ymrôwch yn brysur, ynte, i'r gwaith o Ddysgu Marw. Nid yw llanw a thrai'r môr yn aros am neb. Mae ein gwaith *yn myned i gyfryw ddinas yn ymddibynu ar yr ammod hwn*,—*Os* ;—*Os yr Arglwydd a'i myn* : ac, *Os byddwn byw*¹.

⁶ Ps. lxxxii. 6, 7.

⁷ 1 Petr iv. 5.

⁸ Mat. xxv. 12.

⁹ 2 Petr iii. 11.

¹ Iago iv. 13. 15.

Cychwyn mewn amser sydd oreu; ni wna rhyw ail-feddwl rhy ddiweddar nemmawr o lesâd i ni.

Mae i'w fawr ddymuno fod i ddynion o'r diwedd ganfod eu hynfydrwydd, a'i ddiwygio. Peth ofer yw i ni ymwenhieithio mewn go-baith y cawn fyw'n hwy: wrth fyned i'n gwely'r nos, Duw a wyr a gawn ni byth godi o hono. Ond er hyn oll, mae'r naill bechod yn arwain y llall ymlaen; ac nid ydym byth yn meddwl y daw ein beiau cuddiedig i farn gyhoeddus.

Diystyrod y gwahoddedigion diofal yr alwad arnynt i ddyfod i briodas Mab y Brenhin²: ond cawsant weled o'r diwedd, pan gauwyd hwynt allan, nad oedd wiw cellwair â'r Brenhin mawr a'u gwahoddasai. Mae Crist yn cynnyg trugaredd, (ein nodded olaf,) yn rhydd ac yn ewyllysgar i bawb: a hwn yw'r amser cymmeradwy: bydd blodau ein hoes drosodd yn ebrwydd: dygir ni ymaith, ni's gwyddom pa mor fuan: mae angau a barn yn brysio: ac a gawn ni esgeuluso'r cyfleusdra, a ninnau'n gwybod y pethau hyn? Na atto Duw!

² Mat. xxii. 5.

PENNOD XXVIII.

*Yn yr hon y dangosir y dylai ystyriaeth am angau ein
hannog i fyw buchedd Gristionogol mewn duwiolded
ac ymarweddiaid sanctaidd.*

LLAWER ac amryw yw y rhesymmau a ddy-lent gyffrîo a bywiogi ein hysprydoedd hwyr-frydig i gyflawni'n ufudd y parch crefyddol sy ddyledus arnom oll i Dduw. Heb son am ei addewidion trugarog Ef, mae ei fygyth-ion cyflawn yn llyfr yr Ysgrythyr Lân yn aml yn cael eu crybwyllyno i'r diben hwn. Mae Moses, i ddwyn y byd oll i gydnabod Duw, yn crybwylly ei amryw weithredoedd Ef yn llyfr Genesis¹; y rhai y mae St. Paul yn eu hesponio, gan ddywedyd, *Canys ei an-weledig bethau ef, ei allu a'i Dduwdod, wrth eu hystyried yn y pethau a wnaed, a welir yn amlwg*². Eliphaz, i ddangos mawredd Duw, a ddywed, *Gwel uchder y ser, mor uchel yd-ynt*³. A geilw'r prophwyd Dafydd ar yr holl greaduriaid i foli Duw⁴, fel yn wir y maent yn gwneuthur, trwy eu rhyfedd drefn a'u hysgogiadau rheolaidd. Od yw'r holl greaduriaid yn moli Duw, mwy o lawer y

¹ Gen. i. 3—18.

² Job xxii. 12.

³ Rhuf. i. 20.

⁴ Ps. cxlviii. 2, 3.

dylai dyn, er mwyn yr hwn y crëwyd hwynt ;
a chrëwyd ef i anrhyydeddus wasanaeth y
Dwudod.

Deuwn at ail-enedigaeth dyn, lle mae'n derbyn ei ernes i wasanaethu ei Brynwr mewn cyflawnader a sancteiddrwydd holl ddyddiau ei einioes. Ystyriwn ei gyflawnhâd a'i sancteiddhâd ; yma ni a welwn ei dynnu â rheffynau cariad at anwyl iau Crist. Mae'n un o byngciau amlyccaf philosophyddiaeth foesol, Fod pob cymmwynas yn gofyn dyledswydd : megis pan yn natur y mae'r haul yn gwasgaru ei belydr goleuni, mae'r corph sy'n derbyn y goleuni yn gwrthdaflu y gwres yn ol. Dylem ninnau gael ein cyffrôi at ein dyledswyddau gan goffâd parhâus am Awdwr ein hiechyd, ein gwŷnfyd, ein tangnefedd, ein llwyddiant, a'n cwbl ; ac oni bydd i hyn ein cynhyrfu i ad-dalu dyledswydd, yr ydym islaw'r greadigaeth ddifywyd.

Mae hen haneson yn crybwylly gymaint y byddai dynion duwiol o feddyliau defosiynol yn dymuno treulio eu dyddiau yn y byd hwn mewn rhyw yrfa o fywyd tawel a heddychol. Dywedir am Paphnutius, ddarfod iddo, yn y dymuniad hwn, ymroddi'n gwbl i wasanaeth Duw. Ac wrth son am Aiphtiwr o'r enw Ioan, mae St. Jerom yn dywedyd, " Ni a welsom yr Ioan hwn ym mhyrth Thebais, yn agos i ddinas Ligo, yn byw bywyd mor dangefeddol ac angylaidd, nes oedd yn peri syn-

dod i ni, gan ymroddi'n gwbl i fyw a marw yngwasanaeth ei Dduw."

Yn awr os na's gall addewidion o ras a thrugaredd yng Nghrist Iesu, os na all mawredd y wobr sydd ynghadw i'r rhai a gadwant ddeddfau Duw, a rhodio ynddynt â'u holl galon ; (canys oni byddai gwobr i'r cyflawn, gallai ddywedyd gyd â'r prophwyd, *Yn ofer y glanheais fy nwylaw mewn diniweid-rwydd*⁵:) os na all addewidion, meddaf, a'r rhai hynny'n llawn trugaredd, ein hennill i gofio'n iawn am ein cyflwr mewn byd sydd i ddyfod, etto dylai ystyried fod dydd y cyfrif ger llaw gyffrîoi rhywfaint arnom.

Mae'r gwr goludog, yn ei boenau irad, yn gwaeddi, "Dysgwch gennyf, cymmerwch ofal mewn pryd," wrth y rhai sy'n nofio mewn mwynderau bydol a difyrrwch cnawdol, diwedd yr hyn bethau yw poen a galar ; pan ddywedant, "Och Dduw ! ddarfod i ni eriôed ddigio Arglwydd mor rasol ! och, ddarfod i ni eriôed esgeuluso amser mor fan-teisiol o ras ! och, ddarfod i ni eriôed ddilyn ynfydrwydd bywyd pechadurus ! "

Mae'r wledd yn hyfryd, ond bydd y gost yn fawr ac yn drwm ar ol ymarweddu'n ddrygionus. Gan hynny, od oes dim diddan-wch yng Nghrist Iesu, od oes dim cysur cariad, od oes dim gobaith am drugaredd, od

⁵ Ps. lxxiii. 12.

oes dim ofn nac arswyd barn i ddyfod, ystyr-iwn y fuchedd a ddaw ; ymbarottôwn erbyn bywyd diderfyn, erbyn cyflwr a bery byth : a chaniattæd Duw, o'i anfeidrol drugaredd, ras i bawb i wneuthur felly.

Moddion hyspysol, gyd â daionus help Duw, i gyrraedd y dull tawel a heddychol hwn o fucheddu, yw ymdynnu oddi wrth ormod gofal am bethau'r byd hwn, oddi wrth ormod pleser mewn matterion daearol, y rhai a eilw difinyddion yn *lliaws o helyntion bydol*.

*Na cherwch y byd*⁶, ebe St. Ioan ; ac nid ydym ni, ysywaeth ! yn gofalu am ddim *ond* y byd. "Cerwch y byd cyhyd ag y mynnoch," ebe St. Awstin, "cewch ddigon o ystormydd ynddo". Yr ydym yn rhoi ein calon ar gyfoeth ; a yw cyfoeth yn gwneuthur ei berchen yn dawelach neu lawenach ? Nac ydyw, yn wir ; a gwyr y cyfoethogion fy mod yn dywedyd gwirionedd. Pe dadlwythem ein meddyliau o ryw ddymuniadau daearol, oni chaem ni lawer o heddwch a llonyddwch ? Diammeu y caem. Ac heb law hynny, beth sy'n blino'r byd gymaint a dymuniad hunanol i'n boddhâu ein hunain ?

Pan oedd Elias yn diangc rhag Jezebel, *fe ddaeth gwïyt* ; *ond nid oedd yr Arglwydd yn*

⁶ 1 Ioan ii. 15.

⁷ Quas non patimur tempestates ?—Ambr. de Spe Resur.

y gwŷnt ; ac ar ol y gwŷnt, daear-gryn ; ond nid oedd yr Arglwydd yn y ddaear-gryn ; ac ar ol y ddaear-gryn, tân ; ond nid oedd yr Arglwydd yn y tân ; ac ar ol y tân, llef ddistaw fain⁸ ; a chyd â'r llef, fe ddaeth yr Arglwydd. Felly lle y byddo bywyd distaw a thawel, yno y mae Duw. Y tueddiadau chwyddedig a chynhyrfus hyn, y tymherau afrywiog tan-llyd hyn, a ydynt hwy yn dyfod oddi wrth y ddoethineb honno, yr hon yn gyntaf pur ydyw, wedi hynny'n heddychlon, boneddigaid, hawdd ei thrin, llawn trugaredd a ffrwythau da, diduedd a diragrith⁹, fel y dywed St. Iago ? Mae'n ymddangos nad ydynt, os gallwn ni farnu'r ffynnon wrth ei dwfr, fel y dywed yr un Apostol. O na ffurfiai dynion eu hunain i fyw'n grefyddol, i fyw'n heddychlon ! Dy-wedodd Crist, Yr ydwyf yn gadael i chwi dangnafedd ; fy nhangnafedd yr wyf yn ei roddi i chwi¹.

Ymhrofedaeth y gwr sanctaidd Job, dy-wedodd Satan wrth Dduw am dano, *Oni chaearist ti o'i amgylch ef?*² Fel pe buasai Job wedi cael ei fendithio â phlant ac â gyrraedd o ddefaid a chamelod yn y cyfryw fodd fel nad ydoedd iddo fendithio Duw, ond bod yn fwy dideimlad na phren a maen !

Ym mhliith dynion yr ydym yn gweled fod y meistr yn gofyn gwasanaeth, a'r capten

⁸ 1 Bren. xix. 11, 12.

¹ Ioan xiv. 17.

⁹ Iago iii. 17.

² Job i. 10.

frwydr. A'r Hwn a ddywedodd, *Rhoddwch yr eiddo Cesar i Cesar*, a ddywedodd hefyd, *Rhoddwch yr eiddo Duw i Dduw*³; yr hyn yw, y parch a'r anrhydedd dyledus i'w Enw sancteiddiol.

Yr effaith pennaf, ynte, a ddylai'r coffa hwn am ein diwedd ei weithio ynom, yw purdeb a diragrirhwydd bywyd, yr hyn nid yw'n gynnwysedig mewn rhyw ymddangosiad ofer-siaradus o broffes o hunan-farweiddiad, ond rhaid ei wneuthur mewn gwirionedd ac yn ddihocced. Y prophwyd Esay, wrth annog i ddwyn gwir ffrwythau edifeirwch, a ddywed, nid, "Dysgwch siarad daioni," ond, "Dysgwch wneuthur daioni: ceisiwch farn, gunewch uniondeb i'r gorthrymmedig, gunewch farn i'r amddfifad, dadleuwch dros y weddw"⁴. Rheol ein Hiachawdwr ei Hun oedd, Y gweithredoedd yr wyf fi yn eu gwneuthur, mae y rhai hynny'n tystiolaethu am danaf fi⁵. Felly mae'r gweithredoedd yr ydym ninnau yn eu gwneuthur, yn tystiolaethu am danom ninnau. Ni wiw fod gennym lais Jacob, a dwylaw Esau. Ni wiw i ni wneuthur fel y gwna cychwyr, rhwyfo un ffordd, ac edrych ffordd arall; ni wiw i ni siarad yn grefyddol, a byw i'r gwrthwyneb. Ac ni wiw i ni fod fel masnachwyr ffyl, y rhai y mae ffenestri eu masnachdai yn llawn o nwyddau golygus,

³ Mat. xvi. 12.

⁴ Esay i. 17.

⁵ Ioan x. 25.

ond y masnachdai ei hunain yn llymion. Y mae ein holl weithredoedd i'n dilyn yn fuan, ac y mae'r taledigaeth i ni ar ddiwedd ein diwrnod, yr hwn weithian sy'n tynnu'n agos⁶. Mae'r haul er's meityn wedi pasio hanner dydd; a gwyddom na wiw i ni ddywedyd wrth angau, *Cymmer fi'n esgusodol, attolwg*⁷. Mae eisiau i ni ymysgwyd o'n syrthni: nid hir mo'n hamser; a chofiwn i ba le yr ydym yn myned.

Mae'r morwynion fföl yn tybied na threulia eu holew byth. Dywed Crist, *Mae plant y byd hwn yn gallach yn eu cenhedlaeth na phlant y goleuni*⁸. A ydym ni mor bryderus ynghylch yr amser a ddaw, ag ydym ynghylch yr amser presennol? Och Dduw na byddem!

Yn ddiweddaf oll, gan nad yw ein parhâd yn y byd hwn yn ddim ond mynediad i'r byd a ddaw, dylai hynny ein cyffrōi i ystyried i ba ddiben yr anfonodd Duw ni yma, a pha gyflwr yr ydym yn ei ddisgwyl pan elom oddi yma: a dylai cof am ein hymadawiad o'r byd ddwlyn ar gof i ni beunydd ochelyd y drwg, a gwneuthur y da; ofni Duw, a chadw ei orchymynion Ef.

⁶ Matt. xx. 8.

⁷ Luc xiv. 19.

⁸ Luc xvi. 8.

PENNOD XXIX.

Yn yr hon y dangosir, yn ddiweddaf, y dylai ystyriaeth o ail ddyfodiad Crist i farn, gyffroi pawb i fyw'n grefyddol, ac i ymröi i ddysgu marw.

GALL yr amryw resymmau a grybwyllyd eisoes berswadio'r Cristion pryderus i fyw'n grefyddol, ac i ddysgu marw: ac y mae angenrheidrwydd anocheladwy marwolaeth yn ddigon o hono ei hun; canys pa Esculapius, pa feddyg, er cyfarwydded fyddo, a fedr wneuthur marwoldeb yn anfarwol? Yr olew llaith a gynneu yn y lamp yr hon sy'n ei ysu, hyd nes y diffoddo'r goleuni, ac y treulio'r olew.

Mae Duw ei Hun yn ein dysgu i ystyried ein cyflwr o farwoldeb, trwy dystiolaethau ei sanctaidd Air, a thrwy'r amryw ddrychau sydd o flaen ein llygaid; felly'r ydym nid yn unig yn clywed â'n clustiau, ond hefyd yn gweled â'n llygaid, pa beth ydym, a pha beth a fyddwn. Amryw yw'r damweiniau y darllenwn iddynt ddigwydd i eraill. Gall ddiwedd diattreg Ananias a Sapphira¹, ac hefyd Anastasius, am yr hwn y sonia hanes-ion Eglwysig, gynhyrfu'r dynion mwyaf an-

¹ Act. v. 10.

ystyriol i ymsobri. Y prophwyd Dafydd, wrth grybwyl am ddistrwyw disymmwth y rhai a duchanasant yn erbyn Duw yn yr anialwch, a ddywed, *Tra'r ydoedd eu bwyd yn eu safnau, digllonedd Duw a gynneuodd yn eu herbyn hwynt*²: Ac am yr esampl hon ei hun y dywed yr Apostol, *Y pethau hyn a ddigwyddasant yn siAMPLAU iddynt hwy, ac a ysgrifeniwyd yn rhybudd i ninnau, ar y rhai y daeth terfynau'r oesoedd*³.

Os nad yw hyn oll yn ddigon, etto dylai ystyriaeth o ail ddyfodiad Crist i farn, o leiaf, gyffroi pob dyn i'r myfyrdod sobraf am yr amser sy'n dyfod. Yr hyn y mae'r Yspryd Glân mor fynych, mor eglur, ac mor gadarn, yn ei osod ger ein bron yn yr Ysgrythyrau, mae'r Yspryd Glân trwy hyn yn dangos mor ddyfal y dylem ystyried y matter hwn.

Yn awr pa beth a ddatgenir yn gadarnach yn y gyfrol sanctaidd nag ail ddyfodiad Crist i farn? yr hwn a elwir *y dydd mawr*⁴; a chyfryw ddydd a'r na's bu ei gyffelyb o ddechreuad y byd! pan dywylla'r haul, ac ni rydd y lleuad ei llewyrch, ac y syrth y ser o'r nef; pan seinia llais yr udgorn; pan y galara holl dylwythau'r ddaear; pan welant Fab y

² Ps. lxxviii. 30, 31.

³ 1 Cor. x. 11.

⁴ Joel ii. 31. Joel iii. 15. Dan. vii. 13. Marc xiii. 24. Luc xxi. 25. Mat. xxiv. 29. Esay xiii. 10. Ezecl. xxxii. 7. Ioan v. 22. Dat. xx. 13. Mat. xvi. 27. 2 Cor. v. 10. Rhuf. xiv. 10.

dyn wedi dyfod ar gymmylau'r nef gyd â gallu a gogoniant mawr; pan egyr y beddau, ac y rhydd y môr a'r tir i fynu eu meirw; a phan raid i'r holl fyd, a brenhinoedd, tywysogion, a phendefigion y ddaear, ymddangos ger bron brawdle Crist. Arglywydd da! pa fath amser a fydd hwn! "Ni's gwn i," ebe St. Chrysostom, "beth y mae eraill yn ei feddwl o'r dydd mawr hwn; am danaf fy hun, byddaf yn aml yn crynu wrth feddwl am dano⁵."

Onid ydym ni'n gweled fod yr haul yn rhoi llai o wres o flwyddyn i flwyddyn, fel nad yw ffrwythau'r ddaear ddim yn addfedu mor rhywiogaidd⁶? O na bai gennym galon i fyfyrio ar ddyfodiad mawr Crist i farn! yna byddai i ni'n fuan ymddial ar ein llygaid, oblegid ein buchedd ddrygionus a aeth heibio, a dymuno, gyd â Jeremi, ar *i'n llygaid fod yn ffynnon o ddagrau, fel yr wylem ddydd a nos*⁷: yna dywedai pob un o honom, fel Demosthenes, ar y demtasiwn gyntaf i bechu, "Ni phrynaf edifeirwch mor ddrud." Ymwenhieithio i ni ein hunain mewn gobaith o oedi'r amser hwn, nid yw ond gwaith ofer. Sylwa: fel y gadawo dydd olaf dy fywyd di, felly y caiff dydd y farn di.

⁵ Chrysost. Hom. 77. in Matt.

⁶ Ymddengys fod hyn yn dyb gyffredin yn amser yr awdwyr.

⁷ Jer. ix. 1, 2.

Pwy na dderbyniai rybuddion tadol ein Harglwydd Crist, y rhai a rydd Efe i ni trwy'r amrywiol arwyddion ag sy'n rhagflaenu ei ddyfodiad! Mae y rhai hyn yn gynnwysedig o arwyddion a dywediadau hefyd: dywediadau, megis, *Er mwyn yr etholedigion fe fyrhéir y dyddiau hynny*⁸: ac, *Wele yr ydwyf yn dyfod ar frys*⁹: ac arwyddion, megis, *oeri cariad llawer, cenedl yn codi yn erbyn cenedl, ac amlhád anwiredd*¹. Gellir gadael y pethau hyn i'n myfyrdodau dirgellaidd, heb eu cymhwysyo ym mhellach. A fu eriôed lai o gariad nag yn awr? Pa le y mae'r Jonathan ag sy'n caru Dafydd fel ei enaid ei hun? Pa le y mae uniondeb cydwybod? canys ofn gwarth y byd, yn hytrach na dim arall, sy'n cadw dynion yn awr rhag y pechodau mwyaf ysgeler. Pa faint sy, fel Joab, yn cofleidio Amasa, ac etto â chanddynt gleddyf ynghûdd i'w frathu dan y bummed ais²? Dywed yr Apostol y *daw amseroedd enbyd yn y dyddiau diweddaf; canys bydd dynion d'u serch arnynt eu hunain, yn ariangar, yn ymfrostwyr, yn feilchion, yn gablwyr, yn anufuddion i rïeni, yn anniolchgar, yn annuviol*³.

Dywed y philosophyddion wrthym nad oes un ysgogiad egniol yn ysgogiad parhâus.

⁸ Marc xiii. 20.

¹ Mat. xxiv. 12.

³ 2 Tim. iii. 1, 2.

⁹ Dat. xxii. 12.

² 2 Sam. xx. 9.

Mae i'r enfys liw dyfrllyd, i ddangos i ni yr hyn a aeth heibio ; mae iddi hefyd liw tanllyd, i arwyddo beth sy'n dyfod. Mae mawr lid Satan yn arwyddo mai byr yw ei amser⁴. Mae oerni a diffrwythdra'r ddaear a'r coed-ydd yn dangos eu bod yn heneiddio ; ac yn dywedyd wrthym, mewn effaith, fod amser yn dyfod pryd na chawn eu defnyddio mwyach. Mae gwywdra hen deuluoedd, a diffyg nerth a thaldra dynion, yn dangos i ni bob dydd fel y mae'r byd hwn yn gwisgo ymaith. Megis y mae twywnniad mellten o flaen twrf arswydus y daran ; megis y mae byddino llu o flaen brwydr waedlyd, felly y mae'r arwyddion hyn o flaen ail ddyfodiad Crist i farn.

Ffolineb rhai dynion ydyw yspio'n rhyf-ygus i mewn i'r arch, fel gwyr Bethsemes⁵ : ond gwaith llwyr ofer yw ceisio cyfrif a bwrw pa bryd y daw'r dydd a'r flwyddyn na's gwyr yr angylion eu hunain yn y nefoedd. Ni pherthyn i ni wybod yr amseroedd a'r prydiau : ond mae'n perthyn i bawb wybod y rhaid i ni ymddangos yn y farn ger bron Crist i roi cyfrif.

Mae Crist, yn y ddammeg lle y cyffelybir teyrnas nefoedd i ryw frenhin a fynnai gael cyfrif gan ei weision⁶, yn dangos i ni y dat-

⁴ Dat. xii. 12.

⁵ 1 Sam. iv. 19.

⁶ Mat. xviii. 23.

guddir dirgeloedd pob calon, ac y bydd cyfrif cyffredinol yn cael ei roi ger ei fron. Myn Duw gyfrif gennym o'r amser a fenthyciodd i ni, o'r grasusau a roddeis i ni, o'r bendithion â'r rhai y cynnysgaeddodd ni yn y byd hwn. Pan welodd goruchwyliwr y gwr goludog yn Efengyl St. Luc y byddai raid iddo roi cyfrif i'w arglwydd¹, canfu ei bod yn bryd iddo gymmeryd ei feddwl atto i ystyried pa beth i'w wneuthur : ac felly mae'n bryd i ninnau, od oes arnom ddim pryder yngylch y cyfrif a ofynir gennym.

Rhaid i ni roi cyfrif drosom ein hunain : *Adda, pa le yr wyt ti?*² a rodiaist ti yn y gorchymynion a rodwaist i ti ? Cyfrif am ein brodyr : *Cain, mae Abel dy frawd?*³ pa fodd yr ymddygaist tu ag atto ? Cyfrif am ein cyrph, a gadwyd hwy'n ofalus yn demlau i'r Yspryd Glân, ai peidio⁴. Cyfrif am ein heneidiau, a ydynt hwy'n addas i ymddangos ynglydd y Bugail mawr⁵. Cyfrif am ein gweithredoedd⁶ : cyfrif am ein geiriau⁷ : cyfrif hyd yn nod am ein meddyliau⁸. Dilys yw fod yr Arglwydd yn drugarog ; ond eto gallwn ddywedyd y gwna ein pechodau ni ysgariad rhyngom â Duw, os na byddwn yn ofalus mewn pryd. Dylai'r ystyriaeth o hyn

⁷ Luc xvi. 2.

⁸ Gen. iii. 9.

⁹ Gen. iv. 9.

¹ 1 Cor. vi. 19.

² 1 Petr ii. 25.

³ Dat. xxii. 12.

⁴ Mat. xii. 36.

⁵ Doeth. i. 9.

fod fel cwmpawd y morwr i hwyliau ein llong,
ac fel yr ysgwâr a'r llinyn i ffurfio ein had-eilad ;
sef peri i ni bob amser ddwys-fyfyrio
pa fodd i ddarparu erbyn y dydd mawr sy'n
dyfod.

Weithian, gan hynny, gan fod cyflwr y
fuchedd hon yn sicr yn unig mewn ansicrywydd, gan *fod ein heinioes megis diddym, a dyn yn ymdrafferthu yn ofer*⁶, fel y dywed Dafydd brophwyd ; pa ham nad ydym yn ymdrechu byw'n dawel, a didoledig oddi wrth y byd, gan ymfoddloni ar ein galwedigaeth, er ised y gallo fod ym mhllith dynion ? Gwyddom yn ddiammheuol y rhaid i ni, ar ol ein holl ddringo, ddisgyn i lawr, a marw ; ond ni's gwyddom y modd na'r amser : mae un yn marw yn ei gyflawn nerth, mewn pob esmwythyd a llwyddiant⁷ ; ac un arall yn chwerwedd ei enaid, heb eriðed fwytta bara hyfrydwch : y mae'r naill a'r llall, ebe Job, yn gorwedd yn y llwch, a'r pryd yn eu gorchuddio.

O Arglwydd da ! na byddai i ddynion ystyried hyn weithiau, gan ymattal rhag dilyn y byd trallodus hwn, ac mewn addfwynder myned ar ol Crist, yr Hwn yw'r ffordd, y gwirionedd a'r bywyd. Heb y ffordd *nid* ydym yn rhodio, heb y gwirionedd *nid* ydym yn gwybod, heb y bywyd *nid* ydym yn byw.

⁶ Ps. xxxix. 5, 6.

⁷ Job xxi. 23.

Ac os dilynwn ni Ef â gostyngeiddrwydd meddwl, cawn ein gwobrwyd â gorffwysdra i'n heneidiau⁸.

Gosododd Jacob ei ddwylaw mewn bendith ar ben Ephraim, yr ieuangaf⁹; ac i Ephraim, sef i'r gostyngedig, medd St. Iago, y mae Duw hefyd yn rhoi gras.¹

Mae St. Paul, ym mhob Epistol lle mae'n dymuno *gras* i'r rhai y mae'n ysgrifenu attynt, yn dymuno iddynt *heddwch* ynglŷn â gras: ei ddull arferol o ddywedyd yw, *Gras a thangnefedd i chwi*: gan fwrw fod tangnefedd lle bynnag y mae gras, megis y mae gwres lle bynnag y mae tân. Gan hynny deisyfiad y Psalmydd a ddylai fod deisyfiad pob dyn o feddwl crefyddol: *Un peth a ddeisyfiais i gan yr Arglwydd, hynny a geisiaf; sef caffael trigo'n nhý'r Arglwydd*, sef ei wasanaethu'n heddychol, *holl ddyddiau fy mywyd*².

Bu Noah dros gan mlynedd yn brysur gyd â'r arch ag oedd i'w gadw ef rhag y diluw: ond nid oes i ni gymaint o amser i lafurio i fyw bywyd heddychol a chrefyddol, yr hwn a fydd ryw ddiwrnod megis arch i'r corph, a thabernacl i'r enaid: a dyna'r amser y byddwn yn wir ddiogel.

Mae'n syndod gweled aflenyydd dueddiadau

⁸ Mat. ix. 29.

⁹ Gen. xlvi. 14.

¹ Iago iv. 6.

² Ps. xxvii. 4.

natur rhai dynion, y rhai ydynt naill ai yn murmur yn erbyn rhagluniaeth Dduw, am nad ydynt yn cael eu hewyllys eu hunain ; neu ynte mewn cynhennau chwerwon, am y rhaid iddynt gael bod mewn rhyw gythrwfl bob amser gyd â'u cyd-ddynion. Ped ystyriai'r cyfryw fyrred yw dyddiau eu mil-wriaeth, a bod eu hwynebau tu a byd arall, hwy yn fuan iawn a ymognient fyned trwy'r tippyn tymmor sy ganddynt mewn mwy o dawelwch a boddlonrwydd gyd â Duw a dyn.

Wrth glywed fod Duw yn gyfiawn, yr ydym yn dysgu ei ofni ; ac wrth glywed ei fod yn drugarog, yr ydym yn dysgu ei hoffi : felly rhwng cariad ac ofn gallwn fyned ym mlaen o rinwedd i rinwedd, hyd nes y cynnyddom yn wîr perffaith yng Nghrist Iesu.

Pwy sydd yn ewyllysio *gweled dyddiau da* ? (sef dyddiau da gwînsydedigrwydd tragywyddoldeb;) *gocheled y drwg a gwnaed y da*³. Canys cyffelybir dydd yr Arglwydd, y dydd ofnadwy hwnnw, i ddyfodiad *lleidr yn y nos*⁴ : ac efe a ddaw ar warthaf y diofal a'r anystyriol i'w dyrys u a'u poeni : ond am y dyn a fyddo'n wyliadwrus yn disgwyl am dano, fe â'r dydd hwnnw heibio iddo heb ei niweidio. *Fe saif y cyfaavn mewn hyder*

³ 1 Petr iii. 11.

⁴ 2 Petr iii. 10.

mawr, ebe'r gwr doeth⁵: ac fe ddywed Crist wrthynt, Codwch eich pennau, canys y mae eich ymwared yn nesfu⁶.

Nid oes gyngor gwell i'w roi i'r byd, na chyngor yr hwn a ddaeth i brynu'r byd, sef, *Gwyliwch a gweddliwch bob amser ar gael eich cyfrif yn deilwng i ddiangc rhag y pethau hyn oll sydd yn dyfod, ac i sefyll ger bron Mab y dyn⁷, ac i fyned ar ei ddeheulaw, a chlywed y gwahoddiad bendigaid, Deuwch, chwi fendifedigion fy Nhad, etifeddwch y deyrnas a barottöwyd i chwi er seiliad y byd⁸.* I'r hon deyrnas Iesu Grist a'n dycco ni oll, er mwyn ei anfeidrol drugaredd. *Amen.*

⁵ Doeth. v. 1.

⁷ Luc xxi. 36.

⁶ Luc xxi. 28.

⁸ Mat. xxv. 34.

YMDDIDDAN BYR

BHWNG

FFYDD A'R DYN ANIANOL:

YNGHYLCH CYFLWR DYN YN Y BYD, A'I YMADAWIAD
O'R BYD.

Ffydd. A yw dy gred di wedi ei iawn-sellio?

Dyn anianol. Yr ydwyf fi yn proffesu enw Crist.

Ff. Na sonia wrthyf fi am broffes. A wyt ti ddim yn meddwl am un cyflwr arall ond parhau'n unig yn y byd hwn?

D. Ydwyf, yr wyf yn meddwl am fyd arall i ddyfod, a byddaf yn meddwl weithiau am fy ymadawiad o'r fuchedd hon.

Ff. Oh na wnelit hynny o'th galon, ac mewn gwirionedd! canys y mae arnaf ofn dy fod yn dy dwyllo dy hun.

D. Pa fodd, attolwg?

Ff. Am nad yw dy eiriau ond mympwy arwynebol.

D. Pa fodd y gwyddost ti hynny?

Ff. Am dy fod yn bucheddu mor ddibryder a phe na's byddit yn meddwl dim am yr amser a ddaw.

D. Ond ai ni's gallaf gyfrannogi o bleserau'r byd hwn, a'u defnyddio, pan ymgynhygiont i mi?

Ff. Gelli, er mwyn ymddadflino oddi wrth lafur: ond arfer di'r byd megis heb ei gamarfer.

D. Yr wyf fi o deulu a gwaedoliaeth uchel.

Ff. Nid o eraill, ond o honom ein hunain, y mae gwir anrhydedd.

D. Ond mae fy nheulu i yn hen deulu.

Ff. Trwy rinwedd ynte y dechreuodd, a thrwy rinwedd y dylit tithau ei barhâu.

D. Ond yr oedd fy hynafiaid i yn enwogion.

Ff. Gwir; ond maent hwy wedi myned ffordd yr holl ddaear; ac âi dithau ar eu hol hwynt.

D. Ond yr wyf fi ym mlodau fy ieuengctid.

Ff. Cofia dy ddiwedd, er hynny: nid yw ieuengctid ond blodeuyn a wywa yn fuau iawn.

D. Ond nid oes dim pellach oddi wrth y diwedd nag yw'r dechreu.

Ff. Nid felly y mae ynghyflwr dyn; yn yr hwn gyflwr yr ydym weithiau yn dechreu ac yn diweddu ar unwraith.

D. Ond yr wyf fi yn gryf.

Ff. Nac ymffrostia yn dy gryfder ; ychydig o selni a wnai i ti grymmu gan wendid.

D. Ond mae gennyf fi iechyd.

Ff. Bendith yw iechyd ; gan hynny iawn-ddefnyddia ef.

D. Ond yr wyf fi'n byw mewn helaeth-rwydd mawr.

Ff. Yna'r wyt ti'n byw mewn gofal mawr.

D. Ond yr wyf fi'n byw'n ynghanol llawer o ddifyrrwch.

Ff. Yna'r wyt ti'n byw ynghanol llawer o demtasiynau, a chan hynny gochel di rhag-ddynt.

D. Ond yr wyf fi mewn sefyllfa uchel.

Ff. Yna'r wyt ti mewn sefyllfa lithrig.

D. Ond yr wyf fi'n feistr ar lawer.

Ff. Yna'r wyt ti'n was hefyd i lawer.

D. Ond y mae i mi gyfeillion.

Ff. Na hydera ar dywysogion, nac ar fab dyn. Ymddiried yn Nuw.

D. Ond yr wyf fi'n oludog.

Ff. Os cynnydda golud, na osod dy galon arno.

D. Ond fe'm hanrhymeddir i.

Ff. Yna fe gynfigennir wrthyt hefyd.

D. Ond yr wyf fi'n ogoneddus yn y byd.

Ff. Dymuna fod yn guddiedig i'r byd, ac yn wbyddus i Dduw.

D. Ond yr wyf fi'n tybied ei bod yn dda arnaf.

Ff. Pa fodd y gall hynny fod, a thithau'n byw, fel yr ydwyt, ynglŷn wylofain?

D. Ond yr wyf yn gobeithio cael tang-nefedd meddwl.

Ff. Yna rhaid i ti orthrechu dy wŷniau dy hun.

D. Ond y mae gennyf fi lawer o ddâ wedi ei roi ynghadw dros lawer o flynyddoedd.

Ff. Felly y dywedodd hwnnw, yr hwn y dygwyd ei enaid oddi arno yn ddisymmwth.

D. A ydyw ein cyflwr yn y byd, ynte, mor anwadal?

Ff. Ydyw.

D. Yna mi a obeithiaf am y byd a ddaw.

Ff. Os gwnei hynny, da y gwnei.

D. Ond beth a wnaf yn y cyfamser?

Ff. Câr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon, â'th holl enaid, ac â'th holl nerth: a'th gymmydog fel ti dy hun.

D. Gan fod y byd hwn mor gyfnewidiol, mi a ffarweliaf â phob gwagedd daearol.

Ff. Dyrchafa dy feddwl at Dduw; canys ynddo Ef yn unig y mae dy happusrwydd tragicwyddol.

*Ymddiddan rhwng Anfoddlonrwydd a
Gobaith.*

Anfoddlonrwydd. Yr wyf fi'n fwy truenus na neb.

Gobaith. Mae eraill yn druenus hefyd : mewn byd truenus yr ydym oll yn byw.

A. Ond yr wyf fi'n fwy truenus na neb.

G. Paid â grwgach ; y mae gwaregigaeth o Dduw, yr Hwn ni siomma y rhai a alwant arno.

A. Yr wyf fi yn gaeth.

G. Cofia y daw amser rhyddhâd.

A. Ond yr wyf fi'n dlawd a digynnorth.

G. Felly'r oedd Lazarus ; ond y mae efe'n awr yn llawenychu ym monwes Abraham.

A. Ond yr wyf fi'n gystuddiol o gorph.

G. Felly'r oedd Job, er fod Duw yn ei garu.

A. Ond gwatworir fi yn y byd, ac y mae arnaf ofn gwaradwydd.

G. Ofna Dduw. Od yw'r gwatwar yn wir, erfyn am drugaredd ar ei law Ef am dy feiau ; ond os anwir yw, cysured dy gydwytwybod dy hun di.

A. Ond yr wyf fi wedi colli'r amser.

G. Colled fawr yn wir ; ond nid yw fyth yn rhy ddiweddar, os gwnei di'n dda yn y diwedd.

A. Ond yr wyf fi'n amddifad o gyfeillion.

G. Duw yw dy gyfaill, os hyderi di arno.

A. Ond yr wyf fi wedi blino ar y byd tra-fferthus hwn.

G. Y nef yw porthladd gorphywysfa.

A. Ond dymunwn fyned o'r byd, ac ni byddai waeth gennyf pa fodd.

G. Ffei, Anfoddlonrwydd ! dioddef di fyd o arteithiau yn hytrach na bod mor anffyddlon.

A. Ond nid oes gennyf fi ddim arall i'w wneuthur.

G. Galw am ras : taf! ymaith yr ofn slaf-aidd hwn, ynghyd â phob meddyliau ofer, ym mhell oddi wrthyt : paid â rhoi clust i hudoliaethau Satan.

A. Ond yr wyf fi'n llawn trallodion.

G. Felly'r oedd Yntau'n y byd, yr Hwn sy'n awr mewn gogoniant.

A. Ond mae angau'n beth galarus iawn.

G. Nac ydyw : diwedd galar yw angau.

A. Ond yr wyf fi'n wylofus.

G. Dros brydnawn yr erys wylofain ; erbyn y bore y bydd gorfoledd.

A. Ond yr wyf fi yn bwytta bara cystudd.

G. Felly y mae holl weision Duw wedi gwneuthur.

A. Ond gelwais yn aml, ac etto nid wyf wedi cael gwaredigaeth.

G. Poed sicr gennyt y denfyn Duw wareduigaeth i ti o'r diwedd.

A. Ond nid oes gennyf fi gymaint o ddâ byd ag sy gan eraill.

G. Mae mesur cymhedrol o ddâ byd, i gadw i fynu dy barch a'th gysur, yn ddigon i ti.

A. Ond yr wyf fi'n heneiddio.

G. Yna mae amser dy wareduigaeth yn nesâu.

A. Ond yr wyf fi eisoes yn hen ac yn gefngrwm.

G. Yna ymddiddymna oddi wrth y byd.

A. Ond fe'm poenir i gan afiechyd.

G. Iechyd yr enaid sydd i'w ddymuno fwyaf.

A. Ond yr wyf fi'n ofni marwolaeth.

G. Ni raid i ti mo hynny: ni niweidia angau mo honot, ond rhydd i ti ddedwydd fynediad i mewn i fywyd.

A. Ond yr wyf fi'n hwyrfrydig i ymadael o'r byd.

G. Pa ham felly, a thithau yn myned i fyw gyd â Christ?

A. Ond nid wyf fi'n cael y pleserau ag y mae eraill yn eu mwynhâu.

G. Bydd fodlon: cofia wrth bwy y dywedwyd, "Coffa i ti dderbyn dy wŷnfyd yn dy fywyd."

A. Ond yr wyf fi o hyd dan y groes.

G. Felly y rhaid i bawb fod ag sy'n dilyn Crist.

A. Ond y mae galar yn bresennol.

G. Ond y mae'r wobr yn ddyfodol.

A. Ond bydd arnaf fi'n aml eisiau llawenydd yn y byd hwn.

G. Trwy ddiffyg llawenydd bydol y mae Duw'n ein gostwng ychydig; ond gwŷn eu byd y rhai sy'n wylo'r awr hon, canys hwy a ddiddenir. Dedwydd yw y rhai sy'n chwerthin yma, yw ein tyb ni; ond dywed

Crist, "Gwŷn eu byd y rhai sy'n galaru."

A. Wel, Gobaith, gan mai felly y mae, a bod cymaint cysur mewn amser o drallod, myfi a ymddiriedaf yn Nuw, beth bynnag a ddigwyddo i mi.

G. Yna'n sicr ni phelli byth, nac ym mywyd, nac yn angau, nac yn y byd hwn, nac yn y byd a ddaw.

Ymddiddan rhwng Rhyfyg ac Ofn.

Rhyfyg. Sancteiddiach wyf fi nag eraill.

Ofn. Felly y dywedai y rhai mwyaf an-sanctaidd.

R. Ond nid wyf fi mor halogedig ag y gwelaf fod llawer.

O. Pwy wyt ti sydd yn barnu?

R. Ond ai ni chaf ymfrostio yn fy rhin-weddau?

O. Ymfrostia yn Nuw.

R. Ond mae gennyf fi fwy o rasusau nag sy gan eraill.

O. Na ddirmyga neb: gwyddost beth a fuost, ond ni wyddost beth a fyddi.

R. Ond mae gennyf fi fwy o ddoniau nag sy gan lawer.

O. Cymmer ofal; ni wyddost pa hyd y cei eu mwynhâu.

R. Ond yr wyf fi'n sicr fod pob peth yn ddiogel.

O. Felly'r oedd y rhai a'u cyfrifent eu hunain yn blant i Abraham, ond ydynt yn awr wedi cwympo.

R. Ond yr wyf fi'n ddoeth.

O. Doeth a fyddit, pe na ddywedit dy fod yn ddoeth.

R. Ond yr wyf fi'n ddedwydd.

O. Dywed St. Paul, "Yr hwn sy'n tybied ei fod yn sefyll, edryched na syrthio."

R. Ond y mae gennyf fi lawer o ddyddiau i fyw.

O. Na, nid oes gennyt warant am funud awr.

R. Ond yr wyf fi'n iach ac yn gryf.

O. Felly y bu llawer a gymmerwyd ymaith mewn moment.

R. Yr wyf yn tybied na chymmerir fi ymaith mor sydyn.

O. Pa ham? nid oes i ti yma ddinas bar-hâus.

R. Wel, mi a wnaf lai o gyfrif o'r byd nag a wneuthum.

O. Yna ti fyddi ddedwydd yma ac yn y byd arall.

R. Yr wyf yn awr yn gweled fy ffolineb yn bod mor hyderus a ffrostgar.

O. Bydd ofalus, bydd ofalus: mae hunan-ymddiried a hunan-hyder wedi andwyo lliaws o ddynion.

R. Wel, o hyn allan nid ymfrostiaf ynof fy hun.

O. Yr hwn sy'n ymfrostio, ymfrostied yn unig yn Nuw: a gwybydd hyn, mai po uchaf yr wyt, gostyngieiddiaf oll y dylit fod.

R. Yr wyf yn awr yn ystyried fy mreulder fy hun.

O. Gwna'r ystyriaeth hon di'n dlawd yn yr yspryd; a "Gwŷn eu byd y tlodion yn yr yspryd, canys eiddynt yw teyrnas nefoedd."

Pregeth ferr, yn yr hon y dangosir canmoliaeth buchedd heddychlon, i'r hon fuchedd y'n hannogir gan ystyriaeth am ein hym-adawiad oddi yma.

Treulio dyddiau ein pererindod hwn yn heddychol yw, ac a ddylai fod, ein gofal fel Cristionogion; ac y mae'r Yspryd Glân ei Hun yn gorchymyn i ni fel hyn, *Ymgais â thangnefedd, a dilyn hi*¹. Ffarwel Crist ei Hun i'w ddisgyblion oedd, *Yr wyf yn gadael i chwi dangnefedd*². Ac un o annogaethau diweddaf St. Paul i'r Corinthiaid oedd, *Byddwch heddychol; a Duw'r heddwch a fydd gyd â chwi*³.

Ym mhllith yr amryw ragoriaethau wrth ba rai yr adwaenir plant Duw oddi wrth blant y byd, hwn yw un o'r rhai mwyaf, eu

¹ Ps. xxxiv. 14.

² Ioan xiv. 27.

³ 2 Cor. xiii. 11.

bod yn blant tangnefedd. Yr oedd gan Saul yspryd trallodus ac aflonydd, gan fod ganddo yspryd drwg yn ei flino: ond gan fod gan Dafydd yspryd da, yr oedd ganddo yspryd tangnefedd. Ym mhliith cospedigaethau'r Aipht, nid y leiaf oedd y gymmysgbla, yr hon ni adawai i'r Aiphtiaid orphwys: ac yn gyffelyb, yngwŷnfydedigrwydd y byd, y mae meddyliau trafferthus yn arfer molestu dilynwyr y byd.

Mae'r grasusau sy'n llifo oddi wrth Yspryd Duw yn cael eu cyffelybu'n aml i afonydd o ddyfroedd. Nid ar y mynyddoedd uchel y mae'r afonydd hyn yn aros, ond maent yn rhedeg trwy'r dyffrynoedd isaf. Diffyg gos-tyngeiddrwydd sy'n peri fod dynion mor bell oddi wrth fuchedd heddychlon. Mae ein Ceidwad yn ein hannog fel hyn, *Dysgwch gennyf, canys addfwyn ydwyf a gostyngedig o galon; a chwi a gewch orphwysdra i'ch eneidiau*⁴. Onid oedd yn ynsydrwydd mawr yn yr Israeliaid, iddynt ddymuno byw yn nhralloeddion yr Aipht, yn hytrach nag yngwlâd yr addewid, lle y gallent gael llonyddwch, ac amser i aberthu i Dduw? Yr un mor fawr yw ffolineb llawer eraill, ag sy'n dewis ymdrafferthu yn y byd, ynghylch helyntion uchelfrydig a chynhennus, gan geisio dïal neu ogoniant, yn hytrach nag ymneillduo ychydig i gyflwr o fuchedd dawel, yn yr hon y gallent ymrôi i ddefosiwn.

⁴ Mat. xi. 29.

Crybwylla hanesion am un Arsenius, yr hwn, o fod yn seneddwr enwog, a ddaeth yn hoffwr Crist ac yn ddirmygwr y byd. Dywedir iddo gael y cyngor hwn gan oracl ddwyfol, "Arsenius, diangc, bydd ddistaw, a bydd lonydd⁵." Po mwyaf yr ymdeithiom oddi wrth gariad y byd hwn, mwyaf yr ydym yn nesâu at Dduw : *neséwch at Dduw, ac efe a nesâu attoch chwi*, ebe St. Iago⁶.

Y cyflwr o fuchedd mwyaf anrhyydeddus yw gwasanaethu Duw : mae pob peth islaw hynny, pa un bynnag ai pleser ai elw, yn myned oddi amgylch fel mân gymmylau, dros amser ; ac o'r diwedd yn diflannu'n ddim. Os oes gennym ddigon o ddwfr i nofio'r llong, ac *ymborth a dillad'*, fel Jacob, i'r daith hon, y mae gennym ddigon. Bydded Duw yn Dduw i ni, a rhwymed ei gymmwyn-asau Ef ni wrth ei wasanaeth.

Bywyd aflonydd a thrallodus yw bywyd y rhai *nid adnabuant ffordd tangnefedd*⁸; a gallant ofni mai tralod fydd eu coelbren yn yr amser a ddaw. Ond bywyd o grefydd a thangnefedd ger bron Duw a dyn yw ymar-weddiad Cristianus y rhai sy'n gweddio fel y Psalmydd, *Un peth a ddeisyfais i gan yr Arglywydd, sef caffael trigo yn nhŷ'r Arglywydd holl ddyddiau fy mywyd*⁹.

Pe galwasai Crist ddynion bydol i lafur

⁵ Fuge, tace, et quiesce.

⁶ Iago iv. 8.

⁷ Gen. xxviii. 21.

⁸ Rhuf. iii. 17.

⁹ Ps. xxvii. 4.

dygn ac i boen meddwl, gallent atteb, fel y rhai hynny yn yr Efengyl, *Arglwydd, cymmer ni yn esquisodol*¹: ond gan ei fod yn eu galw i gymmeryd ei iau ysgafn Ef, a'i fod yn addaw gorhwysdra i'w heneidiau, bythol hedd mewn cyflwr o ras, a bythol hedd mewn cyflwr o ogoniant; mae'n resyn na chlywant ar eu calon ddyfod atto, i dreulio eu hamser yn y fuchedd heddychol ag y mae gwir ddefosiwn yn arfer ei rhoi i'r duwiol er eu lles tragicwyddol, a hwythau'n cael eu gwahodd mor gariadlawn!

Mae'r aderyn yn aml yn gorfod sefyllian ar y ddaear; etto mae'n fynychaf yn ehedfan yn yr awyr, lle mae'n canu llawer caingc ddirodres a hyfryd o beroriaeth: felly gorfydd i'n myfyrdodau ninnau fod weithiau ar bethau daearol yma isod; ond dylai ein prif ddifyrrwch fod yn uwch, lle mae tawelwch a thangnefedd cydwybod, lle ni ddaw meddyliau trallodus ag sy'n arfer cythryblu dynion y byd, byth yn agos i ni. Gan ein bod ni wedi cyd-gyfodi gyd â Christ, ceisiwn y pethau sydd uchod, lle mae Crist yn eistedd ar ddeheulaw Duw. Mae bywyd y dyn defosynol, gan hynny, yn fywyd angylaidd; canys er ei fod ar y ddaear o ran ei gorff, mae ei ymarweddriad a'i ddymuniadau yn y nefoedd.

Mae'n rhyfedd gweled mor dueddol yw

¹ Luc xiv. 18.

dynion i ymgynhennu ac ymrafaelio am y tramgywyddiadau lleiaf, a'r rhai hynny'n aml yn cael eu cymmeryd, ac nid eu rhoi: mae eu gwarrau'n sythion, eu malais yn chwyddedig, eu calonnau mor afrywiog ag na's gall dim eu hystrytho: tybiant mai ammharch a sarhâd yw i ddyn ddioddef y camwri lleiaf. Ac y mae'r afrifed gwynion a hawliau cyfreithiol dianghenraig, y rhai sy'n cael eu cynnal i fynu er mwyn budr-elw gan ddynion cyfaddas i'r fath waith, yn rhoi mawr gynnydd ar drallod buchedd y Cristion, yr hwn a ddylai ofalu am amgen pethau: maent yn dilyn yn y cwyn cyfreithiol o'r naill ben i'r flwyddyn i'r llall, nes o'r diwedd y bydd y pleidiau'n marw, a'r matter mewn dadl yn darfod². Maent yn cyfrif *lease* o un mlynedd ar hugain cystal (mewn ffordd) ag ystad o dair oes: ac er gweled fod amser yn cymmeryd ymaith y cyfreithiwr, y pleidiau, y sicrwydd, a'r cwbl, etto nid oes argoel gwellhâd. Pe cedwid hyn mewn cof, byddai dynion yn fuan o duedd amgen nag y maent; yn fwy amyneddgar, yn fwy heddychol, yn llai ceccrus.

Onid oes wr doeth yn eich plith, a fedro farnu rhwng ei frodyr? Nid oes gennym, Duw a'i gwyr! nemmawr o amser i'w wario yn y byd; a pheth a ddylem ei ddymuno'n amgen na threulio'r ychydig hynny'n dda, yn ddefosiynol tu ag at Dduw, ac yn heddychol tu

² *Actio moritur cum persona.*

³ 1 Cor. vi. 6.

ag at ddynion. Cyngor Joseph i'w frod yr, pan oeddynt yn dychwelyd i'w gwallad, oedd, *Nac ymrysonwch ar y ffordd*⁴: ewch ynghŷd i dŷ eich tad, yn dawel fel teithwyr, ac yn gariadus fel brod yr. Bydded i ni ond cael ein cymhell, gan serch at y byd a ddaw, i garu Duw, fel y gallom droi ein penderfyniadau da yn gyflawniadau da, ein cyflawniadau yn arferiad, ein harferiad yn hyfrydwch, ein hyfrydwch yn barhâd, a'n parhâd yn fyw a marw i Dduw. Er mwyn cyflawni hyn yn well, dylem ymddiddynu fwyfwy oddi wrth serch at y byd blinderus hwn.

Mae'r fath drwst mewn dymuniad gwangcydus am gyfoeth, fel na's gallwn glywed y llef ddistaw fain sy'n ein galw i ddefosiwn. Mae'r fath ddwendwr yn nyfais dynion i gynnal balchder, fel na's gallant glywed y llef ddistaw fain sy'n eu galw i ostyngeiddrwydd. Mae'r fath dwrf yn lliaws helyntion byd, fel na's gallwn glywed y llef ddistaw fain sy'n ein gwahodd i feddwl am bethau nefol.

Gellir ein cydmaru i'r rhai sy'n clywed yn drwm, am eu bod yn byw'n agos i swn rhaiadrau'r afon Nilus; yr ydym mor agos, o ran ein serch, i swn byddarus pleserau bydol, fel mai prin y gallwn glywed udgornfloedd y prophwyd yn ein hannog i edifar u am ein beiau. Er ein bod yn teimlo trallosion y byd, etto'r ydym yn gwneuthur y byd

⁴ Gen. xlvi. 24.

yn Baradwys i ni. Byddwn yn synnu oblegid ffolineb ac anwybodaeth yr Indiaid, y rhai y dywedir y byddant yn rhoi'r aur puraf yn gyfnewid am deganau gwydr: ond ni byddwn yn meddwl am ein ffolineb ein hunain, yr hwn sy fwy, y rhai ydym yn cymmeryd y teganau gwaelfaf a mwyaf darfodedig yn gyfnewid am drysorau'r nef; ie, yr ydym yn ymdrafferthu gyd â'r farsiandïaeth anfanteisiol hon, fel y prif coppyn yn gwaghâu ei ymysgaroedd ei hun i wau gwê eiddil, yr hon a chwelir gan bob chwâ o wînt. Mae'n ddigon i synnu dyn diduedd weled dallineb y byd yn hyn o beth: pan y gallai dynion fod yn llonydd, ni's gadawant heibio ddringo, nes cael codwm; gan edrych ar bleserau o'u blaen, yn lle o'u hol, lle mae tralod yn gallyniad.

Byddai'n dda i ddynion ymdynnu oddi wrth y cyfryw ofalon a dymuniadau dianghenraig, ac oddi wrth ymgais gormodol am olud a phleserau ofer y byd hwn, y rhai sy mewn cymaint bri gyd â llawer. Pe gwnelent felly, oni threulient ddyddiau eu pererindod yn fwy heddychlon a chrefyddol? Gallent: gallai'r ieuengctid dreulio boreuddydd eu hoes fel hyn mewn ofn Duw; ac wedi iddynt heneiddio, rhoi esamplau da i eraill, ac ymadael â'r byd yn gysurus; gan ystyried oll gyflwr y fuchedd hon, yr hon nid yw ond megis blodeuyn: mae'n gyntaf yn blaendarddu, yna'n agoryd, yna'n gwywo ac yn

darfod. Gan hynny, medd un awdwr, gellir cyfarch dyn âg annerchiad triphlyg : o febyd i ddeg ar hugain oed, y cyfarchiad yw, *Mae i ti groesaw* : o ddeg ar hugain i ddeg a deugain, y cyfarchiad yw, *Mae dy ddydd yn ddedwydd* : ac o'r amser hwnnw allan, y cyfarchiad yw, *Duw a roddo i ti ymadawiad daionus*. Yn awr mae'n fuchedd ganmoladwy a Christianogol, i ddilyn yr hon yr annogir ni gan anwadalwch bywyd, rodio o honom y daith hon yn amyneddgar a llwyddiannus, o febyd i ieuengctid, o ieuengctid i oedran pwyll a nerth, o oedran pwyll a nerth i henaint, o henaint i angau, fel yr afonydd y dywedir eu bod, trwy redeg yn araf, yn myned trwy rannau o'r mor heb i'w dwfr gymmynsgu â'r heli.

Iddo Ef, yr Hwn sydd abl i'n tywys yn y cyfryw yrfa dawel, i'n cadw'n ddigwympr, ac i'n cyflwyno'n ddifeius yn y bywyd a ddaw ymhresennoldeb ei ogoniant gyd â llawenydd. I'r Duw unig ddoeth, ynghyd â Iesu Grist ein Ceidwad, a'r Yspryd Glân, Tri Pherson, ond Un tragicwyddol Dduw, y byddo'r holl anrhydedd, a'r gogoniant, a'r gallu, a'r llywodraeth, yn awr ac yn oes oedd. Amen.

Lauds Deo.

I DUW Y BYDDO'R CLOD.

DÀNGOSEG.

TU DAL.	TU DAL.
ADDA yn ddedwydd, pe gwybuasai ei ddedwydd- wech ei hun 81	Cariad at Dduw a'n cym- mydog yn myned yng'hŷd 104
Adda yn pechu, pechasom ninnau 67	Cariad, ffrwyth ffydd . . . 101
Addysg angenrheidiol i'r claf 156	Claf i gydnabod eu pech- odau 105
Adgyfodiad Crist, ein had- gyfodiad ni 67	Cofio ein hystâd 81
Ail-ddyfodiad Crist yn lla- wenydd i'r rhai a'i hofn- ant Ef 129	Crist ein Joseph 65, 151
Ameen yn werthfawr 3	Cyflwyno ein heneidiau i ddwylaw Duw yn ddyled- swydd dda 122
Amynedd 119	Cymmeradwyo elusengar- wch 110
Anfoddlonrwydd meddwl i'w ysgwyd ymaith 227	Cymorth yn unig o Dduw 148
Angau â hollo awdurdod dros bawb 19	Dâ bydol, pa fodd i'w drefnu 109
Angau ddim i'w ofni 62	Dâ tymhorol wedi eu rhoi ym menthyg i ni 109
Angladdau ymhlieth Crist- ionogion yn addas 174	Dedfryd Solomon ary byd . . . 71
Anobaith ym mifell oddi wrth Gristionogion 142	Diben dyfodiad dyn i'r byd 56
Athanasius, camgeryddu 46	Diffyg gostyngeiddwrwydd yn peri trallod 232
Awr angau yn ansier 19	Diodefodd yr hen bro- phwydi 80
Boddloni'r gyfraith 152	Diogelwch mewn pechod yn beryglus 24
Boddlonrwydd i ymadael pan alwo Duw arnom 112	Diweddi gael ei gofio, o herwydd fod y dydd olaf yn ansier 18
Breintian a dderbynir gan Dduw a bar i ni ei addoli 42	Doethineb bydol yn ffolineb . . . 44
Bwriad y meddwl yn dder- bynol gan Dduw 183	Duw yn aros hyd nes yr edifarhaom 9
Byd ddim yn deilwng i'w garu 38	Dyfal-barhâd 123
Bywyd da a ddiwedda yn heddychlon 8	Dylai esamplau annog 23
Bywyd, disgrifiad 38	Dysgu marw yn addasol 26
Bywyd dyn yn llawn trueni a gofid 43	Edifeirwch mewn pryd 25
Bywyd tawel yn gymmer- adwy 231	Esamplau y duwiol yn di- oddef 80
	Esgenuso addoliad Duw yn bechadurus 17
	Ffydd, disgrifiad o 98
	Ffydd, ffon y cystuddiol . . . ib.

TU DAL.	TU DAL.
Galaru am y marw yn oddefol	171
Galw ar Dduw yn angen- rheidiol	152
Gobaith, disgrifiad	160
Gofal mewn ieuengctid i fyw'n dda, mewn henaint i farw'n dda	8
Gofid corphorol am bechod	43
Gogoniant y byd hwn yn disflannu	39
Gormodedd o ofal bydol yn rhwystr i fuchedd dda, ac yn dwyn llawer o anes- mwythder meddwl	207
Gorthrymmu eraill a gospir	28
Gwag-ogoniant fel y came- leon	7
Gweddi yn ddyledswydd grefyddol	114
Gweddi yn noddfa mewn cyfnglder	ib.
Gweddi i gael gwaredigeth oddi wrth angau disyfyd	91
Gweithredoedd Duw yn rhyfeddol	55
Gwybodaeth o Dduw a ni ein hunain	6
Gwybodaeth o'r saint yn ngwynfyd	144
Gwynfydedigrwydd canol- bwyt ein holl ddymun- iadau	59
Hen dadau yn gofus am eu diwedd	29
Iechyd corph i'w barhâu .	1
Llawenydd y nef yn gysur- us i'w gofio	53
Llonyddu'r gydwybod, pa fodd	151
Llythyrau cymmun, testa- mentau	110
Marwolaeth yr uniawn yn gwsg	67
Matter yr enaid yn bennaf oll	26
Meddiannau bydol ydynt wagedd, twyll, drain, a gofid	136
Morwynion call yn ein dysgu i fod yn wyliauwr- us	36
Myfyrdod am bethau nefol	58
Ofn Duw yn angenrheidiol	202
Ofni marw, ni ddylai neb .	65
Pleserau'r byd yn wagedd	38
Profedigaethau y cyflawn .	78
Pyngciau dibwys ddim yn angenrheidiol	6
Rheol dda i rag-weled ac i gymmeryd cyfeusdra mewn pethau yspyrrol .	8
Rhybudd i'r rhai a gyn- hyrfir i weithredu yn ddiras tu ag attynt eu hunain	183
Rhybudd i'r rhai a gym- merant mewn llaw or- chylion peryglus ar fôr neu dir	180
Rhyfyg gyfrif amser ail- ddyfodiad Crist	216
Rhyfyg yn beryglus	195
Sarph yn yr anialwch	107
Temtio Abraham, pan brofir ninnau, i'n dysgu pa beth i'w wneuthur	130
Ufudd-dod i ewyllys Duw .	29
Undeb anghyfartal rhwng hen ac ieuangel	20
Ymweliad à'r claf yn waith trugarog	160

Y DIWEDD.

Argraphwyd gan GILBERT a RIVINGTON, Llundain.



